# Cofnod y Trafodion
# The Record of Proceedings
# 11/02/2014

Cynnwys Contents


Cwestiynau i'r Prif Weinidog
Questions to the First Minister

Cwestiwn Brys: Avana Bakeries
Urgent Question: Avana Bakeries

Datganiad a Chyhoeddiad Busnes
Business Statement and Announcement

Bil Drafft Cymru
The Draft Wales Bill

Dadl Cyfnod 3 o dan Reol Sefydlog 26.44 ar y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru): Parhad
Stage 3 Standing Order 26.44 Debate on the Social Services and Well-Being (Wales) Bill: Continued


*Cyfarfu'r Cynulliad am 13:30 gyda'r Llywydd (Y Fonesig Rosemary Butler) yn y Gadair.*

*The Assembly met at 13:30 with the Presiding Officer (Dame Rosemary Butler) in the Chair.*

13:30

## Y Llywydd / The Presiding Officer

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Good afternoon. The National Assembly for Wales is now in session.

Prynhawn da. Dyma ddechrau trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog

## Questions to the First Minister

### Gofal mewn Ysbytai

### Hospital Care

13:30

## Peter Black

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*1. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am safon y gofal mewn ysbytai yn ardal Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg? OAQ(4)1482(FM)*

*1. Will the First Minister make a statement on the standard of care in hospitals in the ABMU area? OAQ(4)1482(FM)*

13:30

## Carwyn Jones

Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

The vast majority of care provided in the hospitals in the Abertawe Bro Morgannwg University Local Health Board area is of high quality. However, appropriate action is being taken where specific concerns have been raised and I am aware of those concerns.

Mae'r mwyafrif llethol o'r gofal a ddarperir yn yr ysbytai yn ardal Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg o ansawdd uchel. Fodd bynnag, mae camau priodol yn cael eu cymryd lle codwyd pryderon penodol ac rwy'n ymwybodol o'r pryderon hynny.

13:30

## Peter Black

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that answer. I concur with you that the vast majority of care is of a high standard, but, as you say, specific allegations have been raised. I am told they were raised with you back in June 2012 and confirmed by ABMU in autumn 2012. However, the review that you have put in motion only came about in October/November 2013. Why was there such a delay between your being made aware of these allegations and that review being set in motion? Can you guarantee that the many complaints that are now coming forward, not least at the public meeting on 30 January, will be dealt with by that review?

Diolch i chi am yr ateb yna. Rwy'n cytuno â chi bod mwyafrif llethol y gofal o ansawdd uchel, ond, fel y dywedwch, gwnaed honiadau penodol. Dywedwyd wrthyf eu bod wedi eu codi gyda chi yn ôl ym mis Mehefin 2012 ac y'u cadarnhawyd gan PABM yn ystod hydref 2012. Fodd bynnag, dim ond ym mis Hydref/Tachwedd 2013 y dechreuwyd yr adolygiad yr ydych chi wedi ei roi ar waith. Pam y bu cymaint o oedi rhwng yr adeg pan y'ch gwnaethpwyd yn ymwybodol o'r honiadau hyn a'r adolygiad hwnnw'n cael ei gychwyn? A allwch chi sicrhau y bydd yr adolygiad hwnnw yn ymdrin â'r cwynion niferus sy'n dod i'r amlwg bellach, ac yn enwedig yn y cyfarfod cyhoeddus ar 30 Ionawr?

13:31 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad] [Biography]

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv [Fideo] [Video]

I think that you are referring to matters that came to me as a constituency Member and not as First Minister. I can inform the Member that, after 5 July of last year, I received no direct communication on this matter. Nevertheless, I know that the Minister for Health and Social Services made his announcement with regard to a review, as you will be aware, and I will be meeting, although not as First Minister, a number of those concerned on Saturday.

Rwy'n meddwl eich bod yn cyfeirio at faterion a ddaeth ataf i fel Aelod etholaeth, ac nid fel Prif Weinidog. Gallaf hysbysu'r Aelod, na dderbyniais unrhyw gyfathrebiad uniongyrchol ar y mater hwn ar ôl 5 Gorffennaf y llynedd. Serch hynny, rwy'n gwybod bod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi gwneud ei gyhoeddiad o ran adolygiad, fel y byddwch yn ymwybodol, a byddaf yn cyfarfod, er nad fel Prif Weinidog, â nifer o'r rhai dan sylw ddydd Sadwrn.

13:32 **Suzy Davies** [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

First Minister, while I support ABMU's own inquiries and reviews, it has to pay for them from its own limited funds, and such inquiries can be ignored by other local health boards, because of their limited funds. Should individual health boards bear the costs of individual inquiries, when a national inquiry for concerns expressed across Wales could be met by a Keogh-style inquiry paid for by Government?

Brif Weinidog, er fy mod yn cefnogi ymchwiliadau ac adolygiadau PABM ei hun, mae'n rhaid iddo dalu amdanynt o'i gronfeydd cyfyngedig ei hun, a gall byrddau iechyd lleol eraill anwybyddu ymchwiliadau o'r fath, oherwydd eu cronfeydd cyfyngedig. A ddylai byrddau iechyd unigol orfod talu costau ymchwiliadau unigol, pryd y gallai ymchwiliad cenedlaethol tebyg i un Keogh, y telir amdano gan y Llywodraeth, ymateb i bryderon a fynegwyd ledled Cymru?

13:32 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad] [Biography]

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv [Fideo] [Video]

I am aware that, if local health boards decide that they wish to instigate an independent review, it is a matter for them to pay for that review; it would not be a matter for Government to pay for it. Nevertheless, I am glad to see that such a review has been set up by ABMU and that a number of actions have been taken to try to address the concerns that have been raised.

Rwy'n ymwybodol, os bydd byrddau iechyd lleol yn penderfynu eu bod yn dymuno annog adolygiad annibynnol, ei fod yn fater iddyn nhw dalu am yr adolygiad hwnnw; ni fyddai'n fater i'r Llywodraeth dalu amdano. Serch hynny, rwy'n falch o weld bod adolygiad o'r fath wedi ei sefydlu gan PABM a bod nifer o gamau wedi eu cymryd i geisio mynd i'r afael â'r pryderon a godwyd.

13:32 **Bethan Jenkins** [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

First Minister, an open letter sent to you by the family of Lillian Williams on 4 February makes mention of an e-mail sent to you by the family in June 2012, which suggested that it clearly alerted you to issues at the hospital over 18 months ago. I heard what you said to Peter Black in terms of the fact that you believe that those e-mails were sent to you as a constituency AM, but do you not believe that, in the interests of transparency, those e-mails should now be made public?

Brif Weinidog, mae llythyr agored a anfonwyd atoch gan deulu Lillian Williams ar 4 Chwefror yn crybwyll e-bost a anfonwyd atoch gan y teulu ym mis Mehefin 2012, a oedd yn awgrymu'n eglur y tynnwyd eich sylw at broblemau yn yr ysbyty dros 18 mis yn ôl. Clywais yr hyn a ddywedasoch wrth Peter Black o ran y ffaith eich bod yn credu yr anfonwyd yr e-byst atoch chi fel AC etholaeth, ond onid ydych chi'n credu, er budd tryloywder, y dylid sicrhau bod yr e-byst hynny ar gael i'r cyhoedd bellach?

13:33 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad] [Biography]

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv [Fideo] [Video]

You can see them if you want. They were sent to me as a constituency AM; I have a full list of the e-mails that were sent and their content and I have no difficulty in sharing them. However, I will need the permission of the sender before doing that. If you are referring to Mr Gareth Williams, I saw him on a number of occasions; he sent me an e-mail at the beginning of July 2013 thanking me for the help that I had rendered as an Assembly Member. At that point, he was taking legal advice from solicitors and I heard nothing directly from him after that point.

Cewch eu gweld nhw os ydych chi'n dymuno. Fe'u hanfonwyd ataf i fel AC etholaeth; mae gen i restr lawn o'r e-byst a anfonwyd a'u cynnwys ac nid yw'n anodd i mi eu rhannu. Fodd bynnag, bydd angen caniatâd yr anfonwr arnaf cyn gwneud hynny. Os ydych chi'n cyfeirio at Mr Gareth Williams, gwelais ef ar sawl achlysur; anfonodd e-bost ataf ddechrau mis Gorffennaf 2013 yn diolch i mi am y cymorth a roddais fel Aelod o'r Cynulliad. Roedd yn derbyn cyngor cyfreithiol gan gyfreithwyr ar yr adeg honno, ac ni chlywais unrhyw beth yn uniongyrchol ganddo ar ôl hynny.

## Undebau Credyd

## Credit Unions

13:33 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

*2. Pa fesurau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gynyddu nifer yr undebau credyd yng Nghymru? OAQ(4)1490(FM)*

*2. What measures is the Welsh Government taking to increase the number of credit unions in Wales? OAQ(4)1490(FM)*

Senedd.tv Fideo Video

13:33 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

There are currently 21 credit unions in Wales, providing all-Wales coverage to more than 72,500 members. We continue to provide funding to credit unions and are keen to see membership continue to increase across these established credit unions.

Ceir 21 o undebau credyd yng Nghymru ar hyn o bryd, sy'n darparu gwasanaeth Cymru gyfan i fwy na 72,500 o aelodau. Rydym yn parhau i ddarparu cyllid i undebau credyd ac yn awyddus i weld yr aelodaeth yn parhau i gynyddu ar draws yr undebau credyd sefydledig hyn.

Senedd.tv Fideo Video

13:34 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

Thank you for your answer, First Minister. It was noted last year that part of the problem in Wales was that we expect credit unions to do too much, as a social enterprise. The fact is, however, that credit unions will not be able to provide a mass service to people in Wales unless they widely expand their client base beyond the higher-risk, small-value lending. What are you doing to help expand credit union customer bases to a larger audience and follow the example of our neighbours in Ireland, where they are now able to offer loans to set up small businesses?

Diolch i chi am eich ateb, Brif Weinidog. Nodwyd y llynedd mai rhan o'r broblem yng Nghymru oedd ein bod yn disgwyl i undebau credyd wneud gormod, fel menter gymdeithasol. Y ffaith yw, fodd bynnag, na fydd undebau credyd yn gallu darparu gwasanaeth torfol i bobl yng Nghymru oni bai eu bod yn ehangu eu sail cleientiaid yn eang y tu hwnt i'r benthyca risg uwch, gwerth bach. Beth ydych chi'n ei wneud i helpu i ehangu seiliau cwsmeriaid undebau credyd i gynulleidfa ehangach ac i ddilyn esiampl ein cymdogion yn Iwerddon, lle maen nhw'n gallu cynnig benthyciadau i sefydlu busnesau bach bellach?

Senedd.tv Fideo Video

13:34 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Of course, credit unions in Ireland have been in place for many more years than those in Wales and they have been able to build up their reserves to a level that we have not yet been able to achieve. What I can say, however, is that, since October 2010, just over £4 million has been provided jointly by us and the European regional development fund for the access to financial services through credit unions project. That project has helped more than 23,000 adults throughout Wales who meet the definition of being financially excluded.

Wrth gwrs, mae undebau credyd yn Iwerddon wedi bod ar waith ers llawer mwy o flynyddoedd na'r rhai yng Nghymru, ac maen nhw wedi gallu adeiladu eu cronfeydd wrth gefn i lefel nad ydym ni wedi gallu ei wneud hyd yn hyn. Yr hyn y gallaf ei ddweud, fodd bynnag, yw y darparwyd ychydig dros £4 miliwn ar y cyd gennym ni a chronfa datblygu rhanbarthol Ewrop ers mis Hydref 2010, ar gyfer y prosiect mynediad at wasanaethau ariannol trwy undebau credyd. Mae'r prosiect hwnnw wedi helpu mwy na 23,000 o oedolion ledled Cymru sy'n bodloni'r diffiniad o fod wedi eu hallgau'n ariannol.

Senedd.tv Fideo Video

13:35 **Ann Jones** Bywgraffiad Biography

First Minister, I am pleased that the focus from this Welsh Government has been to support credit unions. I know, certainly in my own area, of the excellent work that the credit unions are doing, helping young savers, in particular. However, the situation remains that payday lenders are able to advertise in a way that credit unions are unable to advertise, so there is not a level playing field. What more can this Government do to ensure that credit unions are put on a level playing field, so that they can operate—as they rightly should—as a high street bank?

Brif Weinidog, rwy'n falch bod pwyslais y Llywodraeth Cymru hon wedi bod ar gefnogi undebau credyd. Rwy'n gwybod, yn sicr yn fy ardal fy hun, am y gwaith rhagorol y mae'r undebau credyd hynny yn ei wneud, gan helpu cynilwyr ifanc yn arbennig. Fodd bynnag, mae'r sefyllfa yn parhau lle mae benthycwyr diwrnod cyflog yn cael hysbysebu mewn ffordd na chaiff undebau credyd ei wneud, felly nid yw'r sefyllfa'n deg. Beth arall all y Llywodraeth hon ei wneud i sicrhau bod undebau credyd mewn sefyllfa deg, fel y gallant weithredu—fel y dylent mewn gwirionedd—fel banc stryd fawr?

Senedd.tv Fideo Video

13:35 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

These, of course, are matters outside of the competence of the Government or, indeed, of the Assembly. However, I have no doubt at all that, as we see credit unions grow in the future, the pressure will come, and that is pressure that we would support, to ensure that they are able to deliver a wider range of services than is the case now. However, it is important that they are able to show that they are financially self-sustaining, before they move on to offer new products.

Mae'r rhain, wrth gwrs, yn faterion y tu allan i gyfrifoldeb y Llywodraeth ac, yn wir, y Cynulliad. Fodd bynnag, nid oes gennyf amheuaeth o gwbl, wrth i ni weld undebau credyd yn tyfu yn y dyfodol, y bydd y pwysau'n dod, ac mae hwnnw'n bwysau y byddem yn ei gefnogi, i sicrhau eu bod yn gallu darparu amrywiaeth ehangach o wasanaethau na'r hyn sy'n wir ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae'n bwysig eu bod yn gallu dangos eu bod yn hunangynhaliol yn ariannol, cyn iddynt symud ymlaen i gynnig cynhyrchion newydd.

Senedd.tv
Fideo Video

13:36 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Although local independent credit unions, such as the All Flintshire Credit Union, play a vital role, we heard at the recent North Wales Credit Union Ltd annual general meeting that they had to come together through merger and amalgamation to deliver sustainability, and to broaden the customer base and the range of services. What discussions, therefore, has the Welsh Government had with the Association of British Credit Unions Ltd—to which North Wales Credit Union belongs, as do most of the others—regarding perhaps driving forward fewer credit unions, but larger, and with broader reach, through voluntary mergers and amalgamations?

Er bod undebau credyd annibynnol lleol, fel Undeb Credyd Sir y Fflint Gyfan, yn cyflawni swyddogaeth hanfodol, clywsom yng nghyfarfod cyffredinol blynyddol Undeb Credyd Gogledd Cymru Cyf yn ddiweddar bod yn rhaid iddynt ddod at ei gilydd drwy uno a chyfuno i ddarparu cynaliadwyedd, ac i ehangu'r sail cwsmeriaid a'r amrywiaeth o wasanaethau. Pa drafodaethau, felly, mae Llywodraeth Cymru wedi eu cael gyda Chymdeithas Undebau Credyd Prydain Cyf—y mae Undeb Credyd Gogledd Cymru yn perthyn iddi, fel y mae'r rhan fwyaf o'r lleill—ynglŷn â rhedeg llai o undebau credyd efallai, ond rhai mwy, a chyda cyrhaeddiad ehangach, drwy achosion o uno a chyfuno gwirfoddol?

Senedd.tv
Fideo Video

13:36 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I think that it is important that such a process is considered by credit unions as part of the process to making them more self-sustainable. We could not be in a situation in years to come where credit unions need revenue funding—or, indeed, substantial capital funding—on a regular basis. Therefore, it is important that, where such mergers of credit unions can take place, in order to put credit unions on a firmer footing, they are examined very closely by those credit unions.

Rwy'n meddwl ei bod yn bwysig yr ystyrir proses o'r fath gan undebau credyd yn rhan o'r broses o'u gwneud yn fwy hunan-gynaliadwy. Ni allem fod mewn sefyllfa mewn blynyddoedd i ddod lle mae angen cyllid refeniw—neu, yn wir, cyllid cyfalaf sylweddol—yn rheolaidd ar undebau credyd. Felly, mae'n bwysig, lle gellir uno undebau credyd fel hyn, er mwyn rhoi undebau credyd ar sail gadarnach, bod hynny'n cael ei ystyried yn ofalus iawn gan yr undebau credyd dan sylw.

Senedd.tv
Fideo Video

13:37 **William Powell** Bywgraffiad Biography

First Minister, in my region of Mid and West Wales, credit unions have built their membership in part through the development of payroll deduction schemes, which have proved particularly popular in the public sector—in county councils and local health boards. Given the advantages that accrue to people across Wales from such deduction schemes, what is your Government prepared to do to further support credit unions in rolling this out, particularly to those who work in the private sector?

Brif Weinidog, yn fy rhanbarth i, sef Canolbarth a Gorllewin Cymru, mae undebau credyd wedi adeiladu eu haelodaeth yn rhannol drwy ddatblygu cynlluniau didynnu o'r gyflogres, sydd wedi bod yn arbennig o boblogaidd yn y sector cyhoeddus—mewn cynghorau sir a byrddau iechyd lleol. O ystyried y manteision a ddaw i bobl ledled Cymru o gynlluniau didyniad o'r fath, beth mae eich Llywodraeth yn barod i'w wneud i gefnogi undebau credyd ymhellach i gyflwyno hyn, yn enwedig i'r rhai sy'n gweithio yn y sector preifat?

Senedd.tv
Fideo Video

13:37 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

As I have said, we have funded, with the ERDF, the access to financial services project, which has helped 23,000 people in terms of being able to access credit. Furthermore, when any viable schemes come to our attention in the future, we will look to see what financial support we can give them. I can say that the assets of Welsh credit unions have continued to grow—in 2000, they were at £4 million; as of September last year, they are at £34 million. Therefore, we know that the credit unions are performing a very useful and invaluable function for so many people.

Fel yr wyf wedi ei ddweud, rydym ni wedi ariannu, gyda'r ERDF, y prosiect mynediad at wasanaethau ariannol, sydd wedi helpu 23,000 o bobl o ran gallu i gael gafael ar gredyd. Yn ychwanegol at hynny, pan fydd unrhyw gynlluniau hyfyw yn dod i'n sylw yn y dyfodol, byddwn yn edrych i weld pa gymorth ariannol y gallwn ei roi iddynt. Gallaf ddweud bod asedau undebau credyd Cymru wedi parhau i dyfu—£4 miliwn oedd eu gwerth yn 2000; roedden nhw werth £34 miliwn ym mis Medi y llynedd. Felly, rydym yn gwybod bod yr undebau credyd yn cyflawni swyddogaeth ddefnyddiol a gwerthfawr iawn i gymaint o bobl.

Senedd.tv Fideo Video

## Cwestiynau Heb Rybudd gan Arweinwyr y Pleidiau

## Questions Without Notice from the Party Leaders

13:38 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

We now move to questions from the party leaders. First this afternoon, we have the leader of the opposition, Andrew R.T. Davies.

Symudwn nawr at gwestiynau gan arweinwyr y pleidiau. Yn gyntaf y prynhawn yma, mae gennym arweinydd yr wrthblaid, Andrew R.T. Davies.

Senedd.tv Fideo Video

13:38 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition*

First Minister, your Government has announced today another £50 million for the health service, obviously reinforcing our calls for additional resource for the NHS. Do you not think that this is yet another bail-out—[Interruption.] I hear your front bench laughing at that, but why have you made an extra £50 million available today? Is it not yet another bail-out for the Welsh NHS?

Brif Weinidog, mae eich Llywodraeth wedi cyhoeddi £50 miliwn arall ar gyfer y gwasanaeth iechyd heddiw, yn amlwg yn atgyfnerthu ein galwadau am adnoddau ychwanegol i'r GIG. Onid ydych chi'n credu bod hwn yn achos arall o achub croen—[Torri ar draws.] Rwy'n clywed eich mainc flaen yn chwerthin am hynny, ond pam ydych chi wedi rhoi £50 miliwn ychwanegol ar gael heddiw? Onid yw'n achos arall o achub croen y GIG yng Nghymru?

Senedd.tv Fideo Video

13:38 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I am surprised that the leader of the opposition does not welcome more money for health. However, the reality is that, if it is not on his terms, he does not welcome it. We will continue to ensure that the Welsh service is properly funded in the future.

Rwy'n synnu nad yw arweinydd yr wrthblaid yn croesawu mwy o arian ar gyfer iechyd. Fodd bynnag, y gwirionedd yw, os nad yw ar ei delerau ef, nid yw'n ei groesawu. Byddwn yn parhau i sicrhau bod y gwasanaeth yng Nghymru yn cael ei ariannu'n iawn yn y dyfodol.

Senedd.tv Fideo Video

13:39 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Far from it. At the end of the day, if you had listened to us at the start, it would not require these interventions, and it would not require these bail-outs, and the managers and the staff—the clinicians—could actually plan procedures that would get rid of the waiting lists that are going up under your premiership. First Minister, another point that we have been pushing on is a Keogh-style inquiry, and the genuine concerns that people have about care in our hospitals. It is fair to say that the vast majority have a very positive experience. However, you see it in your own hospital, First Minister, that, time and again, relatives are coming forward and identifying a failure in the care that their relatives have had in hospitals across Wales. Will you not now commit to undertaking a Keogh-style inquiry that will look independently at many of the proposals that have come out of England and see whether there is scope to introduce them in Wales?

Dim o gwbl. Yn y pen draw, pe byddech chi wedi gwrando arnom ni ar y cychwyn, ni fyddai angen yr ymyraethau hyn, ac ni fyddai angen y taliadau achub croen hyn, a gallai'r rheolwyr a'r aelodau staff—y clinigwyr—gynllunio triniaethau a fyddai mewn gwirionedd yn cael gwared ar y rhestrau sy'n cynyddu dan eich arweinyddiaeth. Brif Weinidog, pwynt arall yr ydym ni wedi bod yn ei wthio yw ymchwiliad o fath Keogh, a'r pryderon gwirioneddol sydd gan bobl am ofal yn ein hysbytai. Mae'n deg dweud bod y mwyafrif llethol yn cael profiad cadarnhaol iawn. Fodd bynnag, fe'i gwelwch yn eich ysbyty eich hun, Brif Weinidog, bod perthnasau yn dod ymlaen dro ar ôl tro ac yn nodi methiant yn y gofal y mae eu perthnasau wedi ei dderbyn mewn ysbytai ledled Cymru. A wnewch chi ymrwymo nawr i gynnal ymchwiliad o fath Keogh a fydd yn edrych yn annibynnol ar nifer o'r cynigion a welwyd yn Lloegr a gweld a oes lle i'w cyflwyno nhw yng Nghymru?

Senedd.tv Fideo Video

13:40 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography
*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

The reason why there was such an inquiry in England is because things were far worse in England. It is right to say, of course, that there have been issues raised, and I am aware of those issues. The concerns that families have expressed need to be investigated; that much is true. However, as he has said himself, the vast majority of people in the Welsh NHS have a very good standard of care. We know that patient surveys suggest that satisfaction rates are close to 90%. That is not the basis for a wide-scale public inquiry.

Y rheswm pam y cynhaliwyd ymchwiliad o'r fath yn Lloegr yw oherwydd bod pethau'n waeth o lawer yn Lloegr. Mae'n iawn i ddweud, wrth gwrs, bod materion wedi cael eu codi, ac rwy'n ymwybodol o'r materion hynny. Mae angen ymchwilio i'r pryderon y mae teuluoedd wedi eu mynegi; mae cymaint â hynny'n wir. Fodd bynnag, fel y mae wedi ei ddweud ei hun, mae'r mwyafrif llethol o bobl yn y GIG yng Nghymru yn derbyn gofal o ansawdd da iawn. Rydym yn gwybod bod arolygon cleifion yn awgrymu bod cyfraddau boddhad yn agos at 90%. Nid yw hynny'n sail ar gyfer ymchwiliad cyhoeddus ar raddfa eang.

He asks why we did not listen to him. Well, if we had listened to him, we would see 20% cuts in education, 30% cuts in the programme—he says 10% now; it is only 10% now apparently—30% cut in terms of economic spending and a 20% cut in local government spending, with the concomitant effect on council tax. So, I am sure that there are very many taxpayers in Wales who are very glad that we did not take his advice.

Mae'n gofyn pam na wnaethom ni wrando arno ef. Wel, pe byddem ni wedi gwrando arno, byddem yn gweld toriadau o 20% ym maes addysg, toriadau o 30% yn y rhaglen—mae'n dweud 10% nawr; dim ond 10% yw hi erbyn hyn mae'n debyg—toriad o 30% o ran gwariant economaidd a thoriad o 20% yng ngwariant llywodraeth leol, gyda'r effaith gysylltiedig ar y dreth gyngor. Felly, rwy'n siŵr bod llawer iawn o drethdalwyr yng Nghymru sy'n falch iawn na wnaethom ni dderbyn ei gyngor.

13:41 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

No, First Minister, I said 12%, because last week it was 12% that you said and this week we are going to 20%. [Interruption.] However, I go back to the point that I made about a significant minority of relatives and patients who are highlighting real concerns about the experiences that they have in our hospitals. A freedom of information request to your Government by our party indicated—and this is from your own FOI team—that just to go through the complaints that the Department for Health and Social Care receives, or that the director general's office receives, would take 16,683 hours. They are receiving 63 e-mails a day on this particular issue.

Na, Brif Weinidog, 12% ddywedais i, gan mai 12% ddywedasoch chi yr wythnos diwethaf ac rydym ni'n mynd i 20% yr wythnos hon. [Torri ar draws.] Fodd bynnag, rwy'n dychwelyd at y pwynt a wneuthum am leiafrif sylweddol o berthnasau a chleifion sy'n amlygu pryderon gwirioneddol am y profiadau maen nhw'n eu cael yn ein hysbytai. Dynododd cais rhyddid gwybodaeth i'ch Llywodraeth gan ein plaid—ac mae hyn gan eich tîm RhG eich hun—y byddai mynd drwy'r cwynion y mae'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn eu derbyn yn unig, neu y mae swyddfa'r cyfarwyddwr cyffredinol yn eu derbyn, yn cymryd 16,683 o oriau. Maen nhw'n derbyn 63 e-bost bob dydd ar y mater penodol hwn.

So, I accept the point that you make, First Minister, and it is a credit to our clinicians that most people have a very positive experience in our NHS. However, you cannot get away from the fact that there is a significant minority that is not enjoying that positive experience. An independent inquiry, looking at the whole of the Welsh NHS, would be the best way to address the issues that I have highlighted to you today.

Felly, rwy'n derbyn y pwynt yr ydych chi'n ei wneud, Brif Weinidog, ac mae'n glod i'n clinigwyr bod y rhan fwyaf o bobl yn cael profiad cadarnhaol iawn yn ein GIG. Fodd bynnag, ni allwch ddianc rhag y ffaith bod lleiafrif sylweddol nad ydynt yn mwynhau'r profiad cadarnhaol hwnnw. Ymchwiliad annibynnol, yn edrych ar y GIG cyfan yng Nghymru, fyddai'r ffordd orau o fynd i'r afael â'r materion yr wyf fi wedi tynnu eich sylw atynt heddiw.

13:42 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography
*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I simply do not accept what he has to say. He argues against himself now, and he has done that on two occasions. The vast majority of people get excellent treatment most of the time; that much is true, and patients say so. He does not deny it; I give him credit for that. However, it is right to say that complaints have been made, and I am aware of the complaints with regard to my own hospital. Those complaints must be fully investigated; nobody could possibly argue against that. It is important that the local health board does that. As I say, I will be meeting my constituents with a view to looking at the situation regarding their position.

Nid wyf yn derbyn yr hyn sydd ganddo i'w ddweud. Mae'n dadlau yn erbyn ei hun nawr, ac mae wedi gwneud hynny ar ddau achlysur. Mae'r mwyafrif llethol o bobl yn cael triniaeth ragorol y rhan fwyaf o'r amser; mae cymaint â hynny'n wir, ac mae cleifion yn dweud hynny. Nid yw'n gwadu hynny; rwy'n rhoi clod iddo am hynny. Fodd bynnag, mae'n iawn dweud bod cwynion wedi cael eu gwneud, ac rwy'n ymwybodol o'r cwynion o ran fy ysbyty fy hun. Mae'n rhaid ymchwilio'n llawn i'r cwynion hynny; ni fyddai'n bosibl i unrhyw un ddadlau yn erbyn hynny. Mae'n bwysig bod y bwrdd iechyd lleol yn gwneud hynny. Fel rwy'n dweud, byddaf yn cyfarfod â'm hetholwyr gyda'r bwriad o edrych ar y sefyllfa o ran ble maen nhw'n sefyll.

I have to say that I welcome the fact that ABMU has a new director of planning at the Princess of Wales Hospital. I welcome the fact that it has commissioned an independent review. That review must, of course, be allowed to take its course, to provide the right level of evidence so that the local health board actually takes action.

Mae'n rhaid i mi ddweud fy mod yn croesawu'r ffaith fod gan PABM gyfarwyddwr cynllunio newydd yn Ysbyty Tywysoges Cymru. Rwy'n croesawu'r ffaith ei fod wedi comisiynu adolygiad annibynnol. Mae'n rhaid, wrth gwrs, caniatáu i'r ymchwiliad hwnnw gael ei gynnal, er mwyn darparu'r lefel gywir o dystiolaeth fel bod y bwrdd iechyd lleol yn cymryd camau mewn gwirionedd.

There are some in the Chamber who call for a public inquiry at the drop of a hat. We have to remember that, as far as a public inquiry is concerned, there is the cost of probably £1 million, but also the fact that these families want answers quickly. A public inquiry would take a minimum of two years to come up with those answers. [Interruption.] I hear laughter from the Plaid benches—I know that that is because they know nothing about such things. The reality of the situation is that these families want to have answers quickly, and I want to ensure that the review process that has been put in place provides those answers quickly, whereas a public inquiry would take some years to provide them with answers. I believe that they want those answers as quickly as possible.

Ceir rhai yn y Siambr sy'n galw am ymchwiliad cyhoeddus heb fawr o reswm. Mae'n rhaid i ni gofio, cyn belled ag y mae ymchwiliad cyhoeddus yn y cwestiwn, y ceir cost o tua £1 filiwn yn ôl pob tebyg, ond hefyd y ffaith fod y teuluoedd hyn eisiau atebion yn gyflym. Byddai ymchwiliad cyhoeddus yn cymryd o leiaf dwy flynedd i ddod o hyd i'r atebion hynny. [Torri ar draws.] Rwy'n clywed chwerthin o feinciau Plaid Cymru—rwy'n gwybod bod hynny oherwydd nad ydyn nhw'n gwybod dim am bethau o'r fath. Gwirionedd y sefyllfa yw bod y teuluoedd hyn eisiau atebion yn gyflym, ac rwyf eisiau sicrhau bod y broses adolygu a roddwyd ar waith yn darparu'r atebion hynny yn gyflym, tra byddai ymchwiliad cyhoeddus yn cymryd rhai blynyddoedd i roi atebion iddynt. Rwy'n credu eu bod yn dymuno cael yr atebion hynny cyn gynted â phosibl.

13:43

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to the leader of Plaid Cymru, Leanne Wood.

Symudwn nawr at arweinydd Plaid Cymru, Leanne Wood.

13:43

## Leanne Wood Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru*

First Minister, the weather is in the headlines again. Many of our communities are still struggling following previous weather events. The Minister for Natural Resources and Food has said that his officials are liaising with European officials to explore the use of European funds to help address the immediate needs of affected communities. Can you please tell us what progress has been made in this respect?

Brif Weinidog, mae'r tywydd yn y penawdau unwaith eto. Mae llawer o'n cymunedau yn dal i gael trafferth yn dilyn digwyddiadau tywydd blaenorol. Mae'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd wedi dweud bod ei swyddogion yn cydgysylltu â swyddogion Ewropeaidd i archwilio'r defnydd o gronfeydd Ewropeaidd i helpu i fynd i'r afael ag anghenion uniongyrchol y cymunedau yr effeithiwyd arnynt. A allwch chi ddweud wrthym pa gynnydd sydd wedi ei wneud yn hyn o beth?

13:44

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

A letter has been sent to Owen Paterson, asking two things. First, it asks whether there is to be a consequential in terms of extra money for funding in England—we would expect to see a slice of that consequential money, of course. Secondly, we have asked that the UK considers making an application, because it has to be from the UK, to the European solidarity fund for those areas that have suffered from flooding.

Anfonwyd llythyr at Owen Paterson yn gofyn dau beth. Yn gyntaf, mae'n gofyn a fydd canlyniad o ran arian ychwanegol ar gyfer cyllid yn Lloegr—byddem yn disgwyl gweld cyfran o'r arian canlyniadol hwnnw, wrth gwrs. Yn ail, rydym wedi gofyn i'r DU ystyried gwneud cais, oherwydd mae'n rhaid iddo fod oddi wrth y DU, i'r gronfa undod Ewropeaidd ar gyfer yr ardaloedd hynny sydd wedi dioddef oherwydd llifogydd.

13:44

## Leanne Wood Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that answer, First Minister. In relation to the current weather events, the chief scientist at the Met Office has said:

Diolch i chi am yr ateb yna, Brif Weinidog. O ran y digwyddiadau tywydd presennol, mae'r prif wyddonydd yn y Swyddfa Dywydd wedi dweud:

'all the evidence suggests there is a link to climate change'.

mae'r holl dystiolaeth yn awgrymu bod cysylltiad â newid yn yr hinsawdd.

Do you accept that there is a link between climate change and the conditions that we have seen, weather wise, recently? Do you also accept that these conditions are likely to get worse?

A ydych chi'n derbyn bod cysylltiad rhwng newid yn yr hinsawdd a'r amodau tywydd yr ydym ni wedi eu gweld yn ddiweddar? A ydych chi hefyd yn derbyn bod yr amodau hyn yn debygol o waethygu?

13:44 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

That is what the science is telling us; I have no reason to doubt that. It is quite clear to me that climate change is happening and that it is influenced by the way in which we live our lives. It strikes me that the overwhelming scientific evidence supports that conclusion.

Dyna mae'r wyddoniaeth yn ei ddweud wrthym; nid oes gennyf unrhyw reswm i amau hynny. Mae'n eithaf amlwg i mi fod newid yn yr hinsawdd yn digwydd a'i fod yn cael ei ddylanwadu gan y ffordd yr ydym ni'n byw ein bywydau. Mae'n fy nharo i fod y dystiolaeth wyddonol lethol yn cefnogi'r casgliad hwnnw.

Senedd.tv Fideo Video

13:45 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

The BBC highlights today a report that says that £135 million needs to be spent every year just to maintain current flood defences. The Minister for Natural Resources and Food has said that a managed retreat from coastal areas is not currently Government policy. He has also previously said that the Government cannot simply protect the whole coast as it is today. Given that this is a contradiction, perhaps you can provide some clarity on this question, First Minister. Are you or are you not actively considering the managed retreat from coastal areas as Government policy?

Mae'r BBC yn amlygu adroddiad heddiw sy'n dweud bod angen gwario £135 miliwn bob blwyddyn dim ond i gynnal a chadw amddiffynfeydd llifogydd presennol. Mae'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd wedi dweud nad polisi'r Llywodraeth ar hyn o bryd yw cilio rheoledig o ardaloedd arfordirol. Mae hefyd wedi dweud yn y gorffennol na all y Llywodraeth amddiffyn yr arfordir cyfan fel y mae heddiw. O ystyried bod hyn yn gwrthddweud ei hun, efallai y gallwch chi roi rhywfaint o eglurder ar y cwestiwn hwn, Brif Weinidog. A ydych chi'n ystyried yn ymarferol bod cilio rheoledig o ardaloedd arfordirol yn bolisi'r Llywodraeth neu nad ydych chi?

Senedd.tv Fideo Video

13:45 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

No. You will know that this is not our current thinking. There is a shoreline management plan, which I am sure she is aware of, that deals with this issue, but it also highlights the challenges in terms of defending our communities against extreme weather events. I would say, of course, that even though our weather has been very similar in Wales, because of the investment that we have put in, in terms of dealing with flood defences, we have not seen the devastation that England has seen. That is because they have cut flood defence budgets in England and now we see an unseemly row between the Environment Agency and Government. In Wales, we have simply got on with protecting communities.

Nac ydw. Byddwch yn gwybod nad dyna yw ein meddylfryd ar hyn o bryd. Ceir cynllun rheoli traethlin, yr wyf yn siŵr y mae'n ymwybodol ohono, sy'n ymdrin â'r mater hwn, ond mae hefyd yn tynnu sylw at yr heriau o ran amddiffyn ein cymunedau rhag digwyddiadau tywydd eithafol. Byddwn yn dweud, wrth gwrs, er bod ein tywydd wedi bod yn debyg iawn yng Nghymru, oherwydd y buddsoddiad yr ydym ni wedi ei wneud, o ran ymdrin ag amddiffynfeydd rhag llifogydd, nad ydym wedi gweld y dinistr y mae Lloegr wedi ei weld. Mae hynny oherwydd eu bod wedi torri cyllidebau amddiffyn rhag llifogydd yn Lloegr ac rydym ni bellach yn gweld dadl aflednais rhwng Asiantaeth yr Amgylchedd a'r Llywodraeth. Yng Nghymru, rydym ni wedi bwrw ymlaen â diogelu cymunedau.

Senedd.tv Fideo Video

13:46 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Finally, we move to the Leader of the Welsh Liberal Democrats, Kirsty Williams.

Yn olaf, symudwn at Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Kirsty Williams.

Senedd.tv Fideo Video

13:46 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats*

First Minister, last year, following the publication of another very disappointing set of Programme for International Student Assessment results, I asked you when we could expect to see improvement. You gave me a long list: the national literacy and numeracy programme; the national support programme; the supporting professional development programme; Teach First Wales; leadership development; strengthening accountability; Learning Wales; a national model for regional working; and dealing with attendance and behaviour. Despite all of that, you went on to say that it would take a little bit more time before these improvements had their full force.

Brif Weinidog, y llynedd, ar ôl cyhoeddi cyfres siomedig iawn arall o ganlyniadau'r Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr, gofynnais i chi pryd y gallem ddisgwyl gweld gwelliant. Rhoesoch restr hir i mi: y rhaglen llythrennedd a rhifedd genedlaethol; y rhaglen cymorth cenedlaethol, y rhaglen datblygiad proffesiynol ategol; Teach First Cymru; datblygu arweinyddiaeth; cryfhau atebolrwydd; Dysgu Cymru; model cenedlaethol ar gyfer gweithio rhanbarthol; ac ymdrin â phresenoldeb ac ymddygiad. Er gwaethaf hyn oll, aethoch ymlaen i ddweud y byddai'n cymryd ychydig mwy o amser cyn i'r gwelliannau hyn gael eu heffaith lawn.

Senedd.tv Fideo Video

In the last two weeks, we have seen the announcement of yet two more initiatives from your Government: the Central South Wales Challenge and now the Schools Challenge. Why should the pupils and parents of Wales have any more faith in these initiatives than in any of the others that you have previously announced over the years of your Government's failure to tackle educational standards in Wales?

Yn y pythefnos diwethaf, rydym ni wedi gweld cyhoeddi dwy fenter arall gan eich Llywodraeth: Her Canol De Cymru a nawr yr Her Ysgolion. Pam y dylai disgyblion a rhieni Cymru fod â mwy o ffydd yn y mentrau hyn nag mewn unrhyw un o'r lleill yr ydych chi wedi eu cyhoeddi o'r blaen dros y blynyddoedd o fethiant eich Llywodraeth i fynd i'r afael â safonau addysg yng Nghymru?

13:47 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

We see that the gap in terms of GCSE achievement is closing and we expect that trend to continue in the future. I wonder whether she will welcome Schools Challenge Cymru as a project. We wanted to make sure that we get more consistency in the education system in Wales because we have some very good schools, but we have some schools that are in need of improvement. That is why we introduced Schools Challenge Wales. I am sure she will join me in welcoming that initiative.

Rydym yn gweld bod y bwlch o ran cyrhaeddiad TGAU yn cau ac rydym yn disgwyl i'r duedd honno barhau yn y dyfodol. Ys gwn i a wnaiff hi groesawu Her Ysgolion Cymru fel prosiect. Roeddem ni eisiau gwneud yn siŵr ein bod yn cael mwy o gysondeb yn y system addysg yng Nghymru gan fod gennym ni rai ysgolion da iawn, ond mae gennym ni rai ysgolion y mae angen eu gwella. Dyna pam y gwnaethom ni gyflwyno Her Ysgolion Cymru. Rwy'n siŵr y gwnaiff hi ymuno â mi i groesawu'r fenter honno.

13:47 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, what I would welcome is an improvement in educational standards in schools across Wales and a programme that will deliver it. Schools Challenge is of course based on a model that was launched in England over a decade ago—a Labour Government taking programmes forward to improve educational attainment. In that decade, a whole cohort of Welsh children have gone through the Welsh education system and missed out. Is this not yet more evidence of what you described in your own words as 'taking your eye off the ball'?

Brif Weinidog, yr hyn y byddwn yn ei groesawu yw gwelliant mewn safonau addysgol mewn ysgolion ledled Cymru a rhaglen a fydd yn cyflawni hynny. Mae'r Her Ysgolion yn seiliedig wrth gwrs ar fodel a lansiwyd yn Lloegr dros ddegawd yn ôl—Llywodraeth Lafur yn datblygu rhaglenni i wella cyrhaeddiad addysgol. Yn ystod y degawd hwnnw, mae carfan gyfan o blant yng Nghymru wedi mynd drwy system addysg Cymru ac wedi cael eu siomi. Onid yw hyn yn fwy o dystiolaeth eto o'r hyn a ddisgrifiwyd gennych yn eich geiriau eich hun fel 'tynnu eich llygad oddi ar y bêl'?

13:48 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I welcome the Liberal Democrat praising another Labour initiative, although she cannot bring herself to support it. I notice that the Conservative Party did and, indeed, I believe that Plaid Cymru did as well, but she cannot do that, it seems. I do not accept that a whole cohort of Welsh children have somehow missed out because we have some very good schools and we know today that we have one excellent local education authority. What we do not have is consistency. That is why Schools Challenge Cymru is so important in making sure that those that are at the bottom at the moment are brought up to the kind of standard that people expect and want to see. That is why we have introduced that programme.

Rwy'n croesawu'r Democrat Rhyddfrydol yn canmol menter arall gan Lafur, er nad yw'n fodlon ei chefnogi. Sylwaf fod y Blaid Geidwadol wedi gwneud hynny ac, yn wir, rwy'n credu bod Plaid Cymru wedi gwneud hynny hefyd, ond ni all hi wneud hynny, mae'n ymddangos. Nid wyf yn derbyn bod carfan gyfan o blant Cymru wedi eu siomi rywsut, oherwydd mae gennym rai ysgolion da iawn ac rydym yn gwybod heddiw bod gennym un awdurdod addysg lleol ardderchog. Yr hyn nad oes gennym yw cysondeb. Dyna pam mae Her Ysgolion Cymru mor bwysig i wneud yn siŵr bod y rhai sydd ar y gwaelod ar hyn o bryd yn cael eu tynnu i fyny i'r math o safon y mae pobl yn ei disgwyl ac yn dymuno ei gweld. Dyna pam rydym ni wedi cyflwyno'r rhaglen honno.

There is no getting away from the fact that if we continue with the situation where we have 22 local education authorities and six of those are in special measures, we will never see the improvements in education that we will want to see in the future. That has to be tackled as well as moving forward with those initiatives that we have already announced.

Ni ellir dianc rhag y ffaith os byddwn yn parhau â'r sefyllfa lle mae gennym 22 o awdurdodau addysg lleol a bod chwech o'r rheini yn destun mesurau arbennig, ni fyddwn byth yn gweld y gwelliannau mewn addysg y byddwn yn dymuno eu gweld yn y dyfodol. Mae'n rhaid mynd i'r afael â hynny yn ogystal â symud ymlaen gyda'r mentrau hynny yr ydym ni wedi eu cyhoeddi eisoes.

13:49 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

May I just say that this is not Simon Thomas's question time? Order. Will you listen carefully to what the leader of the Welsh Liberal Democrats asks in her final question? Kirsty Williams.

A gaf fi ddweud nad amser holi Simon Thomas yw hwn? Trefn. A wnewch chi wrando'n ofalus ar yr hyn y mae arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn ei ofyn yn ei chwestiwn olaf? Kirsty Williams.

13:49 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you very much, Presiding Officer. First Minister, that is one excellent LEA out of 22. Surely, even you with your brass neck cannot be proud of that record. Last month, your Minister promised a clear way forward for Welsh schools. The Schools Challenge statement that he put out yesterday suggested that challenged schools will be,

Diolch yn fawr iawn, Lywydd. Brif Weinidog, un AALl ardderchog allan o 22 yw hynny. Go brin y gallwch chi hyd yn oed, â'ch natur eofn, fod yn falch o hynny. Y mis diwethaf, addawodd eich Gweinidog ffordd eglur ymlaen i ysgolion Cymru. Awgrymodd y datganiad Her Ysgolion a gyhoeddwyd ganddo ddoe y bydd ysgolion sy'n cael eu herio,

'identified as underperforming as measured by banding and a range of deprivation related factors'.

wedi eu nodi fel rhai sy'n tanberfformio fel y mesurwyd gan fandio ac amrywiaeth o ffactorau sy'n gysylltiedig ag amddifadedd.

However, recently it emerged that school banding will be supplemented by a new national school improvement and categorisation system. That is in addition to the Estyn categorisations that we also have. It now appears that, rather than a clear way forward, we have three methods of ranking and categorising schools. Could you explain to Welsh parents which of the three methods of rating and categorisation will be used for choosing the schools in the challenge programme? When can we expect to see those schools named and announced?

Fodd bynnag, daeth i'r amlwg yn ddiweddar y bydd bandio ysgolion yn cael ei ategu gan system gwella a chategoreiddio ysgolion genedlaethol newydd. Mae hynny yn ogystal â'r categorïau Estyn sydd gennym hefyd. Mae'n ymddangos bellach, yn hytrach na ffordd eglur ymlaen, bod gennym dri dull o fesur safon ysgolion a'u categoreiddio. A allech chi egluro pa un o'r tri dull o sgorio a chategoreiddio a fydd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer dewis yr ysgolion yn y rhaglen her? Pryd y gallwn ni ddisgwyl gweld yr ysgolion hynny yn cael eu henwi a'u cyhoeddi?

13:50 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

By May. Why should parents not have the ability to compare schools? I think that is absolutely right. She makes the point that we have one excellent LEA among 22. Quite right; that is a good point to make. Six of them are in special measures. No, we do not fund the local authorities. Here is a question for her. Six local education authorities have failed. The current 22 authorities were set up by the Conservatives in the mid-1990s. It is the case that those local authorities are not providing consistent education. So, here is the point that I want to make to her. What is most important thing to her: the education of children or the single transferable vote? Will she support the reorganisation of local government and the strengthening of education or is a voting system more important to her than the education of our children?

Erbyn mis Mai. Pam na ddylai rhieni gael y gallu i gymharu ysgolion? Rwy'n credu bod hynny'n gwbl gywir. Mae hi'n gwneud y pwynt bod gennym un AALl rhagorol ymhlith 22. Mae yn llygad ei lle; mae hwnnw'n bwynt da i'w wneud. Mae chwech ohonynt yn destun mesurau arbennig. Na, nid ydym yn ariannu'r awdurdodau lleol. Dyma gwestiwn iddi hi. Mae chwe awdurdod addysg lleol wedi methu. Sefydlwyd y 22 awdurdod cyfredol gan y Ceidwadwyr yng nghanol y 1990au. Mae'n wir nad yw'r awdurdodau lleol hynny yn darparu addysg gyson. Felly, dyma yw'r pwynt yr hoffwn ei wneud iddi hi. Beth yw'r peth pwysicaf iddi hi: addysg plant neu'r bleidlais drosglwyddadwy sengl? A wnaiff hi gefnogi ad-drefnu llywodraeth leol a chryfhau addysg neu a yw system bleidleisio yn bwysicach iddi hi nag addysg ein plant?

13:51 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move back to questions on the paper without help from the background.

Symudwn yn symud yn ôl nawr at gwestiynau ar y papur heb gymorth o'r cefndir.

### Gwaith Newydd yng Nghanol De Cymru

### New Employment in South Wales Central

13:51 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*3. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i greu gwaith newydd yng Nghanol De Cymru? OAQ(4)1485(FM)*

*3. What steps are being taken by the Welsh Government to generate new employment in South Wales Central? OAQ(4)1485(FM)*

13:52 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Encouraging new employment continues to be a key priority for us and we will deliver through our continued support for businesses and entrepreneurs.

Mae annog cyflogaeth newydd yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol i ni a byddwn yn cyflawni drwy ein cefnogaeth barhaus i fusnesau ac entrepreneuriaid.

13:52 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

One of the key things is to advertise what South Wales Central in particular has to attract employers to locate in the region. We have two enterprise zones, for example. Recently, I had the pleasure of taking the KLM flight out of Cardiff Airport over to Schiphol. There was not one single advertisement—two-thirds of the passengers on that plane were related to business, I would suggest—outlining what positive aspects Wales could offer them if they chose to come to locate in Wales. There was not an advert in the inflight journal or in the advertising at the airport terminal or anything. Can you please look into this, First Minister, to make sure that that offer is addressed, because we are losing a captive audience and the opportunity to promote what South Wales Central has to offer future employers?

Un o'r pethau allweddol yw hysbysebu yr hyn sydd gan Ganol De Cymru yn arbennig i ddenu cyflogwyr i leoli yn y rhanbarth. Mae gennym ddwy ardal fenter, er enghraifft. Yn ddiweddar, cefais y pleser o hedfan ar awyren KLM o Faes Awyr Caerdydd draw i Schiphol. Nid oedd yr un hysbyseb—roedd dwy ran o dair o'r teithwyr ar yr awyren honno'n ymwneud â busnes, byddwn yn awgrymu—yn amlinellu pa agweddau cadarnhaol y gallai Cymru eu cynnig iddynt pe byddent yn dewis lleoli eu hunain yng Nghymru. Nid oedd hysbyseb yn y cylchgrawn ar yr awyren nac yn yr hysbysebion yn nherfynell y maes awyr nac unrhyw beth arall. A allwch chi edrych i mewn i hyn, Brif Weinidog, os gwelwch yn dda, er mwyn gwneud yn siŵr bod y cynnig hwnnw'n cael sylw, oherwydd rydym yn colli cynulleidfa gaeth a'r cyfle i hyrwyddo'r hyn sydd gan Ganol De Cymru i'w gynnig i gyflogwyr y dyfodol?

13:52 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

There are adverts at the airport. I do not know whether he came back through international arrivals, but if he had he would have noticed that there is a substantial amount of promotion of Wales for those arriving in Wales in terms of tourism, the showcasing of Welsh produce and promoting Wales as a business destination. I do not know if he did that, but, certainly, if he has the opportunity I would encourage him to see what has been done there as well.

Mae hysbysebion yn y maes awyr. Nid wyf yn gwybod a ddaeth yn ôl trwy'r cyraeddiadau rhyngwladol, ond os gwnaeth, byddai wedi sylwi bod llawer iawn o ddeunydd yn hyrwyddo Cymru i'r rhai sy'n cyrraedd Cymru o ran twristiaeth, arddangos cynnyrch o Gymru a hyrwyddo Cymru fel cyrchfan busnes. Nid wyf yn gwybod os gwnaeth hynny, ond, yn sicr, os bydd yn cael y cyfle, byddwn yn ei annog i weld yr hyn sydd wedi ei wneud yno hefyd.

13:53 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will the First Minister join me in welcoming the reports that the International Baccalaureate Organisation is about to sign a lease for a 48,500 square foot office in Cardiff Gate in my Cardiff North constituency, thereby securing 300 highly skilled jobs that would have been lost had the IBO carried through with the announcement that it made five years ago, I think, that it was quitting Cardiff for Amsterdam and that these jobs are now secured and the office expanding?

A wnaiff y Prif Weinidog ymuno â mi i groesawu'r adroddiadau bod y Sefydliad Bagloriaeth Ryngwladol ar fin arwyddo les ar gyfer swyddfa 48,500 troedfedd sgwâr ym Mhorth Caerdydd yn fy etholaeth i, Gogledd Caerdydd, gan sicrhau 300 o swyddi hynod fedrus a fyddai wedi eu colli pe byddai'r Sefydliad wedi parhau â'r cyhoeddiad a wnaeth bum mlynedd yn ôl, mi gredaf, ei fod yn gadael Caerdydd i symud i Amsterdam a bod y swyddi hyn yn ddiogel bellach a bod y swyddfa yn ehangu?

13:53 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I very much welcome the fact that the IBO is staying. I have to declare that some 20 years ago my wife worked for the International Baccalaureate Organisation, so I am familiar with the organisation. However, it is important for Wales that a major educational organisation wants to remain in Wales and, of course, commit itself in the way that it has. I welcome that very much.

Rwy'n croesawu'n fawr y ffaith fod y Sefydliad yn aros. Mae'n rhaid i mi ddatgan bod fy ngwraig yn gweithio i'r Sefydliad Bagloriaeth Ryngwladol rhyw 20 mlynedd yn ôl, felly rwy'n gyfarwydd â'r sefydliad. Fodd bynnag, mae'n bwysig i Gymru bod sefydliad addysgol mawr yn dymuno aros yng Nghymru ac, wrth gwrs, ymrwymo ei hun yn y ffordd y mae wedi ei wneud. Rwy'n croesawu hynny'n fawr iawn.

13:54 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Plaid Cymru continues to work on plans to create new jobs. That has been a priority throughout my leadership of the party. We are also committed to safeguarding jobs, which is why this morning I visited Cardiff docks along with Jill Evans MEP as part of our European election campaign launch. Cardiff docks welcome ships from throughout the European Union on a daily basis and they help to demonstrate why it is of benefit for Wales to be an integral part of the European Union. We accept that a lot needs to change within the EU, but given that 150,000 Welsh jobs in over 500 companies depend on our access to the EU single market, and that 43% of exports went to the EU last year, will you join with me and the Party of Wales in affirming the importance of EU membership to the Welsh economy?

Mae Plaid Cymru yn parhau i weithio ar gynlluniau i greu swyddi newydd. Mae hynny wedi bod yn flaenoriaeth trwy gydol fy arweinyddiaeth o'r blaid. Rydym hefyd wedi ymrwymo i ddiogelu swyddi, a dyna pam yr ymwelais â dociau Caerdydd y bore yma, ynghyd â Jill Evans ASE, yn rhan o lansiad ein hymgyrch ar gyfer etholiad Ewrop. Mae dociau Caerdydd yn croesawu llongau o bob rhan o'r Undeb Ewropeaidd yn feunyddiol ac maen nhw'n helpu i ddangos pam y mae o fudd i Gymru fod yn rhan annatod o'r Undeb Ewropeaidd. Rydym yn derbyn bod angen i lawer newid o fewn yr UE, ond o ystyried bod 150,000 o swyddi yng Nghymru mewn dros 500 o gwmnïau yn dibynnu ar ein mynediad at farchnad sengl yr UE, a bod 43% o allforion wedi mynd i'r UE y llynedd, a wnewch chi ymuno â mi a Phlaid Cymru i gadarnhau pwysigrwydd aelodaeth o'r UE i economi Cymru?

13:55 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I will, of course, but I have lost count of the number of times when something I say is repeated back at me three weeks later by Plaid Cymru, because the 150,000 jobs is something that I have used. Certainly, she and I are on the same page in terms of membership of the EU. The reality is that we have so many jobs in Wales—150,000 of them—that are reliant on our EU membership. It is a major export market and £260 million-worth of EU subsidies goes to our farmers. Our farmers would not exist without our membership of the EU. They would not be able to access a substantial market. They would not receive £260 million-worth of subsidy. That is the reality of it. I believe that we would see a number of large companies leave Wales in the longer term and go closer to the EU market, which is not far off 10 times the size of the UK market. It is already the case, I am afraid, that investors are questioning whether to come to Wales, or indeed the UK, because of the uncertainty over EU membership, because it is access to that market of 500 million that is the most important thing for so many investors.

Gwnaf, wrth gwrs, ond alla' i ddim cyfrif sawl gwaith y mae rhywbeth yr wyf i wedi'i ddweud yn cael ei ailadrodd yn ôl wrthyf dair wythnos yn ddiweddarach gan Blaid Cymru, oherwydd mae'r 150,000 o swyddi yn rhywbeth yr wyf fi wedi ei ddefnyddio. Yn sicr, mae hi a minnau yn cytuno o ran aelodaeth o'r UE. Y gwir amdani yw bod gennym gymaint o swyddi yng Nghymru—150,000 ohonynt—sy'n dibynnu ar ein haelodaeth o'r UE. Mae'n farchnad allforio fawr ac mae gwerth £260 miliwn o gymorthdaliadau'r UE yn mynd i'n ffermwyr. Ni fyddai ein ffermwyr yn bodoli heb ein haelodaeth o'r UE. Ni fyddent yn gallu cael mynediad at farchnad sylweddol. Ni fyddent yn derbyn gwerth £260 miliwn o gymorthdaliadau. Dyna'r gwir amdani. Rwy'n credu y byddem yn gweld nifer o gwmnïau mawr yn gadael Cymru yn y tymor hir ac yn mynd yn nes at farchnad yr UE, nad yw'n bell o fod yn 10 gwaith maint marchnad y DU. Mae'n wir eisoes, mae arnaf ofn, bod buddsoddwyr yn cwestiynu a ddylent ddod i Gymru, neu i'r DU yn wir, oherwydd yr ansicrwydd ynghylch aelodaeth o'r UE, gan mai mynediad at y farchnad honno o 500 miliwn yw'r peth pwysicaf i gymaint o fuddsoddwyr.

13:56 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, last summer the Welsh Government speculatively bought the Number 1 Capital Quarter building in Cardiff's enterprise zone for £15 million. As that building nears completion, when do you anticipate being able to recoup a return on that investment, and how many jobs would you expect to see created at that location?

Brif Weinidog, prynwyd adeilad Rhif 1 y Capital Quarter yn ardal fenter Caerdydd gan Lywodraeth Cymru ar sail hapfasnachol yr haf diwethaf, am £15 miliwn. Gan fod yr adeilad hwnnw ar fin cael ei gwblhau, pryd ydych chi'n rhagweld y bydd modd adennill elw ar y buddsoddiad hwnnw, a faint o swyddi ydych chi'n disgwyl iddynt gael eu creu yn y lleoliad hwnnw?

13:56 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

We are looking to see jobs created at all enterprise zones. Some are more advanced than others, particularly Deeside, and others, like Snowdonia, are a little behind in terms of job creation because of their geography, but there are exciting plans for Snowdonia as well. I expect to see all the enterprise zones providing and safeguarding a substantial number of jobs in the future. It is certainly better than the performance has been in England.

Ein gobaith yw y bydd swyddi'n cael eu creu ym mhob ardal fenter. Mae rhai yn fwy datblygedig nag eraill, yn enwedig Glannau Dyfrdwy, ac mae eraill, fel Eryri, ychydig ar ei hôl hi o ran creu swyddi oherwydd eu daearyddiaeth, ond ceir cynlluniau cyffrous ar gyfer Eryri hefyd. Rwy'n disgwyl gweld yr holl ardaloedd menter yn darparu a diogelu nifer sylweddol o swyddi yn y dyfodol. Mae'n sicr yn well nag y mae perfformiad wedi bod yn Lloegr.

13:56 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

My geography is not very good, but I did not think that Snowdonia was in South Wales Central.

Nid yw fy naearyddiaeth i'n dda iawn, ond nid oeddwn i'n meddwl bod Eryri yng Nghanol De Cymru.

13:56 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I did not hear the question. I thought it was about enterprise zones, I am afraid, Presiding Officer.

Ni chlywais y cwestiwn. Roeddwn i'n meddwl ei fod yn ymwneud ag ardaloedd menter, mae arnaf ofn, Lywydd.

## Adroddiadau Swyddfa Archwilio Cymru

## Wales Audit Office Reports

13:57 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*4. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am adroddiadau diweddar Swyddfa Archwilio Cymru ynghylch taliadau anghyfreithlon yng Nghyngor Sir Caerfyrddin ac yng Nghyngor Sir Penfro? OAQ(4)1496(FM)*

*4. Will the First Minister make a statement on the recent Wales Audit Office reports regarding unlawful payments in Carmarthenshire and Pembrokeshire County Councils? OAQ(4)1496(FM)*

13:57 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I welcome the publication of the reports, and of course it is important that those councils deal with those reports with the utmost seriousness.

Rwy'n croesawu cyhoeddiad yr adroddiadau, ac wrth gwrs mae'n bwysig bod y cynghorau hynny yn ymdrin â'r adroddiadau hynny â'r difrifoldeb mwyaf.

13:57 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am glad, First Minister, that you mentioned 'serious', because, as regards Pembrokeshire, the council failed to have regard to the public sector equality duty; the decision constituted indirect discrimination. Senior officers who had a disqualifying personal pecuniary interest in the decision participated in the decision-making process. As regards Carmarthenshire, the report was drafted and presented by a senior officer who had a disqualifying personal pecuniary interest. In addition, the executive board—

Rwy'n falch, Brif Weinidog, eich bod wedi crybwyll 'difrifol', oherwydd, o ran Sir Benfro, methodd y cyngor â rhoi sylw i ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus; roedd y penderfyniad yn achos o wahaniaethu anuniongyrchol. Cymerodd uwch swyddogion a oedd â buddiant ariannol personol yn y penderfyniad a oedd yn eu hanghymwyso ran yn y broses o wneud y penderfyniad. O ran Sir Gaerfyrddin, cafodd yr adroddiad ei ddrafftio a'i gyflwyno gan uwch swyddog a oedd â budd ariannol personol a oedd yn ei anghymwyso. Hefyd, roedd y bwrdd gweithredol—

13:57 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Are you coming to the question?

A ydych chi'n dod at y cwestiwn?

13:57 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

[Continues.]—was also unlawful. First Minister, those are pretty serious findings, and show a total lack of corporate governance within our local authorities. I can tell you that this has cast shock waves now, not just across Carmarthenshire and Pembrokeshire, but within my local authority and authorities in north Wales—

[Parhau.]—yn anghyfreithlon. Brif Weinidog, mae'r rheini'n ganfyddiadau tra difrifol, ac yn dangos diffyg llywodraethu corfforaethol llwyr o fewn ein hawdurdodau lleol. Gallaf ddweud wrthych fod hyn wedi achosi braw mawr erbyn hyn, nid yn unig ar draws Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro, ond o fewn fy awdurdod lleol i ac awdurdodau yng ngogledd Cymru—

13:58 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will you come to the question, please?

A wnewch chi ofyn y cwestiwn, os gwelwch yn dda?

13:58 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

[Continues.]—where they actually do practice good governance. There are calls for—

[Parhau.]—lle maen nhw yn arfer llywodraethu da mewn gwirionedd. Ceir galwadau i'r—

13:58

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Will you come to the question, please?

A wnewch chi ofyn y cwestiwn, os gwelwch yn dda?

13:58

## Janet Finch-Saunders [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

[Continues.]—the chief executive to be sacked. There are calls—

[Parhau.]—prif weithredwr gael ei ddiswyddo. Ceir galwadau—

13:58

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

No, I am sorry: either ask a question now or sit down.

Na, mae'n ddrwg gennyf: naill ai gofynnwch y cwestiwn nawr neu eisteddwch i lawr.

13:58

## Janet Finch-Saunders [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

First Minister, will you show strong leadership as opposed to your Minister for Local Government and Government Business and support the calls for some real action on this, so that we can restore public confidence in our local authorities?

Brif Weinidog, a wnewch chi ddangos arweiniad cryf yn wahanol i'ch Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes a chefnogi'r galwadau am gamau gwirioneddol ar hyn, fel y gallwn adennill hyder y cyhoedd yn ein hawdurdodau lleol?

13:58

## Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yes, we will show strong leadership. It is inappropriate that councils are paying as they are. We also saw it in the 'Western Mail' this morning. I am not angling for a pay rise, but I suspect that people will be surprised to see that the chief executive of Pembrokeshire County Council earns £65,000 a year more than the First Minister of Wales. That is very difficult for it to justify. There are serious questions that councils have to answer in terms of the way that they have paid senior officers. As a Government, we will give further consideration to what needs to be done in order to restore public confidence.

Gwnawn, mi wnawn ddangos arweinyddiaeth gref. Mae'n amhriodol bod cynghorau yn talu fel y maen nhw. Roedd i'w weld yn y 'Western Mail' y bore yma hefyd. Nid wyf yn ceisio cael codiad cyflog, ond rwy'n amau y bydd pobl yn synnu o weld bod prif weithredwr Cyngor Sir Penfro yn ennill £65,000 y flwyddyn yn fwy na Phrif Weinidog Cymru. Mae hynny'n anodd iawn i'r cyngor ei gyfiawnhau. Ceir cwestiynau difrifol y mae'n rhaid i gynghorau eu hateb o ran y ffordd y maen nhw wedi talu uwch swyddogion. Fel Llywodraeth, byddwn yn rhoi ystyriaeth bellach i'r hyn y mae angen ei wneud er mwyn adennill hyder y cyhoedd.

13:59

## Rhodri Glyn Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Rwy'n falch, Brif Weinidog, eich bod yn cydnabod fod canfyddiadau'r archwilydd yn eithriadol o bwysig. Yng nghyd-destun Caerfyrddin, a wnewch chi gytuno hefyd ei bod yn gwbl annerbyniol i'r cyngor sir herio awdurdod yr archwilydd a'i adroddiad, ac y dylai dderbyn y canfyddiadau hynny a gweithredu arnynt yn syth? Yn ogystal, mae'r cyngor yn anwybyddu datganoli oherwydd mae'n mynd yn ôl at Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ac yn anwybyddu'n llwyr Orchymyn Awdurdodau Lleol (Indemniadau ar gyfer Aelodau a Swyddogion) (Cymru) 2006 a basiwyd gan y lle hwn? A wnewch chi gysylltu ag arweinydd y cyngor hwnnw i ddweud wrtho am gydymffurfio ag adroddiad yr archwilydd, ac i dderbyn datganoli hefyd?

I am pleased, First Minister, that you recognise that the findings of the auditor are extremely important. In the context of Carmarthenshire, would you also agree that it is entirely unacceptable for the council to challenge the authority of the auditor and his report, and that it should certainly accept those findings and take action on them immediately? In addition, the council is ignoring devolution because it is returning to the Local Government Act 1972 and entirely ignoring the Local Authorities (Indemnities for Members and Officers) (Wales) Order 2006 that was passed in this place? Will you contact the leader of that council to tell him to comply with the auditor's report and also to accept devolution?

14:00

## Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Mae'n bwysig bod unrhyw awdurdod lleol yn ystyried y gyfraith. Mae'n bwysig bod unrhyw awdurdod lleol yn ystyried unrhyw adroddiad sy'n dod o'r archwilydd ac nid meddwl bod hynny'n rhywbeth sy'n gallu cael ei ddodi i un ochr. Nid wyf yn credu y dylai unrhyw awdurdod lleol fod yn y sefyllfa honno. Mae'n bwysig dros ben bod sir Gâr a sir Benfro yn delio â'r sefyllfa ac wedyn yn gweithredu.

It is important for any local authority to consider the law. It is important for any local authority to consider any report that comes from the auditor and not to think that it is something that can be put to one side. I do not think that any local authority should be in that situation. It is very important that Carmarthenshire and Pembrokeshire deal with the situation and then act upon it.

### Comisiynwyr

### Commissioners

14:00 **Angela Burns** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*5. A wnaiff y Prif Weinidog roi manylion ynghylch sut y cytunir ar ganlyniadau gyda Chomisiynwyr a benodir ganddo ef, a sut y cânt eu monitro? OAQ(4)1487(FM)*

*5. Will the First Minister detail how outcomes are agreed and monitored with Commissioners appointed by him? OAQ(4)1487(FM)*

14:00 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

All commissioners operate independently of Welsh Ministers in order to exercise their statutory functions. Each commissioner is required to report on their activities in an annual report that is laid before the Assembly.

Mae pob comisiynydd yn gweithredu'n annibynnol ar Weinidogion Cymru er mwyn arfer eu swyddogaethau statudol. Mae'n ofynnol i bob comisiynydd adrodd ar eu gweithgareddau mewn adroddiad blynyddol a gyflwynir gerbron y Cynulliad.

14:00 **Angela Burns** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that. I absolutely agree with you that it is imperative that commissioners are able to be independent of Government. However, a number of commissioners are on different levels of tenure, from seven years down to four. Some are appointed by Her Majesty the Queen, some by you and some by the Assembly. It is very unclear as to how they can be truly held to account, apart from an annual report that we may debate here. I wondered, First Minister, whether you would review how we might monitor them. This is, after all, public money. They are performing a public service and, like all of us, they need to be totally accountable for that.

Diolch i chi am hynna. Rwy'n cytuno'n llwyr â chi ei bod yn hanfodol bod comisiynwyr yn gallu bod yn annibynnol ar y Llywodraeth. Fodd bynnag, mae nifer o gomisiynwyr ar wahanol lefelau o ddeiliadaeth, o saith mlynedd i lawr i bedair. Penodir rhai gan Ei Mawrhydi y Frenhines, rhai gennych chi a rhai gan y Cynulliad. Mae'n aneglur iawn sut y gellir sicrhau eu bod yn wirioneddol atebol, ar wahân i adroddiad blynyddol y gallwn ei drafod yma. Roeddwn i'n meddwl tybed, Brif Weinidog, a fyddech chi'n adolygu sut y gallem eu monitro. Arian cyhoeddus yw hwn wedi'r cwbl. Maen nhw'n cyflawni gwasanaeth cyhoeddus ac, fel pob un ohonom, mae angen iddynt fod yn gwbl atebol am hynny.

14:01 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I can say to the Member that we are considering whether it is timely now for a full independent review regarding the Children's Commissioner for Wales, following what the commissioner himself has said. There is an anomaly, or anomalies, as the Member has rightly pointed out. No decisions have been taken yet in terms of those appointments. However, I refer to what I said about the children's commissioner; if the decision is to review the children's commissioner's role and responsibilities, then, in time, the same will have to apply to the others as well.

Gallaf ddweud wrth yr Aelod ein bod yn ystyried a yw'n amser bellach am adolygiad annibynnol llawn o ran Comisiynydd Plant Cymru, yn dilyn yr hyn y mae'r comisiynydd ei hun wedi ei ddweud. Ceir anghysondeb, neu anghysondebau, fel y mae'r Aelod wedi ei nodi'n gywir. Ni wnaed unrhyw benderfyniadau eto o ran y penodiadau hynny. Fodd bynnag, cyfeiriaf at yr hyn a ddywedais am y comisiynydd plant; os mai'r penderfyniad yw adolygu swyddogaeth a chyfrifoldebau'r comisiynydd plant, yna, ymhen amser, bydd yn rhaid i'r un peth fod yn berthnasol i'r lleill hefyd.

14:01 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Brif Weinidog, os ydych chi'n cynnal adolygiad, a gaf ofyn i chi hefyd ystyried cyfrifoldebau'r comisiynydd plant? Ar hyn o bryd, mae yna system lle mae comisiynydd plant yn Lloegr yn gyfrifol am faterion nad ydynt wedi cael eu datganoli. Mae hyn yn rhywbeth y mae Llywodraeth Prydain wedi methu â delio gydag ef ers cryn dipyn o amser. Rwy'n gofyn i chi ystyried hynny fel rhan o'r adolygiad.

First Minister, if you are to conduct a review, may I ask you also to consider the responsibilities of the children's commissioner? At present, there is a system whereby there is a children's commissioner in England who is responsible for non-devolved matters. This is something that the UK Government has failed to deal with over some years. I would ask you to take that into account as part of the review.

14:02 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Nid hynny oedd ein dewis ni ar y pryd, mae'n rhaid i mi ei ddweud. Mae'n 'anomaly'. Ein barn ni yw y dylai Comisiynydd Plant Cymru fod yn yr un sefyllfa â Chomisiynydd Plant Lloegr. Fe wnaethon ni hynny'n glir ar y pryd, os cofiaf yn iawn. Mae hynny'n rhywbeth—os bydd cefnogaeth yn y Siambr—y byddwn yn fodlon ei ystyried unwaith eto gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig.

That was not our choice at the time, I have to say. It is an anomaly. Our opinion is that the Children's Commissioner for Wales should be in the same situation as the Children's Commissioner for England. We made that clear at the time, if I remember rightly. That is something—if there were Chamber support for it—we would be willing to consider again with the UK Government.

## Yr Economi

## The Economy

14:02

### Keith Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*6. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ei flaenoriaethau ar gyfer cefnogi'r economi yng Nghymru? OAQ(4)1499(FM)*

*6. Will the First Minister make a statement on his priorities for supporting the economy in Wales? OAQ(4)1499(FM)*

Senedd.tv
Fideo Video

14:02

### Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Rydym wedi cymryd camau pellgyrhaeddol i gyflawni ein blaenoriaethau ar gefnogi twf a swyddi cynaliadwy. Mae'r ffigurau diweddaraf ar gyfer cyflogaeth, cynhyrchiant ac adeiladu yn dangos bod yr economi yng Nghymru yn adfer yn dda, gyda chyflogaeth gyffredinol ar y lefel uchaf erioed.

We have taken wide-ranging actions to deliver against our priorities of supporting growth and sustainable jobs. Latest figures for employment, production and construction output show that the economy in Wales is recovering well, with overall employment at a record high.

Senedd.tv
Fideo Video

14:03

### Keith Davies Bywgraffiad Biography

Mae bod yn Ewrop, fel rydych wedi sôn yn barod wrth ymateb i Leanne Wood, yn cyfrannu'n enfawr at yr economi yng Nghymru. Mae bron £2 biliwn o gyllid rhanbarthol ers 2007 wedi arwain at £3.7 biliwn o fuddsoddiad yn economi Cymru. Yn sir Gâr, mae dros 1,200 o swyddi wedi cael eu creu gan gronfa datblygu rhanbarthol Ewrop. A ydych chi'n cytuno â mi ei bod hi'n bwysig iawn bod Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i gadw Cymru fel partner gweithredol positif o fewn Ewrop?

Membership of the European Union, has you have already mentioned in responding to Leanne Wood, makes a huge contribution to the Welsh economy. Almost £2 billion in regional funding since 2007 has led to £3.7 billion going into the Welsh economy. In Carmarthenshire, over 1,200 jobs have been created by the European regional development fund. Do you agree with me that it is extremely important that the Welsh Government is committed to keeping Wales as an active, positive partner within Europe?

Senedd.tv
Fideo Video

14:03

### Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Mae'n hynod o bwysig. Dim ond gloes a allai gael ei wneud i economi Cymru pe baem yn gadael yr Undeb Ewropeaidd. Byddem yn colli mynediad at un o'r marchnadoedd mwyaf yn y byd, ar adeg pan mae'r economi yn tyfu. Fodd bynnag, rydym yn gwybod nad yw pethau mor gadarn ar lefel Brydeinig â'r hyn y byddem eisiau ei weld. Byddem ni, fel rydym wedi'i ddweud fel Llywodraeth, yn wastad yn gwneud yr achos bod aelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd yn rhywbeth hollbwysig i economi Cymru.

That is very important. There would be only damage done to the Welsh economy if we were to leave the European Union. We would lose access to one of the biggest markets in the world, at a time when the economy is growing. However, we know that things are not as robust at a UK level as we would want. We, as we have said as a Government, would always make the case that membership of the European Union is vital for the Welsh economy.

Senedd.tv
Fideo Video

14:04

### William Graham Bywgraffiad Biography

First Minister, you will be aware of comments by Emma Watkins, the director of the Confederation of British Industry Wales, concerning the M4 around Newport. She said:

Brif Weinidog, byddwch yn ymwybodol o sylwadau gan Emma Watkins, cyfarwyddwr Cydffederasiwn Diwydiant Prydain yng Nghymru, ynghylch yr M4 o amgylch Casnewydd. Dywedodd:

'The quality and reliability of infrastructure is of vital importance to business investment decisions and Wales is at risk of losing out in the race for inward investment if the resilience of our major economic corridor is not improved.'

Mae ansawdd a dibynadwyedd y seilwaith yn hanfodol bwysig i benderfyniadau buddsoddi busnes ac mae Cymru mewn perygl o golli'r ras am fuddsoddiad o'r tu allan os nad yw cryfder ein coridor economaidd pwysicaf yn cael ei wella.

First Minister, do you agree with this assessment? How do intend to alleviate the problem?

Brif Weinidog, a ydych chi'n cytuno â'r asesiad hwn? Sut ydych chi'n bwriadu lliniaru'r broblem?

Senedd.tv
Fideo Video

14:04 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Indeed, we do. As the Member will know, early access to borrowing powers granted to us by the UK Government will enable us to put together a financial package to finance the improvements that are needed around the M4, particularly around the Brynglas tunnels. We see it as a necessary improvement to our busiest road.

Ydym yn wir. Fel y bydd yr Aelod yn gwybod, bydd mynediad cynnar at bwerau benthyg a roddwyd i ni gan Lywodraeth y DU yn ein galluogi i lunio pecyn ariannol i ariannu'r gwelliannau sydd eu hangen o amgylch yr M4, yn enwedig o gwmpas twneli Brynglas. Rydym yn ei weld fel gwelliant angenrheidiol i'n ffordd brysuraf.

14:05 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Gwnaeth eich Gweinidog economi ymweld â ffatri Siemens yn Llanberis y diwrnod o'r blaen. Mae'r ffatri'n cyflogi 450 o bobl ac yn gyflogwr pwysig iawn yn yr ardal. Yn rhyfedd iawn, mae'r un ffigur â'r nifer o gwmnïau o'r Undeb Ewropeaidd sydd wedi eu sefydlu yng Nghymru ac yn cyflogi, fel yr oedd Leanne Wood yn cyfeirio ato, yn helaeth ac yn rhan hanfodol o'r economi. A fyddech yn cytuno bod y rhethreg wrth-Ewropeaidd hon o'r blaid Torïaid, UKIP ac eraill yn peryglu dyfodol gweithwyr yma yng Nghymru os na fyddwn yn llwyddo sicrhau canlyniad positif os bydd refferendwm?

Your Minister for the economy visited the Siemens factory in Llanberis the other day. The plant employs 450 people and is a very important employer in the area. Strangely enough, that is the same figure as the number of EU companies that have established here in Wales and employ large numbers of people, as Leanne Wood mentioned earlier, and are an essential part of the economy. Do you agree that the anti-European rhetoric that the Conservatives, UKIP and others are partaking of actually puts at risk the future of workers here in Wales unless we succeed in ensuring a positive outcome should there be a referendum?

14:05 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Cytunaf, mae'n rhaid i mi ei ddweud, achos ein bod yn gwybod bod llawer o gwmnïau sydd ond yng Nghymru oherwydd bod ganddynt fynediad at y farchnad Ewropeaidd. Pe na bai mynediad felly, neu pe bai rhwystr o ran y mynediad hwnnw, na fyddant yn dod yma a byddai rhai, yn y pen draw, yn gadael. Pam sefyll tu fas i'r Undeb Ewropeaidd, pan fo eich marchnad yno? Yr hyn a fyddai'n digwydd wedyn yw y byddant yn symud i'r Undeb Ewropeaidd pe na bai Prydain yn rhan o'r farchnad honno. Fel y dywedais o'r blaen, mae'n haelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd yn holl bwysig i ddyfodol ac economi Cymru.

Yes, I have to say, because we know that there are many companies that are only in Wales because they have access to the European market. If the access is not there or if there is any barrier to that access, they will not come and some, ultimately, will leave. Why stay outside the European Union when your market is in the European Union? What would happen then is that they would move to the European Union if Britain was not part of that market. As I said before, our membership of the European Union is vital for the future and the economy of Wales.

## Y Sector Pysgota

## The Fishing Sector

14:06 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*7. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer y sector pysgota? OAQ(4)1488(FM)*

*7. Will the First Minister make a statement on the Welsh Government's priorities for the fishing sector? OAQ(4)1488(FM)*

14:06 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Rydym wedi amlinellu ein blaenoriaethau ar gyfer y sector pysgota yn y cynllun gweithredu strategol ar gyfer môr a physgodfeydd Cymru a lansiwyd ym mis Tachwedd y llynedd.

We set out our priorities for the fishing sector in the marine and fisheries strategic action plan that was launched in November last year.

14:06 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch yn fawr iawn. Thank you. You will be aware of the real economic potential of increasing shellfish production in Wales, but the long-term viability of the industry is at risk because of the current seven-year licences being offered to fishermen. Licences in the past been many decades long. With temperatures from the beginning of next month in the Menai Straits starting to rise, now is the time to put down mussel seed, but insecurity about the future is putting off investors. Will you act now to end delays within Government by bringing in a revised Menai fishing Order so that we can plan for a prosperous and sustainable future for the industry?

Diolch yn fawr iawn. Diolch. Byddwch yn ymwybodol o botensial economaidd gwirioneddol cynyddu cynhyrchiant pysgod cregyn yng Nghymru, ond mae hyfywedd hirdymor y diwydiant mewn perygl oherwydd y trwyddedau saith mlynedd cyfredol sy'n cael eu cynnig i bysgotwyr. Mae trwyddedau wedi para am sawl degawd yn y gorffennol. Wrth i'r tymheredd yn Afon Menai ddechrau codi o ddechrau mis nesaf, nawr yw'r amser i wasgaru hadau cregyn gleision, ond mae ansicrwydd am y dyfodol yn codi ofn ar fuddsoddwyr. A wnewch chi weithredu nawr i roi terfyn ar oediadau o fewn y Llywodraeth trwy gyflwyno Gorchymyn pysgota diwygiedig ar gyfer y Fenai fel y gallwn gynllunio ar gyfer dyfodol llewyrchus a chynaliadwy i'r diwydiant?

14:07 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I think that the Member is referring to the Menai West several Order. I assume that that is what he means. I can tell him that we are looking to reach a decision on the issues that are holding up the current several Order application for Menai West before the end of this month.

Rwy'n credu fod yr Aelod yn cyfeirio at Orchymyn pysgodfa unigol Gorllewin y Fenai. Rwy'n cymryd mai dyna y mae'n ei olygu. Gallaf ddweud wrtho ein bod yn bwriadu gwneud penderfyniad ar y materion sy'n oedi'r cais Gorchymyn pysgodfa unigol cyfredol ar gyfer Gorllewin y Fenai cyn diwedd y mis hwn.

14:07 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, we have heard much about the impacts of storms on infrastructure, but, of course, the storms have meant that many of our fishermen have not been able to leave port in order to undertake that activity—to go fishing—and those problems are being replicated around the UK coast as this wave of storms hits. What consideration has your Government given to looking at the impact on the fishing industry in Wales? Have you made any assessment of any damage to the fishing grounds, particularly in relation to shellfish here in Wales, as a result of the storms?

Brif Weinidog, rydym ni wedi clywed llawer am effeithiau stormydd ar seilwaith, ond, wrth gwrs, mae'r stormydd wedi golygu nad yw llawer o'n pysgotwyr wedi gallu gadael y porthladd er mwyn ymgymryd â'r gweithgaredd hwnnw—i fynd i bysgota—ac mae'r problemau hynny yn cael eu hailadrodd ar hyd arfordir y DU wrth i'r don hon o stormydd ein taro. Pa ystyriaeth y mae eich Llywodraeth wedi ei rhoi i ystyried yr effaith ar y diwydiant pysgota yng Nghymru? A ydych chi wedi gwneud unrhyw asesiad o unrhyw ddifrod i'r mannau pysgota, yn enwedig o ran pysgod cregyn yma yng Nghymru, o ganlyniad i'r stormydd?

14:08 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Not as yet, but, of course, that would need to happen after the threat of major storms has gone and, sadly, we are not in that position. A full assessment of any damage, whether it be to coastal defences or, indeed, to fishing grounds or, indeed, to the fishing industry will have to be made once we can be reasonably sure that the current spate of extremely windy weather has disappeared. There would be no point doing it now, clearly, but there will come a time when that will need to be done.

Ddim hyd yma, ond, wrth gwrs, byddai angen i hynny ddigwydd ar ôl i'r bygythiad o stormydd mawr ddod i ben ac, yn anffodus, nid ydym yn y sefyllfa honno. Bydd yn rhaid cynnal asesiad llawn o unrhyw ddifrod, boed i amddiffynfeydd arfordirol neu, yn wir, i fannau pysgota neu, yn wir, i'r diwydiant pysgota cyn gynted ag y byddwn yn weddol sicr bod y cyfnod presennol o dywydd eithriadol o wyntog wedi diflannu. Ni fyddai unrhyw bwynt ei wneud ar hyn o bryd, yn amlwg, ond daw amser pan fydd angen i hynny gael ei wneud.

### Rhwydwaith Cyngor ar Bopeth

### Citizens Advice Bureaux Network

14:09 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*8. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am sut y mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r rhwydwaith Cyngor ar Bopeth ym Mhowys? OAQ(4)1494(FM)*

*8. Will the First Minister make a statement on how the Welsh Government supports the Citizens Advice Bureau network in Powys? OAQ(4)1494(FM)*

14:09 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yes. In addition to the £2.2 million per annum funding for the Better Advice; Better Lives service delivered by Citizens Advice, around £1 million this year has been allocated to support front-line advice services all over Wales. Of course, a proportion of this funding has gone to CABx, including the Powys CAB.

Gwnaf. Yn ogystal â'r £2.2 miliwn o gyllid y flwyddyn ar gyfer y gwasanaeth Cyngor Da, Byw'n Well a ddarperir gan Gyngor ar Bopeth, neilltuwyd tua £1 filiwn eleni i gefnogi gwasanaethau cyngor rheng flaen ledled Cymru. Wrth gwrs, mae cyfran o'r arian hwn wedi mynd i CAB, gan gynnwys CAB Powys.

Senedd.tv Fideo Video

14:09 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Thank you for your answer, First Minister. I do not need to document, I hope, the financial position that the CAB service in Powys is finding itself in due to the potential funding cuts from Powys County Council. I understand the requirements that the council has to meet with regard to savings, but I think that cutting the CAB funding would be a short-term and negative step. Powys, of course, missed out on Communities First funding last year, one of only three authorities not to receive this funding, which was used by other local authorities to support their CAB services. Therefore, First Minister, may I ask whether there is any additional Welsh Government support that you have identified at this stage that the CAB service in Powys might benefit from in delivering Government services? What discussions have your officials had with Powys County Council and Citizens Advice to help this vital service in the future?

Diolch i chi am eich ateb, Brif Weinidog. Nid oes angen i mi gofnodi, rwy'n gobeithio, y sefyllfa ariannol y mae'r gwasanaeth CAB ym Mhowys ynddi oherwydd y toriadau posibl i gyllid gan Gyngor Sir Powys. Rwy'n deall y gofynion y mae'n rhaid i'r cyngor eu bodloni o ran arbedion, ond rwy'n meddwl y byddai torri cyllid CAB yn gam byrdymor a negyddol. Ni chafodd Powys, wrth gwrs, gyllid Cymunedau yn Gyntaf y llynedd, un o ddim ond tri awdurdod i beidio â derbyn y cyllid hwn, a ddefnyddiwyd gan awdurdodau lleol eraill i gefnogi eu gwasanaethau CAB. Felly, Brif Weinidog, a gaf i ofyn a oes unrhyw gymorth ychwanegol gan Lywodraeth Cymru yr ydych chi wedi ei nodi ar hyn o bryd y gallai'r gwasanaeth CAB ym Mhowys elwa ohono o ran darparu gwasanaethau'r Llywodraeth? Pa drafodaethau mae eich swyddogion wedi eu cael gyda Chyngor Sir Powys a Chyngor ar Bopeth i helpu'r gwasanaeth hanfodol hwn yn y dyfodol?

Senedd.tv Fideo Video

14:10 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

He was lobbying in his role as a councillor as well there, but, nevertheless, I understand the point that he is making. What we cannot do is plug the gaps that are there, unfortunately, because of local authority cuts, and, indeed, because of legal aid cuts, which, of course, are cuts imposed by the UK Government. However, we are keen to ensure that whatever funding we can make available is used where it is needed most in the most effective way possible. I can say that, last May, we published the advice services review report, which made a number of recommendations on advice providers being able to identify ways in which services can be provided in the future, even considering the difficult financial climate.

Roedd yn lobïo yn ei swyddogaeth fel cynghorydd hefyd yn y fan yna, ond, serch hynny, rwy'n deall y pwynt y mae'n ei wneud. Yr hyn na allwn ni ei wneud yw llenwi'r bylchau sydd yno, yn anffodus, oherwydd toriadau awdurdodau lleol, ac, yn wir, oherwydd toriadau i gymorth cyfreithiol, sydd, wrth gwrs, yn doriadau a orfodwyd gan Lywodraeth y DU. Fodd bynnag, rydym yn awyddus i sicrhau bod pa bynnag gyllid y gallwn ni ei roi ar gael yn cael ei ddefnyddio lle mae ei angen fwyaf yn y ffordd fwyaf effeithiol bosibl. Gallaf ddweud ein bod, fis Mai diwethaf, wedi cyhoeddi adroddiad adolygu'r gwasanaethau cynghori, a wnaeth nifer o argymhellion ynglŷn â darparwyr cyngor yn gallu nodi ffyrdd y gellir darparu gwasanaethau yn y dyfodol, hyd yn oed o ystyried yr hinsawdd ariannol anodd.

Senedd.tv Fideo Video

14:11 **Joyce Watson** Bywgraffiad Biography

We know that every local authority is facing tough decisions, First Minister. However, do you support my view that councils must prioritise and protect those services that help people who have been affected worst of all by the Tory cuts and welfare reforms? The fact is that Citizens Advice is a lifeline for people in financial trouble and for those affected by the bedroom tax and other cruel reforms by the Tory Government. Powys CAB is the only advice service covering the whole of Powys and Powys council must do everything in its power to protect that.

Rydym yn gwybod bod pob awdurdod lleol yn wynebu penderfyniadau anodd, Brif Weinidog. Fodd bynnag, a ydych chi'n cefnogi fy safbwynt i bod yn rhaid i gynghorau flaenoriaethu a diogelu'r gwasanaethau hynny sy'n helpu pobl sydd wedi eu heffeithio fwyaf gan doriadau'r Torïaid a diwygiadau lles? Y ffaith yw bod Cyngor ar Bopeth yn achubiaeth i bobl mewn trafferthion ariannol ac i'r rhai yr effeithir arnynt gan y dreth ystafell wely a diwygiadau creulon eraill gan Lywodraeth y Torïaid. CAB Powys yw'r unig wasanaeth cynghori sy'n cwmpasu Powys gyfan ac mae'n rhaid i gyngor Powys wneud popeth yn ei allu i ddiogelu hynny.

Senedd.tv Fideo Video

14:11 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I agree with what the Member has said. It is important that the council examines very carefully its budgets—as I am sure that it does—while considering the need to make sure that proper advice is available in Powys in these difficult financial times for so many people.

Rwy'n cytuno â'r hyn y mae'r Aelod wedi ei ddweud. Mae'n bwysig bod y cyngor yn archwilio ei gyllidebau yn ofalus iawn—fel yr wyf yn siŵr y mae'n ei wneud—gan ystyried ar yr un pryd yr angen i sicrhau bod cyngor priodol ar gael ym Mhowys yn ystod y cyfnod ariannol anodd hwn i gynifer o bobl.

14:11 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Brif Weinidog, rydym i gyd yn gwybod y gwaith clodwiw iawn mae gwirfoddolwyr a gweithwyr CAB yn ei wneud ym Mhowys. Fodd bynnag, gan ein bod yn sôn am doriad sy'n arbed Cyngor Sir Powys £93,000 y flwyddyn, a gawn edrych ar yr hyn mae CAB yn llwyddo i'w ddod i mewn i Bowys? Mae £2.2 miliwn mewn budd-daliadau newydd, oherwydd y cyngor sy'n cael ei roi, £1.4 miliwn o ddyledion wedi eu dileu oherwydd y cyngor a roddwyd i bobl mewn dyled, ac £8 miliwn o ddyledion wedi eu hail-drefnu a'u hail-negodi oherwydd yr wybodaeth a roddwyd i bobl mewn dyled. Dyna werth £10 miliwn a mwy o fudd i economi Powys. Mae torri £90,000 yn bitw bach i gymharu â hynny. Mae'n rhaid i Bowys ail-ystyried y penderfyniad hwn. A ydych chi'n cytuno gyda fi?

First Minister, we all know of the excellent and praiseworthy work that the volunteers and CAB staff do in Powys. However, as we are talking of a cut that will save Powys County Council £93,000 per annum, can we look at what CAB actually brings into Powys? There are £2.2 million in new benefits because of the advice provided, £1.4 million in debts written off because of the advice given to people in debt, and £8 million of debts renegotiated because of the information provided to people in debt. That is a value of £10 million and more to the Powys economy. Cutting £90,000 is tiny in comparison. Powys must reconsider this decision. Would you agree with me on that?

14:12 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Mae hynny'n rhywbeth i gyngor Powys, wrth gwrs; mae'r cwestiwn hwn i'r cynghorwyr hynny. Fodd bynnag, nid wyf yn anghytuno â'r hyn a ddywedodd yr Aelod ynglŷn â'r gwerth mae CAB Powys yn cynrychioli ac yn ei greu o ran y cyngor mae'n ei roi i bobl sy'n byw ym Mhowys.

That is a matter for Powys council, of course; it is a question for those councillors. However, I do not disagree with what the Member said about the value that Powys CAB represents and creates in terms of the advice given to people who live in Powys.

14:13 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, the extraordinary thing about the actions of Powys County Council is that it is not seeking to make a reduction in its funding to Powys CAB, but is seeking to pull all of the funding together. You say that this is a matter for the council and you are correct, but, as you have just outlined in previous answers, you as a Welsh Government give money to Powys CAB to deliver services on behalf of the Welsh Government. Should this decision go ahead, CAB offices in Powys will close and therefore they will no longer be in a position to deliver the services that you have commissioned from them, therefore, it is a matter for your Government. In that case, what will you do to ensure that the services that you want to see delivered, and for which you have made funding available, will continue to be delivered in Powys should the council take the decision to cut all funding rather than just look to reduce funding in these straitened times?

Brif Weinidog, y peth anhygoel am weithredoedd Cyngor Sir Powys yw nad yw'n ceisio lleihau ei gyllid i CAB Powys, ond yn ceisio diddymu ei gyllid yn gyfan gwbl. Rydych chi'n dweud mai mater i'r cyngor yw hwn ac rydych chi'n iawn, ond, fel yr ydych chi newydd ei amlinellu mewn atebion blaenorol, rydych chi fel Llywodraeth Cymru yn rhoi arian i CAB Powys i ddarparu gwasanaethau ar ran Llywodraeth Cymru. Os bydd y penderfyniad hwn yn mynd yn ei flaen, bydd swyddfeydd CAB ym Mhowys yn cau ac felly ni fyddant mewn sefyllfa mwyach i ddarparu'r gwasanaethau yr ydych chi wedi eu comisiynu ganddynt, ac felly, mae hwn yn fater i'ch Llywodraeth chi. Os felly, beth fyddwch chi'n ei wneud i sicrhau bod y gwasanaethau yr ydych chi eisiau eu gweld yn cael eu darparu, ac rydych chi wedi gwneud cyllid ar gael ar eu cyfer, yn parhau i gael eu darparu ym Mhowys pe byddai'r cyngor yn gwneud y penderfyniad i dorri'r holl gyllid yn hytrach na dim ond ceisio lleihau cyllid yn yr oes gyfyngol sydd ohoni?

14:14 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

These are matters, of course, that are ultimately for the council, nevertheless, we will continue to work with the independent advice providers' forum to ensure that advice is available. What we cannot do, unfortunately, is fund directly or back-fill cuts that are made by other authorities.

Mae'r rhain yn faterion i'r cyngor yn y pen draw, wrth gwrs, ond, serch hynny, byddwn yn parhau i weithio gyda'r fforwm darparwyr cyngor annibynnol i sicrhau bod cyngor ar gael. Yr hyn na allwn ei wneud, yn anffodus, yw cyllido'n uniongyrchol neu ôl-lenwi toriadau a wneir gan awdurdodau eraill.

## Y Diwydiannau Creadigol

## The Creative Industries

14:14

### Nick Ramsay Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*9. A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu pa gymorth y mae Llywodraeth Cymru yn ei roi i'r diwydiannau creadigol yng Nghymru? OAQ(4)1491(FM)*

*9. Will the First Minister outline what support the Welsh Government is providing to the creative industries in Wales? OAQ(4)1491(FM)*

14:14

### Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Yes. We have awarded over £8 million of funding to the sector since September 2011, creating over 500 new jobs.

Gwnaf. Rydym wedi dyfarnu dros £8 miliwn o gyllid i'r sector ers mis Medi 2011, gan greu dros 500 o swyddi newydd.

14:14

### Nick Ramsay Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, First Minister. As you should be aware, the Confederation of British Industry has called on the UK and Welsh Government to

'build upon existing progress within creative industries with a coherent strategy.'

Given your recently announced proposals for a development bank, which contains, I must say, a striking similarity to some aspects of the Welsh Conservatives' 'Invest Wales' policy, can you tell us now what aspect of the Welsh Conservatives' 'Destination Cymru' policy your Government is planning to nick to try to tilt the playing field more in favour of creative businesses' exports in Wales?

Diolch yn fawr, Brif Weinidog. Fel y dylech fod yn ymwybodol, mae Cydffederasiwn Diwydiant Prydain wedi galw ar Lywodraethau'r DU a Chymru i:

adeiladu ar y cynnydd presennol o fewn diwydiannau creadigol gyda strategaeth gydlynol.

O ystyried eich cynigion ar gyfer banc datblygu a gyhoeddwyd yn ddiweddar, sy'n cynnwys, mae'n rhaid i mi ddweud, tebygrwydd trawiadol i rai agweddau ar bolisi 'Buddsoddi Cymru' Ceidwadwyr Cymru, a allwch chi ddweud wrthym nawr pa agwedd ar bolisi 'Cyrchfan Cymru' Ceidwadwyr Cymru mae eich Llywodraeth yn bwriadu ei dwyn i geisio sicrhau sefyllfa decach sydd fwy o blaid allforion busnesau creadigol yng Nghymru?

14:15

### Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

When it comes to taking policies from others, one of the things that struck us as particularly ironic was the fact that his party came up with this idea of aftercare for businesses in Wales, which bore a striking resemblance to all that we are doing for anchor companies. So, I do not think that we need any lessons in terms of policy development from the party opposite, because it seems to take our policies. One of the things that we will not do, of course, is to implement its cuts.

Wrth sôn am gymryd polisïau oddi ar eraill, un o'r pethau wnaeth ein taro ni yn arbennig o eironig oedd y ffaith i'w blaid feddwl am y syniad hwn o ôl-ofal ar gyfer busnesau yng Nghymru, a oedd yn arbennig o debyg i bopeth yr ydym ni'n ei wneud i gwmnïau angori. Felly, nid wyf yn meddwl bod angen unrhyw wersi arnom gan y blaid gyferbyn o ran datblygu polisi, gan ei bod yn ymddangos ei bod yn cymryd ein polisïau ni. Un o'r pethau na fyddwn yn ei wneud, wrth gwrs, yw gweithredu ei thoriadau.

14:15

### Bethan Jenkins Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Brif Weinidog, ychydig o fisoedd yn ôl, codais y cwestiwn gyda chi fel Llywodraeth o sut gall S4C ymwneud mwy â'r cwricwlwm mewn ysgolion a thrafod materion fel gwefannau newyddion hyper-leol. A ydych chi fel Llywodraeth wedi cael unrhyw drafodaethau gyda S4C ynglŷn â sut y gall hybu mwy o bobl ifanc i ddefnyddio'r iaith Gymraeg tu allan yn y cymunedau ac os byddai rhywbeth fel mwy o gydweithio gyda S4C yn ein hysgolion lleol?

First Minister, a few months ago, I raised with you as a Government the question of how S4C can become more involved in the school curriculum and discuss issues such as hyper-local news sites. Have you as a Government had any discussions with S4C about how it can encourage more young people to use the Welsh language out in the communities and if there was something like greater co-operation between S4C and our local schools?

14:16

### Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Nid wyf i'n bersonol wedi cael unrhyw sgwrs ar hynny, ond ysgrifennaf at yr Aelod gyda mwy o fanylion.

Personally, I have had no discussions on that, but I will write to the Member with more details.

14:16 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Thank you, First Minister.

Diolch yn fawr, Brif Weinidog.

14:16

## Cwestiwn Brys: Avana Bakeries

## Urgent Question: Avana Bakeries

**Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I have accepted an urgent question under Standing Order 12.66. As this plant is in my constituency, the Deputy Presiding Officer has agreed to take the urgent question. I call on Nick Ramsay to ask that question.

Rwyf wedi derbyn cwestiwn brys dan Reol Sefydlog 12.66. Gan fod y gwaith hwn yn fy etholaeth i, mae'r Dirprwy Lywydd wedi cytuno i gymryd y cwestiwn brys. Galwaf ar Nick Ramsay i ofyn y cwestiwn hwnnw.

14:16 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

*A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y bygythiad o golli 650 o swyddi yn Avana Bakeries yn Nhŷ-du? EAQ(4)0371(EST)*

*Will the Minister make a statement on the threat of 650 job losses at Avana Bakeries in Rogerstone? EAQ(4)0371(EST)*

14:16 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

*Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth / The Minister for Economy, Science and Transport*

On Friday, Avana Bakeries announced that it was entering a consultation period. This is obviously a very worrying time for staff and their families, and the Welsh Government is working with the 2 Sisters Food Group to explore every option that could safeguard the jobs at Rogerstone.

Cyhoeddodd Avana Bakeries ddydd Gwener ei fod yn dechrau cyfnod o ymgynghori. Mae hwn yn amlwg yn gyfnod pryderus iawn i aelodau staff a'u teuluoedd, ac mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Grŵp Bwyd 2 Sisters i archwilio pob dewis a allai diogelu'r swyddi yn Nhŷ-du.

14:16 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

May I thank the Minister for that answer? I completely concur that this is deeply distressing news for the 650 employees at Avana. This has been an iconic company in the south Wales area, in Rogerstone, for around 50 years, but the company actually started trading, as I am sure that the Minister knows, in the 1800s, so this is particularly disappointing news. May I ask you, Minister, first, what support are you intending to provide to workers and families whose jobs are threatened in order to help them find alternative employment or training? May I also ask you what contact have you had with Marks and Spencer to see what support it is offering? In 2003, the company closed its Cardiff factory. Was that an early sign, as I believe, that the company may have been having problems? Should the management have striven not to rely so much on one large contract and, more importantly, what advice were you giving it to make sure that it would not head into the choppy waters that it has found itself in? Finally, Presiding Officer, will the Minister commit to ensuring that the Welsh Government is now in regular contact with the company and staff representatives to help minimise any job losses?

A gaf i ddiolch i'r Gweinidog am yr ateb yna? Rwy'n cytuno'n llwyr bod hwn yn newyddion gofidus iawn i'r 650 o weithwyr yn Avana. Mae hwn wedi bod yn gwmni eiconig yn ardal de Cymru, yn Nhŷ-du, ers tua 50 mlynedd, ond dechreuodd y cwmni fasnachu yn y 1800au mewn gwirionedd, fel yr wyf yn siŵr bod y Gweinidog yn gwybod, felly mae'r newyddion hyn yn arbennig o siomedig. A gaf fi ofyn i chi, Weinidog, yn gyntaf, pa gymorth yr ydych chi'n bwriadu ei roi i weithwyr a theuluoedd y mae eu swyddi dan fygythiad er mwyn eu helpu i ddod o hyd i gyflogaeth neu hyfforddiant arall? A gaf fi ofyn i chi hefyd pa gyswllt ydych chi wedi ei gael gyda Marks and Spencer i weld pa gefnogaeth mae'n ei chynnig? Caeodd y cwmni ei ffatri yng Nghaerdydd yn 2003. A oedd hwnnw, fel y credaf, yn arwydd cynnar efallai fod y cwmni wedi bod yn cael problemau? A ddylai'r rheolwyr fod wedi ymdrechu i beidio â dibynnu cymaint ar un contract mawr ac, yn bwysicach, pa gyngor oeddech chi'n ei roi i wneud yn siŵr na fyddai'n mynd i'r dyfroedd dyfnion y mae wedi canfod ei hun ynddynt? Yn olaf, Lywydd, a wnaiff y Gweinidog ymrwymo i sicrhau bod Llywodraeth Cymru mewn cysylltiad rheolaidd bellach â'r cwmni a chynrychiolwyr staff i helpu i sicrhau bod cyn lleied o swyddi â phosibl yn cael eu colli?

14:18 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

There were five questions there, Minister.

Roedd pum cwestiwn yn y fan yna, Weinidog.

14:18 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Welsh Government has always been in regular contact with the company, because it is an anchor company. It is the 2 Sisters Food Group, which is a significant employee in Wales, employing 4,600 individuals. We have ongoing engagement with the senior management where we are looking at new business and employment opportunities, and I can assure the Member that we have a strong relationship there, and that we are as concerned as him and all Members in the Chamber about the potential loss of jobs within this area.

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod mewn cysylltiad rheolaidd â'r cwmni erioed, gan ei fod yn gwmni angori. Grŵp Bwyd 2 Sisters yw hwn, sy'n gyflogwr sylweddol yng Nghymru, gan gyflogi 4,600 o unigolion. Rydym mewn cysylltiad parhaus â'r uwch reolwyr lle'r ydym yn edrych ar gyfleoedd busnes a chyflogaeth newydd, a gallaf sicrhau'r Aelod fod gennym berthynas gref yno, a'n bod mor bryderus ag ef a'r holl Aelodau yn y Siambr am y golled bosibl o swyddi yn y maes hwn.

14:18 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, this is a very serious blow to the area. I know many people who work and have worked at the Avana Bakeries, most of them are women, and I am very disappointed that Marks and Spencer has pulled its Christmas cake contract, which has been the mainstay of these jobs for many years. Marks and Spencer, I can assure you, has certainly lost my custom. This is not the only manufacturer in the locality to have lost a Marks and Spencer contract recently. What mechanisms do you have to alert you prior to announcements that jobs are at risk so that the Welsh Government can intervene when needed and, perhaps, save jobs? Are you able to assist the company in diversifying its customer base to secure a long-term future for Avana? We know that Burberry was heavily criticised here for pulling out of the Rhondda; I see no difference with Marks and Spencer. It expects us to support it, so what discussions do you plan to have with major retailers such as Marks and Spencer about their procurement policies?

Weinidog, mae hon yn ergyd ddifrifol iawn i'r ardal. Rwy'n adnabod llawer o bobl sy'n gweithio ac wedi gweithio yn Avana Bakeries, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn fenywod, ac rwy'n siomedig iawn bod Marks and Spencer wedi diddymu ei gontract cacennau Nadolig, sydd wedi bod yn brif gynheiliad y swyddi hyn ers blynyddoedd lawer. Mae Marks and Spencer, gallaf eich sicrhau, yn sicr wedi fy ngholli i fel cwsmer. Nid hwn yw'r unig weithgynhyrchydd yn yr ardal sydd wedi colli contract Marks and Spencer yn ddiweddar. Pa ddulliau sydd gennych ar gyfer eich rhybuddio bod swyddi mewn perygl cyn y gwneir y cyhoeddiadau, fel y gall Llywodraeth Cymru ymyrryd pan fo angen ac, efallai, achub swyddi? A allwch chi helpu'r cwmni i arallgyfeirio ei sail cwsmeriaid i sicrhau dyfodol hirdymor i Avana? Rydym yn gwybod bod Burberry wedi ei feirniadu'n drwm yma am dynnu allan o'r Rhondda; ni welaf unrhyw wahaniaeth gyda Marks and Spencer. Mae'n disgwyl i ni ei gefnogi ef, felly pa drafodaethau ydych chi'n bwriadu eu cael gyda manwerthwyr mawr fel Marks and Spencer am eu polisïau caffael?

14:19 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that. I concur with you, there are a large number of women workers involved, and women have historically worked within that particular sector.

Diolch i chi am hynna. Rwy'n cytuno â chi, mae nifer fawr o weithwyr benywaidd wedi eu heffeithio, ac mae menywod wedi gweithio o fewn y sector penodol hwnnw yn hanesyddol.

It will certainly be a blow to employment in the area. Sometimes, not necessarily always, when we do have a good relationship with a company such as an anchor company, which is regionally important, we have an indication of where we are going. Then, of course, we are straight in to see what assistance we can give, perhaps prior to any announcements being made. We see whether there is anything on which we can intervene financially, how we can help and assist and whether there is anything we can do in terms of the training agenda. That package is distinctly in place. Like you, I do share concerns about why, sometimes, organisations like Marks and Spencer make what it regards as strictly commercial decisions about where it is going. I will certainly undertake, given that I meet retailers on a regular basis, to raise these matters and report back to the Chamber.

Bydd yn sicr yn ergyd i gyflogaeth yn yr ardal. Weithiau, nid bob amser o reidrwydd, pan fo gennym berthynas dda gyda chwmni o'r fath fel cwmni angori, sy'n bwysig yn rhanbarthol, mae gennym syniad o ble'r ydym yn mynd. Yna, wrth gwrs, rydym ni'n mynd i mewn yn syth i weld pa gymorth y gallwn ni ei roi, efallai cyn i unrhyw gyhoeddiadau gael eu gwneud. Rydym ni'n edrych i weld a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i ymyrryd yn ariannol, sut y gallwn helpu a chynorthwyo ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud o ran yr agenda hyfforddiant. Mae'r pecyn hwnnw wedi ei sefydlu yn amlwg. Fel chithau, rwy'n rhannu pryderon ynghylch pam, weithiau, mae sefydliadau fel Marks and Spencer yn gwneud yr hyn y mae'n ei ystyried yn benderfyniadau cwbl fasnachol am ble mae'n mynd. Byddaf yn sicr yn addo, o gofio fy mod yn cyfarfod â manwerthwyr yn rheolaidd, i godi'r materion hyn ac adrodd yn ôl i'r Siambr.

14:20 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

As the Chamber will know, the equivalent impact on the local economy could be as bad as when Corus had its slim-down in February 2001. If it does come to a point that the factory has to close, it will clearly be a very stern test on the Government's policies on re-training. I would be very grateful for the Minister's undertaking that she has alerted her officials to this possibility and that full engagement will be maintained when necessary.

Fel y bydd y Siambr yn gwybod, gallai'r effaith gyfatebol ar yr economi leol fod mor ddrwg â phan wnaeth Corus dorri ar staff ym mis Chwefror 2001. Os bydd yn dod i bwynt lle mae'n rhaid i'r ffatri gau, bydd yn amlwg yn brawf llym iawn ar bolisïau'r Llywodraeth ar ail-hyfforddi. Byddwn yn ddiolchgar iawn am ymrwymiad y Gweinidog ei bod wedi hysbysu ei swyddogion am y posibilrwydd hwn ac y bydd ymgysylltiad llawn yn cael ei gynnal pan fydd angen.

14:21 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

It is important to recognise that full engagement needs to be retained throughout. I know that the Deputy Minister for Skills and Technology is aware of the obligations that we have in terms of help and assistance to the company about reskilling workers. It is also important to recognise that we are talking about a large anchor company here. It has other sites, premises et cetera in Wales. I am sure that that will be a discussion—if the worst comes to the worst—that will be undertaken with its employees. You can be assured that I will keep Members regularly updated on any developments on this matter.

Mae'n bwysig cydnabod bod angen cynnal ymgysylltiad llawn drwy'r amser. Gwn fod y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg yn ymwybodol o'r rhwymedigaethau sydd gennym o ran bod o help a chymorth i'r cwmni am ailsgilio gweithwyr. Mae hefyd yn bwysig cydnabod ein bod yn sôn am gwmni angori mawr yma. Mae ganddo safleoedd, adeiladau eraill ac ati yng Nghymru. Rwy'n siŵr y bydd honno'n drafodaeth—os daw'r sefyllfa waethaf—a fydd yn cael ei chynnal gyda'i weithwyr. Gallwch fod yn sicr y byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau yn rheolaidd am unrhyw ddatblygiadau ynglŷn â'r mater hwn.

14:21 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, this is clearly a worrying time for all of the people involved and their families. I am sure that all of our thoughts are with them at this moment. It is at a time like this that you perhaps call on the advice of the relevant sector panel in terms of mitigating the impact of this particular kind of announcement. However, on 11 December, the Minister Alun Davies said that the food and farming sector panel actually came to an end last summer. Can you confirm the status of the food and farming sector panel, please? If it is defunct, who is advising the Welsh Government on the impact of this closure on the local supply chain in the Rogerstone area and on strategies to avoid over-reliance on single distributors, as has happened, perhaps, in this case?

Weinidog, mae hwn yn amlwg yn gyfnod pryderus i'r holl bobl dan sylw a'u teuluoedd. Rwy'n siŵr bod pob un o'n meddyliau gyda nhw ar hyn o bryd. Ar adeg fel hon yr ydych chi'n galw efallai ar gyngor y panel sector perthnasol o ran lliniaru effaith y math penodol hwn o gyhoeddiad. Fodd bynnag, ar 11 Rhagfyr, dywedodd y Gweinidog Alun Davies bod panel y sector bwyd a ffermio wedi dod i ben mewn gwirionedd yr haf diwethaf. A allwch chi gadarnhau statws panel y sector bwyd a ffermio, os gwelwch yn dda? Os yw wedi dod i ben, pwy sy'n cynghori Llywodraeth Cymru ar effaith yr achos hwn o gau ar y gadwyn gyflenwi leol yn ardal Tŷ-du ac ar strategaethau i osgoi gorddibyniaeth ar ddosbarthwyr unigol, fel sydd wedi digwydd, efallai, yn yr achos hwn?

14:22 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I wish to indicate to you that I am not responsible for any food and farming sector panels any longer. A closure of a plant is a straightforward industrial issue—in terms of what will happen and what help and assistance we could give if the worst comes to the worst. My officials are in close discussions with Alun Davies about the impact within the food sector in general. We are confident that we are having all of the necessary advice coming through for everyone in respect of this. The important thing to recognise is that it is currently in a consultation period at the moment. We will see what help and assistance we can give through that very difficult period. When it comes out of that period, we are not sure, necessarily, what the outcome will be, but we are there, ready to assist across Government departments, including Alun Davies's department, my department and the education and skills department.

Hoffwn eich hysbysu nad wyf yn gyfrifol am unrhyw baneli'r sector bwyd a ffermio mwyach. Mae cau ffatri yn fater diwydiannol syml—o ran yr hyn a fydd yn digwydd a pha help a chymorth y gallem eu rhoi os daw i'r sefyllfa waethaf. Mae fy swyddogion mewn trafodaethau agos ag Alun Davies am yr effaith o fewn y sector bwyd yn gyffredinol. Rydym yn hyderus ein bod yn cael yr holl gyngor angenrheidiol sy'n cyrraedd pawb yn hyn o beth. Y peth pwysig i'w gydnabod yw mai cyfnod ymgynghori sy'n digwydd ar hyn o bryd. Byddwn yn gweld pa help a chymorth y gallwn eu rhoi yn ystod y cyfnod anodd iawn hwnnw. Pan ddaw'r cyfnod hwnnw i ben, nid ydym yn sicr, o reidrwydd, beth fydd y canlyniad, ond rydym yno, yn barod i gynorthwyo ar draws adrannau'r Llywodraeth, gan gynnwys adran Alun Davies, fy adran i a'r adran addysg a sgiliau.

I want to make the point that, as a Government, we have a good record of intervention in terms of help and assistance when these things occur. It is important today that we recognise that we are talking about this in terms of what will happen in the future. It is the individuals concerned who are really very frightened about what will happen in the future.

Hoffwn wneud y pwynt bod gennym ni, fel Llywodraeth, hanes da o ymyrraeth o ran help a chymorth pan fydd y pethau hyn yn digwydd. Mae'n bwysig heddiw ein bod yn cydnabod ein bod yn siarad am hyn o ran yr hyn a fydd yn digwydd yn y dyfodol. Yr unigolion dan sylw sy'n wirioneddol ofnus am yr hyn a fydd yn digwydd yn y dyfodol.

14:23 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, last Friday was one of the darkest days in the history of Avana Bakeries. Having lived in Newport for 44 years I know a lot of people who work there. That decision was made purely on a commercial basis, which is totally unacceptable. Orders are still there. Someone should step in and make a profit out of the company. It is no good in Wales to have one contract. That company cannot survive much longer.

Weinidog, ddydd Gwener diwethaf oedd un o'r diwrnodau tywyllaf yn hanes Avana Bakeries. Â minnau wedi byw yng Nghasnewydd am 44 mlynedd, rwy'n adnabod llawer o bobl sy'n gweithio yno. Gwnaed y penderfyniad hwnnw ar sail fasnachol yn unig, sy'n gwbl annerbyniol. Mae'r archebion yn parhau i fod ar gael. Dylai rhywun gamu i mewn a gwneud elw allan o'r cwmni. Nid yw cael un contract yn dda i ddim yng Nghymru. Ni all y cwmni hwnnw oroesi am lawer yn hwy.

NATO is coming here within the next few months—

Mae NATO yn dod yma o fewn yr ychydig fisoedd nesaf—

14:24 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am sorry. We are stretching it a little. Can you stick to the—

Mae'n ddrwg gennyf. Rydym ni'n ymestyn pethau braidd. A allwch chi gadw at y—

14:24 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I wish to ask the Minister to work in conjunction with the Wales Office in seeking alternative contracts for Avana Bakeries to keep the jobs in Rogerstone, please?

Hoffwn ofyn i'r Gweinidog i weithio ar y cyd â Swyddfa Cymru i chwilio am gontractau eraill er mwyn i Avana Bakeries gadw'r swyddi yn Nhŷ-du, os gwelwch yn dda?

14:24 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I very much want to keep as much work as possible in Wales, particularly in Rogerstone. We are very much committed to help the company. However, we have to understand that the 2 Sisters Food Group is a commercial company. It is in commercial dialogue with everyone that it undertakes contracts for. This is the capitalist world that we live in; this is the business world that we live in; and the role of Government is to help and assist the workers and hope that we can get further contracts for them. That is the reality of the situation.

Rwy'n sicr eisiau cadw cymaint o waith â phosibl yng Nghymru, yn enwedig yn Nhŷ-du. Rydym wedi ymrwymo'n llwyr i helpu'r cwmni. Fodd bynnag, mae'n rhaid i ni ddeall mai cwmni masnachol yw Grŵp Bwyd 2 Sisters. Mae mewn deialog masnachol gyda phawb y mae'n cyflawni contractau ar eu cyfer. Dyma'r byd cyfalafol yr ydym ni'n byw ynddo; dyma'r byd busnes yr ydym ni'n byw ynddo; a swyddogaeth y Llywodraeth yw helpu a chynorthwyo'r gweithwyr a gobeithio y gallwn gael contractau eraill ar eu cyfer. Dyna wirionedd y sefyllfa.

14:24

## Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## Business Statement and Announcement

Senedd.tv Fideo Video

**Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Local Government and Government Business*

There are no changes to report to this week's business. Business for the next three weeks is as shown on the business statement and announcement, which can be found among the agenda papers, which are available to Members electronically.

Nid oes unrhyw newidiadau i'w hadrodd i fusnes yr wythnos hon. Mae'r busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf fel y'i dangosir yn y datganiad a chyhoeddiad busnes, y gellir ei weld ymhlith papurau'r agenda sydd ar gael i'r Aelodau'n electronig.

14:25 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I would like to call for a statement from the Minister for Health and Social Services about today's announcement of an extra £50 million for the Welsh NHS. I note that the NHS in Wales is now limping from one bail-out to the next. This is the second within a 12-month period, after additional resources were found, of course, after the review of finances last year. It is quite clear that this £50 million was unplanned. It is very welcome indeed, of course; my party would not have been cutting the NHS budget in the way in which your party has done over these past few years. However, we need to know precisely how this money is to be spent, what the purpose of the resources is, and what the implications are for each of the individual local health boards. It is quite clear, from my reading of the figures, in terms of the financial gaps for some of the health boards, that some are under more financial pressure than others. I want to be certain that the money goes to those health boards that actually need it.

Weinidog, hoffwn alw am ddatganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynglŷn â chyhoeddiad heddiw o £50 miliwn ychwanegol ar gyfer y GIG yng Nghymru. Nodaf fod y GIG yng Nghymru yn cropian o un taliad achub croen i'r nesaf. Dyma'r ail o fewn cyfnod o 12 mis, ar ôl canfod adnoddau ychwanegol, wrth gwrs, yn dilyn yr adolygiad o gyllid y llynedd. Mae'n gwbl eglur nad oedd yr £50 miliwn hwn wedi ei gynllunio. Mae i'w groesawu'n fawr, wrth gwrs; ni fyddai fy mhlaid wedi bod yn torri cyllideb y GIG yn y ffordd y mae eich plaid chi wedi ei wneud yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, mae angen i ni wybod yn union sut y bydd yr arian hwn yn cael ei wario, beth yw pwrpas yr adnoddau, a beth yw'r goblygiadau i bob un o'r byrddau iechyd lleol unigol. Mae'n gwbl eglur, o ddarllen y ffigurau, o ran y bylchau ariannol yn rhai o'r byrddau iechyd, bod rhai dan fwy o bwysau ariannol nag eraill. Rwyf eisiau bod yn sicr bod yr arian yn mynd i'r byrddau iechyd hynny sydd wir ei angen.

14:26 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am very pleased that you welcome the additional £50 million, and we do know where you would make your cuts. There is a scrutiny process for the Assembly, which will now take place. There is a full debate on 11 March on the supplementary budget, and the Minister for Finance will be attending the Finance Committee on 19 February.

Rwy'n falch iawn eich bod yn croesawu'r £50 miliwn ychwanegol, ac rydym yn gwybod lle y byddech yn gwneud eich toriadau. Ceir proses graffu ar gyfer y Cynulliad, a fydd yn digwydd nawr. Ceir dadl lawn ar y gyllideb atodol ar 11 Mawrth, a bydd y Gweinidog Cyllid yn bresennol yn y Pwyllgor Cyllid ar 19 Chwefror.

14:26 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am really pleased to be hosting an event tonight to mark Rare Disease Day. I welcome the fact that the Welsh Government is working with the NHS and the voluntary sector to develop an implementation plan, which will deliver real improvements to people living with rare diseases. You will know that this is something that I called for when I did my short debate on the subject some time ago. I would welcome a statement updating us on that work.

Rwy'n falch iawn o fod yn cynnal digwyddiad heno i nodi Diwrnod Clefydau Anghyffredin. Rwy'n croesawu'r ffaith fod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r GIG a'r sector gwirfoddol i ddatblygu cynllun gweithredu, a fydd yn sicrhau gwelliannau gwirioneddol i bobl sy'n byw gyda chlefydau anghyffredin. Byddwch yn gwybod bod hyn yn rhywbeth y galwais amdano pan gynhaliais fy nadl fer ar y pwnc beth amser yn ôl. Byddwn yn croesawu datganiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am y gwaith hwnnw.

Secondly, today is Safer Internet Day, so I would welcome an update from the Welsh Government on how it is protecting children online through education, and by ensuring that teachers, parents and those who work with children are resourced with the information and resources that they need to also protect children online.

Yn ail, mae'n Ddiwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel heddiw, felly byddwn yn croesawu'r wybodaeth ddiweddaraf gan Lywodraeth Cymru ynghylch sut y mae'n diogelu plant ar-lein trwy addysg, a thrwy sicrhau bod athrawon, rhieni a'r rhai sy'n gweithio gyda phlant yn cael y wybodaeth a'r adnoddau sydd eu hangen arnynt i ddiogelu plant ar-lein hefyd.

14:27 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank Rebecca Evans for those two points. I know those are two areas that she is very passionate about. The United Kingdom rare diseases strategy was published last autumn by the Welsh Government and the other UK administrations, and our response will be issued in the near future. That response will address the commitments that are in the strategy.

Diolchaf i Rebecca Evans am y ddau bwynt yna. Rwy'n gwybod bod y rheini'n ddau faes sy'n agos iawn at ei chalon. Cyhoeddwyd strategaeth clefydau anghyffredin y Deyrnas Unedig yr hydref diwethaf gan Lywodraeth Cymru a gweinyddiaethau eraill y DU, a bydd ein hymateb yn cael ei gyhoeddi yn y dyfodol agos. Bydd yr ymateb hwnnw yn mynd i'r afael â'r ymrwymiadau sydd yn y strategaeth.

In relation to Safer Internet Day, which, as you say, is today, we have promoted it to all schools in Wales, and we have ensured that they have had resources available in Welsh. We have organised several events in colleges and community settings in other schools in conjunction with organisations, including Voices from Care, Communities First partners and organisations supporting deaf children. The Deputy Minister for Skills and Technology has joined one of the Safer Internet Day events this morning, and he has recorded a video supporting Safer Internet Day, which is being published. I mentioned that we have ensured that bilingual school packs are available, and we are actually the first country in the UK to require both primary and secondary schools to teach internet safety.

O ran Diwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel, sydd, fel y dywedwch, yn digwydd heddiw, rydym wedi ei hyrwyddo i bob ysgol yng Nghymru, ac rydym wedi sicrhau bod adnoddau ar gael iddynt yn y Gymraeg. Rydym wedi trefnu nifer o ddigwyddiadau mewn colegau a lleoliadau cymunedol mewn ysgolion eraill ar y cyd â sefydliadau, gan gynnwys Voices from Care, partneriaid Cymunedau'n Gyntaf a sefydliadau sy'n cefnogi plant byddar. Mae'r Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg wedi ymuno ag un o ddigwyddiadau Diwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel y bore yma, ac mae wedi recordio fideo yn cefnogi Diwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel, sy'n cael ei gyhoeddi. Soniais ein bod wedi sicrhau bod pecynnau ysgol dwyieithog ar gael, ac, mewn gwirionedd, ni yw'r wlad gyntaf yn y DU i'w gwneud yn ofynnol i ysgolion cynradd ac uwchradd addysgu diogelwch ar y rhyngrwyd.

14:28

## Simon Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Weinidog, tua phythefnos yn ôl, gofynnais am ddadl yn amser y Llywodraeth ynglŷn â gwaith y consortia addysg ac ati. Mae'n siŵr bod hynny dal i fod o dan ystyriaeth y tu mewn i'r Llywodraeth, ond, os gaf i ddweud, mae dau beth wedi digwydd ers hynny sy'n ei wneud yn bwysicach, rwy'n meddwl, ein bod yn cynnal y ddadl hynny cyn diwedd mis Mawrth. Yn gyntaf oll, rydym yn gwybod yn awr bod un awdurdod addysg yng Nghymru sy'n ardderchog; Ceredigion yw hwnnw, a llongyfarchiadau mawr i Ellen ap Gwynn, arweinydd Cyngor Sir Ceredigion, am sicrhau'r cyrhaeddiad hwnnw, a phob cynghorydd sydd wedi chwarae ei ran yn ogystal—a'u swyddogion, yn wir. Un o'r pethau sydd wedi dod allan o adroddiad Estyn yw pa mor bwysig yw'r ffaith bod Ceredigion yn dilyn hynt a helynt pob plentyn yn unigol, ac yn gwybod sut mae'r plant yn cael eu hadnabod yn y system honno. Mae hynny'n wers i Gymru gyfan, am wn i.

Minister, about a fortnight ago, I asked for a debate in Government time on the work of the education consortia and so on. I am sure that that is still under consideration within the Government, but, if I may say, two things have happened since then that makes it more important, I think, that we hold that debate before the end of March. First of all, we now know that there is one education authority in Wales that is excellent; that authority is Ceredigion, and many congratulations to Ellen ap Gwynn, the leader of Ceredigion County Council, for securing that achievement, and every councillor has played his or her part also—and their officers, of course. One of the things that emerged from the Estyn report is the importance of the fact that Ceredigion follows the story of each pupil individually, and knows how children are identified within that system. That is a lesson to be learned across Wales, I would suppose.

Yr ail beth sydd wedi digwydd, wrth gwrs, yw bod Her Ysgolion Cymru wedi cael ei lansio gan y Llywodraeth trwy ddatganiad ysgrifenedig, yn hytrach na thrwy ddatganiad llafar, a fyddai'n ein galluogi i ofyn rhai cwestiynau pwysig, megis cwestiynau ynghylch ymwneud Her Ysgolion Cymru â gwaith y consortia rhanbarthol, a hefyd, yn syml iawn, sut mae dewis y 40 ysgolion hyn a fydd yn cymryd rhan yn Her Ysgolion Cymru a beth fydd gwersi Her Cymru ar gyfer ysgolion drwy Gymru gyfan.

The second thing that has happened, of course, is that Schools Challenge Cymru was launched by the Government via a written statement, rather than via an oral statement, which would have allowed us to ask some important questions, such as questions regarding the relationship of School Challenge Cymru with the regional consortia, and also, quite simply, how the 40 schools that are to participate in School Challenge Cymru will be selected and what will the lessons be for schools across Wales.

Felly, mae gennym yng Nghymru awdurdod sy'n gwneud yn ardderchog, ac mae gennym ysgolion sy'n perfformio'n wael. Mae gennym nifer o brosesau sy'n ymwneud â hynny. Mae angen dod â phopeth ynghyd mewn un ddadl fel ein bod yn gallu trafod y pethau hyn yn amser y Llywodraeth.

So, we have in Wales an authority that is performing excellently, and we have schools that are performing poorly. We have a number of processes related to that. We need to bring everything together in one debate so that we can discuss these issues in Government time.

14:29

## Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

We are very pleased to see the excellent report, and I think that we should all congratulate the teachers, schools and Ceredigion local authority. What it shows is best practice, and it is really important that we look at how that best practice can be shared because we would certainly want to see more local authorities in the position that Ceredigion is in.

Rydym yn falch iawn o weld yr adroddiad rhagorol, ac rwy'n credu y dylai pob un ohonom ni longyfarch athrawon, ysgolion ac awdurdod lleol Ceredigion. Yr hyn y mae'n ei ddangos yw arfer gorau, ac mae'n bwysig iawn ein bod yn ystyried sut y gellir rhannu'r arfer gorau hwnnw gan y byddem yn sicr yn dymuno gweld mwy o awdurdodau lleol yn y sefyllfa y mae Ceredigion ynddi.

You mentioned Schools Challenge Cymru. The Minister for Education and Skills has issued a written statement, and I am sure that, as we go through the next month and bring all those things together, we can have a statement in due course.

Soniasoch am Her Ysgolion Cymru. Mae'r Gweinidog Addysg a Sgiliau wedi cyhoeddi datganiad ysgrifenedig, ac rwy'n siŵr, wrth i ni fynd drwy'r mis nesaf a dod â'r holl bethau hynny at ei gilydd, y gallwn gael datganiad maes o law.

14:30

## Paul Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I would like to once again ask for an urgent statement from the Minister for Health and Social Services regarding future services at Withybush hospital. Last week, the First Minister claimed during First Minister's questions that the decision to close the special care baby unit by the Welsh Government at the hospital has the support of all doctors. However, there is now evidence that GPs in Pembrokeshire are not only against closing the special care baby unit, but that they have recently expressed their concerns in writing to the local health board, and indeed, to the Minister for health. As you know, Minister, since this decision was made, the local health board has also decided to downgrade the paediatrics department, which will, undoubtedly, have a knock-on effect on other services at the hospital.

Hoffwn ofyn unwaith eto ofyn am ddatganiad brys gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch gwasanaethau yn ysbyty Llwynhelyg yn y dyfodol. Yr wythnos diwethaf, honnodd y Prif Weinidog yn ystod cwestiynau i'r Prif Weinidog bod pob meddyg yn cefnogi penderfyniad Llywodraeth Cymru i gau'r uned gofal arbennig i fabanod yn yr ysbyty. Fodd bynnag, ceir tystiolaeth bellach nid yn unig bod ymarferwyr cyffredinol yn Sir Benfro yn gwrthwynebu cau'r uned gofal arbennig i fabanod, ond eu bod wedi mynegi eu pryderon yn ysgrifenedig yn ddiweddar i'r bwrdd iechyd lleol, ac yn wir, i'r Gweinidog iechyd. Fel y gwyddoch, Weinidog, ers gwneud y penderfyniad hwn, mae'r bwrdd iechyd lleol wedi penderfynu hefyd i israddio'r adran pediatreg, a fydd, heb os, yn cael effaith ddilynol ar wasanaethau eraill yn yr ysbyty.

Given that these letters have now come to light, and in view of these developments, it is even more important that the Minister for health brings a statement on this issue to the Chamber to clarify the position, especially given the First Minister's claims that these decisions have the full support of clinicians. I urge you therefore to impress upon the Minister for health to provide an oral statement as soon as possible.

O ystyried bod y llythyrau hyn wedi dod i'r amlwg bellach, ac o ystyried y datblygiadau hyn, mae'n bwysicach fyth fod y Gweinidog iechyd yn cyflwyno datganiad ar y mater hwn i'r Siambr i egluro'r sefyllfa, yn enwedig o ystyried honiadau'r Prif Weinidog bod clinigwyr yn cefnogi'r penderfyniadau hyn yn llawn. Rwy'n eich annog, felly, i bwyso ar y Gweinidog iechyd i ddarparu datganiad llafar cyn gynted â phosibl.

14:31

## Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

My recollection, and the First Minister's recollection, is that that is not what he said. He said 'clinical evidence' supported it, so we can check the Record on that. The Minister for health is here; we have had many debates around Hywel Dda health board and I do not see the need to have another one in Government time.

Yn ôl yr hyn rwy'n ei gofio, ac y mae'r Prif Weinidog yn ei gofio, nid dyna'r hyn a ddywedodd. Dywedodd bod 'tystiolaeth glinigol' yn ei gefnogi, felly gallwn edrych ar y Cofnod i wirio hynny. Mae'r Gweinidog iechyd yma; rydym ni wedi cael llawer o ddadleuon yn ymwneud â bwrdd iechyd Hywel Dda ac nid wyf yn gweld bod angen cael un arall yn amser y Llywodraeth.

14:32

## Angela Burns Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Minister, I want to raise the issue of Schools Challenge Cymru. It is very welcome to see the £20 million come into the schools budget. However, there are a significant number of questions. You said to Simon Thomas that you would no doubt bring forward a debate in due course. Can I urge upon you to bring it forward far more quickly than that? Education, in itself, has so many initiatives going on at the moment, and Kirsty Williams, leader of the Welsh Liberal Democrats, very ably read them out during First Minister's question time. We can now add on these latest initiatives. We need to see how they all work together, and to understand the impact on teachers, on their time and on the profession, as well as the impact on students and the regional consortia. It is really important that we have a chance to debate this.

Weinidog, hoffwn godi mater Her Ysgolion Cymru. Mae'n braf iawn gweld yr £20 miliwn yn dod i mewn i'r gyllideb ysgolion. Fodd bynnag, ceir nifer sylweddol o gwestiynau. Dywedasoch wrth Simon Thomas nad oes amheuaeth y byddwch yn cyflwyno dadl maes o law. A gaf fi eich annog i'w chyflwyno'n llawer cynt na hynny? Ceir cymaint o fentrau ym maes Addysg, ynddo'i hun, ar hyn o bryd, ac fe'u darllenwyd yn fedrus iawn gan Kirsty Williams, arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, yn ystod amser cwestiynau i'r Prif Weinidog. Gallwn ychwanegu'r mentrau diweddaraf hyn nawr. Mae angen i ni weld sut y maen nhw i gyd yn gweithio gyda'i gilydd, ac i ddeall yr effaith ar athrawon, ar eu hamser ac ar y proffesiwn, yn ogystal â'r effaith ar fyfyrwyr a'r consortia rhanbarthol. Mae'n bwysig iawn ein bod yn cael cyfle i drafod hyn.

I would also like to ask for a second statement from the Minister for Education and Skills. I would be very happy for a written or oral statement on the progression of the independent learning plans. One of the things that really marked Ceredigion out as an excellent authority was its ability to pinpoint the needs of every single individual child. We have talked about individual learning plans for a great many months, if not years, and yet, in a number of schools and a lot of authorities, there is still this inability to track an individual's progress. Statementing has been replaced and is on hold, but we need to have a way forward, and I would be grateful for an update from the Minister.

Hoffwn ofyn hefyd am ail ddatganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau. Byddwn yn hapus iawn o gael datganiad ysgrifenedig neu lafar ar gynnydd y cynlluniau dysgu annibynnol. Un o'r pethau a nododd Ceredigion fel awdurdod rhagorol oedd ei allu i nodi anghenion pob un plentyn unigol. Rydym ni wedi sôn am gynlluniau dysgu unigol am fisoedd lawer, os nad blynyddoedd, ac eto, mewn nifer o ysgolion a llawer o awdurdodau, ceir yr analllu hwn i olrhain cynnydd unigolyn o hyd. Mae datganiadau wedi eu disodli ac wedi eu gohirio, ond mae angen i ni gael ffordd ymlaen, a byddwn yn ddiolchgar am y wybodaeth ddiweddaraf gan y Gweinidog.

14:33

## Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for those two points. As you say, Schools Challenge Cymru is a £20-million-a-year package of support that we want to boost the performance of up to 40 underperforming secondary schools in Wales. So, it is very good to see that extra cash coming in, and I am sure the Minister is looking at how all the initiatives fit in.

Diolch i chi am y ddau bwynt yna. Fel y dywedwch, mae Her Ysgolion Cymru yn becyn o gefnogaeth gwerth £20 miliwn y flwyddyn yr ydym yn dymuno iddo roi hwb i berfformiad hyd at 40 o ysgolion uwchradd sy'n tanberfformio yng Nghymru. Felly, mae'n dda iawn gweld bod arian ychwanegol yn dod i mewn, ac rwy'n siŵr bod y Gweinidog yn ystyried sut mae'r holl fentrau yn gweddu i'r sefyllfa.

In relation to the progression of independent learning plans, that is the thing that jumped out in Ceredigion's excellent report. Again, it is about that best practice and why other local authorities are not picking up on that. I will certainly have discussions with the Minister for Education and Skills about this sharing of best practice that I have been focusing on with local authorities.

O ran cynnydd cynlluniau dysgu annibynnol, dyna'r hyn sydd fwyaf amlwg yn adroddiad ardderchog Ceredigion. Unwaith eto, mae'n ymwneud â'r arfer gorau hwnnw a pham nad yw awdurdodau lleol eraill yn deall hynny. Byddaf yn sicr yn cael trafodaethau gyda'r Gweinidog Addysg a Sgiliau am y broses hon o rannu arfer gorau rwyf wedi bod yn canolbwyntio arni gydag awdurdodau lleol.

14:34

## Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Leader of the house, is it possible to have two statements, the first of which in relation to the promotion and marketing of Wales abroad? I appreciate that this Government has taken significant steps on that front in terms of allocating additional resources, but is it possible to have a statement on exactly how much resource is put into that, the staffing contingent across the world and the general package that is on offer to the world to come and invest in Wales, given that the Government is now two and a half years in? As I say, I acknowledge that significant progress has been made, but I am unaware of what the overall movement has been from the Welsh Government.

Arweinydd y tŷ, a yw'n bosibl cael dau ddatganiad, y cyntaf o'r rhain ar hyrwyddo a marchnata Cymru dramor? Rwy'n sylweddoli bod y Llywodraeth hon wedi cymryd camau sylweddol yn hynny o beth o ran neilltuo adnoddau ychwanegol, ond a yw'n bosibl cael datganiad ar faint yn union o adnoddau sy'n cael eu neilltuo i hynny, y fintai staffio ar draws y byd a'r pecyn cyffredinol a gynigir i'r byd i ddod i fuddsoddi yng Nghymru, o gofio fod y Llywodraeth ddwy flynedd a hanner i mewn i'r cynllun bellach? Fel rwy'n dweud, rwy'n cydnabod bod cynnydd sylweddol wedi ei wneud, ond nid wyf yn ymwybodol o'r symudiad cyffredinol gan Lywodraeth Cymru.

Secondly, could we have a statement from the Minister for Health and Social Services? I appreciate the First Minister is not prepared to consider a Keogh-style inquiry, but, in a number of our district general hospitals, inquiries are being undertaken by the various health boards to look into failures of care. Could we have a statement from the Minister to indicate how the Welsh Government is participating in any of those inquiries, and how it will take forward any recommendations that might come from those inquiries, because, obviously, they have been dealt with, regrettably, on an individual-hospital basis, rather than on a national basis, as we would like to see.

Yn ail, a allem ni gael datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol? Rwy'n gwerthfawrogi nad yw'r Prif Weinidog yn barod i ystyried ymchwiliad o fath Keogh, ond, yn nifer o'n hysbytai cyffredinol dosbarth, mae ymchwiliadau'n cael eu cynnal gan y gwahanol fyrddau iechyd i ymchwilio i fethiannau gofal. A allem ni gael datganiad gan y Gweinidog i nodi sut y mae Llywodraeth Cymru yn cymryd rhan mewn unrhyw un o'r ymholiadau hynny, a sut y bydd yn bwrw ymlaen ag unrhyw argymhellion a allai ddod o'r ymchwiliadau hynny, oherwydd, yn amlwg, ymdriniwyd â nhw, yn anffodus, ar sail ysbytai unigol, yn hytrach nag ar sail genedlaethol, fel yr hoffem ei weld.

14:35

## Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you. The Minister for Economy, Science and Transport and, indeed, the First Minister, do a great deal to promote Wales abroad. The Minister will bring a statement forward on that issue.

Diolch yn fawr. Mae Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ac, yn wir, y Prif Weinidog, yn gwneud llawer i hyrwyddo Cymru dramor. Bydd y Gweinidog yn cyflwyno datganiad ar y mater hwnnw.

You are quite right to say that there are several reviews going on within certain hospitals in Wales at the moment. I think that it is important that they take their course, and that we have a look at the recommendations that come through.

Rydych chi yn llygad eich lle i ddweud bod nifer o adolygiadau yn cael eu cynnal mewn ysbytai penodol yng Nghymru ar hyn o bryd. Rwy'n meddwl ei bod yn bwysig eu bod yn cael eu cwblhau, a'n bod yn cael golwg ar yr argymhellion a wneir.

## Bil Drafft Cymru

## The Draft Wales Bill

*Detholwyd y gwelliant canlynol: gwelliant 1 yn enw Elin Jones.*

*The following amendment has been selected: amendment 1 in the name of Elin Jones.*

Cynnig NDM5426 Lesley Griffiths

Motion NDM5426 Lesley Griffiths

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

Yn croesawu cyhoeddi Bil Cymru drafft gan Lywodraeth y DU.

Welcomes the publication of a draft Wales Bill by the UK Government.

14:35

### Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Cynigiaf y cynnig.

I move the motion.

Rwyf yn croesawu'n fawr iawn y cyfle i drafod drafft o Fil Cymru, sydd yn agor, wrth gwrs, y bennod nesaf yn ein stori ddatganoli ni yma yn y wlad hon.

I very much welcome the opportunity to discuss the draft Wales Bill, which, of course, opens the next chapter in the story of devolution in Wales.

The draft Bill covers a number of important issues, but, in particular, I am pleased to see that it provides the vehicle for implementing many of the financial reforms that were recommended by the Silk commission, including the devolution of some taxes and new borrowing powers. I believe that it represents a significant step forward, not just for this Assembly, but for this nation. It is something that we all have called for, and I believe that we can take some satisfaction from seeing it approach fruition. Llywydd, I very much hope that we can maintain the consensus that we have shown in this Chamber to date by supporting the motion before us this afternoon.

Mae'r Bil drafft yn cynnwys nifer o faterion pwysig, ond, yn benodol, rwyf yn falch o weld ei fod yn darparu cyfrwng i weithredu llawer o'r diwygiadau ariannol a argymhellwyd gan gomisiwn Silk, gan gynnwys datganoli rhai trethi a phwerau benthyca newydd. Rwyf yn credu ei fod yn gam arwyddocaol ymlaen, nid yn unig i'r Cynulliad hwn, ond i'r genedl hon. Mae'n rhywbeth yr ydym i gyd wedi galw amdano, a chredaf y gallwn deimlo cryn foddhad o'i weld yn agosáu at ddwyn ffrwyth. Lywydd, rwyf yn gobeithio'n fawr y gallwn gadw'r consensws yr ydym wedi'i ddangos yn y Siambr hon hyd yma drwy gefnogi'r cynnig sydd ger ein bron y prynhawn yma.

It is right to say that, since the first Silk report was published, way back in 2012, I have argued strongly for its implementation in its entirety—nothing more and nothing less. Silk produced a comprehensive and well-argued report, supported by all parties, that provides a strong basis for lasting reform, and it should, in my view, be implemented in full. Nevertheless, I have been pleased to see the progress that has been made by the UK Government in the last few months. There is still a long way to go if we are to see the legislation passed during this Parliament, but Westminster is at last making headway. I emphasised to the Prime Minister at the last joint ministerial council, in strong terms, that it was important that we saw progress on this matter, and I am glad that progress is now ongoing.

Mae'n wir dweud, ers cyhoeddi adroddiad cyntaf Silk, yn ôl yn 2012, fy mod wedi dadlau'n gryf o blaid ei weithredu yn ei gyfanrwydd—dim mwy a dim llai. Cynhyrchodd Silk adroddiad cynhwysfawr ac ynddo ddadleuon da, a gafodd gefnogaeth gan bob plaid, sy'n rhoi sylfaen gadarn ar gyfer diwygio parhaol, ac yn fy marn i, dylid ei roi ar waith yn llawn. Serch hynny, rwyf yn falch o weld y cynnydd a wnaethpwyd gan Lywodraeth y DU yn ystod y misoedd diwethaf. Mae llawer o ffordd i fynd o hyd os ydym am weld y ddeddfwriaeth yn cael ei phasio yn ystod y Senedd hon, ond mae San Steffan yn symud ymlaen o'r diwedd. Pwysleisiais yn gryf wrth Brif Weinidog y DU yng nghyd gyngor diwethaf y Gweinidogion ei bod yn bwysig ein bod yn gweld cynnydd ar y mater hwn, ac rwyf yn falch fod cynnydd yn awr yn digwydd.

I know that businesses in Wales have called for the devolution of new tax powers over land and property taxation. That will give us the opportunity to develop a replacement to the current UK stamp duty land tax that better meets the needs of house builders, house sellers and house buyers in Wales. We will also see landfill tax devolved, and the power to develop new taxes, subject to the UK Government's agreement.

Gwn fod busnesau yng Nghymru wedi galw am ddatganoli pwerau treth newydd dros drethiant tir ac eiddo. Bydd hynny'n rhoi cyfle inni i ddatblygu rhywbeth i gymryd lle treth dir treth stamp bresennol y DU i ddiwallu anghenion adeiladwyr tai, gwerthwyr tai a phrynwyr tai yng Nghymru yn well. Caiff y dreth tirlenwi ei datganoli hefyd, ynghyd â'r grym i ddatblygu trethi newydd, a bwrw y bydd Llywodraeth y DU yn cytuno.

Alongside the devolution of these taxes, for the first time, the Welsh Government will be able to borrow to invest in infrastructure, giving Wales parity—at least in terms of principle—with Northern Ireland and Scotland. Of course, borrowing is not free—it has to be repaid with interest. However, this would provide us with an important new policy lever that we can use responsibly, alongside our existing capital budget and our innovative funding schemes, which are under development. The borrowing ceiling that is included in the draft Bill—£500 million—is a start, although it is not as high as we would want it to be. To pick up a point that the Silk commission raised, I believe that Wales's relatively low private finance initiative debts—which are significantly lower than those of Scotland—mean that we could comfortably handle a higher borrowing commitment, and that should provide reasonable justification for Wales being given a higher ceiling.

Ochr yn ochr â datganoli'r trethi hyn, am y tro cyntaf, bydd Llywodraeth Cymru'n gallu benthyca er mwyn buddsoddi mewn seilwaith, gan roi cydraddoldeb i Gymru—o leiaf mewn egwyddor—â Gogledd Iwerddon a'r Alban. Wrth gwrs, nid yw benthyca'n rhywbeth sy'n rhad ac am ddim—rhaid ei ad-dalu gyda llog. Fodd bynnag, byddai hyn yn rhoi ysgogiad polisi newydd pwysig inni y gallwn ei ddefnyddio'n gyfrifol, ochr yn ochr â'n cyllideb gyfalaf bresennol a'n cynlluniau ariannu arloesol, sy'n cael eu datblygu. Mae'r terfyn benthyca sydd wedi'i gynnwys yn y Bil drafft—£500 miliwn—yn fan cychwyn, er nad yw mor uchel ag yr hoffem iddo fod. A sôn am bwynt a godwyd gan gomisiwn Silk, credaf fod dyledion mentrau cyllid preifat cymharol isel Cymru—sy'n sylweddol is na rhai'r Alban—yn golygu y gallem ymdopi'n hawdd ag ymrwymiad benthyca uwch, a dylai hynny fod yn gyfiawnhad rhesymol dros roi terfyn uwch i Gymru.

There are some other areas where the draft Bill could be improved. Two key Silk recommendations could, and, I would argue, should have been included: air passenger duty and the ability to independently vary income tax rates. Their omission is a missed opportunity, and I again urge the UK Government to reconsider these matters. There is a practical case for devolving air passenger duty, starting with the direct long-haul rate that is proposed by Silk, and that has already been devolved to Northern Ireland in part. That is a tax that would fit well with our devolved responsibilities, and it currently raises only modest sums in Wales. I believe that it could be devolved to Wales without undermining the UK tax base as a result.

Gellid gwella'r Bil drafft mewn rhai meysydd eraill. Gellid bod wedi cynnwys dau o argymhellion allweddol Silk, a byddwn i'n dadlau y dylid bod wedi eu cynnwys: toll teithwyr awyr a'r gallu i amrywio cyfraddau treth incwm yn annibynnol. Rydym wedi colli cyfle drwy eu hepgor, ac rwyf yn annog Llywodraeth y DU unwaith eto i ailystyried y materion hyn. Mae achos ymarferol dros ddatganoli toll teithwyr awyr, gan ddechrau â'r gyfradd pellter hir uniongyrchol a gynigir gan Silk, ac sydd eisoes wedi ei datganoli i Ogledd Iwerddon yn rhannol. Mae honno'n dreth a fyddai'n cyd-fynd yn dda â'n cyfrifoldebau datganoledig, ac ar hyn o bryd dim ond symiau cymedrol y mae'n eu codi yng Nghymru. Credaf y gellid ei datganoli i Gymru heb danseilio sylfaen dreth y DU o ganlyniad.

However, the issue in the draft Bill that seems to have generated the most attention is the form of income tax devolution that is being offered—the lockstep—and, turning to the amendment, I can say that we on this side of the Chamber will be supporting it. All the party leaders in this Chamber have drawn attention to the limitations of the lockstep, not least in their evidence to the Welsh Affairs Committee. I would suggest that the balance of opinion seems to be very heavily supportive of the view taken in this Chamber. Let us be clear, the lockstep is a long way short of what the commission considered would best suit the needs of Wales. There are good reasons why Silk, and the Holtham commission beforehand, concluded that binding the rates together is not right for Wales. The inability to move one rate without having to move all the others by the same amount at the same time is a significant restraint and ties the hands of the Welsh Government.

Fodd bynnag, y mater yn y Bil drafft sydd fel petai wedi ennyn y sylw mwyaf yw'r math o ddatganoli treth incwm sy'n cael ei gynnig—y cam clo—ac, a throi at y gwelliant, gallaf ddweud y byddwn ni ar yr ochr hon i'r Siambr o'i blaid. Mae arweinwyr pob plaid yn y Siambr hon wedi tynnu sylw at gyfyngiadau'r cam clo, yn enwedig yn eu tystiolaeth i'r Pwyllgor Materion Cymreig. Byddwn yn awgrymu ei bod yn ymddangos bod y farn yn drwm iawn o blaid y safbwynt a gymerwyd yn y Siambr hon. Gadewch inni fod yn glir, mae'r cam clo'n bell oddi wrth yr hyn yr oedd y comisiwn yn credu fyddai fwyaf addas i anghenion Cymru. Mae rhesymau da pam y daeth Silk, a chomisiwn Holtham cyn hynny, i'r casgliad nad yw rhwymo'r cyfraddau at ei gilydd yn iawn i Gymru. Mae methu â symud un gyfradd heb orfod symud pob un arall yr un faint ar yr un pryd yn gyfyngiad sylweddol ac mae'n clymu dwylo Llywodraeth Cymru.

The UK Government's argument in favour of the lockstep is that it preserves the degree of progressivity. However, of course, it does not. At present, the basic rate is 20p and the higher is 40p, which is double. If the Welsh Government was to add a penny to both rates under the lockstep arrangements, they would then be 21p and 41p, which is no longer double; that is simple arithmetic. So, that coherence of progressivity, as the UK Government would put it, would not exist in any event, even with the model it proposes.

Dadl Llywodraeth y DU o blaid y cam clo yw ei fod yn cadw elfen o gynyddoldeb. Fodd bynnag, wrth gwrs, nid yw'n gwneud hynny. Ar hyn o bryd, 20c yw'r gyfradd sylfaenol a 40c yw'r gyfradd uwch, sy'n ddwbl. Pe bai Llywodraeth Cymru'n ychwanegu ceiniog at y ddwy gyfradd o dan drefniadau'r cam clo, byddent wedyn yn 21c a 41c, sydd ddim yn ddwbl mwyach; rhifyddeg syml yw hynny. Felly, ni fyddai cysondeb y cynyddoldeb hwnnw, fel y byddai Llywodraeth y DU yn ei alw, yn bodoli beth bynnag, hyd yn oed â'r model y mae'n ei gynnig.

The Secretary of State seems to have made up his mind about lowering income tax rates by 1% in Wales. Under the lockstep, that would reduce the budget by £200 million per year. That is an easy decision to reach when you do not have to decide where to make the cuts in public services to pay for it. I know that that is not the view held by others of his party in this Chamber, including the leader of the opposition, whose view is closer to mine.

Ymddengys fod yr Ysgrifennydd Gwladol wedi gwneud ei benderfyniad am ostwng cyfraddau treth incwm 1% yng Nghymru. O dan drefn y cam clo, byddai hynny'n lleihau'r gyllideb £200 miliwn y flwyddyn. Mae hwnnw'n benderfyniad hawdd i'w wneud pan nad oes rhaid ichi benderfynu ble i wneud y toriadau mewn gwasanaethau cyhoeddus i dalu amdano. Gwn nad dyna yw barn pobl eraill yn ei blaid yn y Siambr hon, gan gynnwys arweinydd yr wrthblaid; sy'n meddwl yn fwy tebyg i mi.

I am pleased to see that the draft Bill includes a referendum on whether income tax powers should be devolved to Wales.

Rwyf yn falch o weld bod y Bil drafft yn cynnwys refferendwm ynghylch a ddylid datganoli pwerau treth incwm i Gymru.

14:41 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Will the First Minister give way?

A wnaiff y Prif Weinidog ildio?

14:41 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I will in one second.

Gwnaf mewn un eiliad.

That is something that I have consistently called for.

Mae hynny'n rhywbeth yr wyf wedi galw amdano'n gyson.

14:41 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I thank the First Minister. Just before we move away from the lockstep, I thank him for his support for the amendment today and I hope that it allows all parties to work together. He knows, as well as I do, that parties have had to sink their differences in order to work with the Silk process and had to compromise to be part of that process. The lockstep was not part of that compromise process. Does he now see also that there is an alternative way of achieving fiscal devolution in Wales, not just through a referendum, but through parties stating that in their manifestos and winning elections on the basis of those manifestos?

Diolch i'r Prif Weinidog. Cyn inni droi oddi wrth y cam clo, hoffwn ddiolch iddo am ei gefnogaeth i'r gwelliant heddiw ac rwyf yn gobeithio y bydd yn caniatáu i'r holl bleidiau weithio gyda'i gilydd. Mae'n gwybod, cystal â mi, fod pleidiau wedi gorfod rhoi eu gwahaniaethau o'r neilltu er mwyn gweithio gyda phroses Silk ac wedi gorfod cyfaddawdu i fod yn rhan o'r broses honno. Nid oedd y cam clo'n rhan o'r broses gyfaddawdu honno. A yw yn awr yn gweld hefyd fod ffordd arall o gyflawni datganoli cyllidol yng Nghymru, nid dim ond drwy refferendwm, ond drwy i bleidiau ddatgan hynny yn eu maniffestos ac ennill etholiadau ar sail y maniffestos hynny?

14:42 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

It is difficult, because there was a referendum in Scotland on the issue of income-tax-varying powers—not on the rate, that is true. Should there not then be a referendum on the same issue in principle in Wales? It is a difficult argument to make, and I do not argue against that. Nor should we be afraid, at the right time, of a referendum, should that be the will of the Assembly and the will of the people of Wales. He will know that we do not share quite the same view on income tax devolution at this moment in time.

Mae'n anodd, oherwydd bu refferendwm yn yr Alban am bwerau amrywio treth incwm—nid am y gyfradd, mae hynny'n wir. Felly, oni ddylid cael refferendwm ar yr un mater mewn egwyddor yng Nghymru? Mae'n ddadl anodd eu gwneud, ac nid wyf yn dadlau yn erbyn hynny. Ni ddylem ychwaith ofni refferendwm, ar yr adeg iawn, pe bai'r Cynulliad a phobl Cymru'n dymuno cael un. Bydd yn gwybod nad ydym yn rhannu'r un farn yn union am ddatganoli treth incwm ar hyn o bryd.

We know that the devolution of income tax would represent a significant extension in the powers of the National Assembly. Given the template, or rather the precedent, established in Scotland, a referendum would be the right way forward. Undoubtedly, any referendum on income tax will fall to a future Assembly. It would be a matter for the political parties to declare in their 2016 manifestos as to whether they would support such a referendum or not, if that is the option that is on the table.

Rydym yn gwybod y byddai datganoli treth incwm yn estyn pwerau'r Cynulliad Cenedlaethol yn sylweddol. Ac ystyried y templed, neu'n hytrach y cynsail, a sefydlwyd yn yr Alban, refferendwm fyddai'r ffordd gywir ymlaen. Heb os, cyfrifoldeb Cynulliad arall yn y dyfodol fydd unrhyw refferendwm ar dreth incwm. Byddai'n fater i'r pleidiau gwleidyddol ddatgan yn eu maniffestos yn 2016 a fyddent o blaid refferendwm o'r fath neu beidio, os dyna'r opsiwn sydd ar y bwrdd.

There are two important elements of the financial reform agenda that are correctly omitted from the draft Bill as neither requires primary legislation. We are in discussion with the UK Government on the implementation of full devolution of non-domestic rates. I am keen to make early progress on that. We are also having talks on early access to borrowing, which I mentioned earlier and which the UK Government has agreed could be used to fund an enhancement to the M4. We are considering the options regarding that road.

Mae dwy elfen bwysig o'r agenda diwygio cyllidol sydd wedi'u hepgor o'r Bil drafft, a hynny'n briodol, gan nad oes angen deddfwriaeth sylfaenol ar y naill na'r llall. Rydym yn cynnal trafodaethau â Llywodraeth y DU am ddatganoli ardrethi annomestig yn llawn. Rwyf yn awyddus i wneud cynnydd cynnar yn hynny o beth. Rydym hefyd yn cynnal trafodaethau am fynediad cynnar i fenthyca, fel y nodais yn gynharach; mae Llywodraeth y DU wedi cytuno y gellid defnyddio hynny i ariannu gwelliannau i'r M4. Rydym yn ystyried y dewisiadau o ran y ffordd honno.

Turning to other matters covered by the Bill, there are a number of provisions that I believe we can all welcome. These include the fact that Welsh Government will be formally and legally known by that name. I believe that it is right that Assembly terms should be of five years, to avoid potential clashes with parliamentary elections. There is also a provision allowing the Law Commission to respond directly to Welsh Ministers' references on law reform matters. As a primary legislative chamber, there is a need for a review process, and the Law Commission provides us with that process.

A throi at faterion eraill y mae'r Bil yn eu trafod, mae nifer o ddarpariaethau yr wyf yn credu y gallwn i gyd eu croesawu. Mae'r rhain yn cynnwys y ffaith mai Llywodraeth Cymru fydd enw ffurfiol a chyfreithiol y llywodraeth yma. Rwyf yn credu ei bod yn iawn y dylai cyfnodau'r Cynulliad fod yn bum mlynedd, er mwyn osgoi gwrthdaro posibl ag etholiadau seneddol. Mae darpariaeth hefyd sy'n caniatáu i Gomisiwn y Gyfraith ymateb yn uniongyrchol i atgyfeiriadau Gweinidogion Cymru ar faterion yn ymwneud â diwygio'r gyfraith. Fel siambr sy'n creu deddfwriaeth sylfaenol, mae angen proses adolygu, ac mae Comisiwn y Gyfraith yn rhoi'r broses honno inni.

Of course, opinions will differ in the Chamber as to how the new powers might be exercised, but it is important that those powers are available to this institution and any future government in order to improve the lives of the people of Wales. It is an important piece of legislation for Wales. The Bill will open a new chapter for devolution. I hope that the Welsh Affairs Committee reflects, in its report, the weight of evidence that has been presented by politicians and independent experts alike on the limitations of the lockstep approach to income tax devolution. I know that that is shared across the Chamber.

Wrth gwrs, bydd gwahaniaethau barn yn y Siambr ynglŷn â sut y gellid arfer y pwerau newydd, ond mae'n bwysig bod y pwerau hynny ar gael i'r sefydliad hwn ac i unrhyw lywodraeth yn y dyfodol er mwyn gwella bywydau pobl Cymru. Mae'n ddarn pwysig o ddeddfwriaeth i Gymru. Bydd y Bil yn agor pennod newydd o ran datganoli. Rwyf yn gobeithio y bydd y Pwyllgor Materion Cymreig yn ystyried, yn ei adroddiad, bwysau'r dystiolaeth a gyflwynwyd gan wleidyddion ac arbenigwyr annibynnol fel ei gilydd am gyfyngiadau ymagwedd y cam clo tuag at ddatganoli treth incwm. Gwn fod y gobaith hwnnw'n un a rennir ar draws y Siambr.

We can now look forward, when the Bill is passed and becomes an Act, to devolution being taken forward and to fiscal powers being granted to this Chamber for the first time, as well as the ability to borrow, which is so important to ensure that we are not disadvantaged with regard to the rest of the UK in terms of being able to fund major infrastructure projects.

Gallwn yn awr edrych ymlaen, pan gaiff y Bil ei basio a phan ddaw'n Ddeddf, at fwrw ymlaen â datganoli ac at roi pwerau ariannol i'r Siambr hon am y tro cyntaf, yn ogystal â'r gallu i fenthyca, sydd mor bwysig er mwyn sicrhau na fyddwn dan anfantais o gymharu â gweddill y DU o ran gallu ariannu prosiectau seilwaith mawr.

14:45

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I have selected the amendment to the motion, and I call Leanne Wood to move that amendment, tabled in the name of Elin Jones.

Rwyf wedi dewis y gwelliant i'r cynnig, a galwaf ar Leanne Wood i gynnig y gwelliant hwnnw, a gyflwynwyd yn enw Elin Jones.

*Gwelliant 1—Elin Jones*

*Amendment 1—Elin Jones*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn credu y dylai Deddf Cymru yn y dyfodol ddarparu ar gyfer yr ysgogiadau economaidd sy'n angenrheidiol i alluogi Llywodraeth Cymru i greu swyddi a thwf ac na ddylai pwerau rhannu treth incwm gael eu cyfyngu gan y system 'cam clo'.*

*Believes that a future Wales Act should equip the Welsh Government with the economic levers required for job creation and growth and that income-tax sharing powers should not be restricted by the 'lockstep' mechanism.*

14:45

## Leanne Wood Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 1.

Cynigiaf welliant 1.

Since 1999, we have not had a lasting or robust settlement in Wales, so it is of no particular surprise that we continue to debate the constitution. All parties, including my own, agreed to enter the Silk process in good faith. We agreed to work towards an outcome that would lead to a durable devolution settlement for our country; Plaid Cymru has been prepared to engage on such terms.

Ers 1999, nid ydym wedi cael setliad parhaol na chadarn yng Nghymru, felly nid yw'n syndod arbennig ein bod yn parhau i ddadlau am y cyfansoddiad. Cytunodd pob plaid, gan gynnwys fy mhlaid i, i fynd i mewn i broses Silk yn ddiffuant. Cytunasom i weithio tuag at ganlyniad a fyddai'n arwain at setliad datganoli gwydn i'n gwlad; mae Plaid Cymru wedi bod yn barod i ymgysylltu ar delerau o'r fath.

It has, therefore, been deeply disappointing to see the draft Wales Bill needlessly watered down. What started as a consensus around a comprehensive set of recommendations from the Silk commission has become a cherry-picked muddle. It has been, and continues to be, Plaid Cymru's position that Silk must be implemented in full; it is a package. Indeed, it is our view that such watering down risks sabotaging the whole process.

Felly, bu'n destun siom enfawr gweld Bil drafft Cymru'n cael ei lastwreiddio'n ddiangen. Mae'r hyn a ddechreuodd fel consensws ynghylch set gynhwysfawr o argymhellion gan gomisiwn Silk wedi troi'n ddryswch wedi'i ddewis a'i ddethol. Safbwynt Plaid Cymru oedd, ac nid yw hyn wedi newid, fod yn rhaid rhoi argymhellion Silk ar waith yn llawn; mai pecyn ydynt. Yn wir, rydym o'r farn y gallai'r glastwreiddio hwn o bosibl danseilio'r holl broses.

One of the primary points of contention, of course, is that of the so-called lockstep. All party leaders in the National Assembly have come out opposing this unjustifiable fiscal straitjacket. We now have a bizarre situation whereby the Silk commission members oppose a lockstep, the Government of Wales opposes a lockstep and all opposition parties oppose a lockstep, but the UK Government, with no mandate from Wales, has insisted on the inclusion of a lockstep in the legislation.

Un o brif esgyrn y gynnen, wrth gwrs, yw'r hyn a elwir yn gam clo. Mae arweinwyr pob plaid yn y Cynulliad Cenedlaethol wedi gwrthwynebu'r caethiwo ariannol hwn na ellir ei gyfiawnhau. Erbyn hyn mae gennym sefyllfa ryfeddol lle mae aelodau comisiwn Silk yn gwrthwynebu'r cam clo, mae Llywodraeth Cymru'n gwrthwynebu'r cam clo ac mae pob gwrthblaid yn gwrthwynebu'r cam clo, ond mae Llywodraeth y DU, heb ddim mandad o Gymru, wedi mynnu cynnwys cam clo yn y ddeddfwriaeth.

I have found it staggering that the UK Government's rationale has been so blatantly self-interested. It says that it wants a lockstep to ensure that no part of the UK can be fiscally more competitive than another. This from a Government that is presiding over a continued economic overheating of London and the south-east at the expense of the rest of the UK.

Roedd yn syfrdanol imi fod rhesymeg Llywodraeth y DU wedi bod mor haerllug o hunanol. Mae'n dweud bod arni eisiau'r cam clo i sicrhau na all unrhyw ran o'r DU fod yn fwy cystadleuol yn gyllidol na'r llall. Daw hyn gan Lywodraeth sy'n llywyddu dros orboethi economaidd parhaus yn Llundain a de-ddwyrain Lloegr ar draul gweddill y DU.

It is in the Welsh national interest to have income tax sharing powers with the UK Treasury without the lockstep. All of us in the Chamber should be relentless in our pursuit of the full implementation of Silk, at the very least.

Mae er budd cenedlaethol i Gymru i gael pwerau rhannu treth incwm gyda Thrysorlys y DU heb y cam clo. Dylai pob un ohonom yn y Siambr fynnu'n ddidrugaredd fod argymhellion Silk yn cael eu rhoi ar waith yn llawn, o leiaf.

14:47

## Nick Ramsay Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for giving way, Leanne. To be fair to the UK Treasury, we have just heard the First Minister talking about putting income tax up in Wales without the lockstep, so I do not think that the concerns about Wales being a more competitive place are going to be borne out.

Diolch am ildio, Leanne. A bod yn deg â Thrysorlys y DU, rydym newydd glywed y Prif Weinidog yn sôn am godi treth incwm yng Nghymru heb y cam clo, felly nid wyf yn credu bod y pryderon am sicrhau bod Cymru'n lle mwy cystadleuol yn mynd i gael eu gwireddu.

14:47

## Leanne Wood Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am sorry; I do not understand the point that you are making at all, because that was not what I heard in the earlier contribution.

Mae'n ddrwg gennyf; nid wyf yn deall y pwynt yr ydych yn ei wneud o gwbl, oherwydd nid dyna'r hyn a glywais yn y cyfraniad cynharach.

The context of political debate in these islands is rapidly changing, and will continue to change over the coming months. It is essential, therefore, that Wales is best placed to win for itself an outcome whereby meaningful and lasting changes can be made, economically and socially. While we may, in terms of legislative competence, often look towards Scotland, in financial terms it is now true to say that it is the English cities, particularly those in the north of England, that are openly discussing financial autonomy. Those English cities will not need a referendum to build on their existing powers over council tax.

Mae cyd-destun y dadlau gwleidyddol ar yr ynysoedd hyn yn newid yn gyflym, a bydd yn parhau i newid dros y misoedd nesaf. Mae'n hanfodol, felly, fod Cymru yn y sefyllfa orau i sicrhau canlyniad iddi ei hun lle gellir gwneud newidiadau ystyrlon a pharhaol, yn economaidd ac yn gymdeithasol. Er ein bod, efallai, o ran cymhwysedd deddfwriaethol, yn aml yn edrych tuag at yr Alban, mewn termau ariannol mae'n wir dweud yn awr mai dinasoedd Lloegr, ac yn enwedig y rhai yng ngogledd Lloegr, sy'n trafod ymreolaeth ariannol yn agored. Ni fydd angen refferendwm ar y dinasoedd hynny yn Lloegr i ddatblygu eu pwerau presennol o ran y dreth gyngor.

We have to remember that there is a price for standing still. Both the Labour Party and the Conservative Party face considerable internal difficulties that are now beginning to seep into the public domain. I sincerely hope that such internal wrangling does not distract you from the very important task that you face, of working toward enhancing our economic powers. Our country needs these powers so that we can achieve our potential. Party political self-interest is simply not acceptable.

Rhaid inni gofio bod pris i'w dalu am sefyll yn llonydd. Mae'r Blaid Lafur a'r Blaid Geidwadol yn wynebu cryn anawsterau mewnol sydd yn awr yn dechrau dod i lygad y cyhoedd. Rwyf yn mawr obeithio na fydd dadlau mewnol o'r fath yn tynnu eich sylw oddi wrth y dasg bwysig iawn sy'n eich wynebu, sef gweithio tuag at wella ein pwerau economaidd. Mae angen y pwerau hyn ar ein gwlad er mwyn inni allu gwireddu ein potensial. Mae hunanoldeb pleidiol yn gwbl annerbyniol.

14:49

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Deputy Presiding Officer, David Melding.

Galwaf ar y Dirprwy Lywydd, David Melding.

14:49

## David Melding Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Presiding Officer. There is much to welcome in the draft Bill, but I would like to offer some recommendations for its improvement and extension. I welcome a number of pragmatic provisions within the draft Bill relating to electoral arrangements; for example, there is clear value in this draft Bill taking action to avoid clashes between Assembly and UK elections. However, in the longer term, the Assembly, rather than Westminster, should have the power to legislate on its own electoral matters.

Diolch, Lywydd. Mae llawer i'w groesawu yn y Bil drafft, ond hoffwn gynnig rhai argymhellion i'w wella a'i estyn. Rwyf yn croesawu nifer o ddarpariaethau pragmatig o fewn y Bil drafft sy'n ymwneud â threfniadau etholiadol; er enghraifft, mae gwerth amlwg i'r ffaith fod y Bil drafft hwn yn cymryd camau i osgoi gwrthdaro rhwng etholiadau'r Cynulliad a'r DU. Fodd bynnag, yn fwy hirdymor, y Cynulliad, yn hytrach na San Steffan, ddylai fod â'r grym i ddeddfu ar ei faterion etholiadol ei hun.

The draft Bill's formalisation of the term 'Welsh Government' is a helpful development, making it simpler to distinguish executive from legislature. I know that all purists in this Chamber believe that to be an essential aspect of the Westminster, or British, model. However, the Bill should go further so that the Assembly is referred to as a parliament, reflecting its law-making powers. Parliament is an excellent English political concept—being a French word originally—that encapsulates all the great aspects of the parliamentary tradition.

Mae'r ffaith bod y Bil drafft yn ffurfioli'r term 'Llywodraeth Cymru' yn ddatblygiad defnyddiol, ac yn ei gwneud yn haws gwahaniaethu rhwng y weithrediaeth a'r ddeddfwrfa. Gwn fod pob purydd yn y Siambr hon yn credu bod hynny'n agwedd hanfodol ar fodel San Steffan, neu'r model Prydeinig. Fodd bynnag, dylai'r Bil fynd ymhellach a chyfeirio yn Saesneg at y Cynulliad fel 'parliament', i adlewyrchu ei bwerau deddfu. Mae'r gair 'parliament' yn gysyniad gwleidyddol Seisnig ardderchog—ac yntau'n air Ffrangeg yn wreiddiol—sy'n crynhoi holl agweddau da'r traddodiad seneddol.

The draft Bill's provision of greater financial powers for the National Assembly would provide tools with which to improve the lives of people in communities across Wales. However, it is vital that the Bill gives the Assembly the control and capacity it needs to ensure that financial powers are used effectively by the Welsh Government. A critical missing element from the Bill is the legislative power for the Assembly to amend its budgetary procedures. This is particularly concerning because the Silk commission recognised that the Assembly's budgetary procedures would need modification to accommodate the introduction of tax varying and borrowing powers.

Byddai'r pwerau ariannol ychwanegol i'r Cynulliad Cenedlaethol a ddarperir gan y Bil drafft yn darparu modd o wella bywydau pobl mewn cymunedau ledled Cymru. Fodd bynnag, mae'n hanfodol bod y Bil yn rhoi'r rheolaeth a'r gallu sydd eu hangen ar y Cynulliad i sicrhau bod Llywodraeth Cymru'n defnyddio pwerau ariannol yn effeithiol. Un elfen hanfodol sydd ar goll o'r Bil yw'r grym deddfwriaethol i'r Cynulliad i newid ei weithdrefnau cyllidebol. Mae hyn yn peri pryder arbennig oherwydd roedd comisiwn Silk yn cydnabod y byddai angen addasu gweithdrefnau cyllidebol y Cynulliad i ddarparu ar gyfer cyflwyno pwerau amrywio trethi a benthyca.

Clause 12 of the draft Bill could be improved by it requiring the Treasury to commence income tax provisions within a set period of a 'yes' vote in an income tax referendum. This would minimise the potential for any unnecessary delays following a 'yes' vote. Similarly, there could be a time limit on the Treasury's powers to commence section 17, borrowing by Welsh Ministers, and section 20, housing revenue account changes.

Gellid gwella cymal 12 y Bil drafft drwy ei gwneud yn ofynnol i'r Trysorlys gychwyn darpariaethau treth incwm o fewn cyfnod penodol ar ôl pleidlais 'ie' mewn refferendwm treth incwm. Byddai hyn yn lleihau'r posibilrwydd o unrhyw oedi diangen yn dilyn pleidlais 'ie'. Yn yr un modd, gellid rhoi cyfyngiad amser ar bwerau'r Trysorlys i gychwyn adran 17, benthyca gan Weinidogion Cymru, ac adran 20, newidiadau i gyfrifon refeniw tai.

Clause 21 of the draft Bill proposes a closer and more direct relationship between Wales and the Law Commission. However, it could be improved so that the Law Commission had the same relationship with Welsh Ministers as the respective Law Commissions currently have with the UK and Scottish Ministers. Indeed, as Assembly committees can introduce Bills themselves, it would be appropriate for the Law Commission to be also empowered to provide advice and information to Assembly committees, perhaps pushing at the traditional boundaries of arrangements in the United Kingdom in terms of the Law Commission's role.

Mae cymal 21 y Bil drafft yn cynnig perthynas agosach a mwy uniongyrchol rhwng Cymru a Chomisiwn y Gyfraith. Fodd bynnag, gellid ei wella fel bod gan Gomisiwn y Gyfraith yr un berthynas â Gweinidogion Cymru ag sydd gan Gomisiwn y Gyfraith yn y DU ac yn yr Alban ar hyn o bryd â Gweinidogion y gweinyddiaethau hynny. Yn wir, gall pwyllgorau'r Cynulliad gyflwyno Biliau eu hunain, ac felly byddai'n briodol rhoi grym i Gomisiwn y Gyfraith hefyd i roi cyngor a gwybodaeth i bwyllgorau'r Cynulliad, ac efallai wthio ffiniau traddodiadol y trefniadau yn y Deyrnas Unedig o ran swyddogaeth Comisiwn y Gyfraith.

Clause 24 gives the Treasury power by order to make supplementary incidental and consequential provisions in connection with financial aspects of the Bill. However, it provides no role for Welsh Ministers or the Assembly in making such provisions. Clause 24 could be amended so that there is some role for Welsh Ministers and the Assembly when Assembly Acts or Measures are being modified—in particular such orders could be subjected to Assembly approval.

Mae cymal 24 yn rhoi grym drwy orchymyn i'r Trysorlys i wneud darpariaethau cysylltiedig a chanlyniadol atodol mewn perthynas ag agweddau ariannol ar y Bil. Fodd bynnag, nid yw'n darparu unrhyw swyddogaeth i Weinidogion Cymru nac i'r Cynulliad wrth wneud darpariaethau o'r fath. Gellid diwygio cymal 24 i roi rhyw swyddogaeth i Weinidogion Cymru a'r Cynulliad pan gaiff Deddfau neu Fesurau'r Cynulliad eu haddasu—yn benodol, gellid gwneud gorchmynion o'r fath yn amodol ar gymeradwyaeth y Cynulliad.

Presiding Officer, you have repeatedly emphasised the importance of the Assembly having sufficient capacity to ensure robust scrutiny of the Welsh Government's proposals for raising funds as well as spending them. The need for 80 Members has been much discussed and there appears to be a growing recognition that 60 Members is not sufficient. I would also like to mention here that an essential element in raising capacity in the provision of opportunities for professional development has had a big impact. To this end, the Assembly has contracted a bespoke training programme covering all aspects of financial scrutiny. It is believed to be the first comprehensive programme developed for financial scrutiny training in a UK parliamentary context. I think that that is something, Presiding Officer, that you can be very proud of.

Lywydd, rydych wedi pwysleisio dro ar ôl tro pa mor bwysig yw hi fod gan y Cynulliad ddigon o gapasiti i sicrhau craffu cadarn ar gynigion Llywodraeth Cymru i godi arian yn ogystal â'i wario. Mae'r angen am 80 o Aelodau wedi'i drafod yn helaeth ac mae'n ymddangos bod mwy a mwy'n cydnabod nad yw 60 o Aelodau yn ddigon. Hoffwn hefyd ddweud yma fod elfen hanfodol o ran cynyddu gallu i ddarparu cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol wedi cael effaith fawr. I'r perwyl hwn, mae'r Cynulliad wedi contractio rhaglen hyfforddi bwrpasol sy'n cwmpasu pob agwedd ar graffu ariannol. Credir mai hon yw'r rhaglen gynhwysfawr gyntaf a ddatblygwyd ar gyfer hyfforddiant craffu ariannol mewn cyd-destun seneddol yn y DU. Rwyf yn meddwl bod hynny, Lywydd, yn rhywbeth y gallwch fod yn falch iawn ohono.

The draft Bill also represents an opportunity to take forward a number of the legislative amendments to the Government of Wales Act 2006 that you, Presiding Officer, have previously recommended to the Silk commission—for example, whether it would be more appropriate for the power to call an extraordinary general election to rest with the Presiding Officer rather than the Secretary of State. The Secretary of State has previously made similar comments in evidence to the Silk commission. There should be a fundamental recognition, Presiding Officer, that the Assembly, not the UK Parliament, is best placed to determine certain matters for itself.

Mae'r Bil drafft hefyd yn gyfle i fwrw ymlaen â nifer o'r newidiadau deddfwriaethol i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yr ydych chi, Lywydd, eisoes wedi'u hargymell i gomisiwn Silk—er enghraifft, a fyddai'n fwy priodol rhoi'r grym i alw etholiad cyffredinol anarferol i'r Llywydd yn hytrach nag i'r Ysgrifennydd Gwladol. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi gwneud sylwadau tebyg o'r blaen mewn tystiolaeth i gomisiwn Silk. Dylai fod cydnabyddiaeth sylfaenol, Lywydd, mai'r Cynulliad, nid Senedd y DU, sydd yn y sefyllfa orau i benderfynu ar rai materion penodol drosto'i hun.

14:54 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I welcome the opportunity to speak in this debate. I note that we are speaking on a draft Bill, not the final Bill that will be presented to the House of Commons. So, much could change in the interim. It is worth reflecting on the process that has led us to today, namely the Silk process that, ultimately, had cross-party buy-in. I think that that is a very important consideration to reflect on, because all parties nominated members to that commission, along with independent members.

Rwyf yn croesawu'r cyfle i siarad yn y ddadl hon. Rwyf yn nodi ein bod yn siarad am Fil drafft, nid y Bil terfynol a gaiff ei gyflwyno i Dŷ'r Cyffredin. Felly, gallai llawer o bethau newid yn y cyfamser. Mae'n werth myfyrio ar y broses sydd wedi ein harwain at heddiw, sef proses Silk yr oedd pob plaid, yn y pen draw, yn cyd-fynd â hi. Credaf fod hynny'n beth pwysig iawn i'w gofio, gan fod pob plaid wedi enwebu aelodau i'r comisiwn hwnnw, ynghyd ag aelodau annibynnol.

I would like to pay tribute to the former Secretary of State, Cheryl Gillan, who put this in motion, the UK Government in its entirety for seeing the process through, and the Prime Minister and Deputy Prime Minister who came here at the end of October or the beginning of November to make the announcement. It was a very important and symbolic announcement. It truly showed commitment when the two most important people in that Government came to make such an important announcement in Cardiff bay.

Hoffwn dalu teyrnged i'r cyn Ysgrifennydd Gwladol, Cheryl Gillan, a ddechreuodd y gwaith hwn, i Lywodraeth y DU yn ei chyfanrwydd am barhau â'r broses tan y diwedd, ac i Brif Weinidog a Dirprwy Brif Weinidog y DU a ddaeth yma ddiwedd mis Hydref neu ddechrau mis Tachwedd i wneud y cyhoeddiad. Roedd yn gyhoeddiad pwysig a symbolaidd iawn. Roedd yn dangos gwir ymrwymiad i'r ddau unigolyn pwysicaf yn y Llywodraeth ddod i wneud cyhoeddiad mor bwysig ym mae Caerdydd.

The Bill itself has been the subject of great scrutiny. The Welsh Affairs Committee in London has taken evidence from businesses, voluntary organisations and political parties and has had representations from across the political divide. There seems to be a unifying purpose that believes, in general, that what is in this Bill will have a significant impact on the way the affairs of Wales are governed and run.

Mae'r Bil ei hun wedi bod yn destun llawer o graffu. Mae'r Pwyllgor Materion Cymreig yn Llundain wedi cymryd tystiolaeth gan fusnesau, sefydliadau gwirfoddol a phleidiau gwleidyddol, ac wedi cael sylwadau gan bob plaid wleidyddol. Mae'n ymddangos bod yma bwrpas sy'n dod â phawb at ei gilydd â chred gyffredinol y bydd yr hyn sydd yn y Bil hwn yn cael effaith arwyddocaol ar y ffordd y caiff materion Cymru eu llywodraethu a'u rhedeg.

I have to take issue with the leader of Plaid Cymru when she says that the Westminster Government has no mandate in Wales. I disagree entirely with that. We are part of the United Kingdom. The Westminster Government is the United Kingdom Government. Ultimately, its writ runs, so long as you believe in the union of the United Kingdom. [Interruption.]

Rhaid imi anghytuno ag arweinydd Plaid Cymru pan ddywed nad oes gan Lywodraeth San Steffan fandad yng Nghymru. Rwyf yn anghytuno'n llwyr â hynny. Rydym yn rhan o'r Deyrnas Unedig. Llywodraeth San Steffan yw Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Yn y pen draw, eu gair hwy yw'r ddeddf, cyn belled â'ch bod yn credu yn undeb y Deyrnas Unedig. [Torri ar draws.]

14:56 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for taking the intervention. How many seats do the Conservatives have in Wales?

Diolch i'r Aelod am dderbyn yr ymyriad. Sawl sedd sydd gan y Ceidwadwyr yng Nghymru?

14:56 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

At the last count, eight, I believe. However, if you are a unionist you believe in the ability of the collective at Westminster to make that decision, and the Government to make that decision. It seems baffling to make such an assertion. [Interruption.] I do not want to get side-tracked into that but I think that it really showed the weakness of your argument when you said that the UK Government has no mandate here.

Ar y cyfrif diwethaf, wyth, rwyf yn credu. Fodd bynnag, os ydych yn credu yn yr undeb rydych yn credu yn eu gallu ar y cyd yn San Steffan i wneud y penderfyniad hwnnw, ac yn y Llywodraeth i wneud y penderfyniad hwnnw. Mae honiad o'r fath yn ymddangos yn rhyfeddol i mi. [Torri ar draws.] Nid wyf am gael fy nhynnu i'r cyfeiriad hwnnw ond rwyf yn meddwl eich bod wedi dangos gwendid eich dadl drwy ddweud nad oes gan Lywodraeth y DU fandad yma.

It is important to reflect on the tax raising powers, which will be an important transfer of responsibility and accountability. It is important to reflect on them not as powers but as a transfer of responsibility and accountability. We have voted before on the implementation of Silk in its entirety. Silk provides a route-map for a referendum to take place in November 2017. If that referendum were to be won, ultimately, the responsibility would be transferred for use not by the fifth Assembly but by the sixth Assembly in 2021.

Mae'n bwysig myfyrio ar y pwerau codi trethi, a fydd yn drosglwyddiad pwysig o ran cyfrifoldeb ac atebolrwydd. Mae'n bwysig myfyrio arnynt nid o ran pwerau ond o ran trosglwyddo cyfrifoldeb ac atebolrwydd. Rydym wedi pleidleisio o'r blaen ar roi argymhellion Silk ar waith yn eu cyfanrwydd. Mae Silk yn darparu map o'r llwybr tuag at gynnal refferendwm ym mis Tachwedd 2017. Pe câi'r refferendwm hwnnw ei ennill, yn y pen draw, câi'r cyfrifoldeb ei drosglwyddo i'w ddefnyddio nid gan y pumed Cynulliad ond gan y chweched Cynulliad yn 2021.

The draft Bill touches on the extension to Assembly terms, making them five-year terms. We also believe that that is a sensible course of action, because the last thing that I think anyone would wish to do is fight two very important general elections—the Westminster general election and the Welsh general election—on the same day. It also touches on borrowing powers. An important consideration is the scope and size of those borrowing powers. There is a body of evidence available here, as Holtham came out with a formula that touched on a larger borrowing capacity. However, you cannot just borrow for the sake of borrowing; there has to be an income stream of a suitable size to repay that borrowing. I think that that needs to be worked on so that we have the balance right between the capability of the Government to borrow and, importantly, the ability of the wider Welsh economy to repay that borrowing. I think that we all accept that—

Mae'r Bil drafft yn sôn am estyn cyfnodau'r Cynulliad, a'u gwneud yn gyfnodau pum mlynedd. Rydym hefyd yn credu bod hynny'n beth doeth, oherwydd y peth diwethaf yr wyf yn credu y byddai unrhyw un am ei wneud yw ymladd dau etholiad cyffredinol pwysig iawn—etholiad cyffredinol San Steffan ac etholiad cyffredinol Cymru—ar yr un diwrnod. Mae hefyd yn sôn am bwerau benthyca. Un peth pwysig i'w ystyried yw cwmpas a maint y pwerau benthyca hynny. Mae corff o dystiolaeth ar gael yma, oherwydd cyflwynodd Holtham fformiwla sy'n cyfeirio at allu i fenthyca mwy. Fodd bynnag, ni allwch fenthyca er mwyn benthyca; rhaid bod gennych ffrwd incwm o faint priodol i ad-dalu'r benthyciad. Rwyf yn meddwl bod angen gweithio ar hynny er mwyn inni gael y cydbwysedd cywir rhwng gallu'r Llywodraeth i fenthyca ac, yn bwysig, gallu economi ehangach Cymru i ad-dalu'r benthyciad. Credaf ein bod i gyd yn derbyn bod —

14:58

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for taking the intervention. I understand that the Member wants to campaign at the next Assembly election on the basis of reducing taxes. How much more will the Welsh Government have to borrow then if that policy were implemented?

Diolch i'r Aelod am dderbyn yr ymyriad. Rwyf ar ddeall bod yr Aelod am ymgyrchu yn yr etholiad nesaf y Cynulliad ar sail gostwng trethi. Faint yn fwy y byddai'n rhaid i Lywodraeth Cymru ei fenthyca wedyn pe câi'r polisi hwnnw ei weithredu?

14:59

## Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

At the end of the day, we made an announcement last Thursday on stamp duty, which I think the Member is alluding to. It would have a cost of £20 million. Those are the priorities that we would have. Would you cut to make the Welsh economy more competitive or would you carry on with your economic ideology, which has made us uncompetitive? That is the difference.

Yn y pen draw, gwnaethom gyhoeddiad ddydd Iau diwethaf am dreth stamp; rwyf yn meddwl mai dyna y mae'r Aelod yn cyfeirio ato. Byddai'n costio £20 miliwn. Dyna fyddai ein blaenoriaethau. A fyddech yn torri i wneud economi Cymru'n fwy cystadleuol ynteu a fyddech yn parhau â'ch ideoleg economaidd, sydd wedi ein gwneud yn anghystadleuol? Dyna'r gwahaniaeth.

However, this draft Bill offers the opportunity for the Assembly and others to be consulted and, ultimately, to put down the markers of what we would like to see in the final Bill, which we all want to see before the House of Commons before the 2015 general election. That timetable is going to be tight, but it is achievable. I welcome the opportunity to contribute again in that process, which, ultimately, will transfer more responsibility and accountability to the Assembly, and by extension, to the Welsh Government that flows out of it.

Fodd bynnag, mae'r Bil drafft hwn yn cynnig cyfle i'r Cynulliad ac eraill i ymgynghori ac, yn y pen draw, i nodi'r hyn yr hoffem ei weld yn y Bil terfynol; hoffem i gyd weld hwnnw gerbron Tŷ'r Cyffredin cyn etholiad cyffredinol 2015. Bydd yr amserlen honno'n dynn, ond mae'n gyraeddadwy. Rwyf yn croesawu'r cyfle i gyfrannu eto at y broses honno, a fydd, yn y pen draw, yn trosglwyddo mwy o gyfrifoldeb ac atebolrwydd i'r Cynulliad, a thrwy hynny, i Lywodraeth Cymru sy'n llifo allan ohono.

14:59

## Mike Hedges Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I intend to address three issues: the areas that I welcome, income tax and double-jobbing. First, I welcome the calls to devolve stamp duty and landfill tax. I very warmly welcome the borrowing powers for infrastructure, which would benefit the Welsh economy and give the Welsh Government the same powers that local authorities have had for over 100 years. The extension to a five-year cycle means that we should not have an election clash with Westminster, which will benefit both Parliaments and all political parties. Will the borrowing power limit be fixed like in Scotland, or will it be like in Northern Ireland where it is indicative and can be breached?

Rwyf yn bwriadu rhoi sylw i dri mater: y meysydd yr wyf yn eu croesawu, treth incwm a swyddi dwbl. Yn gyntaf, croesawaf y galwadau am ddatganoli treth stamp a threth tirlenwi. Rwyf yn croesawu'n fawr iawn y pwerau benthyca ar gyfer seilwaith, a fyddai o fudd i economi Cymru ac yn rhoi'r un pwerau i Lywodraeth Cymru ag y mae awdurdodau lleol wedi eu cael ers dros 100 mlynedd. Mae'r estyniad i gylch pum mlynedd yn golygu na ddylai ein hetholiadau wrthdaro â rhai San Steffan; bydd hynny o fudd i'r ddwy Senedd a phob plaid wleidyddol. A fydd terfyn y grym i fenthyca'n sefydlog fel yn yr Alban, ynteu a fydd yn debyg i un Gogledd Iwerddon lle mae'n ddangosol ac mae modd mynd drosto?

Secondly, on income tax, we need a no-detriment rule like in Scotland. I assume that that is just an oversight. Wales would have no control over tax allowance and band points. Scotland has been protected from any negative effect on its budget by this. This needs to be part of the Wales Bill.

Yn ail, ar dreth incwm, mae arnom angen rheol dim niwed fel yr Alban. Cymeraf mai dim ond amryfusedd yw hynny. Ni fyddai gan Gymru ddim rheolaeth dros lwfans treth a phwyntiau band. Mae hyn yn gwarchod yr Alban rhag unrhyw effaith anffafriol ar ei chyllideb. Mae angen i hyn fod yn rhan o Fil Cymru.

We need a minimum of the Barnett floor, and we need that now.

Mae angen lleiafswm o lawr Barnett arnom, ac mae angen hynny yn awr.

15:00

## Antoinette Sandbach Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will you take an intervention on that point? It is quite clear that the recommendation—

A wnewch chi dderbyn ymyriad ar y pwynt hwnnw? Mae'n gwbl glir bod yr argymhelliad—

15:00

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Was that a 'yes' that you will take an intervention?

A ddywedasoch 'gwnaf' ac y gwnewch dderbyn ymyriad?

15:00

## Mike Hedges Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, go on.

Do, ymlaen â chi.

15:00

## Antoinette Sandbach Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am very grateful to the Member for taking the intervention. It is quite clear that the recommendation of Silk is that there should be no consideration of the income tax question until the funding formula for Wales has been looked at again. Do you agree with that approach?

Rwyf yn ddiolchgar iawn i'r Aelod am dderbyn yr ymyriad. Mae'n gwbl glir mai argymhelliad Silk yw na ddylid ystyried y cwestiwn ynghylch treth incwm hyd nes bod fformiwla ariannu Cymru wedi cael sylw pellach. A ydych yn cytuno â hynny?

15:01

## Mike Hedges Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think that we must have a proper needs-based distribution formula, and it needs to be in legislation in order to get it through the Treasury and to avoid locking underfunding into Wales. One thing that worries many of us is that we move forward and underfunding will be locked into the system.

Credaf fod yn rhaid wrth fformiwla ddosbarthu briodol sy'n seiliedig ar anghenion, a bod angen iddi fod mewn deddfwriaeth er mwyn ei chael drwy'r Trysorlys ac i osgoi cloi tanariannu i mewn i Gymru. Un peth sy'n poeni llawer ohonom yw y byddwn yn symud ymlaen ac y bydd tanariannu wedi'i gloi yn y system.

Income tax, while not as volatile as other taxes, has shown volatility with up to £300 million difference between years. We would need to start any devolved income tax as a financial cycle moving up, so that money could be accumulated to avoid the need to borrow on the down cycle. We will need protection against external factors, such as a major closure caused by a Westminster Government decision that could seriously reduce the Welsh Government's tax income. It could affect it by £50 million to £100 million quite easily. The lockstep will mean that the tax changes cannot be used: a change to the higher rates of income tax could be made and would raise or cost relatively small sums, but a substantial change in the basic rate would cost large sums of money or cause a huge public outcry. So, a lockstep just makes devolved income tax unable to be used—it would just be there. We need borrowing powers to cover the shortfall in income tax and borrowing powers to fund infrastructure. We need to have two borrowing limits: one for capital and one for revenue.

Mae treth incwm, er nad yw mor anwadal â threthi eraill, wedi dangos anwadalrwydd gyda hyd at £300 miliwn o wahaniaeth rhwng blynyddoedd. Byddai angen inni ddechrau ar unrhyw dreth incwm ddatganoledig fel cylch ariannol tuag i fyny, fel y gallem gronni arian er mwyn osgoi'r angen i fenthyca ar y cylch tuag i lawr. Bydd angen ein gwarchod rhag ffactorau allanol, megis cau sefydliad mawr o ganlyniad i benderfyniad gan Lywodraeth San Steffan a allai leihau incwm treth Llywodraeth Cymru yn ddifrifol. Gallai gael effaith o £50 miliwn i £100 miliwn yn eithaf rhwydd. Bydd y cam clo'n golygu na ellir defnyddio'r newidiadau treth: gellid newid cyfraddau uwch treth incwm heb godi na chostio rhyw lawer, ond byddai newid sylweddol i'r gyfradd sylfaenol yn costio llawer o arian neu'n sbarduno gwrthwynebiad cyhoeddus enfawr. Felly, mae cam clo'n golygu na fyddem yn gallu defnyddio treth incwm ddatganoledig—er y byddai yno. Mae arnom angen pwerau benthyca i dalu am y diffyg yn y dreth incwm a phwerau benthyca i ariannu seilwaith. Mae arnom angen dau derfyn benthyca: un ar gyfer cyfalaf ac un ar gyfer refeniw.

Scotland has had the power to vary the basic rate of income tax by up to 3p since devolution, but has not varied the basic rate under any Government, and it has had every party except for the Conservatives in Government in Scotland.

Mae gan yr Alban rym i amrywio cyfradd sylfaenol treth incwm hyd at 3c ers datganoli, ond nid yw wedi amrywio'r gyfradd sylfaenol dan unrhyw Lywodraeth, ac mae pob plaid heblaw'r Ceidwadwyr wedi bod mewn grym yn yr Alban.

On defining 'Welsh taxpayers', if anyone has read the Scotland Act it goes on for pages to define it, but in Wales we have a specific problem with the number of people living on the border. This depends on the income tax system knowing the up-to-date home address of all taxpayers. I do not think that anyone believes that that will be true, so there will be some errors there. With the number of people in Wales living very close to the border, that number could be quite substantial.

O ran diffinio 'trethdalwyr Cymru', os oes unrhyw un wedi darllen Deddf yr Alban mae'n cymryd tudalennau ar dudalennau i'w ddiffinio, ond yng Nghymru mae gennym broblem benodol o ran nifer y bobl sy'n byw ar y ffin. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i'r system dreth incwm wybod cyfeiriad cartref cyfredol yr holl drethdalwyr. Nid wyf yn meddwl bod neb yn credu y bydd hynny'n digwydd, felly bydd rhai camgymeriadau yno. Oherwydd nifer y bobl yng Nghymru sy'n byw'n agos iawn at y ffin, gallai'r nifer hwnnw fod yn eithaf sylweddol.

On electoral arrangements, I welcome the ban on double-jobbing by preventing Assembly Members from also being MPs. I would have thought that it would have logically followed that we should see a further ban on being a councillor and a Member of the National Assembly. In many ways, that generates an even greater conflict of interest as local government is one of the two major services covered by the National Assembly for Wales. If one person cannot adequately represent at Westminster and Cardiff, how can they adequately represent on their local council and at the National Assembly? I do not believe that that is possible. I do not believe that candidates should be able to stand in a regional and constituency seat. Among the concerns is the confusion that a candidate who was not elected in a constituency seat was still elected. The electorate do not understand people who have been rejected and then pop up again. This appears to be unfair —a candidate should be elected or not. A second chance on the list is not good for democracy or good for encouraging the electorate to turn out to vote at election.

O ran trefniadau etholiadol, croesawaf y gwaharddiad ar swyddi dwbl i atal Aelodau'r Cynulliad rhag bod yn Aelodau Seneddol hefyd. Byddwn yn meddwl y byddai'n dilyn yn rhesymegol y dylem weld gwaharddiad pellach ar fod yn gynghorydd ac yn Aelod o'r Cynulliad Cenedlaethol. Mewn sawl ffordd, mae hynny'n creu gwrthdaro mwy fyth rhwng buddiannau gan fod llywodraeth leol yn un o'r ddau brif wasanaeth a gwmpesir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Os na all un person roi cynrychiolaeth ddigonol yn San Steffan ac yng Nghaerdydd, sut y gall roi cynrychiolaeth ddigonol ar y cyngor lleol ac yn y Cynulliad Cenedlaethol? Nid wyf yn credu bod hynny'n bosibl. Nid wyf yn credu y dylai ymgeiswyr gael sefyll mewn sedd ranbarthol ac mewn etholaeth. Un o'r amryw o bryderon yw'r dryswch lle caiff ymgeisydd ei ethol er na chafodd ei ethol mewn sedd etholaethol. Nid yw'r etholwyr yn deall sut y mae pobl yn cael eu gwrthod ac yna'n ymddangos unwaith eto. Mae hyn yn ymddangos yn annheg—dylai ymgeisydd gael ei ethol neu beidio. Nid yw ail gyfle ar y rhestr yn beth da i ddemocratiaeth nac yn beth da i annog etholwyr i fynd i bleidleisio mewn etholiadau.

This Bill, despite a number of good points, has failed to adequately deal with a number of key issues. However, as it is only the draft Bill, hopefully it can be put right.

Mae'r Bil hwn, er gwaethaf nifer o bwyntiau da, wedi methu ag ymdrin yn ddigonol â nifer o faterion allweddol. Fodd bynnag, gan mai dim ond Bil drafft ydyw, gobeithio y gellir ei unioni.

15:04 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch yn fawr am allu cymryd rhan yn y ddadl bwysig hon. Mae argymhellion comisiwn Silk wedi eu seilio ar ddau gysyniad—un yw grymuso a galluogi, a'r llall yw cyfrifoldeb. Mae ymateb Llafur a'r Toriaid—ac mae ymateb Andrew R.T. Davies heddiw yn tanlinellu hynny—wedi canolbwyntio'n bennaf ar y cyfrifoldebau sydd yn dod gyda throsglwyddo'r gallu i drethu. Fodd bynnag, mae'n rhaid i ni gofio bod yr argymhellion hyn yn rhai bychan iawn a rhesymol iawn, ac, yn anffodus, yn rhai araf iawn. Yr hyn sydd ar goll, rwyf yn teimlo, wrth bwysleisio'r cyfrifoldeb, yw absenoldeb unrhyw uchelgais. Wrth sôn am y sylfaen dreth yng Nghymru, mae ofnau wedi eu mynegi am ei gwendid, ond nid maint y sylfaen dreth yng Nghymru sy'n bwysig—y dreth incwm, hynny yw—ond, yn hytrach, graddfa twf y sylfaen dreth incwm o'i chymharu â gweddill y Deyrnas Gyfunol. Ni ddylem orbwysleisio gwendid y sylfaen dreth incwm wrth drafod y dyfodol. Po fwyaf o drethi a gaiff eu datganoli, y mwyaf y gall Llywodraeth Cymru fenthyca. O ddefnyddio'r benthyciadau i fuddsoddi i dyfu'r economi a chreu cyflogaeth mwy amrywiol, gall fod yn arf hollbwysig i symud Cymru yn ei blaen a chynnig gwell dyfodol i'n pobl.

I am grateful to be able to take part in this important debate. The recommendations of the Silk commission are based on two concepts—one is empowerment, and the other is responsibility. The Labour and Tory response—and Andrew R.T. Davies's response today underlines this—has focused mainly on the responsibilities that come with the transfer of tax-varying powers. However, we have to remember that these recommendations are small and reasonable, and, unfortunately, they are very slow. What is missing, I feel, in emphasising the responsibility, is the absence of any ambition. In talking about the tax base in Wales, concerns have been expressed about its weakness, but it is not the size of the tax base in Wales that is important—in relation to income tax, that is—but, rather, the rate of growth of the tax base compared to the rest of the UK. We should not overemphasise the weakness of the income tax base when discussing the future. The more taxes are devolved, the more the Welsh Government can borrow. In using those loans to invest to grow the economy and to create more varied employment, it could be an all important tool to move Wales forward and offer a better future to our people.

Fel arall, mae rhywun yn amau bod rhai gwleidyddion, mewn mwy nag un blaid, yn credu mai gwanio y bydd cyflogaeth a'r economi yn y dyfodol yng Nghymru, a bod hynny bron â bod yn broses anochel. Pam arall y byddent mor ofnus ynglŷn â chael y cyfrifoldeb hwn? Ni wn ym mha wlad y mae Peter Hain yn byw ynddi, ond roedd yn rhybuddio ar Radio Wales ddoe y byddai Cymru yn 'going it alone'. Nid oes gennyf ddim syniad beth roedd e'n meddwl, oherwydd yr hyn sydd ar y bwrdd yw trefniant i rannu treth incwm. Cyfeiriodd hefyd at 'cutting ourselves off from wealth creation'; y 'wealth creation', mae'n debyg, sydd wedi arwain at y diweithdra uchel a GVA gwan yn y Cymoedd. Cawson ni'r un math o feddylfryd gan Owen Smith, sy'n arwain ar ran y Blaid Lafur yn San Steffan—yr un math o feddylfryd ofnus a gwangalon. Yr hyn sy'n cael ei gynnig yw'r union drefniant yr oedd Llafur wedi cytuno arno yn Neddf yr Alban 2012. Hynny yw, maent yn dweud, 'Rydym yn hapus i'r Alban gael y pwerau yma, ond dydyn ni yng Nghymru ddim i fod i'w cael nhw'. Pam? Beth yw'r rheswm dros yr ofnau hynny? Ai ansicrwydd ydyw, neu ddiffyg uchelgais? Beth? Mae'n anodd deall y rhesymeg.

Otherwise, one suspects that some politicians, in more than one party, believe that employment and the economy will weaken in Wales in the future, and that that is almost an inevitable process. Why else would they be so concerned about having this responsibility? I do not know in which country Peter Hain is living, but he warned on Radio Wales yesterday that Wales would be going it alone. I have no idea what he was talking about, because what is on the table is an arrangement to share income tax. He also referred to 'cutting ourselves off from wealth creation'; the 'wealth creation', it seems, that has led to the high unemployment and poor GVA in the Valleys. We had the same kind of thinking from Owen Smith, who is leading for the Labour Party in Westminster—the same sort of fearful and defeatist thinking. What is being offered is exactly the same arrangement that Labour agreed on in the Scotland Act 2012. That is, they are saying, 'We are happy for Scotland to have these powers, but we in Wales should not have them'. Why? What is the reason for those concerns? Is it uncertainty or a lack of ambition? What is it? It is difficult to understand the logic.

Fel y dywedodd Leanne Wood, nid yr Alban yn unig sy'n symud tuag at ragor o gyfrifoldebau trethiannol; mae rhanbarthau a rhai o ddinasoedd Lloegr hefyd yn gofyn am yr un math o bwerau, yn rhannol oherwydd y ffaith bod Llundain bellach yn llyncu cymaint o'r twf economaidd sydd ar gael. Felly, mae rhanbarthau Lloegr yn galw am y math hwn o bwerau. Os na fyddwn ni'n ofalus yng Nghymru, bydd gan y rhanbarthau hynny mwy o bwerau, achos mae ganddyn nhw'r pwerau i godi'r dreth gyngor eisoes. Felly, mae'n rhaid inni weld yr un arweiniad a'r un hyder—ynddon ni ein hunain, yn ein pobl ni ac yn ein dyfodol ni—yma yng Nghymru. Nid wyf yn credu y gallwn ni dderbyn dim llai ac ni ddylen ni ddisgwyl dim byd llai gan ein harweinwyr yma yng Nghymru. Dyna pam y mae'n rhaid inni weld cynigion comisiwn Silk yn cael eu gwireddu fel un.

As Leanne Wood said, it is not only Scotland that is moving towards more taxation powers; the regions and some of the English cities are also asking for the same kinds of powers, partly because of the fact that London is now swallowing up so much of the economic growth that is available. So, the regions of England are calling for these sorts of powers. If we are not careful in Wales, those regions will have more powers, because they already have powers to raise council tax. So, we have to see the same leadership and the same confidence—in ourselves, in our people and in our future—here in Wales. I do not believe that we can accept any less and we should not expect any less from our leaders here in Wales. That is why we have to see the proposals of the Silk commission being realised as one.

15:08 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I begin by welcoming the Government motion before us on the order paper today and the continued attempts to create a consensus, at least in this Chamber, about the next steps for devolution in Wales. I think that we should take the opportunity while we can, because I suspect that cross-party agreement on Silk 2 might be slightly more difficult to achieve. There has been a great deal of work to get us to this point, not only by the members of the Silk commission, but Members of all parties in the Chamber, as well as colleagues in the Westminster Government, again, on all sides, who have worked together, often behind the scenes and out of the glare of publicity, to get to the point where we are. I believe that what we have before us is important legislation that takes us to the next level of devolution for our nation. I believe that it is vital that we have the opportunity to pass the legislation before the next general election.

Dechreuaf drwy groesawu'r cynnig gan y Llywodraeth sydd ger ein bron ar y papur trefn heddiw a'r ymdrechion sy'n parhau i greu consensws, o leiaf yn y Siambr hon, am y camau nesaf i ddatganoli yng Nghymru. Rwyf yn meddwl y dylem fanteisio ar y cyfle tra gallwn, oherwydd rwyf yn amau y gallai fod ychydig yn fwy anodd sicrhau cytundeb trawsbleidiol ar Silk 2. Mae llawer iawn o waith wedi'i wneud i gyrraedd y pwynt hwn, nid yn unig gan aelodau comisiwn Silk, ond gan Aelodau o bob plaid yn y Siambr, yn ogystal â chydweithwyr yn Llywodraeth San Steffan, unwaith eto, ar bob ochr, sydd wedi gweithio gyda'i gilydd, yn aml y tu ôl i'r llenni a heb gyhoeddusrwydd, i gyrraedd lle yr ydym. Rwyf yn credu bod yr hyn sydd ger ein bron yn ddeddfwriaeth bwysig i fynd â ni i lefel nesaf datganoli ar gyfer ein cenedl. Credaf ei bod yn hollbwysig ein bod yn cael cyfle i basio'r ddeddfwriaeth cyn yr etholiad cyffredinol nesaf.

First, I will turn to the issues that are non-financial. We welcome them very much indeed. They have been referred to by previous speakers and I concur with the comments made. Perhaps inevitably, the subject of money has been at the forefront of most people's minds when looking at the legislation. I believe that financial devolution is inevitable and desirable. It is, to me, still amazing that we find ourselves in a position where we are content simply to receive the money we do via Westminster and that we do not have the desire to have greater levels of accountability and, indeed, a wider range of policy interventions available to Government Ministers.

Yn gyntaf, trof at y materion anariannol. Rydym yn eu croesawu'n fawr iawn. Mae siaradwyr blaenorol wedi cyfeirio atynt, ac rwyf yn cytuno â'r sylwadau a wnaethpwyd. Yn anochel efallai, mae arian yn destun sydd wedi bod ar flaen meddyliau'r rhan fwyaf o bobl wrth edrych ar y ddeddfwriaeth. Credaf fod datganoli ariannol yn anochel ac yn ddymunol. I mi, mae'n dal i fod yn rhyfeddol ein bod mewn sefyllfa lle'r ydym yn fodlon cael yr arian a gawn drwy San Steffan ac nad oes gennym awydd i gael mwy o atebolrwydd ac, yn wir, ystod ehangach o ymyriadau polisi ar gael i Weinidogion y Llywodraeth.

We should be responsible to the electorate for the funding and spending decisions that we make. I am clear on that. However, for me, the most exciting part of this legislation is the ability to have tools available to us to create new policies that, hopefully, will see Wales prosper as a nation, make a greater variety of interventions available to Welsh Ministers, and give us the opportunity to benefit from those decisions financially as well. Let us hope that we can see a situation where policy decisions made will actually be of benefit to Welsh coffers.

Dylem fod yn atebol i'r etholwyr am y penderfyniadau cyllid a gwariant a wnawn. Rwyf yn glir ynghylch hynny. Fodd bynnag, i mi, y rhan fwyaf cyffrous o'r ddeddfwriaeth hon yw'r gallu i gael yr offer i greu polisïau newydd a fydd, gobeithio, yn gweld Cymru'n ffynnu fel cenedl, yn golygu bod mwy o amrywiaeth o ymyriadau ar gael i Weinidogion Cymru, ac yn rhoi'r cyfle inni i elwa o'r penderfyniadau hynny'n ariannol hefyd. Gadewch inni obeithio y gallwn weld sefyllfa lle y bydd y penderfyniadau polisi a wneir o fudd gwirioneddol i goffrau Cymru.

On the issue of income tax, as Welsh Liberal Democrats, we have always believed that a shared income tax system between Westminster and the Welsh Government is a desirable place to be. I appreciate that not everybody is of that view. I, like Alun Ffred Jones, was greatly surprised by the comments of Peter Hain, but, perhaps more importantly, the comments of Owen Smith. I am sure that the First Minister is doing all he can to reassure his colleague Owen Smith that the Welsh Government is, indeed, more than capable and actually has the desire and the ambition to have the opportunity to share income tax-raising powers. Like everybody here, I believe that the lockstep is unnecessary and, undoubtedly—and I would be a fool to argue otherwise—will constrain the ability of Welsh Government to use those particular powers. However, I think that it is an important principle that we have been able to establish in the Westminster Government for the first time, because we were never able to convince the previous Labour Government of it. For the first time, we have a Westminster Government that at least accepts the point that, should the Welsh people agree, there should be an element of income tax devolution to this Chamber.

Ar fater treth incwm, rydym ni, Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru, bob amser wedi credu bod rhannu system treth incwm rhwng San Steffan a Llywodraeth Cymru yn dda o beth. Rwyf yn sylweddoli nad yw pawb o'r farn honno. Cefais innau, fel Alun Ffred Jones, fy synnu'n fawr gan sylwadau Peter Hain, ond, yn bwysicach efallai, gan sylwadau Owen Smith. Rwyf yn siŵr bod y Prif Weinidog yn gwneud popeth o fewn ei allu i sicrhau ei gydweithiwr Owen Smith fod Llywodraeth Cymru yn fwy nag abl, yn wir, a bod ganddi wir awydd ac uchelgais i gael cyfle i rannu pwerau codi treth incwm. Fel pawb yma, rwyf yn credu bod y cam clo'n ddiangen ac, yn sicr—a byddwn yn gwbl ffôl i ddadlau fel arall—y bydd yn cyfyngu ar allu Llywodraeth Cymru i ddefnyddio'r pwerau penodol hynny. Fodd bynnag, rwyf yn credu ei bod yn egwyddor bwysig yr ydym wedi gallu ei sefydlu yn Llywodraeth San Steffan am y tro cyntaf, oherwydd ni lwyddasom erioed i argyhoeddi'r Llywodraeth Lafur flaenorol o hynny. Am y tro cyntaf, mae gennym Lywodraeth yn San Steffan sydd o leiaf yn derbyn y pwynt, pe bai pobl Cymru'n cytuno, y dylai fod elfen o ddatganoli treth incwm i'r Siambr hon.

A speaker earlier talked about compromise. Well, I have been compromising since the days of the referendum in 1997. What was on offer then was not exactly what the Welsh Liberal Democrats wanted for our nation. The LCM process that we went through certainly was not my idea of the legislature I wanted Wales to have. Along the way, devolution has moved with annoyingly and frustratingly baby steps, but this principle, I think, is an important one to note, and I trust that we will all keep that at the forefront of our minds as we move forward.

Soniodd siaradwr yn gynharach am gyfaddawdu. Wel, rwyf wedi bod yn cyfaddawdu ers dyddiau'r refferendwm yn 1997. Roedd yr hyn a oedd ar gael yno ychydig yn wahanol i'r hyn yr oedd ar Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru ei eisiau i'n cenedl. Yn sicr, nid proses y cynnig cydsyniad deddfwriaethol yr aethom drwyddi oedd fy syniad i o'r ddeddfwrfa yr oeddwn am i Gymru ei chael. Ar hyd y ffordd, mae datganoli wedi symud â chamau baban, a fu'n ddiflas ac yn rhwystredig, ond mae'r egwyddor hon, yn fy marn i, yn un bwysig i'w nodi, a hyderaf y byddwn i gyd yn cadw hynny ar flaen ein meddyliau wrth inni symud ymlaen.

15:13

## Paul Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am pleased to take part in this debate this afternoon. The draft Wales Bill is a huge step forward for Welsh politics, and I am delighted that the Conservative-led coalition in Westminster has brought forward this Bill, once again showing its commitment to devolution in Wales. I am proud of the UK Conservative-led Government's record on the governance of Wales because it has delivered a referendum on primary law-making powers to the National Assembly for Wales, established the Silk commission and is now bringing forward this Bill.

Rwyf yn falch o gymryd rhan yn y ddadl hon y prynhawn yma. Mae Bil drafft Cymru'n gam mawr ymlaen i wleidyddiaeth Cymru, ac rwyf yn falch iawn fod y glymblaid dan arweiniad y Ceidwadwyr yn San Steffan wedi cyflwyno'r Bil hwn, gan ddangos unwaith eto eu hymrwymiad i ddatganoli yng Nghymru. Rwyf yn falch o hanes Llywodraeth y DU dan arweiniad y Ceidwadwyr o lywodraethu Cymru oherwydd mae wedi cyflwyno refferendwm ar bwerau deddfu sylfaenol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, wedi sefydlu comisiwn Silk ac yn awr mae'n cyflwyno'r Bil hwn.

Of course, one of the aims of this Bill is to provide more financial accountability to the Welsh Government by devolving a number of taxes and granting the ability to borrow. This Bill looks at a number of different constitutional and financial issues so, as finance spokesperson for the Welsh Conservatives, I will be focusing my comments this afternoon purely on the fiscal proposals outlined in the Bill.

Wrth gwrs, un o nodau'r Bil hwn yw darparu mwy o atebolrwydd ariannol i Lywodraeth Cymru drwy ddatganoli nifer o drethi a rhoi'r gallu i fenthyca. Mae'r Bil hwn yn edrych ar nifer o wahanol faterion cyfansoddiadol ac ariannol, felly, a minnau'n llefarydd cyllid i Geidwadwyr Cymru, byddaf yn canolbwyntio fy sylwadau y prynhawn yma'n llwyr ar y cynigion cyllidol a amlinellir yn y Bil.

The devolution of some taxation powers together with the ability to borrow will give the Welsh Government greater economic levers to make Wales a more attractive place to do business. It also means that spending decisions made by the National Assembly and the Welsh Government will be much more accountable, given the additional responsibility of raising some of that money. With more power comes more responsibility, and that is something that we on this side of the Chamber fully support. The Silk commission part 1 report is correct in saying that the autonomy to vary a particular tax can be an effective policy lever to achieve a defined devolved policy outcome. Clauses 13 and 14 look at the collection and management of stamp duty land tax in Wales and will allow the Assembly full responsibility on the acquisition of interests in land in Wales, and that is something that is supported by all parties in this Chamber.

Bydd datganoli rhai pwerau trethu ynghyd â'r gallu i fenthyca'n rhoi mwy o ysgogiadau economaidd i Lywodraeth Cymru i wneud Cymru'n lle mwy deniadol i gynnal busnes. Mae hefyd yn golygu y bydd penderfyniadau gwario a wneir gan y Cynulliad Cenedlaethol a Llywodraeth Cymru'n fwy atebol o lawer, oherwydd y cyfrifoldeb ychwanegol o godi rhywfaint o'r arian hwnnw. Gyda mwy o rym daw mwy o gyfrifoldeb, ac mae hynny'n rhywbeth yr ydym ni ar yr ochr hon i'r Siambr yn ei gefnogi'n llawn. Mae adroddiad rhan 1 comisiwn Silk yn gywir wrth ddweud bod ymreolaeth i amrywio treth benodol yn gallu bod yn ysgogiad polisi effeithiol i gyflawni canlyniad polisi datganoledig diffiniedig. Mae cymalau 13 a 14 yn edrych ar gasglu a rheoli treth dir y dreth stamp yng Nghymru a byddant yn rhoi cyfrifoldeb llawn i'r Cynulliad dros gaffael buddiannau mewn tir yng Nghymru, ac mae hynny'n rhywbeth y mae pob plaid yn y Siambr hon yn ei gefnogi.

As has already been said this afternoon, the Welsh Conservatives have recently announced plans to scrap stamp duty for properties worth up to £250,000. Our message is clear: we want Wales to be an aspirational nation, where getting a foot on the property ladder is not out of reach, and where low taxes can reward people who work hard. Clauses 15 and 16 examine the collection and management of landfill tax in Wales and will give the Assembly full responsibility on disposals of waste to landfill. Again, we fully support the devolution of this tax to Wales.

Fel y dywedwyd eisoes y prynhawn yma, yn ddiweddar cyhoeddodd Ceidwadwyr Cymru gynlluniau i gael gwared ar dreth stamp ar gyfer eiddo sy'n werth hyd at £250,000. Mae ein neges yn glir: rydym am i Gymru fod yn genedl ddyheadol, lle nad yw'n amhosibl cael troed ar yr ysgol eiddo, a lle gall trethi isel wobrwyo pobl sy'n gweithio'n galed. Mae cymalau 15 ac 16 yn archwilio casglu a rheoli treth tirlenwi yng Nghymru a byddant yn rhoi cyfrifoldeb llawn am waredu gwastraff i safleoedd tirlenwi i'r Cynulliad. Unwaith eto, rydym yn llwyr o blaid datganoli'r dreth hon i Gymru.

The Bill also provides for the devolution of income tax subject to a referendum, which I very much welcome. Given that this will be a significant change, it is sensible that the devolution of income tax should be put to the people of Wales. In the Welsh Conservatives' Assembly group submission to the Silk commission, we argued that devolving responsibility for setting the level of income tax over and above a Westminster base, while subtracting a reduction from the block grant, would preserve the advantages of stability and predictability that characterise the present funding regime. We, on this side of the Chamber, have been clear. We support the full implementation of the recommendations made in the Silk part 1 report.

Mae'r Bil hefyd yn darparu ar gyfer datganoli treth incwm yn amodol ar refferendwm, ac rwyf yn croesawu hynny'n fawr. Bydd hwn yn newid sylweddol, ac o'r herwydd mae'n synhwyrol y dylai pobl Cymru gael gwneud y penderfyniad ynghylch datganoli treth incwm. Yng nghyflwyniad grŵp Cynulliad Ceidwadwyr Cymru i gomisiwn Silk, roeddem yn dadlau y byddai datganoli cyfrifoldeb am bennu lefel y dreth incwm yn uwch na sylfaen San Steffan, a thynnu gostyngiad o'r grant bloc, yn cadw manteision y sefydlogrwydd a'r sicrwydd sy'n nodweddu'r gyfundrefn ariannu bresennol. Rydym ni, ar yr ochr hon i'r Siambr, wedi bod yn glir. Rydym o blaid gweithredu'n llawn yr argymhellion a wnaed yn adroddiad Silk rhan 1.

Finally, in relation to the borrowing powers outlined in clauses 17 and 18, the Welsh Conservatives have been clear in their support for the Welsh Government accessing borrowing powers to finance capital projects. Indeed, all parties have supported the principle that the Welsh Government should have the ability to borrow. This view is also echoed by some 80% of Welsh people who support the devolution of borrowing powers. Borrowing powers will be a crucial economic lever for the Welsh Government to finance capital projects and will help stimulate the Welsh economy.

Yn olaf, o ran y pwerau benthyca a amlinellir yng nghymalau 17 a 18, mae Ceidwadwyr Cymru wedi bod yn glir yn eu cefnogaeth i Lywodraeth Cymru i ddefnyddio pwerau benthyca i ariannu prosiectau cyfalaf. Yn wir, mae pob plaid wedi cefnogi'r egwyddor y dylai Llywodraeth Cymru allu benthyca. Mae'r farn hon hefyd yn cael ei hadleisio gan tua 80% o bobl Cymru sydd o blaid datganoli pwerau benthyca. Bydd pwerau benthyca'n ysgogiad economaidd allweddol i Lywodraeth Cymru i ariannu prosiectau cyfalaf a byddant yn helpu i sbarduno economi Cymru.

As I have said before, while devolution has brought political representation closer to the people and allowed Wales to pursue policies more closely aligned with its economic and social needs, nearly 15 years on from the onset of devolution, Wales faces continued challenges, particularly in raising the educational achievements and economic prosperity of its people. I believe that the draft Wales Bill recognises those challenges and, in response, the current UK Government is providing Wales with more tools to do the job. Clearly, this Bill gives the Welsh Government greater economic levers to make Wales a more attractive place in which to do business and to enable major infrastructure projects to be funded. So, I am pleased that the UK Government is delivering for Wales and I look forward to hearing more about the progress of this draft Bill in due course.

Fel yr wyf wedi'i ddweud o'r blaen, tra bo datganoli wedi dod â chynrychiolaeth wleidyddol yn nes at y bobl ac wedi galluogi Cymru i fynd ar drywydd polisïau sy'n cyd-fynd yn agosach â'i hanghenion economaidd a chymdeithasol, bron i 15 mlynedd ar ôl dechrau datganoli, mae Cymru'n wynebu heriau o hyd, yn enwedig o ran codi cyflawniadau addysgol a ffyniant economaidd ei phobl. Credaf fod y Bil drafft i Gymru'n cydnabod yr heriau hynny ac, yn sgil hynny, fod Llywodraeth bresennol y DU yn rhoi mwy o offer i Gymru i wneud y gwaith. Wrth gwrs, mae'r Bil hwn yn rhoi mwy o ysgogiadau economaidd i Lywodraeth Cymru i wneud Cymru'n lle mwy deniadol i gynnal busnes ac i'n galluogi i ariannu prosiectau seilwaith mawr. Felly, rwyf yn falch bod Llywodraeth y DU yn cyflawni dros Gymru ac edrychaf ymlaen at glywed mwy am gynnydd y Bil drafft maes o law.

15:17

## Mick Antoniw Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I have a slightly more critical piece about this legislation. In fact, I see it as a piece of legislation that is really a catalogue of missed opportunities and half promises. David Jones, the Secretary of State for Wales, basically says that the Bill implements almost all of the recommendations from the Silk commission's first report. I do not think that it does. I think that it half implements and it limits in the way in which it implements.

Mae gennyf ddarn ychydig yn fwy beirniadol am y ddeddfwriaeth hon. Yn wir, rwyf yn ei weld fel darn o ddeddfwriaeth sydd mewn gwirionedd yn gatalog o gyfleoedd a gollwyd a hanner addewidion. Mae David Jones, Ysgrifennydd Gwladol Cymru, yn dweud yn y bôn fod y Bil yn rhoi bron pob un o argymhellion adroddiad cyntaf comisiwn Silk ar waith. Nid wyf yn meddwl bod hynny'n wir. Rwyf yn meddwl ei fod yn hanner eu rhoi ar waith ac yn cyfyngu yn y ffordd y mae'n eu rhoi ar waith.

There are some things in it that are quite good. What is quite exciting is the proposal in respect of the Law Commission. I can see the way in which that might well develop to become an advisory body that will give assistance in respect of the legislative responsibilities of the Assembly.

Mae rhai pethau ynddo sy'n eithaf da. Mae'r cynnig o ran Comisiwn y Gyfraith yn eithaf cyffrous. Gallaf weld sut y gallai ddatblygu i fod yn gorff cynghori a fydd yn rhoi cymorth o ran cyfrifoldebau deddfwriaethol y Cynulliad.

However, there is a real missed opportunity in respect of dealing with issues such as the need for reserved powers for this Assembly, and there are a number of other missed opportunities as well. That comes from the ideological base that really jumps out in part of the—

Fodd bynnag, mae cyfle gwirioneddol wedi'i golli o ran ymdrin â materion megis yr angen am bwerau a gadwyd yn ôl i'r Cynulliad hwn, ac mae nifer o gyfleoedd eraill a gollwyd yn ogystal. Mae hynny'n deillio o'r sylfaen ideolegol sy'n neidio allan yn rhan o'r—

15:18 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will the Member give way?

A wnaiff yr Aelod ildio?

15:19 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes.

Gwnaf.

15:19 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

On the reserved-powers model, would you not accept that Silk part 1 had a specific remit to look at, and therefore the Government is responding to that, and we can look forward to your party's support for a reserved-powers model should that be the finding of Silk part 2?

O ran model y pwerau a gadwyd yn ôl, oni fyddech yn derbyn bod gan Silk rhan 1 gylch gwaith penodol i edrych arno, ac felly bod y Llywodraeth yn ymateb i hynny, ac y gallwn edrych ymlaen at gefnogaeth eich plaid i fodel pwerau a gadwyd yn ôl os dyna fydd canfyddiad Silk rhan 2?

15:19 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I fully support the reserved-powers model and I will argue for it. I think that there was an opportunity to look at the broader constitutional issues. There are quite a number of things that are in the Bill that actually have no mandate and did not form part of Silk. I will deal with one of those in a moment.

Rwyf yn llwyr gefnogi model pwerau a gadwyd yn ôl a byddaf yn dadlau o'i blaid. Yn fy marn i roedd cyfle i edrych ar y materion cyfansoddiadol ehangach. Mae cryn nifer o bethau sydd yn y Bil sydd heb unrhyw fandad mewn gwirionedd, ac nad oeddent yn rhan o Silk. Rhoddaf sylw i un ohonynt mewn munud.

The income tax powers are clearly unworkable. We know that they are unworkable; Andrew R.T. Davies knows that they are unworkable and I believe that David Jones knows that they are unworkable, which is why they are actually within the Bill. I do not believe that there was actually an intention to give us practical income tax powers. However, what I want to focus on—

Mae'r pwerau treth incwm yn amlwg yn anymarferol. Rydym yn gwybod eu bod yn anymarferol; mae Andrew R.T. Davies yn gwybod eu bod yn anymarferol a chredaf fod David Jones yn gwybod eu bod yn anymarferol, a dyna pam eu bod yn y Bil mewn gwirionedd. Nid wyf yn credu ei bod wedi bod yn fwriad erioed mewn gwirionedd i roi pwerau treth incwm ymarferol inni. Fodd bynnag, yr hyn yr wyf am ganolbwyntio arno—

15:19 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will you give way on that particular point?

A wnewch chi ildio ar y pwynt penodol hwnnw?

15:19 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Are you taking the intervention?

A ydych yn derbyn yr ymyriad?

15:19 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes.

Ydw.

15:19 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

It was quite clear in the evidence before the Welsh Grand Committee that the Treasury said that, without the lockstep, there would be no income tax powers at all. Would you prefer not to have any income tax powers or to have them subject to the lockstep?

Roedd yn eithaf clir yn y dystiolaeth gerbron yr Uwch-Bwyllgor Cymreig fod y Trysorlys wedi dweud na fyddai dim pwerau treth incwm o gwbl heb y cam clo. A fyddai'n well gennych beidio â chael dim pwerau treth incwm ynteu eu cael yn amodol ar y cam clo?

15:20 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Income tax powers that are unusable are, effectively, worthless. The only value to having them in the Bill is that it indicates a possibility that there might be a change at a future occasion.

Mae pwerau treth incwm na ellir eu defnyddio, i bob pwrpas, yn ddiwerth. Yr unig werth i'w rhoi yn y Bil yw bod hynny'n dangos posibilrwydd y gallai rhywbeth newid rywbryd yn y dyfodol.

I would like to focus now on one of the constitutional aspects with regard to the proposal to alter the electoral arrangements for Wales. I start from the principle that the electoral system belongs to the people of Wales and that any significant change to that system requires a mandate. We have all made this point in the Chamber on a number of occasions in relation to attempts by Westminster to reduce Wales's parliamentary representation. This Bill proposes changes to dual candidacy and what some refer to as a 'lucky loser's clause'. Leaving aside the politics of that issue, it proposes a significant change, but without any mandate—and we have heard a lot about mandates this afternoon—from any political party and on the flimsiest of evidence. I do not doubt the ability of Westminster to pass the legislative change, but I believe that to do it without any mandate in the form of a general election mandate or the consent of the Assembly or a referendum breaches the principles of electoral trust that have developed over the years.

Hoffwn ganolbwyntio yn awr ar un o'r agweddau cyfansoddiadol o ran y cynnig i newid y trefniadau etholiadol i Gymru. Fy man cychwyn yw'r egwyddor fod y system etholiadol yn perthyn i bobl Cymru, a bod angen mandad i wneud unrhyw newid arwyddocaol i'r system honno. Rydym i gyd wedi gwneud y pwynt hwn yn y Siambr ar nifer o achlysuron o safbwynt ymdrechion gan San Steffan i leihau cynrychiolaeth seneddol Cymru. Mae'r Bil hwn yn cynnig newidiadau i ymgeisyddiaeth ddeuol ac i'r hyn y mae rhai pobl yn ei alw'n 'gymal collwr lwcus'. Ar wahân i wleidyddiaeth y mater hwnnw, mae'n cynnig newid arwyddocaol, ond heb fandad—ac rydym wedi clywed llawer am fandadau y prynhawn yma—gan unrhyw blaid wleidyddol ac yn seiliedig ar dystiolaeth simsan iawn. Nid wyf yn amau gallu San Steffan i basio'r newid deddfwriaethol, ond rwyf o'r farn y byddai gwneud hynny heb fandad ar ffurf mandad etholiad cyffredinol neu gydsyniad y Cynulliad neu refferendwm yn torri egwyddorion yr ymddiriedaeth etholiadol sydd wedi datblygu dros y blynyddoedd.

Our constitution is part written and part unwritten. Underpinning our laws is a range of principles and values that have developed over many years, and I believe that one of these is the ownership of our electoral system by the people and its custodianship by elected representatives. Since our referendum on legislative powers, we have become a legislature, and, as a devolved legislature for the people of Wales, we have the moral custodianship of our electoral system on behalf of the people of Wales. It is my belief that this Bill undermines that moral ownership by seeking to change it in a significant way without any mandate whatsoever, and that it undermines the constitutional status of this body. By what right does any party seek to make those changes without any reference to any of the processes that make us accountable to the people? I believe that full legal responsibility for our electoral arrangements needs to be devolved to this Assembly and that the safeguard of a two thirds majority for constitutional change is justified.

Mae ein cyfansoddiad yn rhannol yn ysgrifenedig ac yn rhannol yn anysgrifenedig. Mae ein cyfreithiau'n seiliedig ar ystod o egwyddorion a gwerthoedd sydd wedi datblygu dros flynyddoedd lawer, a chredaf mai un o'r rhain yw mai'r bobl sy'n berchen ar ein system etholiadol ac mai cynrychiolwyr etholedig sy'n ei gwarchod. Ers ein refferendwm ar bwerau deddfwriaethol, rydym wedi dod yn ddeddfwrfa, ac, fel deddfwrfa ddatganoledig i bobl Cymru, ein lle ni yw gwarchod ein system etholiadol o safbwynt moesol ar ran pobl Cymru. Credaf fod y Bil hwn yn tanseilio'r berchnogaeth foesol honno drwy geisio ei newid yn sylweddol heb ddim mandad, a'i fod yn tanseilio statws cyfansoddiadol y corff hwn. Pa hawl sydd gan unrhyw blaid i geisio gwneud y newidiadau hynny heb gyfeirio o gwbl at unrhyw un o'r prosesau sy'n ein gwneud yn atebol i'r bobl? Credaf fod angen datganoli cyfrifoldeb cyfreithiol llawn dros ein trefniadau etholiadol i'r Cynulliad hwn, a bod cyfiawnhad dros fynnu mwyafrif o ddwy ran o dair ar gyfer newidiadau cyfansoddiadol.

The Bill is a missed opportunity. Instead of rising to the occasion and seizing the opportunity to correct the contradictions of the Government of Wales Act 2006 by introducing, as I said, a reserved-powers amendment, the Bill tinkers with issues and what it gives with one hand, it takes with the other. I welcome the Bill, but I reject much of its content as either unworkable or constitutionally unacceptable.

Mae'r Bil yn gyfle a gollwyd. Yn hytrach na bachu ar y cyfle i gywiro anghysondebau Deddf Llywodraeth Cymru 2006 drwy gyflwyno gwelliant pwerau a gadwyd yn ôl, fel y dywedais, mae'r Bil yn potsian â materion ac mae'r hyn y mae'n ei roi ar un llaw'n cael ei gymryd yn ôl ar y llall. Rwyf yn croesawu'r Bil, ond yn gwrthod llawer o'i gynnwys gan ei fod naill ai'n anymarferol neu'n annerbyniol o safbwynt cyfansoddiadol.

15:22 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Good grief, Mick. Just when I think you cannot get any more negative, your lunge down to a new level of negativity. To get this back on an even keel, may I say that I welcome this debate and I fully welcome the draft Wales Bill, which I think, in his heart of hearts, is what the First Minister started off trying to say before there were attempts to hijack this, from his backbenches mainly, but from other parties as well? I think that there are, as the First Minister said, many practical challenges to overcome—this was on 27 November, in our debate—before rate-varying powers could be devolved. For that reason, the First Minister said, 'We have not as a Government sought the devolution of powers over income tax.'

Brensiach, Mick. A minnau'n meddwl na allech fod yn fwy negyddol, dyna chi'n plymio i ddyfnder mwy negyddol eto. Er mwyn adfer rhywfaint o gydbwysedd, a gaf i ddweud fy mod yn croesawu'r ddadl hon ac yn croesawu Bil drafft Cymru yn llwyr; dyna, yn fy marn i, yng ngwaelod ei galon, yw'r hyn y dechreuodd y Prif Weinidog geisio ei ddweud cyn yr ymdrechion i herwgipio hyn, o'i feinciau cefn ef yn bennaf, ond o bleidiau eraill hefyd. Credaf fod llawer o heriau ymarferol i'w goresgyn, fel y dywedodd y Prif Weinidog —roedd hyn ar 27 Tachwedd, yn ein dadl—cyn y byddai modd datganoli pwerau i amrywio cyfraddau. Am y rheswm hwnnw, dywedodd y Prif Weinidog, 'Nid ydym fel Llywodraeth wedi ceisio datganoli pwerau dros dreth incwm.'

Maybe that is the reason why Mick Antoniw was so negative in his speech. The truth is that the Labour Party does not want this. You have only to listen to what Owen Jones has said in Westminster—[Interruption.] Owen Smith. You have only to listen to what Owen Smith has said in Westminster. [Interruption.] The problem is that you want to distract from the basic point that you are very worried about the devolution of income tax, because there is a lack of faith in the Labour Party, both here and in the UK, that you would be able to use that power effectively. I know that the First Minister disagreed with me earlier, but I heard you say in your opening statement, First Minister, that, if you wanted to increase the rate by 1p, you would have to do the same with the basic rate, and you felt that that made it unworkable. Yours is a tax-increasing agenda—just be frank about it, in the same way that my party has said that we want to reduce tax in Wales. I agree very much with—[Interruption.] You will have a chance in a minute, First Minister. I agree with the comments of—[Interruption.]

Efallai mai dyna pam y siaradodd Mick Antoniw mor negyddol. Y gwir yw nad oes ar y Blaid Lafur eisiau hyn. Nid oes ond raid ichi wrando ar yr hyn y mae Owen Jones wedi'i ddweud yn San Steffan—[Torri ar draws.] Owen Smith. Nid oes ond raid ichi wrando ar yr hyn y mae Owen Smith wedi'i ddweud yn San Steffan. [Torri ar draws.] Y broblem yw eich bod am dynnu sylw oddi wrth y pwynt sylfaenol, sef eich bod yn bryderus iawn am ddatganoli treth incwm, oherwydd mae diffyg ffydd yn y Blaid Lafur, yma ac yn y DU, i allu defnyddio'r grym hwnnw'n effeithiol. Gwn fod y Prif Weinidog wedi anghytuno â mi'n gynharach, ond clywais chi'n dweud yn eich datganiad agoriadol, Brif Weinidog, pe baech yn dymuno cynyddu'r gyfradd 1c, y byddai'n rhaid ichi wneud yr un peth i'r gyfradd sylfaenol, ac roeddech yn teimlo bod hynny'n ei wneud yn anymarferol. Agenda cynyddu trethi sydd gennych—byddwch yn onest am y peth, fel y mae fy mhlaid wedi dweud ein bod am ostwng treth yng Nghymru. Cytunaf yn llwyr â—[Torri ar draws.] Cewch gyfle mewn munud, Brif Weinidog. Rwyf yn cytuno â sylwadau—[Torri ar draws.]

15:24 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Are you taking an intervention?

A ydych yn derbyn ymyriad?

15:24 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

[Continues.]—if the shadow Welsh secretary allows you, of course.

[Parhau.]—os bydd ysgrifennydd yr wrthblaid dros Gymru'n caniatáu ichi, wrth gwrs.

15:24 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

As he full well knows, I was referring to a hypothetical situation, not what my party's policy is. My party's policy is that we do not wish to see income tax devolved at this moment in time. Stop being mischevious.

Fel y gŵyr yn iawn, roeddwn yn cyfeirio at sefyllfa ddamcaniaethol, nid at beth yw polisi fy mhlaid. Polisi fy mhlaid yw nad ydym am weld treth incwm yn cael ei datganoli ar hyn o bryd. Rhowch y gorau i'r direidi hyn.

15:24 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, I am glad that the First Minister put that on the record. So, you do not want the devolution of fiscal responsibility, which this Bill wants. It is interesting, talking hypothetically, that you chose to talk about a hypothesis that put tax up and did not bring tax down. I think that a narrative is being created here, and I hope that the people of Wales see exactly where the Welsh Labour Party would like to take this country.

Wel, rwyf yn falch bod y Prif Weinidog wedi rhoi hynny ar y cofnod. Felly, nid ydych o blaid datganoli cyfrifoldeb cyllidol, sy'n rhywbeth y mae ar y Bil hwn ei eisiau. Mae'n ddiddorol, a siarad yn ddamcaniaethol, eich bod wedi dewis siarad am ddamcaniaeth a oedd yn codi trethi ac nad oedd yn eu gostwng. Credaf fod naratif yn cael ei greu yma, ac rwyf yn gobeithio y bydd pobl Cymru'n gweld yn union i ble yr hoffai Plaid Lafur Cymru fynd â'r wlad hon.

I agree with many of the things that Kirsty Williams said. Part of what you said, Kirsty—do not look so worried—was that we have had far more proposals to devolve fiscal power under this Lib Dem-Conservative coalition Government than we had in the previous 13 years of the Labour Party. That is the situation that we are in today. The UK Conservative party and the UK Lib Dems want to devolve fiscal responsibility, and all that we hear from the other side of the Chamber is that they want borrowing. They do not want fiscal responsibility; they want borrowing responsibility and spending responsibility: let us borrow more and let us spend more, but let us not look at how we are going to pay it off—unless you are actually going to put rates of tax up.

Rwyf yn cytuno â llawer o'r pethau a ddywedodd Kirsty Williams. Rhan o'r hyn a ddywedasoch, Kirsty—peidiwch ag edrych mor bryderus—oedd ein bod wedi cael llawer mwy o gynigion i ddatganoli grym cyllidol o dan Lywodraeth glymblaid y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol nag a gawsom yn y 13 blynedd flaenorol gan y Blaid Lafur. Dyna'r sefyllfa yr ydym ynddi heddiw. Mae plaid Geidwadol y DU a Democratiaid Rhyddfrydol y DU am ddatganoli cyfrifoldeb cyllidol, a'r cwbl yr ydym yn ei glywed o'r ochr arall i'r Siambr yw eu bod am fenthyca. Nid oes arnynt eisiau cyfrifoldeb cyllidol; mae arnynt eisiau cyfrifoldeb dros fenthyca a chyfrifoldeb dros wario: gadewch inni fenthyca mwy a gadewch inni wario mwy, ond gadewch inni beidio ag edrych ar sut yr ydym yn mynd i dalu am hynny—oni bai eich bod yn mynd i godi cyfraddau treth mewn gwirionedd.

Leanne Wood spoke about her concerns. She has an amendment about the lockstep. If anyone is playing politics here, Leanne, it is your party, because there is consensus here for a level of fiscal devolution to this Assembly. Unfortunately, I think that your rather mischievous amendment is drawing out one rather minor aspect—[Interruption.] Yes, a rather minor aspect. [Interruption.] Well, under Plaid Cymru and under Labour, we would not have any devolution of fiscal policy at all.

Siaradodd Leanne Wood am ei phryderon. Mae ganddi welliant ynghylch y cam clo. Os oes unrhyw un yn chwarae gwleidyddiaeth yma, Leanne, eich plaid chi sy'n gwneud hynny, oherwydd mae consensws yma ar gyfer lefel o ddatganoli cyllidol i'r Cynulliad hwn. Yn anffodus, credaf fod eich gwelliant eithaf direidus yn canolbwyntio ar un fân agwedd—[Torri ar draws.] Ie, mân agwedd. [Torri ar draws.] Wel, o dan Blaid Cymru ac o dan Lafur, ni fyddai gennym ddim datganoli polisi cyllidol.

15:26

## Antoinette Sandbach [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Do you agree that it is much better for Wales to have an element of fiscal devolution, even with a lockstep, than no devolution at all? As a party, we have looked forward to the implementation of the Silk commission, which I think is what we voted on before.

A ydych yn cytuno ei bod yn well o lawer i Gymru gael elfen o ddatganoli cyllidol, hyd yn oed gyda cham clo, na dim datganoli o gwbl? Fel plaid, rydym wedi edrych ymlaen at roi argymhellion comisiwn Silk ar waith; a chredaf mai dyna y gwnaethom bleidleisio arno o'r blaen.

15:27

## Nick Ramsay [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I do agree. I have no issues with the lockstep being a part of this, because I would rather have a measure of fiscal devolution to this place, sanctioned by the Treasury, than not at all. If we chuck our toys out of the pram like they have done over there, we will not get anything at all. That is what the people of Wales will really look at in terms of seeing where you want to go. It is a game. Your side talks about a trap being foisted upon the people of Wales: the only trap comes from the playing with words of the Labour Party at the UK level.

Rwyf yn cytuno. Nid oes gennyf broblem â gwneud y cam clo'n rhan o hyn, oherwydd byddai'n well gennyf gael rhywfaint o ddatganoli cyllidol i'r lle hwn, wedi'i sancsiynu gan y Trysorlys, na dim o gwbl. Drwy daflu ein teganau allan o'r pram fel y maent hwy wedi ei wneud draw yna, ni chawn ddim byd o gwbl. Dyna y mae pobl Cymru'n edrych arno mewn gwirionedd o ran gweld i ble'r ydych eisiau mynd. Gêm yw hon. Mae eich ochr chi'n sôn am osod magl i bobl Cymru: yr unig fagl yw'r chwarae â geiriau gan y Blaid Lafur ar lefel y DU.

I fully support this. I reject Plaid's ability to destabilise this. I support the principle of fiscal devolution and I will not play your game and let your amendment put me off from voting for what the UK Government is trying to do. Thank goodness for the UK coalition. It is standing up for Wales far more than you have done over the past 13 years. Just accept it.

Rwyf yn cefnogi hyn yn llwyr. Rwyf yn gwrthod gallu Plaid Cymru i ansefydlogi hyn. Rwyf o blaid egwyddor datganoli cyllidol ac ni wnaf chwarae eich gêm a gadael i'ch gwelliant beri i mi beidio â phleidleisio o blaid yr hyn y mae Llywodraeth y DU yn ceisio ei wneud. Diolch byth am glymblaid y DU. Mae'n gwneud llawer mwy i sefyll dros Gymru nag yr ydych chi wedi ei wneud dros y 13 blynedd diwethaf. Derbyniwch hynny.

15:28

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I call the First Minister to reply to the debate.

Galwaf ar y Prif Weinidog i ymateb i'r ddadl.

15:28 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Well, that was a combination of a leadership speech and a comedy turn. I did not think that Nick Ramsay would be quite so blatant as to disagree publicly with his own leader, who has also criticised the lockstep. I do wonder now whether there is any coherence at all on the Conservative benches or, indeed, any sense of leadership being displayed either. He mischievously tried to suggest that we have some unwritten agenda to try to raise income tax. That has never been our position at all. From his party's point of view, it has come up with a 1% reduction in stamp duty, which is far too simple a solution. Our view would be that stamp duty needs to be looked at very closely to look at all of the bands of stamp duty in order for there to be a much fairer system, not a simple 1% cut as they have put forward. The question that arises in my mind is whether the Tories here support the lockstep or not. Do you support the lockstep or not? There is no answer. I did not expect there to be an answer, and I do not expect there to be any leadership on this issue.

Wel, roedd hynny'n gyfuniad o araith arweinyddiaeth a pherfformiad comedi. Nid oeddwn yn meddwl y byddai Nick Ramsay mor haerllug ag anghytuno'n gyhoeddus â'i arweinydd ei hun, sydd hefyd wedi beirniadu'r cam clo. Yn awr, tybed a oes unrhyw gydlyniad o gwbl ar y meinciau Ceidwadol neu, yn wir, unrhyw ymdeimlad o ddangos arweinyddiaeth ychwaith. Ceisiodd yn ddireidus awgrymu bod gennym ryw agenda anysgrifenedig i geisio codi treth incwm. Nid ydym erioed wedi bod o'r farn honno. O safbwynt ei blaid ef, mae wedi cynnig gostyngiad 1% yn y dreth stamp, sy'n ateb rhy syml o lawer. Ein barn ni fyddai bod angen edrych ar y dreth stamp yn ofalus iawn ac edrych ar bob un o'r bandiau treth stamp er mwyn cael system decach o lawer, nid dim ond toriad 1% fel y maent wedi'i gynnig. Y cwestiwn sy'n codi yn fy meddwl i yw p'un a yw'r Torïaid yma o blaid y cam clo ai peidio. A ydych o blaid y cam clo ai peidio? Nid oes ateb. Nid oeddwn yn disgwyl ateb, ac nid wyf yn disgwyl unrhyw arweinyddiaeth ar y mater hwn.

*Andrew R.T. Davies a gododd—*

*Andrew R.T. Davies rose—*

15:29 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Yes; here we are. [Interruption.]

Ie; dyma ni. [Torri ar draws.]

15:29 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Order, order. The First Minister put a question and I suppose that you are going to answer it.

Trefn, trefn. Gofynnodd y Prif Weinidog gwestiwn ac mae'n debyg eich bod yn mynd i'w ateb.

15:29 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, First Minister. As you seem to be throwing the questions around, surely the logical question to you is: considering that Owen Smith said, 'We will not seek these powers in the future' on record, do you not support the devolution of these powers? Owen Smith is saying that your party will not seek the devolution of these powers. So, what is it to be, First Minister?

Diolch, Brif Weinidog. Gan ei bod yn ymddangos eich bod yn taflu'r cwestiynau o gwmpas, onid y cwestiwn rhesymegol ichi yw hyn: ac ystyried bod Owen Smith wedi dweud, 'Ni fyddwn yn ceisio'r pwerau hyn yn y dyfodol' ar gofnod, onid ydych o blaid datganoli'r pwerau hyn? Mae Owen Smith yn dweud na fydd eich plaid yn ceisio datganoli'r pwerau hyn. Felly, beth yw hi i fod, Brif Weinidog?

15:29 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

What is it to be? No leadership at all from the Conservatives. I think that we have just answered that question. Let me turn to income tax as an issue. There needs to be in place a mechanism for the future devolution of income tax. We support that. We do not say that income tax should never be devolved. That clearly is not the case, but there are obstacles that need to be overcome. The lockstep is useless. It makes no sense at all. He has said it publicly and has disagreed with the Secretary of State over it and now he is disagreeing with those on his own front bench over it.

Beth yw hi i fod? Dim arweinyddiaeth o gwbl gan y Ceidwadwyr. Rwyf yn meddwl ein bod newydd ateb y cwestiwn hwnnw. Gadewch imi droi at dreth incwm. Mae angen sefydlu mecanwaith ar gyfer datganoli treth incwm yn y dyfodol. Rydym o blaid hynny. Nid ydym yn dweud na ddylid datganoli treth incwm byth. Wrth gwrs nad ydym yn dweud hynny, ond mae angen goresgyn rhai rhwystrau. Mae'r cam clo'n ddiwerth. Nid yw'n gwneud dim synnwyr o gwbl. Mae wedi dweud hynny'n gyhoeddus ac mae wedi anghytuno â'r Ysgrifennydd Gwladol am hyn ac yn awr y mae'n anghytuno â'r rhai ar ei fainc flaen ei hun am hyn.

We do not think that the lockstep is appropriate for Wales, or indeed, for that matter, for any other part of the UK. I also put this scenario—I will not ask the question, of course—to the Conservatives. I have always said, as did Silk, that the issue of fair funding must be dealt with first. Why are they trying to sell Wales down the river and saying that they will ignore the issue of fair funding but launch straight into income tax varying powers? That is something that the people of Wales deserve to know. Why are they not fighting for the £300 million that we know Wales is owed because of the work of the Holtham commission? That is something that they want to put to one side. What will happen is this: if the issue of fair funding is not addressed, when income tax powers are devolved, the answer from any UK Government in relation to fair funding reform will be, 'Raise your own money'. That is what it will say. The whole issue of fair funding will go out the window unless it is dealt with before income tax variation is considered and we will never see that money.

Nid ydym yn credu bod y cam clo'n briodol i Gymru, nac yn wir, o ran hynny, i unrhyw ran arall o'r DU. Rwyf hefyd am gyflwyno'r senario hwn—ni ofynnaf y cwestiwn, wrth gwrs—i'r Ceidwadwyr. Rwyf bob amser wedi dweud, fel y gwnaeth Silk, fod yn rhaid ymdrin ag ariannu teg yn gyntaf. Pam y maent yn ceisio bradychu Cymru ac yn dweud y byddant yn anwybyddu ariannu teg ond yna'n troi'n syth at bwerau amrywio treth incwm? Mae hynny'n rhywbeth y mae pobl Cymru'n haeddu ei wybod. Pam nad ydynt yn brwydro dros y £300 miliwn yr ydym yn gwybod ei fod yn ddyledus i Gymru oherwydd gwaith comisiwn Holtham? Mae hynny'n rhywbeth y maent am ei roi o'r neilltu. Dyma fydd yn digwydd: os nad yw ariannu teg yn cael sylw, pan gaiff pwerau treth incwm eu datganoli, yr ateb gan unrhyw Lywodraeth y DU am ddiwygio ariannu teg fydd, 'Codwch eich arian eich hun'. Dyna'r hyn y bydd yn ei ddweud. Bydd holl fater ariannu teg yn mynd allan drwy'r ffenestr oni bai ei fod yn cael sylw cyn i amrywio treth incwm gael ei ystyried ac ni welwn yr arian hwnnw byth.

There is another issue that needs to be considered very carefully and comes out of the point that Plaid Cymru made. It is this: what happens if there is a catastrophic drop in the tax base, as happened in 2007? How is that covered? The UK Government is able to borrow money to cover that. In Wales, the only option would be tax increases and/or cuts because the borrowing level is not high enough to cover the tax revenue that would be lost. That needs to be addressed as well. My party's position therefore is very clear. The position is that income tax varying powers can be devolved in principle, but we need to make sure that fair funding is dealt with first. The Tories are ducking out of that, both here and in Westminster. That is not something that we are prepared to do—selling the people of Wales down the river.

Mae angen ystyried mater arall yn ofalus iawn ac mae'n codi o'r pwynt a wnaeth Plaid Cymru, sef beth sy'n digwydd os oes gostyngiad trychinebus yn y sylfaen dreth, fel a ddigwyddodd yn 2007? Beth sy'n digwydd wedyn? Mae Llywodraeth y DU yn gallu benthyca arian i dalu am hynny. Yng Nghymru, yr unig ddewis fyddai cynyddu trethi a/neu wneud toriadau oherwydd nad yw'r lefel fenthyca'n ddigon uchel i dalu am y refeniw treth a fyddai'n cael ei golli. Mae angen rhoi sylw i hynny hefyd. Mae safbwynt fy mhlaid felly'n glir iawn. Y sefyllfa yw y gellir datganoli pwerau i amrywio treth incwm mewn egwyddor, ond mae angen inni wneud yn siŵr yr ymdrinnir ag ariannu teg yn gyntaf. Mae'r Torïaid yn osgoi hynny, yma ac yn San Steffan. Nid yw hynny'n rhywbeth yr ydym yn fodlon ei wneud—bradychu pobl Cymru.

There will inevitably be a level of tax competition. Tax competition already exists in the UK; the Scottish Parliament can vary income tax plus or minus 3% and we know that the council tax in Wales is 17% lower than in England on average. So, I have no problem with stamp duty leading to some element of competition across the border.

Mae'n anochel y bydd rhywfaint o gystadleuaeth o ran treth. Mae cystadleuaeth treth eisoes yn bodoli yn y DU; gall Senedd yr Alban amrywio treth incwm plws neu finws 3% ac rydym yn gwybod bod y dreth gyngor yng Nghymru 17% yn is nag yn Lloegr ar gyfartaledd. Felly, nid oes gennyf broblem os yw treth stamp yn arwain at ryw elfen o gystadleuaeth ar draws y ffin.

I listened very carefully, as I always do, to what David Melding said. I entirely agree with him about the Assembly controlling its own elections. I think that it is a view—not a universal view, but a widespread view—in the Chamber that the Assembly should be able to change the system of elections subject to a lock, which is a two-thirds majority. I agree that it should be done on the basis of more than one party voting for it. He talked about the institution being renamed a 'Parliament'. I would not disagree with that; I think he inadvertently made the word seem like an unconscionable English imposition; that is not what he meant, I know, but I think people will come to call this place a Parliament in a very short space of time. I know that that is something that the leader of the opposition has called for as well.

Gwrandewais yn ofalus iawn, fel yr wyf bob amser yn ei wneud, ar yr hyn a ddywedodd David Melding. Cytunaf yn llwyr ag ef ynghylch gallu'r Cynulliad i reoli ei etholiadau ei hun. Credaf fod barn—nid barn pawb, ond barn eang—yn y Siambr y dylai'r Cynulliad allu newid y system etholiadau yn amodol ar glo, sef mwyafrif o ddwy ran o dair. Cytunaf y dylid gwneud hynny a bwrw bod mwy nag un blaid yn pleidleisio dros hynny. Siaradodd am ailenwi'r sefydliad yn 'Parliament' yn Saesneg. Ni fyddwn yn anghytuno â hynny; rwyf yn credu ei fod yn anfwriadol wedi gwneud i'r gair Saesneg 'parliament' ymddangos fel petai wedi'i orfodi'n afresymol o Loegr; nid dyna oedd ei fwriad, fe wn, ond rwyf yn credu y daw pobl i alw'r lle hwn yn 'Parliament' yn Saesneg yn fuan iawn. Gwn fod hynny'n rhywbeth y mae arweinydd yr wrthblaid wedi galw amdano hefyd.

In terms of the issue of Members, I know full well, from talking to those in my own party, that the workload on backbench Members in the Chamber is heavy. There is no other legislature in Britain where the workload is heavier; that much is true. However, I also recognise the fact that, in the public mind, at this moment in time, 80 Members would be seen as just more politicians. A lot of work would need to be done to convince the people of Wales that there would be a need for 80 politicians, even though logic dictates that that should be the case. Northern Ireland has 109 with a population that is just over half of Wales's population and Scotland has 129. Members will know themselves the way in which the workload has increased, particularly since the 2011 referendum.

O ran Aelodau, gwn yn iawn, o siarad â phobl yn fy mhlaid fy hun, fod y baich gwaith ar Aelodau'r meinciau cefn yn y Siambr yn drwm. Nid oes deddfwrfa arall ym Mhrydain lle mae'r baich gwaith yn drymach; mae hynny'n wir. Fodd bynnag, rwyf hefyd yn cydnabod y ffaith y byddai'r cyhoedd, ar hyn o bryd, yn gweld 80 o Aelodau fel dim ond mwy o wleidyddion. Byddai angen gwneud llawer o waith i argyhoeddi pobl Cymru y byddai angen 80 o wleidyddion, er bod rhesymeg yn dweud y dylai fod gennym gynifer â hynny. Mae gan Ogledd Iwerddon 109 gyda phoblogaeth sydd ychydig dros hanner poblogaeth Cymru ac mae gan yr Alban 129. Bydd yr Aelodau'n gwybod eu hunain fod y baich gwaith wedi cynyddu, yn enwedig ers refferendwm 2011.

I take with a very big pinch of salt the statement that this is a great Conservative success. Believe me, the ducking and diving that took place at the Wales Office was quite remarkable. I welcome the fact that 19 stone of Welsh beef was brought to bear on the delicate frame of the Secretary of State on more than occasion and I am grateful to the leader of the opposition for that. [Laughter.] However, I can promise him that much delay was caused by the Wales Office on this. It was when I went to the joint ministerial council and pursued the Prime Minister—who, in fairness, has no agenda—on this that we saw progress, and I have to say that a great deal of work was done by Danny Alexander and others within the Liberal Democrats to move this forward, which I am happy to acknowledge.

Rwyf yn cymryd y datganiad fod hyn yn llwyddiant mawr i'r Ceidwadwyr â phinsiad mawr iawn o halen. Credwch fi, roedd y gwingo a'r osgoi a ddigwyddodd yn Swyddfa Cymru'n eithaf rhyfeddol. Rwyf yn croesawu'r ffaith fod corffolaeth eiddil yr Ysgrifennydd Gwladol wedi gorfod wynebu 19 stôn o gig eidion Cymreig ar fwy nag un achlysur, ac rwyf yn ddiolchgar i arweinydd yr wrthblaid am hynny. [Chwerthin.] Fodd bynnag, gallaf addo iddo bod Swyddfa Cymru wedi achosi llawer o oedi ar hyn. Gwelsom gynnydd pan euthum i i gydgyngor y gweinidogion a mynd ar ôl Prif Weinidog y DU—nid oes ganddo ef agenda, a bod yn deg—ynghylch hyn, gwelsom gynnydd, a rhaid imi ddweud bod Danny Alexander ac eraill yn y Democratiaid Rhyddfrydol wedi gwneud llawer iawn o waith i fwrw ymlaen â hyn, ac rwyf yn hapus i gydnabod hynny.

I see that time is running out. The issue of income tax devolution will clearly be debated again in the future, but from the point of view of my party, we will give this Bill our full support. It is not ideal; there are things that we would like to have seen in it, but it is important that Wales moves forward and it is important that we get the right level of powers at the right time. It is also important that we have tax-varying powers, such as stamp duty, landfill tax, maybe in time income tax, and of course, importantly, the ability to borrow. Once again, I express my support for the motion and the amendment.

Gwelaf fod yr amser yn dirwyn i ben. Yn amlwg, byddwn yn dadlau am ddatganoli treth incwm eto yn y dyfodol, ond o safbwynt fy mhlaid i, byddwn yn rhoi ein cefnogaeth lawn i'r Bil hwn. Nid yw'n ddelfrydol; mae pethau y byddem wedi hoffi eu gweld ynddo, ond mae'n bwysig bod Cymru'n symud ymlaen ac mae'n bwysig bod y pwerau iawn gennym ar yr adeg iawn. Mae hefyd yn bwysig bod gennym bwerau i amrywio trethi, megis treth stamp, treth tirlenwi, efallai dreth incwm ymhen amser, ac wrth gwrs, yn bwysig iawn, y gallu i fenthyca. Unwaith eto, mynegaf fy nghefnogaeth i'r cynnig a'r gwelliant.

15:34

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree amendment 1. Does any Member object? There are objections. Therefore, I will take a vote.

Y cynnig yw bod gwelliant 1 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwrthwynebiadau. Felly, cymeraf bleidlais.

The Business Committee agreed that any voting would take place at the end of this item, so I intend to move straight into the vote. Does anyone wish for the bell to be rung? I see not. Fine. We will move straight to the vote—sorry, are we all paying attention here? Thank you.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes y byddai unrhyw bleidlais yn digwydd ar ddiwedd yr eitem hon, felly bwriadaf symud at y bleidlais. A oes unrhyw un yn dymuno i'r gloch gael ei chanu? Gwelaf nad oes. Iawn. Symudwn yn syth at y bleidlais—mae'n ddrwg gennyf, a yw pawb yn gwrando yma? Diolch yn fawr.

Canlyniad y bleidlais ar welliant 1.

Result of the vote on amendment 1.

*Derbyniwyd gwelliant 1: O blaid 52, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

*Amendment 1 agreed: For 52, Against 0, Abstain 0.*

Cynnig NDM5426 fel y'i diwygiwyd:

Motion NDM5426 as amended:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn croesawu cyhoeddi Bil Cymru drafft gan Lywodraeth y DU.

1. Welcomes the publication of a draft Wales Bill by the UK Government.

2. Yn credu y dylai Deddf Cymru yn y dyfodol ddarparu ar gyfer yr ysgogiadau economaidd sy'n angenrheidiol i alluogi Llywodraeth Cymru i greu swyddi a thwf ac na ddylai pwerau rhannu treth incwm gael eu cyfyngu gan y system 'cam clo'.

2. Believes that a future Wales Act should equip the Welsh Government with the economic levers required for job creation and growth and that income-tax sharing powers should not be restricted by the 'lockstep' mechanism.

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5426 fel y'i digwygiwyd.

Result of the vote on motion NDM5426 as amended.

*Derbyniwyd cynnig NDM5426 fel y'i digwygiwyd: O blaid 55, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

*Motion NDM5426 as amended agreed: For 55, Against 0, Abstain 0.*

15:36

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Before we move to Stage 3 of the Social Services and Well-being (Wales) Bill, I will suspend proceedings—. Can we all listen now, so that we all know what is going to happen? I will suspend proceedings for 10 minutes. The bell will be rung five minutes before we are due to reconvene. I would encourage Members to return to the Chamber promptly. I now suspend the sitting. Thank you.

Cyn inni symud at Gyfnod 3 Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), rwyf am atal y trafodion. A allwn i gyd wrando'n awr, er mwyn inni i gyd wybod beth sy'n mynd i ddigwydd? Byddaf yn atal y trafodion am 10 munud. Cenir y gloch bum munud cyn inni ailymgynnull. Anogaf yr Aelodau i ddychwelyd i'r Siambr yn brydlon. Rwyf yn awr yn atal y sesiwn. Diolch yn fawr.

*Ataliwyd y Cyfarfod Llawn am 15:36.*

*Plenary was suspended at 15:36.*

*Ailymgynullodd y Cynulliad am 15:47.*

*The Assembly reconvened at 15:47.*

# Dadl Cyfnod 3 o dan Reol Sefydlog 26.44 ar y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru): Parhad

# Stage 3 Standing Order 26.44 Debate on the Social Services and Well-Being (Wales) Bill: Continued

*Parhad o ddadl 4 Chwefror 2014.*

*Debate continued from 4 February 2014.*

### Grŵp 29: Pŵer Gweinidogion Cymru i Gyfarwyddo Awdurdodau Lleol mewn perthynas a Phlant sy'n Derbyn Gofal (Gwelliant 174)

### Group 29: Welsh Ministers' Power to Direct Local Authorities in relation to Looked-after Children (Amendment 174)

15:47

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The lead and only amendment is amendment 174. I call on the Deputy Minister to move amendment 174 and to speak to it.

Y prif a'r unig welliant yw gwelliant 174. Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 174 ac i siarad amdano.

15:47

## Gwenda Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Diprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol / The Deputy Minister for Social Services*

I move amendment 174 in my name.

Cynigiaf welliant 174 yn fy enw i.

Amendment 174 proposes an amendment to section 69 in relation to Welsh Ministers' powers to direct local authorities in relation to looked-after children. Section 69 was imported from the Children Act 1989. In the important process of checking and refining this Bill, I have reconsidered subsections (5) to (8). These provide Welsh Ministers with a wide power to direct local authorities in relation to looked-after children

Mae gwelliant 174 yn cynnig gwelliant i adran 69 o ran pwerau Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo awdurdodau lleol o ran plant sy'n derbyn gofal. Mewnfudwyd Adran 69 o Ddeddf Plant 1989. Yn y broses bwysig o wirio a mireinio'r Bil hwn, rwyf wedi ailystyried isadrannau (5) i (8). Mae'r rhain yn rhoi pŵer eang i Weinidogion Cymru gyfarwyddo awdurdodau lleol o ran plant sy'n derbyn gofal:

'for the purpose of protecting members of the public from serious injury'.

i'r diben o ddiogelu'r cyhoedd rhag niwed difrifol.

I do not consider that this sort of ministerial power of direction is appropriate in 2014. In consolidating the legislation we have tried to keep powers for Ministers to direct to a minimum. I am satisfied that the power is not necessary, and that it should not be replicated in the Bill. I am proposing to remove these provisions to address a potential issue and to ensure that children's rights are at the forefront of the Bill. I ask that Members support this amendment.

Nid wyf o'r farn bod y math hwn o bŵer gweinidogol o gyfarwyddyd yn briodol yn 2014. Wrth gadarnhau'r ddeddfwriaeth, rydym ni wedi ceisio cadw'r pwerau i Weinidogion gyfarwyddo i'r graddau lleiaf posibl. Rwy'n fodlon nad yw'r pŵer yn angenrheidiol, ac na ddylid ei ailadrodd yn y Bil. Rwy'n cynnig dileu'r darpariaethau hyn i fynd i'r afael â phroblem bosibl ac i sicrhau bod hawliau plant yn flaenllaw yn y Bil. Gofynnaf i'r Aelodau gefnogi'r gwelliant hwn.

15:49

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on Kirsty Williams. I see that you do not wish to speak. You obviously do not want to say any more, Deputy Minister.

Galwaf ar Kirsty Williams. Gwelaf nad ydych yn dymuno siarad. Mae'n amlwg nad ydych chi'n dymuno dweud unrhyw beth arall, Ddirprwy Weinidog.

The question is that amendment 174 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, so amendment 174 is agreed.

Y cwestiwn yw y dylid derbyn gwelliant 174. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiadau, felly caiff gwelliant 174 ei dderbyn

*Derbyniwyd gwelliant 174 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 174 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

15:49

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Deputy Minister to move amendment 175.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 175.

15:49

## Gwenda Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 175 in my name.

Cynigiaf welliant 175 yn fy enw i.

15:49

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 175 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, so amendment 175 is agreed.

Y cwestiwn yw y dylid derbyn gwelliant 175. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiadau, felly caiff gwelliant 175 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 175 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 175 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

15:49

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Deputy Minister to move amendment 176.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 176.

15:49

## Gwenda Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 176 in my name.

Cynigiaf welliant 176 yn fy enw i.

15:49

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 176 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, so amendment 176 is agreed.

Y cwestiwn yw y dylid derbyn gwelliant 176. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiadau, felly caiff g welliant 176 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 176 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 176 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

15:49

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Deputy Minister to move amendment 177.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 177.

15:49 **Gwenda Thomas** [Bywgraffiad] [Biography] Senedd.tv [Fideo] [Video]

I move amendment 177 in my name.

Cynigiaf welliant 177 yn fy enw i.

15:49 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad] [Biography] Senedd.tv [Fideo] [Video]

The question is that amendment 177 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, so amendment 177 is agreed.

Y cwestiwn yw y dylid derbyn gwelliant 177. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiadau, felly caiff gwelliant 177 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 177 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 177 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

15:49 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad] [Biography] Senedd.tv [Fideo] [Video]

I call on the Deputy Minister to move amendment 178.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 178.

15:49 **Gwenda Thomas** [Bywgraffiad] [Biography] Senedd.tv [Fideo] [Video]

I move amendment 178 in my name.

Cynigiaf welliant 178 yn fy enw i.

15:49 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad] [Biography] Senedd.tv [Fideo] [Video]

The question is that amendment 178 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, so amendment 178 is agreed.

Y cwestiwn yw y dylid derbyn gwelliant 178. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiadau, felly caiff gwelliant 178 ei dderbyn.

I call on the Deputy Minister to move amendment 179.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 179.

15:50 **Gwenda Thomas** [Bywgraffiad] [Biography] Senedd.tv [Fideo] [Video]

I move amendment 179 in my name.

Cynigiaf welliant 179 yn fy enw i.

15:50 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad] [Biography] Senedd.tv [Fideo] [Video]

The question is that amendment 179 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, therefore amendment 179 is agreed.

Y cwestiwn yw y dylid derbyn gwelliant 179. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiadau, felly caiff gwelliant 179 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 179 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 179 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

15:50 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad] [Biography] Senedd.tv [Fideo] [Video]

I call on the Deputy Minister to move amendment 180.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 180.

15:50 **Gwenda Thomas** [Bywgraffiad] [Biography] Senedd.tv [Fideo] [Video]

I move amendment 180 in my name.

Cynigiaf welliant 180 yn fy enw i.

15:50 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad] [Biography] Senedd.tv [Fideo] [Video]

The question is that amendment 180 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, therefore amendment 180 is agreed.

Y cwestiwn yw y dylid derbyn gwelliant 180. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiadau, felly caiff gwelliant 180 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 180 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 180 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

15:50 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad] [Biography] Senedd.tv [Fideo] [Video]

I call on the Deputy Minister to move amendment 181.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 181.

15:50 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 181 in my name.

Cynigiaf welliant 181 yn fy enw i.

15:50 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 181 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, therefore amendment 181 is agreed.

Y cwestiwn yw y dylid derbyn gwelliant 181. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiadau, felly caiff gwelliant 18 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 181 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 181 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

15:50 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Deputy Minister to move amendment 60.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 60.

15:50 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 60 in my name.

Cynigiaf welliant 60 yn fy enw i.

15:50 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 60 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, therefore amendment 60 is agreed.

Y cwestiwn yw y dylid derbyn w 60. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiadau, felly caiff gwelliant 60 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 60 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 60 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

## Grŵp 30: Gorfodi Gorchmynion Cyfraniadau ar ol i Atodlen 11 i Ddeddf Trosedd a Llysoedd 2013 Gychwyn (Gwelliant 281)

## Group 30: Enforcement of Contribution Orders Subsequent to the Commencement of Schedule 11 to the Crime and Courts Act 2013 (Amendment 281)

15:50 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The lead and only amendment in the group is amendment 281. I call on the Deputy Minister to move amendment 281 and to speak to it.

Y prif a'r unig welliant yn y grŵp yw gwelliant 281. Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 281 ac i siarad amdano.

15:51 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 281 in my name.

Cynigiaf welliant 281 yn fy enw i.

This is a technical amendment. It is necessitated by the Crime and Courts Act 2013, which repeals section 150(1) of the Magistrates' Court Act 1980, referred to in Schedule 1 of the Bill. The repeal has not yet been commenced. Amendment 281 updates Schedule 1(4) of the Bill to reflect the fact that magistrates' court maintenance orders will no longer exist once the relevant provision of the 2013 Act comes into force. I ask Assembly members to support this amendment.

Gwelliant technegol yw hwn. Fe'i gwneir yn angenrheidiol gan Ddeddf Trosedd a Llysoedd 2013, sy'n diddymu adran 150(1) Deddf Llysoedd Ynadon 1980, y cyfeirir ati yn Atodlen 1 y Bil. Nid yw'r diddymiad wedi ei gychwyn eto. Mae gwelliant 281 yn diweddaru Atodlen 1(4) y Bil i adlewyrchu'r ffaith na fydd gorchmynion cynnal a chadw llys ynadon yn bodoli mwyach unwaith y daw darpariaeth berthnasol Deddf 2013 i rym. Gofynnaf i aelodau'r Cynulliad gefnogi'r gwelliant hwn.

15:51 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have no other speakers. The question is that amendment 281 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, therefore amendment 281 is agreed.

Nid oes gennyf unrhyw siaradwyr eraill. Y cwestiwn yw y dylid derbyn gwelliant 281. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiadau, felly caiff gwelliant 281ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 281 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 281 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

15:51

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I call on the Deputy Minister to move amendment 182.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 182.

15:51

## Gwenda Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I move amendment 182 in my name.

Cynigiaf welliant 182 yn fy enw i.

15:51

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

The question is that amendment 182 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, therefore amendment 182 is agreed.

Y cwestiwn yw y dylid derbyn gwelliant 182. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiadau, felly caiff gwelliant 182 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 182 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 182 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

### Grŵp 31: Dyletswydd o dan Adran 86(3) i Hysbysu'r Awdurdod Lleol am Gyfeiriadau Personau Perthnasol sydd a Chyfrifoldeb Rhiant dros Blentyn sy'n Derbyn Gofal (Gwelliant 183)

### Group 31: Duty under Section 86(3) to Keep Local Authority Informed of Addresses of Relevant Persons with Parental Responsibility for a Looked-after Child (Amendment 183)

15:52

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

The lead and only amendment in the group is amendment 183. I call on the Deputy Minister to move amendment 183 and to speak to it.

Y prif a'r unig welliant yn y grŵp yw gwelliant 183. Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 183 ac i siarad amdano.

15:52

## Gwenda Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I move amendment 183 in my name.

Cynigiaf welliant 183 yn fy enw i.

The purpose of this amendment is to remove section 86(7) from the Bill. This will clarify the position under British law that the burden of proving an offence rests with those parties bringing the proceedings, rather than the individuals alleged to have committed an offence. This maintains the presumption of innocence until proven guilty in relation to the offence of failing to comply with the duty under section 86(3) to keep a local authority informed of their address in the circumstances set out in that section. We consider that it is very important that this subsection be removed in the interest of ensuring fairness in application of the law. Therefore, I ask Members to support this amendment.

Diben y gwelliant hwn yw diddymu adran 86(7) o'r Bil. Bydd hyn yn egluro'r sefyllfa dan gyfraith Prydain fod y baich o brofi trosedd yn nwylo'r partïon hynny sy'n dwyn yr achos, yn hytrach na'r unigolion yr honnir eu bod wedi cyflawni trosedd. Mae hyn yn cynnal y rhagdybiaeth o ddieuogrwydd hyd nes y profir euogrwydd o ran y drosedd o fethu â chydymffurfio â'r ddyletswydd dan adran 86(3) i hysbysu awdurdod lleol am eu cyfeiriad dan yr amgylchiadau a nodir yn yr adran honno. Rydym o'r farn ei bod yn bwysig iawn bod yr isadran hon yn cael ei diddymu er mwyn sicrhau tegwch wrth weithredu'r gyfraith. Felly, gofynnaf i'r Aelodau gefnogi'r gwelliant hwn.

15:52

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I have no other speakers. The question is that amendment 183 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, therefore amendment 183 is agreed.

Nid oes gennyf unrhyw siaradwyr eraill. Y cwestiwn yw y dylid derbyn gwelliant 183. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiadau, felly caiff gwelliant 183 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 183 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 183 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

## Grŵp 32: Dyletswydd Awdurdod Lleol i Sicrhau Ymweliadau a Chyswllt â Phlant sy’n Derbyn Gofal a Phlant Eraill (Gwelliannau 46 a 185)

## Group 32: Duty of Local Authority to Ensure Visits to, and Contact with, Looked-after Children and Other Children (Amendments 46 and 185)

15:53

### Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The lead amendment in the group is amendment 46. I call on the Deputy Minister to move amendment 46 and to speak to it and the other amendment in the group.

Y prif welliant yn y grŵp yw gwelliant 46. Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 46 ac i siarad amdano yn ogystal â’r gwelliant arall yn y grŵp.

15:53

### Gwenda Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 46 in my name.

Cynigiaf welliant 46 yn fy enw i.

Amendment 46 will insert a new subsection specifying matters that must be contained within regulations to be made under section 88(1)(c). The effect of this amendment is to ensure that regulations that specify a category of children to whom the duties in section 88(2) will apply, must also specify the local authority responsible for discharging those duties in relation to the category of children specified. This important amendment is intended to provide clarity in cases where children may be ordinarily resident in a local authority in Wales but have been detained outside that local authority’s area, or vice versa. I am grateful to the NSPCC for drawing my attention to the provision that amendment 185 is seeking to remove. This minor but important amendment will shift the emphasis of the duty on the local authority, from reactive to proactive, in relation to arranging appropriate advice, support and assistance to children under section 88. This means that the child will no longer have to request the support envisaged in section 88(2)(b) before the local authority is under a duty to arrange it. I ask Members to support these amendments.

Bydd gwelliant 46 yn ychwanegu isadran newydd yn nodi materion y mae’n rhaid eu cynnwys mewn rheoliadau i’w gwneud dan adran 88(1)(c). Effaith y gwelliant hwn yw sicrhau bod rheoliadau sy’n nodi categori o blant y bydd y dyletswyddau yn adran 88(2) yn berthnasol iddynt, hefyd yn gorfod nodi’r awdurdod lleol sy’n gyfrifol am gyflawni’r dyletswyddau hynny o ran y categori o blant a nodwyd. Diben y gwelliant pwysig hwn yw darparu eglurder mewn achosion lle y gallai plant breswylio mewn awdurdod lleol yng Nghymru fel rheol ond sydd wedi eu cadw y tu allan i ardal yr awdurdod lleol hwnnw, neu i’r gwrthwyneb. Rwy’n ddiolchgar i’r NSPCC am dynnu fy sylw at y ddarpariaeth y mae gwelliant 185 yn ceisio ei diddymu. Bydd y gwelliant mân ond pwysig hwn yn newid pwyslais y ddyletswydd ar yr awdurdod lleol, o ymatebol i ragweithiol, o ran trefnu cyngor, cefnogaeth a chymorth priodol i blant dan adran 88. Mae hyn yn golygu na fydd yn rhaid i’r plentyn ofyn am y cymorth a ragwelir yn adran 88(2)(b) bellach, cyn ei bod yn ddyletswydd ar yr awdurdod lleol i’w drefnu. Gofynnaf i’r Aelodau gefnogi’r gwelliannau hyn.

15:54

### Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have no other speakers. The question is that amendment 46 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, therefore amendment 46 is agreed.

Nid oes gennyf unrhyw siaradwyr eraill. Y cwestiwn yw y dylid derbyn gwelliant 46. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiadau, felly caiff gwelliant 46 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 46 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 46 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

15:54

### Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Deputy Minister to move amendment 184.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 184.

15:54

### Gwenda Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 184 in my name.

Cynigiaf welliant 184 yn fy enw i.

15:55

### Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is that amendment 184 be agreed to. Are there any objections? There are no objections, therefore amendment 184 is agreed.

Y cynnig yw y dylid derbyn gwelliant 184. A oes unrhyw wrthwynebiadau? Nid oes unrhyw wrthwynebiadau, felly caiff gwelliant 184 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 184 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 184 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

15:55 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Deputy Minister to move amendment 185.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 185.

15:55 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 185 in my name.

Cynigiaf welliant 185 yn fy enw i.

15:55 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 185 be agreed to. Are there any objections? There are no objections. Amendment 185 is agreed.

Y cwestiwn yw y dylid derbyn gwelliant 185. A oes unrhyw wrthwynebiadau? Nid oes unrhyw wrthwynebiadau, felly caiff gwelliant 185 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 185 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 185 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

15:55 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Deputy Minister to move amendment 186.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 186.

15:55 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 186 in my name.

Cynigiaf welliant 186 yn fy enw i.

15:55 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 186 be agreed to. Are there any objections? There are no objections, therefore amendment 186 is agreed.

Y cwestiwn yw y dylid derbyn gwelliant 186. A oes unrhyw wrthwynebiadau? Nid oes unrhyw wrthwynebiadau, felly caiff gwelliant 186 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 186 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 186 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

15:55 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Deputy Minister to move amendment 187.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 187.

15:55 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 187 in my name.

Cynigiaf welliant 187 yn fy enw i.

15:55 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 187 be agreed to. Are there any objections? There are no objections, therefore amendment 187 is agreed.

Y cwestiwn yw y dylid cytuno ar welliant 187. A oes unrhyw wrthwynebiadau? Nid oes unrhyw wrthwynebiadau, felly caiff gwelliant 187 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 187 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 187 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

15:55 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Deputy Minister to move amendment 188.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 188.

15:55 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 188 in my name.

Cynigiaf welliant 188 yn fy enw i.

15:55 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 188 be agreed to. Are there any objections? There are no objections, therefore amendment 188 is agreed.

Y cwestiwn yw y dylid derbyn gwelliant 188. A oes unrhyw wrthwynebiadau? Nid oes unrhyw wrthwynebiadau, felly caiff gwelliant 188 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 188 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 188 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

### Grŵp 33: Ymgyfeillio â Phlant sy'n Derbyn Gofal, eu Cynghori a'u Cynorthwyo (Gwelliannau 315 a 316)

### Group 33: Befriending, Advising and Assisting Looked-after Children (Amendments 315 and 316)

15:55

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

The lead amendment in the group is amendment 315. I call on Angela Burns to move amendment 315 and to speak to it and the other amendment in the group.

Y prif welliant yn y grŵp yw gwelliant 315. Galwaf ar Angela Burns i gynnig gwelliant 315 ac i siarad amdano yn ogystal â'r gwelliant arall yn y grŵp.

15:55

## Angela Burns [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

I move amendment 315 in my name, and I speak to it and amendment 316.

Cynigiaf welliant 315 yn fy enw i, a siaradaf am hwnnw a gwelliant 316.

Deputy Minister, this amendment is in relation to the provisions in section 94 relating to befriending. Strangely for a Welsh Conservative, the amendment is asking for Welsh Ministers to be able to issue further guidance or minimum standards for befriending.

Ddirprwy Weinidog, mae'r gwelliant hwn yn ymwneud â'r darpariaethau yn adran 94 yn ymwneud â chyfeillio. Yn rhyfedd o ran un o Geidwadwyr Cymru, mae'r gwelliant yn gofyn i Weinidogion Cymru gael cyhoeddi canllawiau pellach neu safonau gofynnol ar gyfer cyfeillio.

When I first saw this element in the draft Social Services and Well-being (Wales) Bill, I immediately asked myself what exactly is encompassed by this. So, I set about finding out what various local authorities do. I was really concerned to see an inconsistent and extremely patchy understanding of the terms 'befriending', 'advising' and 'assisting' looked-after children.

Pan welais yr elfen hon gyntaf yn y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) drafft, gofynais i mi fy hun yn syth beth yn union y mae hyn yn ei gwmpasu. Felly, es ati i ddarganfod yr hyn y mae gwahanol awdurdodau lleol yn ei wneud. Roedd gweld dealltwriaeth anghyson a hynod ddarniog o'r termau 'cyfeillio', 'cynghori' a 'cynorthwyo' plant sy'n derbyn gofal. yn peri cryn bryder

As we all know, for children who are experiencing difficulties at home or school, or who, socially, might be experiencing isolation, low self-esteem, anger and relationship difficulties, or for whom there has already been a huge amount of loss in their lives, it is extremely critical that, while they are in local authority care and when they finally leave the stricter definition of local authority care, they have that ability to find someone to support them, advise them and help move them forward.

Fel yr ydym ni i gyd yn gwybod, ar gyfer plant sy'n cael anawsterau gartref neu yn yr ysgol, neu sydd, yn gymdeithasol, yn dioddef unigrwydd, diffyg hunan-barch, anawsterau dicter a pherthynas efallai, neu sydd eisoes wedi dioddef llawer iawn o golled yn eu bywydau, mae'n hollbwysig, tra eu bod yng ngofal awdurdod lleol a phan fyddant yn gadael y diffiniad llymach o ofal awdurdod lleol yn y pen draw, bod y gallu hwnnw ganddynt i ddod o hyd i rywun i'w cefnogi, i'w cynghori a'u helpu i symud ymlaen.

My second amendment talks about the technicalities of issuing the guidance. If you phone up local authorities—. I can give you a list; I went to a range of them, from Cardiff, Flintshire, Blaenau Gwent, Newport and Pembrokeshire—I should have contacted Ceredigion, because it has obviously done extremely well and might be a leader in this. I asked them what 'befriending' and 'assisting' meant in their authority to children who are looked after by them. They had no idea; they did not know what department to put me through to, they did not know to whom I should be speaking, and they did not understand what the entire service was about.

Mae fy ail welliant yn trafod manylion technegol cyhoeddi'r canllawiau. Os byddwch yn ffonio awdurdodau lleol—. Gallaf roi rhestr i chi; fe es i i amrywiaeth ohonyn nhw, o Gaerdydd, Sir y Fflint, Blaenau Gwent, Casnewydd a Sir Benfro—dylwn fod wedi cysylltu â Cheredigion, gan ei fod yn amlwg wedi gwneud yn arbennig o dda a gallai fod yn arweinydd yn hyn o beth. Gofynnais iddynt beth roedd 'cyfeillio' a 'cynorthwyo' yn ei olygu yn eu hawdurdod nhw i blant sy'n derbyn gofal ganddynt. Nid oedd ganddynt unrhyw syniad; nid oeddent yn gwybod pa adran i fy nhrosglwyddo iddi, nid oeddent yn gwybod â phwy y dylwn fod yn siarad, ac nid oeddent yn deall beth oedd diben yr holl wasanaeth.

Some of them were able to talk at quite some length and to show some detailed programmes about corporate parenting. However, again, there was this gap between whether corporate parenting and befriending involves the same set of people, what it entails and how far it should go once a child leaves their care. I think that that is a very important question for me to ask you to clear up, Deputy Minister, because there is a discrepancy between the explanatory memorandum and section 94. In section 94, the duty of a local authority to provide a befriending service to promote a child's wellbeing only applies when the child is still looked after, and not when the child is no longer considered to be looked after, whereas your explanatory memorandum states that

Roedd rhai ohonynt yn gallu siarad yn weddol helaeth a dangos rhai rhaglenni manwl ar rianta corfforaethol. Fodd bynnag, unwaith eto, roedd y bwlch hwn rhwng pa un a yw rhianta corfforaethol a chyfeillio yn cynnwys yr un set o bobl, beth mae'n ei olygu a pha mor bell y dylai fynd ar ôl i blentyn adael eu gofal. Rwy'n meddwl ei fod yn gwestiwn pwysig iawn i mi ei ofyn i chi ei egluro, Ddirprwy Weinidog, gan fod anghysondeb rhwng y memorandwm esboniadol ac adran 94. Yn adran 94, mae dyletswydd awdurdod lleol i ddarparu gwasanaeth cyfeillio i hybu lles plentyn yn berthnasol dim ond pan fydd y plentyn yn dal i dderbyn gofal, ac nid pan na ystyrir bod y plentyn yn derbyn gofal mwyach, tra bod eich memorandwm esboniadol yn dweud

'This section provides that a local authority must continue to befriend, advise and assist a child it has ceased looking after, with the intention of maintaining the child's well-being. This section restates the provision made within paragraph 19A of Schedule 2 to the Children Act 1989'.

' Mae'r adran hon yn darparu bod rhaid i awdurdod lleol barhau i ymgyfeillio â phlentyn y mae wedi peidio â gofalu amdano ac i'w gynghori a'i gynorthwyo, gyda'r bwriad o gynnal llesiant y plentyn hwnnw. Mae'r adran hon yn ailddatgan y ddarpariaeth sydd wedi ei gwneud o fewn paragraff 19A o Atodlen 2 i Ddeddf Plant 1989'.

I would be very interested to hear your view on this amendment. Thank you.

Byddai gennyf ddiddordeb mawr mewn clywed eich barn ar y gwelliant hwn. Diolch yn fawr.

15:59

## Kirsty Williams Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Angela Burns brings forward an issue that, I must admit, did not receive a great deal of attention during previous scrutiny stages. However, it seems to me that the Government's principle underlying this Bill is to ensure that there is consistency of provision across Wales, and that there should not be a postcode lottery of the types of social services that are provided. It seems to me, therefore, perfectly appropriate for the Welsh Government to try to ensure consistency of what are very important services through the issuing of guidance. Therefore, the Welsh Liberal Democrats will support the amendments this afternoon.

Mae Angela Burns yn cyflwyno mater, y mae'n rhaid i mi gyfaddef, na dderbyniodd lawer o sylw yn ystod y camau craffu blaenorol. Fodd bynnag, mae'n ymddangos i mi mai egwyddor y Llywodraeth sy'n sail i'r Bil hwn yw sicrhau bod darpariaeth gyson ledled Cymru, ac na ddylai fod loteri cod post o'r mathau o wasanaethau cymdeithasol a ddarperir. Mae'n ymddangos i mi, felly, yn gwbl briodol i Lywodraeth Cymru geisio sicrhau cysondeb yn yr hyn sy'n wasanaethau pwysig iawn trwy gyhoeddi canllawiau. Felly, bydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn cefnogi'r gwelliannau y prynhawn yma.

16:00

## Gwenda Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am grateful to Angela Burns for tabling her amendments and for the interest that she has shown consistently in this Bill in this regard and others. I am sure that we would all agree that it is important that children who are looked after—after feeling able to seek advice and assistance—should be able to do that. It is also important for local authorities to take their responsibilities to befriend children very seriously. That said, while I agree with the sentiment behind these amendments, I do not support the additions to the Bill proposed by amendments 315 and 316. Sections 96 to 105 of the Bill already set out the duties of a local authority to undertake an assessment of the needs of care leavers to determine what advice and other support to provide to the young person while and after it ceases to look after that child, and to prepare a pathway plan. Further detail of how local authorities exercise these functions will be supplemented through the regulations and the code of practice. This will make for consistency—an important point that Kirsty Williams has made.

Rwy'n ddiolchgar i Angela Burns am gyflwyno ei gwelliannau ac am y diddordeb y mae wedi ei ddangos yn gyson yn y Bil hwn yn hyn o beth ac o ran pethau eraill. Rwy'n siŵr y byddem i gyd yn cytuno ei bod yn bwysig y dylai plant sy'n derbyn gofal—ar ôl teimlo eu bod yn gallu gofyn am gyngor a chymorth—allu gwneud hynny. Mae hefyd yn bwysig i awdurdodau lleol i drin eu cyfrifoldebau i gyfeillio plant yn ddifrifol iawn. Wedi dweud hynny, er fy mod yn cytuno â'r teimlad sy'n sail i'r gwelliannau hyn, nid wyf yn cefnogi'r ychwanegiadau i'r Bil a gynigir gan welliannau 315 a 316. Mae Adrannau 96 -105 y Bil eisoes yn nodi dyletswyddau awdurdod lleol i gynnal asesiad o anghenion y rhai sy'n gadael gofal er mwyn penderfynu pa gyngor a chymorth arall i'w darparu i'r unigolyn ifanc wrth ac ar ôl iddo roi'r gorau i ofalu am y plentyn hwnnw, ac i baratoi cynllun llwybr. Bydd mwy o fanylion am sut y mae awdurdodau lleol yn arfer y swyddogaethau hyn yn cael eu hategu drwy'r rheoliadau a'r cod ymarfer. Bydd hyn yn sicrhau cysondeb—pwynt pwysig y mae Kirsty Williams wedi ei wneud.

Section 7 already provides Welsh Ministers with the power to issue a code of practice and for local authorities to act in accordance with the code and any relevant guidance contained within it. Stakeholders will be able to influence and contribute to this subordinate legislation as part of our comprehensive engagement and consultation strategy during 2014 and 2015 to deliver the implementation of the Bill.

Mae Adran 7 eisoes yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru gyhoeddi cod ymarfer ac i awdurdodau lleol weithredu yn unol â'r cod ac unrhyw ganllawiau perthnasol sydd wedi eu cynnwys ynddo. Bydd rhanddeiliaid yn gallu dylanwadu a chyfrannu at yr is-ddeddfwriaeth hon yn rhan o'n strategaeth ymgysylltu ac ymgynghori gynhwysfawr yn ystod 2014 a 2015 i sicrhau gweithrediad y Bil.

In summary, I am sympathetic to the intentions behind these amendments, but the Bill already makes provision in this regard and therefore I must ask that Members do not support amendments 315 and 316.

I grynhoi, rwy'n cydymdeimlo â'r bwriadau sy'n sail i'r gwelliannau hyn, ond mae'r Bil eisoes yn gwneud darpariaeth yn y cyswllt hwn ac felly mae'n rhaid i mi ofyn i'r Aelodau beidio â chefnogi gwelliannau 315 a 316.

16:01

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I call on Angela Burns to reply to the debate.

Galwaf ar Angela Burns i ymateb i'r ddadl.

16:01

## Angela Burns [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Thank you Presiding Officer, and thank you very much indeed for your reply, Deputy Minister. You will not be surprised to hear that I am disappointed about it. I do take on board your point that you believe that there is enough space in other parts of the regulations to ensure that this gap is covered. I am less confident. I think that we are dealing with a section of society—a group of very young children—that has already had a fairly rough deal out of life. They are in care for a range of reasons. They are being looked after by the state—it is no great parent. No matter what, we all want our own parent. The state has done some excellent jobs, but it cannot be the person who says to them, 'Here you are, here is your first washing machine and this is how you make it work' or, 'This is where you go and get your flat.' Neither can it be someone just to chat to when they are struggling with their A-levels or going to university. They need that constant attention, as many of these children are without a support network. Some of them are moved away from their families in order to be in care elsewhere because of their personal circumstances.

Diolch i chi Lywydd, a diolch yn fawr iawn am eich ateb, Ddirprwy Weinidog. Ni fyddwch yn synnu clywed fy mod yn siomedig am y peth. Rwy'n derbyn eich pwynt eich bod yn credu bod digon o le mewn rhannau eraill o'r rheoliadau i sicrhau bod y bwlch hwn yn cael ei fodloni. nid wyf fi mor ffyddiog. Rwy'n meddwl ein bod yn ymdrin ag adran o gymdeithas—grŵp o blant ifanc iawn—sydd wedi cael bargen eithaf gwael mewn bywyd eisoes. Maen nhw'n derbyn gofal am amrywiaeth o resymau. Maen nhw'n derbyn gofal gan y wladwriaeth—nid yw'n rhiant gwych. Waeth beth fo'r sefyllfa, rydym ni i gyd eisiau ein rhiant ein hunain. Mae'r wladwriaeth wedi gwneud rhywfaint o waith rhagorol, ond ni all gymryd lle'r sawl sy'n dweud wrthynt, 'Dyma ti, dyma dy beiriant golchi cyntaf a dyma sut rwyt ti'n gwneud iddo weithio' neu, 'Dyma ble rwyt ti'n mynd i gael dy fflat.' Ni all ychwaith fod yn rhywun i sgwrsio ag ef pan eu bod yn cael trafferth gyda'u harholiadau Safon Uwch neu'n mynd i'r brifysgol. Mae angen sylw parhaus arnynt, gan nad oes gan lawer o'r plant hyn rwydwaith i'w cefnogi. Symudir rhai ohonynt oddi wrth eu teuluoedd er mwyn iddynt dderbyn gofal mewn mannau eraill oherwydd eu hamgylchiadau personol.

All I wanted to do was try to get that consistency. I will reiterate it, Deputy Minister: I did phone about nine local authorities and not one of them—not one—could say what or where their befriending service was. I look to your regulations to provide that consistency, and I will come back and ask for it to be monitored because I think it is so incredibly important. I would like to move to a vote on this issue.

Y cwbl yr oeddwn i eisiau ei wneud oedd sicrhau'r cysondeb hwnnw. Rwyf yn ei ailadrodd, Ddirprwy Weinidog: Ffoniais i tua naw awdurdod lleol ac ni allai'r un ohonynt—dim un—ddweud beth neu lle yr oedd eu gwasanaeth cyfeillio. Byddaf yn disgwyl i'ch rheoliadau ddarparu'r cysondeb hwnnw, a byddaf yn dod yn ôl ac yn gofyn iddo gael ei fonitro gan fy mod yn credu ei fod mor anhygoel o bwysig. Hoffwn symud i bleidlais ar y mater hwn.

16:03

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

In that case we will move straight to a vote.

Symudwn yn syth at bleidlais felly.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 315.](#)

[Result of the vote on amendment 315.](#)

*Gwrthodwyd gwelliant 315: O blaid 27, Yn erbyn 27, Ymatal 0.*

*Amendment 315 not agreed: For 27, Against 27, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Llywydd ei phleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Presiding Officer exercised her casting vote by voting against the amendment.*

16:04 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on Angela Burns to move amendment 316.

Galwaf ar Angela Burns i gynnig gwelliant 316.

16:04 **Angela Burns** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 316 in my name.

Cynigiaf welliant 316 yn fy enw i.

16:04 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 316 be agreed to. Does any Member object? There is objection, so we will move to an electronic vote.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 316 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwrthwynebiad, felly symudwn at bleidlais electronig.

Canlyniad y bleidlais ar welliant 316.

Result of the vote on amendment 316.

*Gwrthodwyd gwelliant 316: O blaid 27, Yn erbyn 27, Ymatal 0.*

*Amendment 316 not agreed: For 27, Against 27, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Llywydd ei phleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Presiding Officer exercised her casting vote by voting against the amendment.*

16:04 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We will move on to group 33; sorry, we are in group 33. I call on the Deputy Minister to move amendment 189.

Symudwn ymlaen at grŵp 33; mae'n ddrwg gennyf, rydym yng ngrŵp 33. Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 189.

16:04 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 189 in my name.

Cynigiaf welliant 189 yn fy enw i.

16:04 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 189 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, so amendment 189 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 189 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiadau, felly mae gwelliant 189 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 189 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 189 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

16:04 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Deputy Minister to move amendment 190.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 190.

16:04 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 190 in my name.

Cynigiaf welliant 190 yn fy enw i.

16:04 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 190 be agreed. Are there any objections? There are no objections. Amendment 190 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 190 yn cael ei dderbyn. A oes gwrthwynebiadau? Nid oes gwrthwynebiad. Mae gwelliant 190 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 190 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 190 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

**Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

I call the Deputy Minister to move amendment 191.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 191.

16:05 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

I move amendment 191 in my name.

Cynigiaf welliant 191 yn fy enw i.

Senedd.tv Fideo Video

16:05 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

The question is that amendment 191 be agreed. Are there any objections? There are no objections. Amendment 191 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 191 yn cael ei dderbyn. A oes gwrthwynebiadau? Nid oes gwrthwynebiad. Mae gwelliant 191 wedi ei dderbyn.

Senedd.tv Fideo Video

*Derbyniwyd gwelliant 191 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 191 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

**Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

I call the Deputy Minister to move amendment 75.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 75.

16:05 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

I move amendment 75 in my name.

Cynigiaf welliant 75 yn fy enw i.

Senedd.tv Fideo Video

16:05 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

As there are amendments to amendment 75 we will dispose of those first. I call William Graham to move amendment 75A.

Gan fod gwelliannau i welliant 75, byddwn yn ymdrin â'r rheini'n gyntaf. Galwaf ar William Graham i gynnig gwelliant 75A.

Senedd.tv Fideo Video

16:05 **William Graham** Bywgraffiad Biography

I do not wish to move this amendment.

Nid wyf yn dymuno cynnig y gwelliant hwn.

Senedd.tv Fideo Video

*Ni chynigiwyd gwelliant 75A.*

*Amendment 75A not moved.*

16:05 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

I call William Graham to move amendment 75B.

Galwaf ar William Graham i gynnig gwelliant 75B.

Senedd.tv Fideo Video

16:05 **William Graham** Bywgraffiad Biography

I do not wish to move this amendment.

Nid wyf yn dymuno cynnig y gwelliant hwn.

Senedd.tv Fideo Video

*Ni chynigiwyd gwelliant 75B.*

*Amendment 75B not moved.*

16:05 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

I call William Graham to move amendment 75C.

Galwaf ar William Graham i gynnig gwelliant 75C.

Senedd.tv Fideo Video

16:05 **William Graham** Bywgraffiad Biography

I do not wish to move this amendment.

Nid wyf yn dymuno cynnig y gwelliant hwn.

Senedd.tv Fideo Video

*Ni chynigiwyd gwelliant 75C.*

*Amendment 75C not moved.*

16:05 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

If amendment 75 is not agreed, amendments 76 and 77 fall. If amendment 75 is agreed, amendments 331 and 332 will fall. I am aware that the second pre-emption was not included in the voting order circulated to Members before last week's meeting, when these amendments were debated. I therefore call on Lindsay Whittle on a point of order.

Oni chaiff gwelliant 75 ei dderbyn, bydd gwelliannau 76 a 77 yn methu. Os derbynnir gwelliant 75, bydd gwelliannau 331 a 332 yn methu. Gwn na chafodd yr ail ragataliad ei gynnwys yn y drefn bleidleisio a ddosbarthwyd i'r Aelodau cyn cyfarfod yr wythnos diwethaf, pan gafodd y gwelliannau hyn eu trafod. Felly, rwyf yn galw ar Lindsay Whittle ar bwynt o drefn.

Senedd.tv Fideo Video

16:06 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Members will obviously be aware that the voting order and advice on this group of amendmdents were changed from last week to this week. Last week, we were informed that amendment 331 in my name would be voted on regardless of whether the Government's amendment 75 passed. This week, we have been advised that my amendment 331 will fall if amendment 75 is passed. Our intention has always been to support both amendments and, in light of our positive discussions with the Government on this matter, we will abstain today from voting on amendment 75 and work together to bring a further amendment in the spirit of amendment 331 at the Report Stage so that we can strengthen the rights of those children in care beyond the age of 18.

Bydd yr Aelodau yn ymwybodol wrth gwrs fod y drefn bleidleisio a'r cyngor am y grŵp hwn o welliannau wedi'u newid rhwng yr wythnos diwethaf a'r wythnos hon. Yr wythnos diwethaf, cawsom wybod y byddem yn pleidleisio ar welliant 331 yn fy enw pa un a fyddai gwelliant 75 y Llywodraeth yn cael ei dderbyn ai peidio. Yr wythnos hon, rydym wedi cael gwybod y bydd fy ngwelliant 331 yn methu os derbynnir gwelliant 75. Ein bwriad o'r cychwyn oedd cefnogi'r ddau welliant ac, yng ngoleuni ein trafodaethau cadarnhaol â'r Llywodraeth am y mater hwn, byddwn yn ymatal rhag pleidleisio heddiw ar welliant 75 ac yn gweithio gyda'n gilydd i gyflwyno gwelliant pellach yn ysbryd gwelliant 331 yn y Cyfnod Adrodd fel y gallwn gryfhau hawliau'r plant hynny sydd mewn gofal y tu hwnt i 18 oed.

16:07 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call the Deputy Minister.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog.

16:07 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Presiding Officer, for the opportunity to respond. I recognise that there are elements of Lindsay Whittle's amendment that would further strengthen what the Government is proposing. I am, therefore, happy to give a commitment to this Chamber this afternoon to work with Lindsay Whittle ahead of the Report Stage to address the concerns that he has raised.

Diolch, Lywydd, am y cyfle i ymateb. Rwyf yn cydnabod y byddai rhai elfennau o welliant Lindsay Whittle yn cryfhau ymhellach yr hyn y mae'r Llywodraeth yn ei gynnig. Felly, rwyf yn hapus i roi ymrwymiad i'r Siambr hon y prynhawn yma i weithio gyda Lindsay Whittle cyn y Cyfnod Adrodd i ymdrin â'r pryderon y mae wedi'u codi.

16:07 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 75 be agreed. Are there any objections? There is objection, so we will proceed to an electronic vote.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 75 yn cael ei dderbyn. A oes gwrthwynebiadau? Mae gwrthwynebiad, symudwn at bleidlais electronig.

Canlyniad y bleidlais ar welliant 75.

Result of the vote on amendment 75.

*Derbyniwyd gwelliant 75: O blaid 39, Yn erbyn 5, Ymatal 10.*

*Amendment 75 agreed: For 39, Against 5, Abstain 10.*

## Grŵp 34: Ffyrdd y Gellir Darparu Cymorth ar Gyfer Pobl Ifanc Categori 2 (Gwelliant 192)

## Group 34: Ways in which Support for Category 2 Young People May Be Provided (Amendment 192)

16:07 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The lead amendment in the group is amendment 192. I call on the Deputy Minister to move amendment 192 and to speak to it.

Y prif welliant yn y grŵp yw gwelliant 192. Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 192 ac i siarad amdano.

16:08 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 192 in my name.

Cynigiaf welliant 192 yn fy enw i.

This is a minor technical amendment to insert 'kind or in' after 'in' in section 99. It makes clear that local authority support for a category 2 young person can be support in kind. I ask Members to support it.

Mân welliant technegol yw hwn i fewnosod 'da neu mewn' ar ôl 'ffurf' yn adran 99. Mae'n ei gwneud yn glir y gall cymorth awdurdodau lleol i berson ifanc categori 2 fod ar ffurf cymorth mewn da. Gofynnaf i'r Aelodau ei gefnogi.

16:08 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 192 be agreed to. Are there any objections? There are no objections. Amendment 193 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 192 yn cael ei dderbyn. A oes gwrthwynebiadau? Nid oes gwrthwynebiad. Mae gwelliant 193 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 192 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 192 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

**Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

I call on the Deputy Minister to move amendment 76.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 76.

16:08 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 76 in my name.

Cynigiaf welliant 76 yn fy enw i.

16:08 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

As there is an amendment to amendment 76, we will dispose of that first. I call William Graham to move amendment 76A.

Gan fod gwelliant i welliant 76, byddwn yn ymdrin â hynny'n gyntaf. Galwaf ar William Graham i gynnig gwelliant 76A.

16:09 **William Graham** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I do not wish to move this amendment.

Nid wyf yn dymuno cynnig y gwelliant hwn.

*Ni chynigiwyd gwelliant 76A.*

*Amendment 76A not moved.*

16:09 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

If amendment 76 is not agreed, amendment 77 will fall. The question is that amendment 76 be agreed to. Does any Member object? There are no objections. Amendment 76 is agreed.

Os na chaiff gwelliant 76 ei dderbyn, bydd gwelliant 77 yn methu. Y cwestiwn yw bod gwelliant 76 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad. Mae gwelliant 76 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 76 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 76 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

**Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

I call on the Deputy Minister to move amendment 77.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 77.

16:09 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 77 in my name.

Cynigiaf welliant 77 yn fy enw i.

16:09 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 77 be agreed to. Are there any objections? There are no objections. Amendment 77 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 77 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw wrthwynebiadau? Nid oes gwrthwynebiad. Mae gwelliant 77 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 77 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 77 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

16:09 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I call on the Deputy Minister to move amendment 193.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 193.

16:09 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 193 in my name.

Cynigiaf welliant 193 yn fy enw i.

16:09 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 193 be agreed to. Are there any objections? There are no objections. Amendment 193 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 193 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw wrthwynebiadau? Nid oes gwrthwynebiad. Mae gwelliant 193 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 193 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 193 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

**Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

I call on the Deputy Minister to move amendment 194.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 194.

16:09 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 194 in my name.

Cynigiaf welliant 194 yn fy enw i.

16:09 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 194 be agreed to. Are there any objections? There are no objections. Amendment 194 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 194 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw wrthwynebiadau? Nid oes gwrthwynebiad. Mae gwelliant 194 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 194 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 194 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

**Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

I call on the Deputy Minister to move amendment 195.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 195.

16:10 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 195 in my name.

Cynigiaf welliant 195 yn fy enw i.

16:10 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 195 be agreed to. Does any Member object? There are no objections. Amendment 195 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 195 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiad. Mae gwelliant 195 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 195 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 195 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

16:10 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Deputy Minister to move amendment 47.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 47.

16:10 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 47 in my name.

Cynigiaf welliant 47 yn fy enw i.

16:10 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 47 be agreed to. Does any Member object? There are no objections. Amendment 47 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 47 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad. Mae gwelliant 47 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 47 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 47 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

16:10 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Deputy Minister to move amendment 196.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 196.

16:10 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 196 in my name.

Cynigiaf welliant 196 yn fy enw i.

16:10 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 196 be agreed to. Does any Member object? There are no objections. Amendment 196 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 196 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad. Mae gwelliant 196 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 196 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 196 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

16:10 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I call on the Deputy Minister to move amendment 197.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 197.

16:10 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 197 in my name.

Cynigiaf welliant 197 yn fy enw i.

16:10 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 197 be agreed to. Does any Member object? There are no objections. Amendment 197 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 197 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad. Mae gwelliant 197 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 197 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 197 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

*Methodd gwelliant 331.*

*Amendment 331 fell.*

16:10 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I call on the Deputy Minister to move amendment 198.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 198.

16:10 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 198 in my name.

Cynigiaf welliant 198 yn fy enw i.

16:10 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 198 be agreed to. Does any Member object? There are no objections. Therefore, amendment 198 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 198 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad. Felly, mae gwelliant 198 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 198 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 198 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

16:10 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I call on the Deputy Minister to move amendment 199.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 199.

16:10 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 199 in my name.

Cynigiaf welliant 199 yn fy enw i.

16:10 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 199 be agreed to. Does any Member object? There are no objections. Amendment 199 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 199 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad. Mae gwelliant 199 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 199 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 199 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

**Grŵp 35: Oedolion sy'n Wynebu Risg (Gwelliannau 320, 200, 201, 87, 88, 89, 90, 91 a 92)**

**Group 35: Adults at Risk (Amendments 320, 200, 201, 87, 88, 89, 90, 91 and 92)**

16:11

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

The lead amendment in the group is amendment 320. I call on Kirsty Williams to move amendment 320 and to speak to it and the other amendments in the group.

Y prif welliant yn y grŵp yw gwelliant 320. Galwaf ar Kirsty Williams i gynnig gwelliant 320 ac i siarad amdano a'r gwelliannau eraill yn y grŵp.

16:11

## Kirsty Williams Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I move amendment 320 in my name.

Cynigiaf welliant 320 yn fy enw i.

Amendment 320 deals with the definition of 'at risk'. It seeks to remove lines 7 to 10 of section 116 on page 81 of the Bill, and takes out the need for a requirement for care and support to qualify for safeguarding.

Mae gwelliant 320 yn ymdrin â'r diffiniad o 'oedolyn sy'n wynebu risg'. Mae'n ceisio cael gwared ar linellau 7 i 10 adran 116 ar dudalen 81 y Bil, ac yn cael gwared ar yr angen am ofal a chymorth i fod yn gymwys ar gyfer trefniadau diogelu.

*Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair am 16:12.*

*The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 16:12.*

## Kirsty Williams Bywgraffiad Biography

Members will be aware that safeguarding is one of the most important elements of the legislation before us, and getting safeguarding right for adults and children is of vital importance. I welcome the Government's emphasis on adult safeguarding throughout the deliberation of this Bill.

Bydd yr Aelodau'n ymwybodol bod diogelu'n un o elfennau pwysicaf y ddeddfwriaeth sydd ger ein bron, ac mae sicrhau diogelwch priodol i oedolion a phlant yn hollbwysig. Rwyf yn croesawu pwyslais y Llywodraeth ar ddiogelu oedolion drwy gydol y drafodaeth am y Bil hwn.

While we have had debates for many years about how we can best keep children safe, the same amount of attention has been lacking with regard to adults and older people. Recent scandals in England have demonstrated that adults can be incredibly vulnerable, not just in institutional care settings but also in their own homes.

Er ein bod yn dadlau ers blynyddoedd lawer am y ffordd orau o gadw plant yn ddiogel, ni roddwyd yr un sylw i oedolion a phobl hŷn. Mae sgandalau diweddar yn Lloegr wedi dangos y gall oedolion fod yn hynod agored i niwed, nid yn unig mewn lleoliadau gofal sefydliadol ond hefyd yn eu cartrefi eu hunain.

We on the Liberal Democrat side of the Chamber remain concerned that the current definition could exclude adults who do not have a pre-existing care need from protection, when, nevertheless, they are being abused or are in need of support and protection.

Rydym ni ar ochr y Democratiaid Rhyddfrydol i'r Siambr yn dal i bryderu y gallai'r diffiniad presennol eithrio oedolion nad oes ganddynt eisoes angen gofal rhag cael eu diogelu, pan fyddant, er hynny, yn cael eu cam-drin neu pan fo angen cymorth arnynt neu eu hamddiffyn.

There was a great deal of debate about whether safeguarding should have a separate piece of legislation in its own right, and evidence was given to the committee of that kind. On balance, the committee decided that it was correct to include safeguarding within the body of the Bill, but we need to ensure that the safeguarding arrangements outlined in the current legislation are as comprehensive as possible.

Roedd llawer iawn o ddadlau ynghylch a ddylai fod darn arall o ddeddfwriaeth ar ddiogelu yn ei rinwedd ei hun, a rhoddwyd tystiolaeth o'r fath i'r pwyllgor. At ei gilydd, penderfynodd y pwyllgor ei bod yn briodol cynnwys diogelu yng nghorff y Bil, ond mae angen inni sicrhau bod y trefniadau diogelu a amlinellir yn y ddeddfwriaeth bresennol mor gynhwysfawr â phosibl.

We believe that the current definition is too narrow, and that care and support should not be a prerequisite to qualify safeguarding. These proposals are very similar to those that have been developed and advocated by Age Cymru in partnership with the Older People's Commissioner for Wales, with the support of the Welsh Local Government Association, the Welsh NHS Confederation and the Bill advisory group, made up of a significant number of third sector organisations.

Credwn fod y diffiniad presennol yn rhy gul, ac na ddylai gofal a chymorth fod yn rhagofyniad i fod yn gymwys ar gyfer trefniadau diogelu. Mae'r cynigion hyn yn debyg iawn i'r rhai sydd wedi eu datblygu a'u hyrwyddo gan Age Cymru mewn partneriaeth â Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru, gyda chefnogaeth Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Cydffederasiwn GIG Cymru a grŵp cynghori'r Bil, a oedd yn cynnwys nifer sylweddol o fudiadau'r trydydd sector.

The main thing that the amendment seeks to do is to reverse the problematic order of the different clauses, a, b and c, meaning that needs for care and support can occur after a person is experiencing or is at risk of abuse and neglect. This reversal was also recommended by the expert legal adviser to the committee at Stage 1, Professor John Williams. The current definition states that you must have care and support needs and be unable to protect yourself as a result of those needs. However, as I say once again, what if, for example, an older person does not have an existing care or support need that has been recognised by the state, regardless of whether that care and support need is being met by the state? What if they find themselves in an abusive situation and in need of support and protection?

Y prif beth y mae'r gwelliant yn ceisio'i wneud yw gwyrdroi trefn broblemus y gwahanol gymalau, a, b ac c, sy'n golygu y gall anghenion gofal a chymorth ddigwydd ar ôl i berson brofi cam-drin ac esgeulustod, neu fod mewn perygl o hynny. Argymhellwyd y gwyrdroi hwn hefyd gan y cynghorydd cyfreithiol arbenigol i'r pwyllgor yng Nghyfnod 1, yr Athro John Williams. Mae'r diffiniad ar hyn o bryd yn datgan bod yn rhaid ichi fod ag anghenion gofal a chymorth ac yn methu â'ch amddiffyn eich hun o ganlyniad i'r anghenion hynny. Fodd bynnag, fel y dywedaf unwaith eto, beth os nad oes gan bobl hŷn, er enghraifft, angen gofal neu gymorth sy'n bodoli eisoes ac sydd wedi'i gydnabod gan y wladwriaeth, p'un a yw'r wladwriaeth yn diwallu'r angen gofal a chymorth hwnnw ai peidio? Beth os ydynt yn eu cael eu hunain mewn sefyllfa o gam-drin a bod angen cymorth ac amddiffyniad arnynt?

Indeed, I would argue that those people who do not have a care and support need may be the most vulnerable of all, by the nature of the fact that they are not receiving care and support. For instance, think about a hypothetical situation where a child is caring for their elderly relative and has been doing so for many years without intervention from the local social services department. That carer has got to the end of their tether and, unbeknown to people, because the family is not known to social services, begins to be abusive to the person they are caring for. Under the current definition, that older person could be classified as not being covered by the safeguarding provisions within this Bill. Therefore, I would argue that people with no care and support needs are, potentially, the most vulnerable to elder abuse.

Yn wir, byddwn yn dadlau ei bod yn bosibl mai'r bobl hynny nad oes arnynt angen gofal a chymorth yw'r rhai mwyaf agored i niwed, a hynny oherwydd nad ydynt yn derbyn gofal a chymorth. Er enghraifft, meddyliwch am sefyllfa ddamcaniaethol lle mae plentyn yn gofalu am berthynas oedrannus ac wedi bod yn gwneud hynny ers blynyddoedd lawer, heb ymyrraeth gan yr adran gwasanaethau cymdeithasol leol. Mae'r gofalwr wedi cyrraedd pen ei dennyn ac, yn ddiarwybod i bobl, gan nad yw'r gwasanaethau cymdeithasol yn gwybod am y teulu, mae'n dechrau cam-drin yr unigolyn y mae'n gofalu amdano. O dan y diffiniad presennol, gellid dweud nad yw'r darpariaethau diogelu yn y Bil hwn yn berthnasol i'r person hŷn dan sylw. Felly, byddwn yn dadlau mai pobl heb ddim anghenion gofal a chymorth, o bosibl, yw'r rhai mwyaf agored i niwed oherwydd cam-drin.

In committee, the Deputy Minister stated that broadening the definition could potentially capture victims of domestic violence. I believe that it is inevitable that there will be overlap between the two, and that the Government's violence against women Bill must be developed with recognition of the contents of this legislation. It could be argued that the current definition in the Bill could also apply to victims of domestic violence. Therefore, I do not accept that there has to be distinction between the two pieces of legislation. Professional judgment should help to ensure that individual cases are dealt with by the most appropriate teams within local authorities. What is more important than anything is that vulnerable adults are not wrongly excluded from the support and protection that they need and that I am sure the Deputy Minister would want them to receive.

Yn y pwyllgor, dywedodd y Dirprwy Weinidog y gallai estyn y diffiniad o bosibl fod yn fodd o ddod o hyd i ddioddefwyr trais domestig. Credaf ei bod yn anochel y bydd gorgyffwrdd rhwng y ddau, a bod yn rhaid cydnabod cynnwys y ddeddfwriaeth hon wrth ddatblygu Bil y Llywodraeth ar drais yn erbyn menywod. Gellid dadlau y gallai'r diffiniad presennol yn y Bil hefyd fod yn berthnasol i ddioddefwyr trais yn y cartref. Felly, nid wyf yn derbyn bod yn rhaid wrth wahaniaeth rhwng y ddau ddarn o ddeddfwriaeth. Dylai crebwyll proffesiynol helpu i sicrhau bod y timau mwyaf priodol yn yr awdurdodau lleol yn ymdrin ag achosion unigol. Yn bwysicach na dim, rhaid sicrhau nad yw oedolion sy'n agored i niwed yn cael eu heithrio ar gam o'r cymorth a'r amddiffyniad sydd eu hangen arnynt ac yr wyf yn siŵr y byddai'r Dirprwy Weinidog am iddynt ei gael.

16:16 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Welsh Conservatives support the lead amendment, 320. I will speak to amendments 87 to 92 inclusive.

Mae Ceidwadwyr Cymru yn cefnogi'r prif welliant, 320. Siaradaf am welliannau 87–92, yn gynwysedig.

Section 105 of the Bill provides an authorised officer with powers to enter a premises in order to gain access to and speak in private with an adult suspected of being at risk, but it does not give powers for removal to a safe place, as is the case in Adult Support and Protection (Scotland) Act 2007. Several witnesses during Stage 1 stated that the powers of the Bill do not go far enough and that powers to remove the person at risk or who is experiencing abuse to a safe place should be included in the Bill. Age Cymru commented:

Mae adran 105 y Bil yn rhoi pwerau i swyddog awdurdodedig i fynd i mewn i safle er mwyn cyrraedd oedolyn yr amheuir ei fod yn wynebu risg a siarad yn breifat ag ef neu hi, ond nid yw'n rhoi pwerau i'w symud i le diogel, fel sydd yn Neddf Cymorth a Gwarchod Oedolion (Yr Alban) 2007. Dywedodd nifer o dystion yn ystod Cyfnod 1 nad oedd pwerau'r Bil yn mynd yn ddigon pell ac y dylai'r Bil gynnwys pwerau i symud y person sy'n wynebu risg neu sy'n dioddef cam-drin i le diogel. Dywedodd Age Cymru:

'As we understand it, the orders will give powers of entry and assessment but the Bill does not clarify what will happen next, which is the crucial issue. If you enter a home, identify a person is a risk, what is the next step?'

Rydym ar ddeall y bydd y gorchmynion yn rhoi pwerau mynediad ac asesu, ond nid yw'r Bil yn egluro beth fydd yn digwydd nesaf, a dyna sy'n hollbwysig. Os ydych yn mynd i mewn i gartref ac yn canfod bod person yn wynebu risg, beth yw'r cam nesaf?

The Older People's Commissioner for Wales commented:

Dywedodd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru:

'I do not think the legislation goes far enough and would support an additional order that allows a social worker to remove someone to a place of safety against their will in rare situations where a Justice of the Peace can be convinced that such a court order is necessary in order to protect a person who cannot protect themself.'

Nid wyf yn credu bod y ddeddfwriaeth yn mynd yn ddigon pell a byddwn o blaid gorchymyn ychwanegol sy'n caniatáu i weithiwr cymdeithasol symud rhywun i le diogel yn erbyn ei ewyllys mewn sefyllfaoedd prin pryd y gellir argyhoeddi Ynad Heddwch fod angen gorchymyn llys o'r fath er mwyn amddiffyn rhywun nad yw'n gallu ei amddiffyn ei hun.

The social services Bill advisory group stated:

Dywedodd y grŵp cynghori ar y Bil gwasanaethau cymdeithasol:

'Without robust powers the legal duties would increase practitioners' opportunities to identify issues but do little to increase opportunities to tackle abuse, particularly…where an adult, who has capacity, is suspected to be coercively controlled and at risk of abuse.'

Heb bwerau cadarn byddai'r dyletswyddau cyfreithiol yn rhoi mwy o gyfleoedd i ymarferwyr i nodi materion ond ni fyddent yn gwneud fawr ddim i gynyddu'r cyfleoedd i ymdrin â cham-drin, yn enwedig... lle amheuir bod oedolyn, a chanddo alluedd, yn cael ei reoli drwy orfodaeth ac yn wynebu perygl o gam-drin.

During the Health and Social Care Committee's consideration of the Bill in Stage 1, our expert legal adviser noted:

Pan oedd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn ystyried y Bil yng Nghyfnod 1, nododd ein cynghorydd cyfreithiol arbenigol:

'It may be that very little can be done and the person is then left in what may be a more dangerous environment. A power of removal or exclusion in extreme cases would add considerable weight to this power of entry.'

Efallai na fydd modd gwneud rhyw lawer ac yna bydd y person yn cael ei adael mewn amgylchedd a allai fod yn fwy peryglus. Byddai grym i symud neu eithrio mewn achosion eithafol yn ychwanegu cryn bwys i'r grym mynediad hwn.

Our amendment will ensure that the wellbeing of the individual is paramount and will provide for the ability to remove an individual at risk to protect them from harm or abuse. We feel strongly that there have been too many cases where intervention has not taken place at the right time.

Bydd ein gwelliant yn sicrhau mai lles yr unigolyn sydd bwysicaf a bydd yn darparu'r gallu i symud unigolyn sy'n wynebu risg i'w ddiogelu rhag niwed neu gam-drin. Teimlwn yn gryf y bu gormod o achosion lle nad yw ymyrraeth wedi digwydd ar yr adeg iawn.

16:18 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I rise to speak in support of the amendment that has been tabled by Kirsty Williams. Then I will touch on some of the issues that my colleague William Graham has raised. There is no doubt in my mind that the current definition of 'adult at risk' on the face of the Bill is far too narrow. It requires somebody to be in receipt of care and support prior to being able to access safeguarding or adult protection services. I think that that excludes a significant number of people in Wales and has the ability—I note that this is not the Deputy Minister's intention—to undermine the good work that she is attempting to do in helping to safeguard vulnerable adults. We know that the definition currently excludes other individuals who may be suffering from abuse or neglect, but who have not had their care and support needs identified by a local authority. Excluding those sorts of people from safeguarding or protection services in this way can never be acceptable and neither do I think that it can be acceptable to presume that everyone who has a care or support need is at risk of being unable to protect themselves from abuse or neglect. Indeed, many Assembly Members in this Chamber today will note and no doubt be able to testify to the fact that there are individuals in their own constituencies who are quite capable of protecting themselves, regardless of the fact that they are in receipt of care or support from the local authority.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 217 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiad. Caiff gwelliant 217 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 217 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 217 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

16:42

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Deputy Minister to move amendment 218.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 218.

16:42

## Gwenda Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 218 in my name.

Cynigiaf welliant 218 yn fy enw i.

16:42

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 218 be agreed to. Does any Member object? There are no objections. Amendment 218 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 218 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiad. Caiff gwelliant 218 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 218 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 218 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

16:42

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Deputy Minister to move amendment 219.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 219.

16:42

## Gwenda Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 219 in my name.

Cynigiaf welliant 219 yn fy enw i.

16:42 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 219 be agreed to. Does any Member object? There are no objections. Amendment 219 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 219 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiad. Caiff gwelliant 219 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 219 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 219 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

16:42 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Deputy Minister to move amendment 220.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 220.

16:42 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 220 in my name.

Cynigiaf welliant 220 yn fy enw i.

16:42 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 220 be agreed to. Does any Member object? There are no objections. Amendment 220 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 220 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiad. Caiff gwelliant 220 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 220 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 220 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

16:42 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Deputy Minister to move amendment 221.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 221.

16:42 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 221 in my name.

Cynigiaf welliant 221 yn fy enw i.

16:42 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 221 be agreed to. Does any Member object? There are no objections. Amendment 221 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 221 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiad. Caiff gwelliant 221 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 221 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 221 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

16:42 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

My system has now run out of steam. [Laughter.]

Mae fy system wedi chwythu ei blwc. [Chwerthin.]

It is back.

Mae'n ôl.

I call on the Deputy Minister to move amendment 222.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 222.

16:42 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 222 in my name.

Cynigiaf welliant 222 yn fy enw i.

16:43 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 222 be agreed to. Does any Member object? There are no objections. Amendment 222 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 222 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiad. Caiff gwelliant 222 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 222 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 222 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

16:43 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Deputy Minister to move amendment 224.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 224.

16:43 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 224 in my name.

Cynigiaf welliant 224 yn fy enw i.

16:43 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 224 be agreed to. Does any Member object? There are no objections. Amendment 224 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 224 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiad. Caiff gwelliant 224 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 224 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 224 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

16:43 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Deputy Minister to move amendment 223.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 223.

16:43 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 223 in my name.

Cynigiaf welliant 223 yn fy enw i.

16:43 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 223 be agreed to. Does any Member object? There are no objections. Amendment 223 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 223 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiad. Caiff gwelliant 223 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 223 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 223 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

### Grŵp 39: Dileu’r Amddiffyniad o Gosb Resymol (Gwelliant 98)

### Group 39: Removal of Reasonable Punishment Defence (Amendment 98)

16:43 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The lead and only amendment in the group is amendment 98. I call on Lindsay Whittle to move amendment 98 and to speak to it.

Y prif welliant a’r unig un yn y grŵp yw gwelliant 98. Galwaf ar Lindsay Whittle i gynnig gwelliant 98 ac i siarad amdano.

16:43 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 98 in my name, supported by Kirsty Williams and Simon Thomas.

Cynigiaf welliant 98 yn fy enw i, a gefnogir gan Kirsty Williams a Simon Thomas.

I rise to move the amendment in my name, an amendment which, as many Members know, I feel extremely passionate about, as do other Members in this Chamber.

Rwy’n codi i gynnig y gwelliant yn fy enw i, gwelliant, fel y gŵyr llawer o Aelodau, yr wyf i, fel y mae Aelodau eraill yn y Siambr hon, yn teimlo’n hynod o frwdfrydig amdano.

I want to emphasise that there are a lot of people in Wales waiting, I believe, for this amendment, not least some of the many hundreds of children whom we have met here in the Assembly on this very issue. This is not a Plaid Cymru amendment. I am just privileged to be the Member proposing it. I would, at this stage, like to pay tribute to some of my fellow campaigners. I hope I do not embarrass them, because I can assure you that I do not intend to do so. I would, however, like to pay tribute to Julie Morgan, Christine Chapman and Kirsty Williams for campaigning on this issue over a lot longer than I have. This is not, I hope, going to be a political debate. I hope it will be a debate in which Members will vote according to their personal views on this extremely important issue. After all, that is what happened on the two previous occasions when Members here voted overwhelmingly to ban the smacking of children. Yes, there was an overwhelming vote, on two previous occasions, to remove 'reasonable punishment' as a defence for assaulting a child. That is why over 140 organisations in Wales are asking us why has there been no decisive action taken. Maybe in the past we were not sure whether we had the legal powers, but now we know we have, and, what is more, this amendment has been ruled to fall within the scope of this Bill. So, there is no reason why a vote on this amendment should be put off to a debate on another Bill, such as the domestic abuse Bill. The time is now to put our past votes into action.

Rwyf am bwysleisio bod llawer o bobl yng Nghymru yn aros, rwy'n credu, am y gwelliant hwn, ac yn bwysig iawn, rhai o'r cannoedd o blant yr ydym wedi cwrdd â nhw yma yn y Cynulliad ar yr union fater hwn. Nid gwelliant Plaid Cymru yw hwn. Rwy'n freintiedig i fod yr Aelod sy'n ei gynnig, dyna'r cwbl. Hoffwn, ar yr adeg hon, dalu teyrnged i rai o'm cyd-ymgyrchwyr. Gobeithio nad wyf yn achosi embaras iddynt, oherwydd gallaf eich sicrhau nad wyf yn bwriadu gwneud hynny. Hoffwn, fodd bynnag, dalu teyrnged i Julie Morgan, Christine Chapman a Kirsty Williams am ymgyrchu ar y mater hwn am lawer hirach na mi. Gobeithio nad yw hon yn mynd i fod yn ddadl wleidyddol. Rwy'n gobeithio y bydd yn ddadl lle y bydd yr Aelodau'n pleidleisio yn ôl eu barn bersonol ar y mater hynod bwysig hwn. Wedi'r cyfan, dyna a ddigwyddodd ar y ddau achlysur blaenorol pan bleidleisiodd Aelodau yma o fwyafrif enfawr i wahardd taro plant. Do, bu pleidlais, ar ddau achlysur blaenorol, o blaid cael gwared ar 'gosb resymol' fel amddiffyniad i ymosod ar blentyn. Dyna pam y mae dros 140 o sefydliadau yng Nghymru yn gofyn i ni pam na chymerwyd unrhyw gamau pendant. Efallai nad oeddem yn siŵr yn y gorffennol a oedd gennym y pwerau cyfreithiol, ond yn awr rydym yn gwybod eu bod gennym, ac, ar ben hynny, dyfarnwyd bod y gwelliant hwn yn dod o fewn cwmpas y Bil hwn. Felly, nid oes unrhyw reswm pam y dylai pleidlais ar y gwelliant hwn gael ei symud i ddadl ar Fil arall, megis y Bil cam-drin domestig. Mae'r bryd bellach i ni roi ein pleidleisiau yn y gorffennol ar waith.

As I see it, there are four possible reasons why some Members might have misgivings about this amendment. I understand those misgivings. The first is: how could we monitor whether parents are not hitting their children? Notice that I use the word 'hitting', not 'smacking', because, according to the children's organisations in Wales and the young people whom they talk to, they do not say that they are being smacked, they say that they are being hit by their parents. Well, how do law enforcement agencies check whether drivers are wearing seatbelts and not using their mobile phones when driving? How do we monitor whether women are not suffering from domestic violence in the home? We pass laws to prevent people from acting in certain ways. We rely too much, I believe, on voluntary organisations, which I am loath to name, but I will highlight NSPCC, Barnardo's, Action for Children and ChildLine. We rely too much on those organisations to help us deal with those who inflict harm on others.

Fel yr wyf yn gweld y sefyllfa, mae pedwar rheswm posibl pam y gallai fod gan rai Aelodau amheuon am y gwelliant hwn. Rwy'n deall yr amheuon hynny. Y cyntaf yw: sut y gallem fonitro nad yw rhieni'n taro eu plant? Sylwch y defnyddiaf y gair 'taro', nid 'smacio', oherwydd mai dweud y maent eu bod yn cael eu taro gan eu rhieni, nid eu smacio , yn ôl y sefydliadau plant yng Nghymru a'r bobl ifanc y maent yn siarad â nhw. Wel, sut mae asiantaethau gorfodi'r gyfraith yn cadarnhau bod gyrwyr yn gwisgo gwregysau diogelwch a ddim yn defnyddio eu ffonau symudol wrth yrru? Sut rydym yn monitro nad yw merched yn dioddef trais domestig yn y cartref? Rydym yn pasio deddfau i atal pobl rhag gweithredu mewn ffyrdd penodol. Rydym yn dibynnu gormod, rwy'n credu, ar sefydliadau gwirfoddol, yr wyf yn gyndyn i'w henwi, ond tynnaf sylw at NSPCC, Barnardos, Gweithredu dros Blant a ChildLine. Rydym yn dibynnu gormod ar y sefydliadau hynny i helpu i ddelio â'r rhai sy'n achosi niwed i eraill.

A second, quite reasonable, concern voiced by some Members is that they were smacked as a child and it did not do them any harm. Well, we know that smoking kills, but there will be a few people who live very long lives who have smoked all their lives. They often say to me the same thing: it didn't do them any harm. Well, maybe they were the lucky ones. However, I believe that evidence now shows, without a shadow of a doubt, that there are a large number of children, although not all, who are hit by a parent or parents who grow up to accept violence as the way to deal with awkward situations. In my opinion, it certainly did them harm.

Ail bryder, cwbl resymol, a fynegwyd gan rai Aelodau yw eu bod wedi cael eu smacio fel plant ac nad oedd wedi gwneud dim niwed iddynt. Wel, rydym yn gwybod bod ysmygu yn lladd, ond bydd ambell un yn byw bywydau hir iawn ar ôl ysmygu trwy gydol eu hoes. Maent yn aml yn dweud wrthyf yr un peth: ni wnaeth ddim niwed iddynt. Wel, efallai mai nhw oedd y rhai lwcus. Fodd bynnag, rwy'n credu bod tystiolaeth bellach yn dangos, heb rithyn o amheuaeth, bod nifer fawr o blant sy'n cael eu taro gan riant neu rieni, er nad pob un, sy'n tyfu i fyny i dderbyn trais fel y ffordd i ddelio â sefyllfaoedd lletchwith. Yn fy marn i, yn sicr fe wnaeth eu niweidio.

A third possible concern about this amendment is: 'If I vote to delete the defence of reasonable punishment, will it cost me votes at the next election?' There are two answers to that. First, there is a growing groundswell of opinion in Wales that so-called 'smacking' is wrong. I was in Dublin over the weekend and people were talking to me in the hotels and bars about this very issue. I did not realise I was so famous. [Laughter.] As I said, there are around 140 organisations in Wales that have been campaigning to end this defence in law, including a number of religious organisations, which is important to highlight and I will come on to that. I pay tribute to Aled Roberts, a colleague from another party, who said in a recent meeting organised by Children are Unbeatable!, 'If people do not vote for me because of a view that I hold, that is something I have to accept'. Well, that is a decent politician for you. Let us be true to ourselves, otherwise we are in danger of hypocrisy.

Trydydd pryder posibl am y gwelliant hwn yw: 'Os wyf yn pleidleisio i ddileu'r amddiffyniad o gosb resymol, a fydd yn costio pleidleisiau i mi yn yr etholiad nesaf?' Mae dau ateb i hynny. Yn gyntaf, mae mwy a mwy o bobl o'r farn yng Nghymru bod 'smacio' ys dywedir yn anghywir. Roeddwn i yn Nulyn dros y penwythnos ac roedd pobl yn siarad â mi yn y gwestai a'r bariau am yr union fater hwn. Doeddwn i ddim yn sylweddoli fy mod i mor enwog. [Chwerthin.] Fel y dywedais, mae tua 140 o sefydliadau yng Nghymru sydd wedi bod yn ymgyrchu i roi terfyn ar yr amddiffyniad hwn yn y gyfraith, gan gynnwys nifer o sefydliadau crefyddol. Mae'n bwysig amlygu hynny, a byddaf yn dod at hynny. Rwy'n rhoi teyrnged i Aled Roberts, cydweithiwr o blaid arall, a ddywedodd mewn cyfarfod diweddar a drefnwyd gan 'Sdim Curo Plant!, 'Os nad yw pobl yn pleidleisio i mi oherwydd barn yr wyf yn ei choleddu, mae hynny'n rhywbeth y mae'n rhaid i mi dderbyn'. Wel, dyna i chi wleidydd gweddus. Gadewch i ni fod yn driw i ni ein hunain, fel arall, byddwn mewn perygl o ragrith.

Finally, we are told that stopping people from hitting their children limits their freedom to discipline them as they think fit and is another example of the nanny state. However, this is to argue that the personal freedom of adults to physically assault a child has a higher value than the rights of the children to be free from physical punishment. Discipline, in my opinion, and in my house, means teaching. There are less violent ways of teaching children how to behave than hitting them. I prefer to talk, sometimes shout, and sometimes cwtch, and that is important. In law, people do not have the freedom to harm others. All forms of physical assault by one person on another are outlawed in Wales. What is more, all forms of physical assault by a parent on a child are outlawed in 34 countries throughout the world. We are lagging behind in Wales, and that is very unusual. It is unusual because we in Wales have led the way in signing up to the United Nations Convention on the Rights of the Child and were the first administration—'chwarae teg'; fair play to the Labour Party—in Britain to establish the post of children's commissioner.

Yn olaf, dywedir wrthym bod atal pobl rhag taro eu plant yn cyfyngu ar eu rhyddid i'w disgyblu fel y gwelant yn dda, a bod hynny'n enghraifft arall o'r wladwriaeth faldodus. Fodd bynnag, mae hyn yn dadlau bod gwerth uwch i ryddid personol oedolion i ymosod yn gorfforol ar blentyn nag i hawliau'r plant i fod yn rhydd rhag cosb gorfforol. Mae disgyblaeth, yn fy marn i, ac yn fy nhŷ i, yn golygu addysgu. Mae ffyrdd llai treisgar o ddysgu plant sut i ymddwyn na'u taro. Mae'n well gennyf i siarad, gweiddi weithiau, a chwtsio weithiau, ac mae hynny'n bwysig. Yn ôl y gyfraith, nid oes gan bobl y rhyddid i niweidio eraill. Mae pob ffurf ar ymosodiad corfforol gan un person ar un arall yn cael ei gwahardd yng Nghymru. Ar ben hynny, mae pob math o ymosodiad corfforol gan riant ar blentyn yn cael ei gwahardd mewn 34 o wledydd ledled y byd. Rydym ar ei hôl hi yng Nghymru, ac mae hynny'n beth anghyffredin iawn. Mae'n anarferol oherwydd ein bod yng Nghymru wedi arwain y ffordd wrth lofnodi Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a ni oedd y weinyddiaeth gyntaf —chwarae teg i'r Blaid Lafur—ym Mhrydain i sefydlu swydd comisiynydd plant.

I have tried to be as open and welcoming as I can to persuade you all to support this particular amendment today. On behalf of many of the Members here today who share my opposition to the reasonable punishment defence, I appeal to you all to support this amendment in the name of the child.

Rwyf wedi ceisio bod mor agored a chroesawgar ag y gallaf i'ch darbwyllo chi i gyd i gefnogi'r gwelliant penodol hwn heddiw. Ar ran llawer o'r Aelodau yma heddiw sy'n rhannu fy ngwrthwynebiad i'r amddiffyniad cosb resymol, rwy'n apelio atoch chi i gyd i gefnogi'r gwelliant hwn yn enw'r plentyn.

16:50

## Julie Morgan Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer, for giving me the opportunity to speak in this very important debate today. I would also like to pay tribute to Lindsay Whittle and to the Members of all parties who have worked together in the children's cross-party group to raise awareness about this issue, to debate it and to plan ahead about how we can bring this into law in Wales.

Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd, am roi'r cyfle i mi siarad yn y ddadl bwysig iawn hon heddiw. Hoffwn hefyd dalu teyrnged i Lindsay Whittle ac i Aelodau o bob plaid sydd wedi gweithio gyda'i gilydd yn grŵp trawsbleidiol y plant i godi ymwybyddiaeth am y mater hwn, i drafod ac i gynllunio ymlaen llaw sut y gallwn ddod â hyn yn rhan o'r gyfraith yng Nghymru.

I feel that we must give the maximum protection that we can to children in Wales, and we must give them equal protection to adults. I want Welsh children to have the same protection as children living in Sweden, New Zealand, Poland, Spain, Germany and Venezuela—in fact, children in the 34 countries around the world to which Lindsay referred. This is not something new that we would be trying to do; this is something that has been done successfully in 34 countries, and other countries are planning to do the same.

Rwy'n teimlo fod yn rhaid inni roi'r amddiffyniad mwyaf posibl i blant yng Nghymru, a rhaid inni roi'r un amddiffyniad iddynt ag a roddir i oedolion. Rwyf am i blant Cymru gael yr un amddiffyniad â phlant sy'n byw yn Sweden, Seland Newydd, Gwlad Pwyl, Sbaen, yr Almaen a Venezuela—yn wir, plant yn y 34 o wledydd o gwmpas y byd y cyfeiriodd Lindsay atynt. Nid yw hyn yn rhywbeth newydd y byddem yn ceisio ei wneud, mae hyn yn rhywbeth sydd wedi'i wneud yn llwyddiannus mewn 34 o wledydd, ac mae gwledydd eraill yn bwriadu gwneud yr un peth.

Surely, this must be one of the most important things that we can do as Assembly Members. I think that we can agree—it is certainly one thing on which we can agree—that this is one issue that crosses party lines. I was pleased to visit Sweden and Finland with colleagues from the Assembly to see how this actually operated.

Yn sicr, rhaid i hwn fod yn un o'r pethau pwysicaf y gallwn ei wneud fel Aelodau'r Cynulliad. Rwy'n meddwl y gallwn gytuno—mae'n sicr yn un peth y gallwn gytuno arno—bod hwn yn un mater sy'n croesi ffiniau pleidiol. Roeddwn yn falch o ymweld â Sweden a'r Ffindir gyda chydweithwyr o'r Cynulliad i weld sut yr oedd hyn yn gweithio mewn gwirionedd.

In any case, to get to the politics, the Government has indicated that it will not support an amendment on physical punishment in this Bill; it does not see this Bill as a suitable vehicle for an amendment to bring in this change. However, as long as Wales is committed to the rights of children, this issue will not go away. As Lindsay Whittle has said, we have made great progress in Wales. We have led the way in Wales; we have led the way on children's rights and with the Measure that we have introduced. All of these things have been introduced, and we are capable of getting rid of the defence of reasonable punishment, and I am sure that we will do so.

Beth bynnag, i droi at y wleidyddiaeth, mae'r Llywodraeth wedi nodi na fydd yn cefnogi gwelliant ar gosb gorfforol yn y Bil hwn; nid yw'n ystyried bod y Bil hwn yn gyfrwng addas ar gyfer gwelliant i gyflwyno'r newid hwn. Fodd bynnag, cyn belled ag y bo Cymru wedi ymrwymo i hawliau plant, ni fydd y mater hwn yn diflannu. Fel y mae Lindsay Whittle wedi ei ddweud, rydym wedi cymryd camau breision yng Nghymru. Rydym wedi arwain y ffordd yng Nghymru; rydym wedi arwain y ffordd o ran hawliau plant a chyda'r Mesur yr ydym wedi'i gyflwyno. Mae pob un o'r pethau hyn wedi cael eu cyflwyno, ac mae'r gallu gennym i gael gwared ar yr amddiffyniad o gosb resymol, ac rwy'n siŵr y byddwn yn gwneud hynny.

However, as I say, the reality is that the Government is not going to support it. So, I hope that when the Deputy Minister replies, she will indicate whether there will be other, more suitable, opportunities in this Assembly term to take this forward. If I do not vote for this amendment today, it is because I think that there will be a better chance to vote for it and a chance to bring it in.

Fodd bynnag, fel y dywedais, y gwir amdani yw nad yw'r Llywodraeth yn mynd i'w gefnogi. Felly, rwy'n gobeithio y bydd y Dirprwy Weinidog, wrth ateb, yn nodi a fydd cyfleoedd eraill, mwy addas, yn nhymor y Cynulliad hwn i fwrw ymlaen â hyn. Os nad wyf yn pleidleisio dros y gwelliant hwn heddiw, y rheswm am hynny fydd fy mod yn meddwl y bydd gwell cyfle i bleidleisio drosto a chyfle i ddod i'w gyflwyno.

I think that it is important to stress the weight of support that there is behind the movement to ban physical punishment. Lindsay has already mentioned some of that. It is not just a fringe issue that a few of us are interested in; there is overwhelming support for a ban from respected and highly credible organisations, experts and individuals. Over 600 UK organisations are signed up to Children are Unbeatable! Alliance; 130 in Wales. All of the major children's charities are involved—the National Society for the Prevention of Cruelty to Children, Barnardo's, Save the Children, Action for Children and Children in Wales. They are delivering services on the ground; they are seeing at first hand the importance of giving a clear message about this issue.

Rwy'n meddwl ei bod yn bwysig pwysleisio faint o gefnogaeth sydd i'r symudiad i wahardd cosb gorfforol. Mae Lindsay eisoes wedi sôn am rywfaint o hynny. Nid dim ond mater ymylol y mae gan rai ohonom ddiddordeb ynddo ydyw; ceir cefnogaeth aruthrol i waharddiad gan sefydliadau, arbenigwyr ac unigolion uchel eu parch â llawer o hygrededd. Mae dros 600 o sefydliadau yn y DU wedi ymrwymo i Gynghrair 'Sdim Curo Plant!; 130 yng Nghymru. Mae pob un o'r prif elusennau plant yn gysylltiedig—y Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant, Barnardos, Achub y Plant, Gweithredu dros Blant a Phlant yng Nghymru. Maent yn darparu gwasanaethau ar lawr gwlad, maent yn gweld o lygad y ffynnon pa mor bwysig yw cyfleu neges glir ynglŷn â'r mater hwn.

Many Women's Aid branches throughout Wales are also signed up to this. The Archbishop of Wales, many Christian denominations, Muslim leaders, the Children's Commissioner for Wales, and so on feel very strongly about this issue. That is a very credible body of opinion. Very importantly, 10 out of the 12 local safeguarding boards in Wales also support getting rid of the defence of reasonable punishment, because they are dealing with the most damaged children in Wales and they know how important it is to have a clear message. In fact, you would be pretty hard-pressed to find an organisation, expert or individual in Wales who works with children and who does not support the campaign to ban the physical punishment of children. Surely, this must weigh on our minds as elected representatives when we consider the most successful way of achieving this ban.

Mae llawer o ganghennau Cymorth i Fenywod ledled Cymru hefyd wedi ymrwymo i hyn. Mae Archesgob Cymru, llawer o enwadau Cristnogol, arweinwyr Mwslimaidd, Comisiynydd Plant Cymru, ac yn y blaen yn teimlo'n gryf iawn ynglŷn â'r mater hwn. Dyna gorff barn credadwy iawn. Yn bwysig iawn, mae 10 o'r 12 o fyrddau diogelu lleol yng Nghymru hefyd yn cefnogi'r egwyddor o gael gwared ar yr amddiffyniad o gosb resymol, oherwydd eu bod yn ymdrin â'r plant sydd wedi'u niweidio fwyaf yng Nghymru, ac maent yn gwybod pa mor bwysig yw cael neges glir. Yn wir, byddai'n eithaf anodd dod o hyd i sefydliad, arbenigwr neu unigolyn yng Nghymru sy'n gweithio gyda phlant ac sydd ddim yn cefnogi'r ymgyrch i wahardd cosb gorfforol ar gyfer plant. Yn sicr, mae'n rhaid bod hyn yn pwyso ar ein meddyliau fel cynrychiolwyr etholedig pan fyddwn yn ystyried y ffordd fwyaf llwyddiannus o gyflawni'r gwaharddiad hwn.

Of course, I have already mentioned the other countries. Research shows us that a change in the law, along with information and education, creates a cultural change. Countries that have brought in such a law and have got rid of the defence of reasonable punishment have created a change in the climate in the country; they have created a climate where physical punishment is not acceptable at all. It has made for an entirely different climate. This has been as a result of education, help and positive parenting, all combined with getting rid of the defence of reasonable punishment.

Wrth gwrs, rwyf eisoes wedi sôn am y gwledydd eraill. Mae ymchwil yn dangos i ni bod newid yn y gyfraith, ynghyd â gwybodaeth ac addysg, yn creu newid diwylliannol. Mae gwledydd sydd wedi cyflwyno cyfraith o'r fath ac wedi cael gwared ar yr amddiffyniad o gosb resymol wedi creu newid yn yr hinsawdd yn y wlad; maent wedi creu hinsawdd lle nad yw cosb gorfforol yn dderbyniol o gwbl. Mae wedi creu hinsawdd cwbl wahanol. Gwnaed hyn o ganlyniad i addysg, cymorth a rhianta cadarnhaol, ar y cyd â chael gwared ar yr amddiffyniad o gosb resymol.

In conclusion, I think that this is something that we must do in this Assembly. If this is not the vote through which to do it, I think that we must ensure that there is another opportunity in this Assembly term to bring in this very important measure that is so important for our children in Wales.

I gloi, rwy'n meddwl fod hwn yn rhywbeth y mae'n rhaid inni ei wneud yn nhymor y Cynulliad hwn. Os nad hon yw'r bleidlais ar gyfer gwneud hynny, rwy'n meddwl bod yn rhaid inni sicrhau y ceir cyfle arall yn nhymor y Cynulliad hwn i gyflwyno'r mesur pwysig iawn hwn sydd mor bwysig i'n plant yng Nghymru.

16:55

## Darren Millar Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

There are very few issues surrounding contemporary parenting that are more hotly debated than smacking. I will refer to this as 'smacking' or 'physical chastisement' or 'spanking' throughout my speech, because I absolutely object to the term 'battery', which is something that is referred to in the amendment. I think that that grossly misrepresents the sort of discipline that many parents engage in the length and breadth of Wales.

Prin iawn yw'r materion yn ymwneud â rhianta cyfoes sy'n cael eu trafod yn fwy brwd na smacio. Byddaf yn cyfeirio at hyn fel 'smacio' neu 'gosbedigaeth gorfforol' neu 'chwip din' trwy gydol fy araith, oherwydd fy mod yn llwyr wrthwynebu'r term 'battery', sy'n rhywbeth y cyfeirir ato yn y gwelliant. Credaf fod hynny'n camliwio'n aruthrol y math o ddisgyblaeth y mae llawer o rieni yn ei defnyddio ar hyd a lled Cymru.

There is an obvious difference between discipline and abuse. There is a clear line between a smack motivated by a loving desire that a child should learn to respect boundaries for their own good and abuse. In recent years, a method of discipline used by the majority of parents across all cultures for generations has been stigmatised like no other. It is understandably an emotive issue, but I think that it is important that the facts do not get lost in the heat of today's debate. While I, like all of us in the Chamber this afternoon, do not condone any abuse of children, whether physical or mental, I firmly believe that parents should have the right to chastise their own children. A ban on smacking would criminalise tens of thousands of decent, loving parents who use physical chastisement to discipline their children and would be nigh on impossible to enforce.

Ceir gwahaniaeth amlwg rhwng disgyblaeth a cham-drin. Ceir llinell eglur rhwng smac wedi'i hysgogi gan awydd cariadus y dylai plentyn ddysgu parchu ffiniau er eu lles eu hunain, a cham-drin. Yn y blynyddoedd diwethaf, mae stigma wedi'i roi ar ddull o ddisgyblu a ddefnyddiwyd gan y rhan fwyaf o rieni ar draws pob diwylliant am genedlaethau, yn fwy na'r un arall. Yn ddealladwy, mae'n fater emosiynol, ond rwy'n meddwl ei bod yn bwysig peidio â cholli'r ffeithiau yng ngwres y ddadl heddiw. Nid wyf i, fel pob un ohonom yn y Siambr y prynhawn yma, yn esgusodi cam-drin plant mewn unrhyw ffordd, boed yn gorfforol neu'n feddyliol. Er hynny, credaf yn gryf y dylai rhieni gael yr hawl i gosbi eu plant eu hunain. Byddai gwaharddiad ar smacio yn gwneud troseddwyr o ddegau o filoedd o rieni gweddus, cariadus sy'n defnyddio cosb gorfforol i ddisgyblu eu plant, a byddai bron yn amhosibl ei orfodi.

There is an enforcement issue that I believe that nobody has properly considered. The reason why we have not properly considered it is because there has not been a full public consultation on this issue. What about cross-border enforcement? What happens if a parent comes and stays in our country from England on holiday and they happen to smack their child while they are here? What is going to happen to that person? How can we make sure that people are properly informed? This is an ill-thought-out amendment that has been put in at the eleventh hour with no public mandate whatsoever. There has been no national conversation with members of the public or parents about this issue. Not one single party in the Chamber made a specific reference to calling for a ban in their manifestos at the 2011 Assembly elections. There is no mandate for us to introduce a ban. That is why I feel so passionately that we should be voting against this amendment today.

Mae mater yn ymwneud â gorfodi nad oes neb wedi ei ystyried yn briodol, yn fy marn i. Y rheswm pam nad ydym wedi rhoi ystyriaeth briodol iddo yw na fu ymgynghoriad cyhoeddus llawn ar y mater hwn. Beth am orfodi trawsffiniol? Beth fydd yn digwydd os yw rhiant yn dod i aros yn ein gwlad o Loegr ar wyliau ac yn digwydd smacio eu plant tra byddant yma? Beth sy'n mynd i ddigwydd i'r person hwnnw? Sut gallwn ni wneud yn siŵr bod pobl yn cael eu hysbysu'n briodol? Mae hwn yn welliant sydd wedi'i gynllunio'n wael a'i gynnwys ar yr unfed awr ar ddeg heb fandad cyhoeddus o gwbl. Ni fu unrhyw sgwrs genedlaethol ag aelodau o'r cyhoedd neu rieni am y mater hwn. Ni wnaeth yr un blaid yn y Siambr gyfeiriad penodol at alw am waharddiad yn eu maniffestos yn etholiadau'r Cynulliad yn 2011. Nid oes mandad i ni i gyflwyno gwaharddiad. Dyna pam yr wyf yn teimlo mor angerddol y dylem fod yn pleidleisio yn erbyn y gwelliant hwn heddiw.

The overwhelming majority of parents know where to draw the line between chastisement and abuse and we should trust their judgment. Parents are best placed to care for their children, not the Welsh Government. I believe that no Government should force a parent into raising a child in a particular way. Such decisions on these issues are best left to the parents themselves. Wales does not need a ban on smacking to prevent child abuse. There is already comprehensive legislation, including the Children Act 2004, which is in place to protect children from abuse. Those who fall foul of the law should, of course, face the full weight of the law and the consequences of their actions.

Mae'r mwyafrif llethol o rieni yn gwybod ble i dynnu'r llinell rhwng cosbedigaeth a cham-drin a dylem ymddiried yn eu barn. Rhieni sydd yn y sefyllfa orau i ofalu am eu plant, nid Llywodraeth Cymru. Rwy'n credu na ddylai'r un Llywodraeth orfodi rhiant i fagu plentyn mewn ffordd benodol. Mae'n well gadael penderfyniadau o'r fath ar y materion hyn i'r rhieni eu hunain. Nid oes angen gwaharddiad ar smacio ar Gymru i atal cam-drin plant. Sefydlwyd deddfwriaeth gynhwysfawr yn barod, gan gynnwys Deddf Plant 2004, i amddiffyn plant rhag cael eu cam-drin. Dylai'r rhai sy'n torri'r gyfraith, wrth gwrs, wynebu pwysau llawn y gyfraith a chanlyniadau eu gweithredoedd.

I do believe that we need to promote a greater range of measures for parents to use when disciplining their children. I am a big fan of positive parenting techniques, which I know are propagated, encouraged and promoted the length and breadth of Wales by organisations like Care for the Family, just down the road in Taff's Well, for example. Let us not overlook the fact that alternatives to physical chastisement, such as using a naughty step, confining a child to a bedroom, and shouting—which you referred to in opening this debate, Lindsay Whittle—can also have long-term adverse consequences for children if they are used inappropriately by parents. They also potentially have the ability to abuse a child. So, if we are going to ban smacking, why not ban those other things that also have the potential to harm? It is very clear to me that we need to allow people to make the distinction between abuse and physical chastisement. Physical chastisement is a tool in disciplining children. It is the ultimate sanction. It is not the only tool in the box, but it can be an extremely effective and useful tool. I believe that it can be far less damaging than some of the other forms of punishment that people suggest should be used.

Rwy'n credu bod angen i ni hyrwyddo mwy o amrywiaeth o fesurau i rieni eu defnyddio wrth ddisgyblu eu plant. Rwy'n gefnogwr mawr o dechnegau rhianta cadarnhaol sy'n cael eu lledaenu, eu hannog a'u hyrwyddo ar hyd a lled Cymru, rwy'n gwybod, gan sefydliadau fel Care for the Family, dim ond i lawr y ffordd yn Ffynnon Taf, er enghraifft. Gadewch i ni beidio ag anwybyddu'r ffaith y gall dewisiadau amgen yn lle cosb gorfforol, fel defnyddio gris plant drwg, cyfyngu plentyn i'w ystafell wely, a gweiddi—y cyfeiriasoch ato wrth agor y ddadl hon, Lindsay Whittle—hefyd gael effaith andwyol tymor hir ar blant os ydynt yn cael eu defnyddio'n amhriodol gan rieni. Mae'r gallu gan y rhain hefyd i gam-drin plentyn. Felly, os ydym yn mynd i wahardd smacio, beth am wahardd y pethau eraill hynny sydd hefyd â'r potensial i niweidio? Mae'n amlwg iawn i mi fod angen inni alluogi pobl i wahaniaethu rhwng cam-drin a chosbi corfforol. Mae cosb gorfforol yn offeryn i ddisgyblu plant. Dyma'r gosb eithaf. Nid dyma'r unig offeryn sydd ar gael, ond gall fod yn offeryn hynod o effeithiol a defnyddiol. Rwy'n credu y gall fod yn llawer llai niweidiol na rhai o'r mathau eraill o gosb y mae pobl yn awgrymu y dylid eu defnyddio.

There are instances when a smack is for a child's own safety, for example, if a child persists in running towards the road and a firm and corrective 'no' has been repeatedly ignored. It is an ultimate sanction. I will continue to support the ability of parents in Wales to choose it when disciplining their children in future. I have to say that not a single parent has contacted me in my constituency to say that they want a ban on being able to discipline their child. I would challenge anybody to show me the host of letters that they have received from their constituents, because, I will tell you what, the reality is that there are not many people contacting them. The majority of people who are contacting you are saying, 'Vote against this amendment'. That is the reality and we all know that that is the reality.

Mae achosion pan fydd plentyn yn cael smac er mwyn ei ddiogelwch ei hun, er enghraifft, os yw plentyn yn parhau i redeg tuag at y ffordd a bod 'na' cadarn i'w gywiro wedi cael ei anwybyddu dro ar ôl tro. Dyma'r gosb eithaf. Byddaf yn parhau i gefnogi gallu rhieni yng Nghymru i ddewis y gosb honno wrth ddisgyblu eu plant yn y dyfodol. Mae'n rhaid i mi ddweud nad oes yr un rhiant wedi cysylltu â mi yn fy etholaeth i ddweud eu bod am gael gwaharddiad ar y gallu i ddisgyblu eu plentyn. Byddwn yn herio unrhyw un i ddangos i mi y llu o lythyrau a gawsant gan eu hetholwyr, oherwydd, dywedaf wrthych, y realiti yw nad oes llawer o bobl yn cysylltu â nhw. Mae'r rhan fwyaf o bobl sy'n cysylltu â chi yn dweud, 'Pleidleisiwch yn erbyn y gwelliant hwn'. Dyna'r realiti, ac rydym i gyd yn gwybod mai dyna'r realiti.

The first scientific review conducted in America by Dr Robert Larzelere—I hope that that is a correct pronunciation—of Oklahoma State University and Dr Brett Kuhn of the University of Nebraska Medical Center studied the use of physical discipline and its outcomes compared with alternative disciplinary tactics used by parents. They reviewed 50 years' worth of research on child discipline, and 26 relevant studies on outcomes of physical punishment were identified. Their report identified an optimal type of physical discipline called, and they termed it this, 'conditional spanking', which led to better outcomes than 10 of 13 alternative disciplinary tactics. Conditional spanking was deemed to be non-abusive and they concluded that it

Roedd yr adolygiad gwyddonol cyntaf a gynhaliwyd yn America gan y Dr Robert Larzelere—rwy'n gobeithio fy mod wedi'i ynganu'n gywir—o Brifysgol Talaith Oklahoma a'r Dr Brett Kuhn o Ganolfan Feddygol Prifysgol Nebraska yn astudio'r defnydd o ddisgyblaeth gorfforol a'i chanlyniadau o'u cymharu â thactegau disgyblu amgen a ddefnyddir gan rieni. Adolygwyd gwerth 50 mlynedd o waith ymchwil ar ddisgyblu plant, a nodwyd 26 o astudiaethau perthnasol ar ganlyniadau cosb gorfforol. Roedd eu hadroddiad yn nodi'r math gorau posibl o ddisgyblu corfforol o'r enw 'chwip din amodol', eu term nhw yw hwn, a oedd yn arwain at ganlyniadau gwell na 10 o'r 13 tacteg disgyblu amgen. Ystyriwyd nad oedd chwip din amodol yn cam-drin a daethant i'r casgliad ei fod yn

'teaches a child to cooperate with the milder disciplinary tactic, thereby making spanking less necessary in the future.'

dysgu plentyn i gydweithredu â'r dacteg ddisgyblu fwynach, a thrwy hynny yn gwneud chwip din yn llai angenrheidiol yn y dyfodol.

Before I conclude, I just want to make the point that it would be particularly wrong to try to introduce this particular amendment into this debate at such a late stage. We did not take significant evidence on this as an Assembly committee during committee Stage 1. There was very limited evidence that was received by the committee at that time. Therefore, this is not the time. It is not the place to be introducing a ban on smacking, in haste, when there has not been the proper opportunity for scrutiny or discussion with the public.

Cyn i mi gloi, rwyf eisiau gwneud y pwynt y byddai'n arbennig o anghywir ceisio cyflwyno'r gwelliant arbennig hwn yn y ddadl hon mor hwyr. Ni wnaethom ni, fel pwyllgor y Cynulliad, gymryd tystiolaeth sylweddol ar hyn yn ystod Cyfnod 1 y pwyllgor. Tystiolaeth gyfyngedig iawn a dderbyniwyd gan y pwyllgor ar y pryd. Felly, nid dyma'r amser. Nid dyma'r lle i fod yn cyflwyno gwaharddiad ar smacio, ar frys, pan na chafwyd cyfle priodol i graffu neu drafod â'r cyhoedd.

I want to leave Members with one final thought this afternoon. Julie Morgan made reference to the ban that has been introduced in other countries. She referred to New Zealand, which banned smacking in 2007. As the leading family group in New Zealand, Protect Good Parents, has said that the ban did nothing to stop the unacceptable rates of child abuse but what it did do was penalise good parents. I urge Members to vote against the amendment today.

Rwyf am adael Aelodau gydag un syniad terfynol y prynhawn yma. Cyfeiriodd Julie Morgan at y gwaharddiad sydd wedi cael ei gyflwyno mewn gwledydd eraill. Cyfeiriodd at Seland Newydd, a roddodd waharddiad ar smacio yn 2007. Fel y dywedodd y prif grŵp teuluol yn Seland Newydd, nid yw'r gwaharddiad wedi gwneud dim i atal y cyfraddau annerbyniol o gam-drin plant ond yr hyn a wnaeth oedd cosbi rhieni da. Anogaf yr Aelodau i bleidleisio yn erbyn y gwelliant heddiw.

17:03 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I will begin by explaining that the Welsh Liberal Democrat Assembly Members will have a free vote on this issue this afternoon. I am speaking in a personal capacity as someone who has consistently said, in every debate that different incarnations of the Assembly has had, that children should be provided with the same protection from being struck by another human being as I am. I cannot think of a better place to include this than a Bill that is entitled 'social services and well-being'. What more appropriate place could we have than a Bill that talks about promoting wellbeing in our society to be able to protect our children in this way?

Dechreuaf drwy egluro y bydd gan Aelodau Cynulliad Democratiaid Rhyddfrydol Cymru bleidlais rydd ar y mater hwn brynhawn heddiw. Rwy'n siarad yn bersonol fel rhywun sydd wedi dweud yn gyson, ym mhob dadl a gafwyd yn y gwahanol Gynulliadau, y dylai plant, yn yr un modd â minnau, gael eu hamddiffyn rhag cael eu taro gan fod dynol arall. Ni allaf feddwl am le gwell i gynnwys hyn na Bil sy'n dwyn y teitl 'gwasanaethau cymdeithasol a llesiant'. Pa le mwy priodol allem ni ei gael na Bil sy'n sôn am hybu lles yn ein cymdeithas i allu amddiffyn ein plant yn y ffordd hon?

I have been contacted by one person who does not want me to vote for this today. I recognise that they their views are very deep-seated and reasonably held. One of their concerns was that children need to be disciplined. As a parent myself, I know what a tough job being a parent can be. Believe me, there have been times over the last 12 years when I have been driven to distraction and, I am ashamed to say, have smacked my children. I have done that not as a reflection, necessarily, of their behaviour, but of my behaviour—my inability to control my temper, to deal with my stress and deal with my frustration. It had very little to do with them.

Mae un person wedi cysylltu â mi nad yw'n dymuno i mi bleidleisio dros hyn heddiw. Rwy'n cydnabod bod eu barn yn rhesymol ac yn ddwfn iawn. Un o'u pryderon oedd bod angen i blant gael eu disgyblu. Fel rhiant fy hun, rwy'n gwybod gwaith mor anodd weithiau yw bod yn rhiant. Credwch fi, cefais fy ngyrru'n wirion ar rai adegau dros y 12 mlynedd diwethaf ac, mae gennyf gywilydd dweud, rwyf wedi smacio fy mhlant. Rwyf wedi gwneud hynny nid fel adlewyrchiad o'u hymddygiad nhw, o reidrwydd, ond o'm hymddygiad i —fy anallu i reoli fy nhymer, i ddelio gyda fy straen a delio gyda fy rhwystredigaeth. Nid oedd ganddo lawer iawn i'w wneud â nhw.

The reality is that children need boundaries. Of course they do. They thrive on them. They need to know exactly where they stand with you and other members of society. This is not about saying that we should not discipline our children and that we should not provide boundaries for children. This is about saying that there are better ways, more effective ways and more humane ways to do our parenting. That is not to absolve ourselves of negating the need for those boundaries. The reality is that it does not work. Children never or very rarely equate the act of being smacked or hit with their actions. Research shows that if you ask children about the circumstances where they have been physically chastised, they say, 'It was because my mummy was mad with me', 'It was because daddy lost his temper' or, 'It was because my mummy was stressed'. They do not equate the act of being hit with the bad behaviour that they may have displayed.

Y realiti yw bod angen ffiniau ar blant. Wrth gwrs hynny. Maent yn ffynnu ar ffiniau. Mae angen iddynt wybod yn union ble maent yn sefyll gyda chi a chydag aelodau eraill o gymdeithas. Nid yw hyn yn ymwneud â dweud na ddylem ddisgyblu ein plant ac na ddylem ddarparu ffiniau ar gyfer plant. Mae hyn yn ymwneud â dweud bod ffyrdd gwell, ffyrdd mwy effeithiol a ffyrdd mwy trugarog i fagu plant. Nid yw hynny'n ein rhyddhau yr angen am y ffiniau hynny. Y realiti yw nad yw'n gweithio. Nid yw plant yn aml iawn yn cysylltu'r weithred o gael eu smacio neu eu taro gyda'u gweithredoedd, os o gwbl. Mae ymchwil yn dangos bod plant, os ydych yn gofyn iddynt am yr amgylchiadau pan gawsant eu ceryddu'n gorfforol, yn dweud, 'Roedd am fod fy mam yn wallgof gyda fi', 'Roedd am fod dad wedi colli ei dymer' neu, 'Roedd am fod fy mam dan straen '. Nid ydynt yn cysylltu'r weithred o gael eu taro gydag ymddygiad gwael y gallent fod wedi ei arddangos.

Does this lead to a generation and a population of feckless children who live their lives without boundaries? The international evidence would suggest otherwise, as, otherwise, the countries that have already taken this brave step would be suffering from a wave of anti-social behaviour from the young people who have been brought up in a different environment with different parenting styles. The reality is that not a single country that has introduced this legislation has taken the steps to repeal it, despite the fact that, in some cases, the legislation was passed a long time ago, and administrations of different political persuasions have subsequently come into power. If we pass this today, it will lead the debate. It will change the culture in which we do our parenting—a change of culture, Darren, that I think is already happening. What was de rigeur for our grandparents' generation and for my parents' generation is now a situation where there are often great debates among families about the best way to proceed. Increasingly, I think that parents are choosing not to physically chastise their children. I think that we need to help lead that debate.

A yw hyn yn arwain at genhedlaeth a phoblogaeth o blant didoreth sy'n byw eu bywydau heb ffiniau? Byddai'r dystiolaeth ryngwladol yn awgrymu i'r gwrthwyneb, oherwydd, fel arall, byddai'r gwledydd sydd eisoes wedi cymryd y cam dewr hwn yn dioddef o don o ymddygiad gwrth-gymdeithasol gan y bobl ifanc sydd wedi cael eu magu mewn amgylchedd gwahanol gyda gwahanol arddulliau rhianta. Y realiti yw nad oes yr un wlad sydd wedi cyflwyno'r ddeddfwriaeth hon wedi cymryd y camau i'w diddymu, er bod y ddeddfwriaeth mewn rhai achosion, wedi ei phasio amser maith yn ôl, a bod gweinyddiaethau o wahanol dueddiadau gwleidyddol wedi dod i rym wedyn. Os byddwn yn pasio hwn heddiw, bydd yn arwain y ddadl. Bydd yn newid y diwylliant lle'r ydym yn gwneud ein gwaith fel rhieni—newid diwylliant, Darren, yr wyf yn meddwl sy'n digwydd yn barod. Mae'r hyn a oedd yn arferol ar gyfer cenedlaethau ein teidiau a'n neiniau a chenhedlaeth fy rhieni bellach yn sefyllfa lle y ceir dadleuon mawr yn aml ymhlith teuluoedd ynglŷn â'r ffordd orau i symud ymlaen. Yn gynyddol, rwy'n meddwl bod rhieni'n dewis peidio â cheryddu eu plant yn gorfforol. Credaf fod angen i ni helpu i arwain y ddadl honno.

Does it make a difference to behaviour? My mother was a very loving and determined parent. She wanted the very best for me. However, what started off as a smack turned into something that I would regard as a lot more serious. People often say in my family that there is a reason why I become a politician and my sister became a child protection lawyer; that there was a reason behind the choices that we made. My mother did it out of love, but I think any external examination of the situation would have said that she had overstepped the mark. Did I amend my behaviour? Did I study harder? Did I clean my bedroom more? Did I stop staying out late? The reality is that I did not. I continued not to study, I continued to make a mess in my room and I continued to break those curfews. The long-lasting legacy was that, even as an adult, if my mother moved a little bit too quickly by the side of me, I used to shrink back and jump away. That was the long-lasting legacy of physical chastisement. Even as an adult, I would flinch if she moved a little bit too quickly.

A yw'n gwneud gwahaniaeth i ymddygiad? Roedd fy mam yn rhiant cariadus a phenderfynol iawn. Roedd hi eisiau'r gorau i mi. Fodd bynnag, trodd rhywbeth a ddechreuodd fel smac yn rhywbeth y byddwn yn ei ystyried yn llawer mwy difrifol. Mae pobl yn aml yn dweud yn fy nheulu bod rheswm pam yr wyf i'n wleidydd ac y daeth fy chwaer yn gyfreithiwr amddiffyn plant; bod rheswm y tu ôl i'r dewisiadau a wnaethom. Gwnaeth fy mam hyn oherwydd cariad, ond rwy'n meddwl y byddai unrhyw archwiliad allanol o'r sefyllfa wedi dweud ei bod wedi mynd yn rhy bell. A wnes i newid fy ymddygiad? A wnes i astudio'n galetach? A oeddwn i'n glanhau mwy ar fy ystafell wely? A wnes i roi'r gorau i aros allan yn hwyr? Y realiti yw na wnes i ddim. Parhau wnes i i beidio ag astudio, parhau wnes i i wneud llanast yn fy ystafell a pharhau wnes i i dorri'r cyrffyw hwnnw. Yr etifeddiaeth hirdymor oedd y byddwn, hyd yn oed fel oedolyn, yn tynnu'n ôl ac yn neidio i ffwrdd os oedd fy mam yn symud ychydig yn rhy gyflym wrth fy ochr i. Dyna oedd etifeddiaeth hirdymor cosb gorfforol. Hyd yn oed fel oedolyn, byddwn yn gwingo os oedd hi'n symud ychydig bach yn rhy gyflym.

Darren's argument is that parents know best, and that we should not interfere in family life. It was not so long ago that we were using those arguments to justify men hitting their wives, were we not? It was a husband's right to be able to discipline his wife; women needed discipline, and it was a husband's right to sort that out in those ways. Society moved on from that and we decided that that way of living was not the right way. I think that we are in the process of moving on from that when we talk about our children.

Dadl Darren yw mai rhieni sy'n gwybod orau, ac na ddylem ymyrryd ym mywyd y teulu. Nid oes cymaint â hynny o amser wedi mynd heibio pan oeddem yn defnyddio'r dadleuon hynny i gyfiawnhau dynion yn taro eu gwragedd, onid oeddem ni? Roedd yn hawl i ŵr allu disgyblu ei wraig; mae ar fenywod angen disgyblaeth, a hawl gŵr oedd datrys y sefyllfa felly. Symudodd cymdeithas ymlaen o hynny a phenderfynwyd nad y ffordd honno o fyw oedd y ffordd gywir. Rwy'n meddwl ein bod yn y broses o symud ymlaen o hynny wrth siarad am ein plant.

The issue for me is: at what age does a child stop being a child? Are we talking about physically chastising a four-year-old or a five-year-old? Technically, under the law, we could still be hitting people when they are 15 and 16. None of us here would think that was acceptable parenting behaviour—no-one would—so why do we think that it is acceptable parenting behaviour for our very youngest children? Maybe my judgment in this area is clouded by my experience as a child, but I know that I have made every effort to amend my parenting style, which I think makes for a happier family, and it certainly makes for a happier mum.

Y mater i mi yw: ar ba oedran y mae'r plentyn yn rhoi'r gorau i fod yn blentyn? A ydym yn sôn am geryddu rhai pedair mlwydd oed neu bum mlwydd oed yn gorfforol? Yn dechnegol, o dan y gyfraith, gallem fod yn dal i daro pobl pan fyddant yn 15 ac 16 oed. Ni fyddai'r un ohonom yma yn meddwl y byddai hynny'n ymddygiad rhianta derbyniol —ni fyddai neb— felly pam yr ydym yn credu ei fod yn ymddygiad rhianta derbyniol ar gyfer ein plant ieuengaf? Efallai bod fy marn yn y maes hwn wedi'i gymylu gan fy mhrofiad fel plentyn, ond rwy'n gwybod fy mod wedi gwneud pob ymdrech i newid fy arddull rhianta. Yn fy marn i, mae hynny'n gwneud teulu hapusach, ac mae'n sicr yn gwneud mam hapusach.

17:10 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have now called one Member from each group. I have seven other Members who wish to speak before I call the Deputy Minister. I regard this matter as profound and of national interest, so I intend to call all Members who have indicated so far that they wish to speak. However, it will help the Assembly to dispatch today's business if you address yourself to fresh points and not needlessly repeat points that have already been heard, or at least not at great length.

Rwyf yn awr wedi galw un Aelod o bob grŵp. Mae gennyf saith Aelod arall yn dymuno siarad cyn imi alw ar y Dirprwy Weinidog. Rwy'n ystyried y mater hwn yn un dwys ac o ddiddordeb cenedlaethol, felly rwy'n bwriadu galw ar yr holl Aelodau sydd wedi nodi hyd yn hyn eu bod yn dymuno siarad. Fodd bynnag, bydd yn helpu'r Cynulliad i ddarfod busnes heddiw pe byddech yn rhoi sylw i bwyntiau newydd ac nid yn ailadrodd yn ddiangen y pwyntiau sydd eisoes wedi cael eu clywed, neu o leiaf nid am ormod o amser.

17:10 **Christine Chapman** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

This debate has been really informative. I will try not to duplicate some of the material. First, I wholeheartedly support the sentiment behind Lindsay Whittle's amendment. Like a number of us—I pay tribute to Kirsty Williams and Julie Morgan, as well as others from across the Chamber—Lindsay has shown absolute commitment to this issue and to campaigning for a change to the anachronistic situation where children are not afforded the same protection as adults. We know that, in politics, some issues are more controversial than others, but that does not mean that we should shy away from them. It is about leadership. Yesterday's successful vote on smoking in cars carrying children is a really good example of that. The issue of whether we give children the same protection as adults has been discussed for many years. All of us who came into politics, I am sure, wanted to make a difference and to push the boundaries. This is one issue that we in Wales need to lead on. I think that the time is right for a change in the law and it should come sooner rather than later.

Mae'r ddadl hon wedi bod yn llawn gwybodaeth. Byddaf yn ceisio peidio â dyblygu peth o'r deunydd. Yn gyntaf, rwy'n llwyr gefnogi'r teimlad y tu ôl i welliant Lindsay Whittle. Fel nifer ohonom—rwy'n talu teyrnged i Kirsty Williams a Julie Morgan, yn ogystal ag eraill o bob rhan o'r Siambr—mae Lindsay wedi dangos ymrwymiad llwyr i'r mater hwn ac i ymgyrchu dros newid y sefyllfa anacronistig lle nad yw plant yn cael yr un amddiffyniad ag oedolion. Rydym yn gwybod, mewn gwleidyddiaeth, bod rhai materion yn fwy dadleuol nag eraill, ond nid yw hynny'n golygu y dylem gilio i ffwrdd oddi wrthynt. Mae'n fater o arweinyddiaeth. Mae pleidlais lwyddiannus ddoe ar ysmygu mewn ceir sy'n cludo plant yn enghraifft dda iawn o hynny. Mae trafodaeth wedi bod ers blynyddoedd lawer mater pa un a ydym yn rhoi'r un amddiffyniad i blant ag i oedolion. Roedd pob un ohonom a ddaeth i fyd gwleidyddiaeth, rwy'n siŵr, yn awyddus i wneud gwahaniaeth ac i wthio ffiniau. Mae hwn yn un mater y mae angen i ni yng Nghymru arwain arno. Rwy'n meddwl mai dyma'r amser i newid y gyfraith a dylid gwneud hynny yn gynt yn hytrach nag yn hwyrach.

There were many things that I disagreed with Darren Millar on. The first is the point about giving children protection that is equal to that of adults. We would not condone hitting an older person because they were being difficult in a care home, for example. We need to think in terms of children and giving them equal protection. This is certainly good for parents. We know from evidence that most parents hit their children when they feel stressed themselves. Like Kirsty, I hit my daughter. At the time, I really wished that I had more guidance. I wished that we had been having this debate then, because I felt confused. I felt that it was the right thing to do, but I felt awful afterwards. It did nothing for disciplining a child, as Darren said; it did absolutely nothing.

Roeddwn yn anghytuno â Darren Millar ynglŷn â llawer o bethau. Y cyntaf yw'r pwynt ynghylch rhoi'r un amddiffyniad i blant ag i oedolion. Ni fyddem yn cymeradwyo taro person hŷn oherwydd ei fod yn ymddwyn yn anystywallt mewn cartref gofal, er enghraifft. Mae angen i ni feddwl yn nhermau plant a rhoi amddiffyniad cyfartal iddynt. Mae hyn yn sicr yn beth da ar gyfer rhieni. Rydym yn gwybod o dystiolaeth bod y rhan fwyaf o rieni yn taro eu plant pan maent yn teimlo dan straen eu hunain. Fel Kirsty, rwyf wedi taro fy merch. Ar y pryd, byddwn wir wedi hoffi cael mwy o arweiniad. Byddwn wedi hoffi pe byddem wedi bod yn cael y ddadl hon bryd hynny, oherwydd fy mod yn teimlo'n ddryslyd. Roeddwn yn teimlo mai dyna'r peth iawn i'w wneud, ond roeddwn i'n teimlo'n ofnadwy wedyn. Ni wnaeth gyflawni dim o ran disgyblu plentyn, fel y dywedodd Darren; ni wnaeth affliw o ddim.

The biggest concern—I want to address this—in all the debates that we have had is that somehow there would be wholesale criminalisation of parents. Looking at the other countries, we know that this has not happened there. Julie Morgan, Keith Davies and I went to Finland and we specifically went to talk to the legal people and to the police, and we heard that this has not happened. There have been parents who have been prosecuted, but that has been in extreme cases. I am not a lawyer, but I think that you should always start with the principle of what is right and then work towards the solution, not the other way round. Otherwise, we would not do anything. However, this does give a clear message. It is certainly good for children; it is a question of child protection and protecting the wellbeing of children. Darren mentions one study in Oklahoma—I think he talked about it in the last debate—but we also know that there are over 100 peer-reviewed research studies showing that hitting children does have a negative impact. So, I think that we need to weigh this evidence.

Y pryder mwyaf—rwyf eisiau mynd i'r afael â hyn—yn yr holl ddadleuon yr ydym wedi'u cael yw y byddai llu o rieni, rhywsut, yn cael eu gwneud yn droseddwyr. O edrych ar y gwledydd eraill, rydym yn gwybod nad yw hyn wedi digwydd yno. Aeth Julie Morgan, Keith Davies a minnau i'r Ffindir ac aethom yn benodol i siarad â'r bobl gyfreithiol ac â'r heddlu, a chlywsom nad yw hyn wedi digwydd. Mae rhai rhieni wedi cael eu herlyn, ond gwnaed hynny mewn achosion eithafol. Nid wyf yn gyfreithiwr, ond rwy'n meddwl y dylech bob amser ddechrau gyda'r egwyddor o'r hyn sy'n iawn ac yna'n gweithio tuag at yr ateb, nid i'r gwrthwyneb. Fel arall, ni fyddem yn gwneud dim. Fodd bynnag, mae hyn yn rhoi neges glir. Mae'n sicr yn beth da i blant; mae'n fater o amddiffyn plant a diogelu lles plant. Mae Darren yn sôn am un astudiaeth yn Oklahoma—rwy'n meddwl ei fod wedi siarad amdano yn y ddadl olaf—ond gwyddom hefyd fod dros 100 o astudiaethau ymchwil a adolygwyd gan gymheiriaid yn dangos bod taro plant yn cael effaith negyddol. Felly, credaf fod angen i ni bwyso a mesur y dystiolaeth hon.

I think that this is good for Wales. A change in the law would build on the support that has already been given by the Welsh Government and the National Assembly since 1999. We have led the way here in promoting children's rights. We are not starting with a blank piece of paper here; some of us have been at this for many years. We also know that the support is out there from respected organisations, experts, parents and young people themselves. I know that many of us had a lot of lobbying from some religious groups last time. Many religious groups have signed up to the campaign, and, not just that, as they have spoken about the issue, they have held vigils, they have preached sermons and they have hosted roadshows. Some very respected church people have had quite a lot of abuse from some of these lobbying organisations, but they are absolutely dedicated to ending legalised violence against children. I use the term 'legalised violence' deliberately, because there is no such thing as a safe smack. The word 'smacking' is very misleading and very confusing, and social workers would tell you that as well. They want clarity. They want a change in the law for clarity's sake.

Rwy'n credu bod hyn yn dda i Gymru. Byddai newid yn y gyfraith yn adeiladu ar y gefnogaeth a roddwyd eisoes gan Lywodraeth Cymru a'r Cynulliad Cenedlaethol ers 1999. Rydym wedi arwain y ffordd yma ym maes hyrwyddo hawliau plant. Nid ydym yn dechrau gyda darn o bapur gwag yma; mae rhai ohonom wedi bod yn sôn am hyn ers blynyddoedd lawer. Rydym hefyd yn gwybod bod sefydliadau parchus, arbenigwyr, rhieni a phobl ifanc eu hunain yn cefnogi hyn. Gwn fod llawer ohonom wedi cael llawer o lobïo gan rai grwpiau crefyddol y tro diwethaf. Mae llawer o grwpiau crefyddol wedi ymuno â'r ymgyrch, ac nid yn unig hynny. Wrth iddynt siarad am y mater, maent wedi cynnal gwylnosau, maent wedi rhoi pregethau ac maent wedi cynnal sioeau teithiol. Mae rhai pobl barchus iawn yn yr eglwys wedi cael eu difrïo gryn dipyn gan rai o'r cyrff lobïo, ond maent yn gwbl ymroddedig i roi terfyn ar drais cyfreithlon yn erbyn plant. Defnyddiaf y term 'trais cyfreithlon' yn fwriadol, gan nad oes y fath beth â smac ddiogel. Mae'r gair 'smacio' yn gamarweiniol iawn ac yn ddryslyd iawn, a byddai gweithwyr cymdeithasol yn dweud hynny wrthych hefyd. Maent yn dymuno cael eglurder. Maent am newid yn y gyfraith er mwyn cael eglurder.

That said, this is the difficult part: we know that the Welsh Government is not going to support this amendment today, believing that this Bill is not the correct vehicle for the change in the law, and I really regret that. However, before I cast my vote today, I will be listening very carefully to what the Deputy Minister says on this issue and, if I am not satisfied, I will vote for this amendment and I will vote against my Government. Given the fact that this Assembly has already voted twice in favour of a ban, I would ask the Deputy Minister to say when, if not in this Bill, the Government will take account of the fact that the children of Wales need the same protection as adults. I want this in this Assembly term. I do not want this issue to be a debate just for today and then we forget about it next week. I want something to happen. We have been at this for a long, long time. I do not want this to fade away, as it is far too important. The children of Wales need our protection and that must come sooner rather than later.

Wedi dweud hynny, dyma'r rhan anodd: rydym yn gwybod nad yw Llywodraeth Cymru yn mynd i gefnogi'r gwelliant hwn heddiw, gan gredu nad y Bil hwn yw'r cyfrwng cywir ar gyfer y newid yn y gyfraith, ac rwyf wir yn gresynu ynglŷn â hynny. Fodd bynnag, cyn i mi fwrw fy mhleidlais heddiw, byddaf yn gwrando'n ofalus iawn ar yr hyn y mae'r Dirprwy Weinidog yn ei ddweud ar y mater hwn ac, os nad wyf yn fodlon, byddaf yn pleidleisio o blaid y gwelliant hwn a byddaf yn pleidleisio yn erbyn fy Llywodraeth. O ystyried bod y Cynulliad hwn eisoes wedi pleidleisio ddwywaith o blaid gwaharddiad, byddwn yn gofyn i'r Dirprwy Weinidog ddweud pryd, os nad yn y Bil hwn, y bydd y Llywodraeth yn ystyried bod angen yr un amddiffyniad ar blant Cymru ag ar oedolion. Rwyf am weld hyn yn ystod tymor y Cynulliad hwn. Nid wyf am i'r mater hwn fod yn ddadl ar gyfer heddiw yn unig ac yna ein bod yn anghofio am y peth yr wythnos nesaf. Rwyf am i rywbeth ddigwydd. Rydym wedi bod yn trafod hyn am amser hir iawn, iawn. Nid wyd am i hyn ddiflannu, gan ei fod yn llawer rhy bwysig. Mae ar blant Cymru angen inni eu hamddiffyn a rhaid inni wneud hynny cyn gynted â phosibl.

17:16 **Byron Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I am very grateful for the opportunity to speak in this debate and I rise to oppose amendment 98. The amendment, I fear, is informed by an ideological belief rather than a common-sense frame of reference. We are debating here the moderate correction of a child. The world view of those proposing this amendment says that all physical punishment is violence against children and that all physical punishment is consequently unacceptable. I have received considerable correspondence on this and, indeed, every bit of correspondence I have got has been against it. I would like to read out part of a letter from a concerned constituent, which emphasises why I believe the amendment is fundamentally flawed. It says this:

'When I hear politicians who would like to make parents like my mother and father guilty of breaking the law, I am very conscious that they see all expressions of physical discipline as violence. I can see how it might seem this way if a parent loses control and smacks in anger, but that is not good practice and it's not what my parents did. They would give me plenty of warnings and, if I ignored them, they would always take me to a different room so there was never any sense of them reacting on the spur of the moment in anger. They would then give me a smack because as parents they loved me, they could not let me grow up behaving that way. The smack would then be administered, never ever resulting in any kind of a mark. Afterwards, they would repeat again that they only did it because they loved me and wanted me to grow up as a well behaved adult. I always knew two things about these smacks. First, my parents did not enjoy administering them. Second, they only did it because they loved me. I am grateful for my parents providing me with this discipline. The idea that the best thing the Assembly can do for great parents such as mine who loved me enough to discipline me is to condemn them and deem them guilty of breaking the law beggars belief.'

Rwy'n ddiolchgar iawn am y cyfle i siarad yn y ddadl hon ac rwy'n codi i wrthwynebu gwelliant 98. Mae'r gwelliant, rwy'n ofni, yn cael ei lywio gan gred ideolegol yn hytrach na synnwyr cyffredin. Rydym yn trafod cywiro plentyn mewn modd cymedrol yma. Safbwynt y rhai sy'n cynnig y gwelliant hwn yw dweud bod pob cosb gorfforol yn drais yn erbyn plant a bod pob cosb gorfforol yn annerbyniol o ganlyniad. Rwyf wedi cael llawer o ohebiaeth ar hyn ac, yn wir, mae pob darn o ohebiaeth yr wyf wedi'i gael wedi bod yn ei erbyn. Hoffwn ddarllen rhan o lythyr gan etholwr pryderus, sy'n pwysleisio pam yr wyf yn credu bod y gwelliant hwn yn sylfaenol ddiffygiol. Mae'n dweud hyn:

Pan fyddaf yn clywed gwleidyddion a hoffai wneud rhieni fel fy mam a fy nhad yn euog o dorri'r gyfraith, rwy'n ymwybodol iawn eu bod yn gweld pob mynegiant o ddisgyblu corfforol fel trais. Gallaf weld sut y gallai ymddangos felly pe byddai rhiant yn colli rheolaeth ac yn smacio mewn dicter, ond nid yw hynny'n arfer da ac nid dyna a wnaeth fy rhieni. Byddent yn rhoi digon o rybuddion imi ac, os oeddwn yn eu hanwybyddu, byddent bob amser yn mynd â mi i ystafell wahanol fel nad oedd byth unrhyw deimlad eu bod yn ymateb heb feddwl, mewn dicter. Byddent wedyn yn rhoi slap imi oherwydd eu bod, fel rhieni, yn fy ngharu i, ac oherwydd na allent adael i mi dyfu yn ymddwyn felly. Yna byddai'r slap yn cael ei rhoi, ac ni fyddai fyth yn arwain at unrhyw fath o farc. Wedyn, byddent yn ailadrodd eto nad oeddent ond yn gwneud hynny am eu bod yn fy ngharu ac eisiau i mi dyfu'n oedolyn a oedd yn ymddwyn yn dda. Roeddwn bob amser yn gwybod dau beth am y smaciau hyn. Yn gyntaf, nid oedd fy rhieni yn mwynhau eu rhoi. Yn ail, nid oeddent ond yn gwneud hynny oherwydd eu bod yn fy ngharu i. Rwy'n ddiolchgar i fy rhieni am roi'r ddisgyblaeth hon i mi. Mae y tu hwnt i grediniaeth mai'r peth gorau y gall y Cynulliad ei wneud i rieni gwych fel fy rhai i oedd yn fy ngharu'n ddigon i'm disgyblu yw eu condemnio nhw a'u hystyried yn euog o dorri'r gyfraith.

Now, Deputy Presiding Officer, while I do not read this out because I am about to propose that the Assembly goes out of its way to encourage smacking, I do read it out to underline a very important point: many parents who smack their children are actually the kind of parents who take their parenting responsibility very, very seriously. We often discuss the implications for society of parents who cannot be bothered rather than those who can be bothered and express their concern with the administration of discipline that, among other things, includes smacking. Even if smacking is not something that Assembly Members would do, do you really want to condemn people like the parents of my constituent—parents who work as hard as they can to try to ensure that their children grow up well—to being guilty of breaking the law? So, in my opinion, far from condemning such well-meaning, hard-working parents who can be bothered by making them guilty of an offence, we should be doing everything we can to encourage and support them. May I say that, as a former police officer, an investigating officer, I have encountered many criminal acts against children in my time, and the sick individuals who committed these assaults, and, indeed, murder and child neglect, could not be more different from the parents of whom I have spoken. If the National Assembly really wants to undermine, offend and alienate parents, the best thing you could do would be to make both the child beaters and the parents to whom I have just referred guilty of breaking the law. There is sufficient scope within the criminal law system to tackle adults who abuse their position as parents, guardians or citizens and beat children. So, I say that we should focus on social services having the power and confidence to notice, report and take action where necessary.

Nawr, Ddirprwy Lywydd, nid wyf yn darllen hwn oherwydd fy mod ar fin cynnig bod y Cynulliad yn mynd allan o'i ffordd i annog smacio; rwy'n ei ddarllen i danlinellu pwynt pwysig iawn: mae llawer o rieni sy'n smacio eu plant mewn gwirionedd y math o rieni sy'n cymryd eu cyfrifoldeb rhianta yn ddifrifol iawn, iawn. Rydym yn aml yn trafod y goblygiadau i gymdeithas o gael rhieni nad oes ots ganddynt yn hytrach na rhai y mae ots ganddynt, ac sy'n mynegi eu pryder ynglŷn â dulliau disgyblu sydd, ymysg pethau eraill, yn cynnwys smacio. Hyd yn oed os nad yw smacio yn rhywbeth y byddai Aelodau'r Cynulliad yn ei wneud, a ydych chi wir eisiau condemnio pobl fel rhieni fy etholwr—rhieni sy'n gweithio mor galed ag y gallant i geisio sicrhau bod eu plant yn tyfu'n oedolion da—i fod yn euog o dorri'r gyfraith? Felly, yn fy marn i, yn hytrach na chondemnio rhieni sydd â bwriadau da, sy'n gweithio'n galed ac y mae ots ganddynt, gan eu gwneud yn euog o drosedd, dylem fod yn gwneud popeth o fewn ein gallu i'w hannog a'u cefnogi. A gaf i ddweud, fel cyn swyddog yr heddlu, swyddog ymchwilio, rwyf wedi dod ar draws llawer o weithredoedd troseddol yn erbyn plant yn fy nydd, ac ni allai'r unigolion gwrthun a gyflawnodd yr ymosodiadau hyn, a llofruddiaeth ac esgeulustod plant, yn wir, fod yn fwy gwahanol i'r rhieni yr wyf wedi siarad amdanynt. Os yw'r Cynulliad Cenedlaethol yn wirioneddol awyddus i danseilio, digio a dieithrio rhieni, y peth gorau y gallech ei wneud fyddai gwneud y curwyr plant a'r rhieni yr wyf newydd gyfeirio atynt yn euog o dorri'r gyfraith. Mae digon o le o fewn y system gyfraith droseddol i fynd i'r afael ag oedolion sy'n camddefnyddio eu sefyllfa fel rhieni, gwarcheidwaid neu ddinasyddion ac yn curo plant. Felly, rwy'n dweud y dylem ganolbwyntio ar sicrhau bod gan y gwasanaethau cymdeithasol y pŵer a'r hyder i sylwi, hysbysu a chymryd camau lle bo angen.

Deputy Presiding Officer, we must not support these blanket bans formed in the ideology of the state's intervention rather than the common sense and experience of good parenting. This amendment represents a backward step and a real disaster for Wales and I very much hope that we will reject this ill-conceived proposal today.

Ddirprwy Lywydd, rhaid inni beidio â chefnogi'r gwaharddiadau llwyr hyn a ffurfiwyd ar sail ideoleg ymyrraeth y wladwriaeth yn hytrach na synnwyr cyffredin a phrofiad rhianta da. Mae'r gwelliant hwn yn gam yn ôl ac yn drychineb go iawn i Gymru ac rwy'n gobeithio'n fawr y byddwn heddiw yn gwrthod y cynnig hwn sydd wedi'i gynllunio'n wael.

Finally, I say to the mover of this amendment, if you really believe that the individuals that I had occasion to take before the courts in a previous life would have acted any differently if such a law against smacking existed, then you really are very naive, I have to say, and very mistaken.

Yn olaf, rwy'n dweud wrth gynigydd y gwelliant hwn, os ydych wir yn credu y byddai'r unigolion y bu raid imi fynd â nhw gerbron y llysoedd mewn bywyd blaenorol wedi gweithredu'n wahanol o gwbl pe byddai cyfraith o'r fath yn erbyn smacio yn bodoli, yna rydych wir yn naïf iawn, rhaid i mi ddweud, ac yn camgymryd yn fawr.

17:20

## Simon Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I was hit as a child and it did me a great deal of harm. That was not so much at home; it was in school, because it was still legal then to hit children in school. That is something that we see now as completely anachronistic and much more about the failure to control a class than the failure to deal appropriately with that young person. It is humiliating and it reduces a child to a position in which you take away their rights, their standing and their self-esteem. I simply do not think that we should tolerate it in a modern Wales.

Cefais fy nharo pan oeddwn yn blentyn a gwnaeth lawer iawn o niwed i mi. Nid yn gymaint yn y cartref; digwyddodd yn yr ysgol, oherwydd ei fod yn dal yn gyfreithlon bryd hynny i daro plant yn yr ysgol. Mae hynny'n rhywbeth a ystyriwn yn awr yn gwbl anacronistig ac yn arwydd llawer mwy o'r methiant i reoli dosbarth na'r methiant i ymdrin yn briodol â'r person ifanc hwnnw. Mae'n bychanu ac mae'n gostwng plentyn i sefyllfa lle y byddwch yn cymryd eu hawliau, eu statws a'u hunan-barch oddi arnynt. Nid wyf yn credu y dylem oddef hynny mewn Cymru fodern.

Do I think that there are some parents who use smacking and who are loving, caring parents? Of course I do. That happens all over the place—of course it does. They are not there to hurt their children; they are there to be supportive and they want the very best for their children, but they have a culture that not only allows for smacking to take place, but a culture that legally says, 'You can do it'. That is what we are trying to address here today.

A ydw i'n meddwl bod rhieni i'w cael sy'n smacio ac sy'n rhieni cariadus, gofalgar? Wrth gwrs fy mod i. Mae hynny'n digwydd ym mhobman—wrth gwrs ei fod. Nid ydynt yno i frifo eu plant; maent yno i fod yn gefnogol ac maent am gael y gorau ar gyfer eu plant, ond mae ganddynt ddiwylliant sydd nid yn unig yn caniatáu i smacio ddigwydd, ond diwylliant sy'n dweud yn ôl y gyfraith, 'Gallwch wneud hynny'. Dyna'r hyn yr ydym yn ceisio mynd i'r afael ag ef yma heddiw.

This is not a new thing. This is an amendment to an Act that I tried to amend when I was in Parliament 10 years ago, and Julie Morgan was there trying to amend it with me at that stage. Even 10 years ago, we were trying to ensure that there was equal protection for children and adults. This is not about a ban. It is about removing an exemption that is a hangover from Victorian values and a different way of approaching child relationships and how you bring up your child. We now talk much more about 'respecting' children. We talk much more about bringing them up as full human individuals. We do not talk about them 'in their place'. We do not think of them as animals that have to be trained—although I did hear an echo of that in Darren Millar's remarks, I must say.

Nid yw hyn yn beth newydd. Mae hwn yn welliant i Ddeddf y ceisiais ei gyflwyno pan oeddwn yn y Senedd 10 mlynedd yn ôl, ac roedd Julie Morgan yno'n ceisio'i gwella gyda mi bryd hynny. Hyd yn oed 10 mlynedd yn ôl, roeddem yn ceisio sicrhau amddiffyniad cyfartal i blant ac i oedolion. Nid yw hwn yn ymwneud â gwaharddiad. Mae'n ymwneud â dileu eithriad sy'n dal i fodoli oherwydd gwerthoedd Fictoraidd a ffordd wahanol o ymdrin â pherthynas â phlant a sut yr ydych yn magu eich plentyn. Rydym bellach yn siarad llawer mwy am 'barchu' plant. Rydym yn siarad llawer mwy am eu magu fel unigolion dynol llawn. Nid ydym yn siarad amdanynt 'yn eu lle'. Nid ydym yn meddwl amdanynt fel anifeiliaid y mae'n rhaid eu hyfforddi—er fy mod wedi clywed adlais o hynny yn sylwadau Darren Millar, mae'n rhaid i mi ddweud.

We hear about needing to bring children with us as part of society. If we want to break down anti-social behaviour and if we do not want our young people to become NEET, or to be disaffected, not to vote or be part of society, then we need to treat them as we treat other adults. We come here and we discuss. We come here to talk and to debate. I do not come here to attack Kirsty physically; I do not even attack the good Lord behind me physically. [Laughter.] When I disagree with him, I want to have an argument with him. These are the ways that human beings do it. This is the way that we do it as adults. Why do we say that there should be an exemption in law that, when you lose your rag with a child, you can hit them? Why do we say that? I have never chosen to hit my own children. However, I have been nasty to them, I have shouted at them and I have not been very nice to them. As Kirsty said, that is down to me; I am the adult and they are the child. If I lost it, that is my fault. If I knew 20 years ago what I know now, I would be a much better parent. One of the cruel facts of life is that we—all of us who are parents—have to go through it and learn it all anew. Our parents might tell us, but we ignore that, because it is our parents telling us. We have to learn it through experience.

Rydym yn clywed am yr angen i ddod â phlant gyda ni fel rhan o gymdeithas. Os ydym am leihau ymddygiad gwrth-gymdeithasol, ac os nad ydym am i'n pobl ifanc ddod yn NEET, neu fod yn anfodlon, peidio â phleidleisio neu fod yn rhan o gymdeithas, yna mae angen inni eu trin fel yr ydym yn trin oedolion eraill. Rydym yn dod yma ac yn trafod. Rydym yn dod yma i siarad ac i ddadlau. Nid wyf yn dod yma i ymosod yn gorfforol ar Kirsty; nid wyf yn hyd yn oed yn ymosod ar yr Arglwydd y tu ôl i mi yn gorfforol. [Chwerthin.] Pan fyddaf yn anghytuno ag ef, rwyf am gael dadl gydag ef. Dyma'r ffordd y mae bodau dynol yn gwneud pethau. Dyma sut yr ydym yn ymddwyn fel oedolion. Pam yr ydym yn dweud y dylai fod eithriad yn y gyfraith y cewch daro plentyn pan fyddwch yn colli eich tymer ag ef neu hi? Pam rydym ni'n dweud hynny? Nid wyf erioed wedi dewis taro fy mhlant fy hun. Fodd bynnag, rwyf wedi bod yn gas gyda nhw, wedi gweiddi arnynt ac nid wyf wedi bod yn garedig iawn gyda nhw. Fel y dywedodd Kirsty, fy nghyfrifoldeb i yw hynny, rwyf i'n oedolyn a phlant ydyn nhw. Os oeddwn i'n colli fy nhymer, fy mai i yw hynny. Pe byddwn yn gwybod 20 mlynedd yn ôl yr hyn yr wyf yn ei wybod yn awr, byddwn yn rhiant llawer gwell. Un o ffeithiau creulon bywyd yw bod yn rhaid i ni—bob un ohonom sy'n rhieni— fynd drwyddo a dysgu popeth o'r newydd. Gallai ein rhieni ddweud wrthym, ond rydym yn anwybyddu hynny, gan mai ein rhieni sy'n dweud wrthym. Mae'n rhaid i ni ddysgu drwy brofiad.

I want that experience to be engendered in our culture, so that parents are at least supported in alternative ways of dealing with disciplinary problems at home and do not think that smacking is not just legal, but encouraged in our culture. That is why I think that removing the exemption—not a ban—is so important.

Rwyf am i'r profiad hwnnw gael ei ymwreiddio yn ein diwylliant, fel bod rhieni o leiaf yn cael eu cefnogi mewn ffyrdd eraill o ddelio â phroblemau disgyblaeth yn y cartref ac nad ydynt yn meddwl bod smacio, yn ogystal â bod yn gyfreithlon, hefyd yn cael ei annog yn ein diwylliant. Dyna pam yr wyf yn credu ei bod mor bwysig dileu'r eithriad—nid gwaharddiad.

The second issue that I wanted to address is the idea that, somehow, this will lead to some massive criminalisation of parents. It is not going to happen like that. We have this for adults and it has not resulted in a massive criminalisation of adults. If two props in a rugby game give each other little head-butts, they are sent off with a red card. That is not a legal case; it is not a criminal case. It is all about context. If Mike Phillips loses his rag and is sent off, it is about context. That does not lead automatically to a criminal case.

Yr ail fater yr oeddwn am roi sylw iddo yw'r syniad, rhywsut, y bydd hyn yn arwain at wneud llu o rieni yn droseddwyr. Nid yw'n mynd i ddigwydd felly. Mae hwn ar waith ar gyfer oedolion ac nid yw wedi arwain at wneud llu o oedolion yn droseddwyr. Os yw dau brop mewn gêm rygbi yn rhoi ergyd fach â'r pen i'r naill i'r llall, maent yn cael eu hanfon i ffwrdd gyda cherdyn coch. Nid yw hwnnw'n achos cyfreithiol; nid yw'n achos troseddol. Mae'n fater o gyd-destun. Os yw Mike Phillips yn colli ei dymer ac yn cael ei anfon oddi ar y cae, mae'n ymwneud â chyd-destun. Nid yw hynny'n arwain yn awtomatig at achos troseddol.

In this context, if a child happens to be smacked and that becomes known to the authorities, you would expect the authorities to give words of advice and to say, 'You know, that is not legal anymore'. You would expect authorities to help the family, perhaps, to understand alternative ways. You would not expect prosecution. You only expect prosecution in the sort of examples that Byron Davies gave. This sends out a clear signal of where the demarcation line is and where children are treated as part of society—fully paid-up members of society—not some kind of sub-group of people who do not become worthy of defending until they are 16 or 18 years old, whatever it may be, but completely formed individuals who need respect.

Yn y cyd-destun hwn, os yw plentyn yn digwydd cael ei smacio a bod hynny'n dod yn hysbys i'r awdurdodau, byddech yn disgwyl i'r awdurdodau roi gair o gyngor a dweud, 'Gwrandewch, nid yw hynny'n gyfreithlon bellach'. Byddech yn disgwyl i awdurdodau helpu'r teulu, efallai, i ddeall ffyrdd eraill. Ni fyddech yn disgwyl erlyniad. Nid ydych ond yn disgwyl erlyniad yn y math o enghreifftiau a roddodd Byron Davies. Mae hyn yn anfon neges glir ynglŷn â ble mae'r llinell derfyn a lle mae plant yn cael eu trin fel rhan o gymdeithas—aelodau llawn o gymdeithas—nid rhyw fath o is-grŵp o bobl nad ydynt yn dod yn deilwng o gael eu hamddiffyn nes eu bod yn 16 neu 18 mlwydd oed, beth bynnag y bo, ond yn unigolion cyflawn sydd ag angen parch.

Now, they can be little terrors. Yes, they need boundaries and discipline and there need to be alternative ways of dealing with that, but what they do not need is to be hit, because to be hit is to be demeaned and told that you are not as important as the person hitting you. That is, ultimately, something that runs as a fracture and a fissure that undermines the whole of our society. Therefore, I very much urge Members to take this opportunity today to vote for this. We have been debating this for 10 years. I understand what some Labour Members have said about the Government saying that this is not the right vehicle, but what is the right vehicle? If you put it off until another piece of legislation, another consultation and another go around the rounds, we will be here at the end of this Assembly and we still will not have addressed what the majority of Assembly Members have clearly said is their wish for what should happen in Wales. We want this exemption removed and we want to tell children that we treat them with respect, we support them, we want them to be fully fledged members of society and we say to them, 'Come and join us in forging the sort of Wales that you'd like to see, a Wales where violence between individuals is not only not tolerated, but not allowed in law.'

Yn awr, gallant fod yn gythreuliaid bach. Oes, mae angen ffiniau a disgyblaeth, ac mae angen dod o hyd i ffyrdd eraill o ddelio â hynny, ond yr hyn nad oes ei angen arnynt yw cael eu taro, oherwydd bod cael eu taro yn eu diraddio ac yn dweud nad ydych mor bwysig â'r sawl sy'n eich taro chi. Mae hynny, yn y pen draw, yn rhywbeth sy'n doriad ac yn hollt sy'n tanseilio ein cymdeithas gyfan. Felly, rwy'n annog yr Aelodau'n gryf iawn i gymryd y cyfle hwn heddiw i bleidleisio o blaid hwn. Rydym wedi bod yn trafod hyn ers 10 mlynedd. Rwy'n deall yr hyn y mae rhai Aelodau Llafur wedi'i ddweud ynglŷn â'r ffaith bod y Llywodraeth yn dweud nad dyma'r cyfrwng iawn, ond beth yw'r cyfrwng iawn? Os ydych yn ei ohirio ar gyfer darn arall o ddeddfwriaeth, ymgynghoriad arall a rownd arall o drafod, byddwn yma ar ddiwedd y Cynulliad hwn a byddwn yn dal heb fynd i'r afael â'r hyn y mae'r rhan fwyaf o Aelodau'r Cynulliad wedi dweud yn glir yw eu dymuniad am yr hyn a ddylai ddigwydd yng Nghymru. Rydym eisiau dileu'r eithriad hwn ac rydym yn awyddus i ddweud wrth blant ein bod yn eu trin â pharch, ein bod yn eu cefnogi, ein bod am iddynt fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas ac rydym yn dweud wrthynt, 'Dewch i ymuno â ni i greu'r math o Gymru y byddech yn hoffi ei gweld, Cymru lle nad yw trais rhwng unigolion yn cael ei oddef, a lle nad yw'n cael ei ganiatáu o dan y gyfraith.'

17:26

## Antoinette Sandbach [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I think that in the debate today there has been a degree of misunderstanding about what the current law actually says. The Children Act 2004 removes the defence of reasonable chastisement in any case where a child has suffered punishment that causes injury. It lists those injuries, such as bruising, swelling, cuts, grazes or scratches. It is already illegal to punish a child in that way. Also battery is this: touching somebody without their consent.

Rwy'n credu y bu rhywfaint o gamddealltwriaeth yn y ddadl heddiw ynghylch yr hyn y mae'r gyfraith ar hyn o bryd yn ei ddweud mewn gwirionedd. Mae Deddf Plant 2004 yn dileu'r amddiffyniad o gosbedigaeth resymol mewn unrhyw achos lle mae plentyn wedi dioddef cosb sy'n achosi anaf. Mae'n rhestru'r anafiadau hynny, megis cleisio, chwyddo, toriadau, sgriffiadau neu grafiadau. Mae eisoes yn anghyfreithlon i gosbi plentyn yn y modd hwnnw. Hefyd dyma yw curo: cyffwrdd â rhywun heb eu caniatâd.

I do think, Simon Thomas, that children are in a special category. Under the age of 10, for example, in law, they are treated as not being capable of forming criminal intent. We make decisions about children up to the age of 13, as to whether or not they can consent to sexual intercourse. We also make those decisions about children up to the age of 16. There are differences in the way that children are—

Rwyf yn meddwl, Simon Thomas, bod plant mewn categori arbennig. O dan 10 oed, er enghraifft, yn y gyfraith, maent yn cael eu trin fel pe na baent yn gallu ffurfio bwriad troseddol. Rydym yn gwneud penderfyniadau ynglŷn â phlant hyd nes y byddant yn 13 oed, ynghylch a allant neu gydsynio i gyfathrach rywiol neu beidio. Rydym hefyd yn gwneud y penderfyniadau hynny ynglŷn â phlant hyd nes y byddant yn 16 oed. Mae gwahaniaethau yn y ffordd y mae plant yn—

17:27

## Simon Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am grateful to the Member. Would she, nevertheless, recognise that the current law as regards physical chastisement makes no age differentiation whatsoever?

Rwy'n ddiolchgar i'r Aelod. A fyddai hi, serch hynny, yn cydnabod nad yw'r gyfraith bresennol o ran cosb gorfforol yn gwahaniaethu o ran oedran o gwbl?

17:27

## Antoinette Sandbach Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

It makes no age differentiation, but I am certain that there are many parents who have a 15-year-old and if they tried to chastise them, they would find themselves on the receiving end of a chastisement back—[Interruption.] I also want to make the point that I smacked my daughter when she tried to put my keys in an electricity socket at home. I pulled her away and smacked her, to effectively reinforce the message that if she stuck the keys into the socket, she was likely to be electrocuted. Which was going to cause the greater harm?

Nid yw'n gwahaniaethu o gwbl o ran oedran, ond rwy'n sicr bod yna lawer o rieni â phlentyn 15 mlwydd oed a fyddai'n derbyn cosbedigaeth eu hunain pe byddent yn ceisio cosbi eu plentyn—[Torri ar draws.] Rwyf hefyd eisiau gwneud y pwynt fy mod wedi rhoi slap i fy merch pan geisiodd roi fy allweddi mewn soced trydan yn y cartref. Tynnais hi yn ôl a rhoi slap iddi hi, i atgyfnerthu'r neges yn effeithiol y byddai'n debygol o gael sioc drydanol pe byddai'n rhoi'r allweddi yn y soced. Beth oedd yn mynd i achosi'r niwed mwyaf?

17:28

## Christine Chapman Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will you give way?

A wnewch chi ildio?

17:28

## Antoinette Sandbach Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

No, I will not, I am sorry. I allowed you to speak, and I would like to make my points.

Na wnaf, mae'n ddrwg gennyf. Fe wnes i ganiatáu i chi siarad, a hoffwn i wneud fy mhwyntiau.

I think that what you are not considering are the consequences of this ban. What will happen is that social services departments will be required to commit resources to deal with people who will be deemed to have been criminalised by this amendment. I hear what Simon Thomas says about what he would hope would happen with social services, but I have to say that, in my 12 years' experience in the courts, I have not always seen that common sense coming through. There definitely have been cases that should never have been brought, for example, on incidents in the playgrounds at school. It causes problems. I do think that we should trust parents to do the right thing.

Rwy'n credu mai'r hyn nad ydych yn ei ystyried yw canlyniadau'r gwaharddiad hwn. Yr hyn a fydd yn digwydd yw y bydd gofyn i adrannau gwasanaethau cymdeithasol ymrwymo adnoddau i ymdrin â phobl yr ystyrir eu bod yn droseddwyr o ganlyniad i'r gwelliant hwn. Rwy'n clywed yr hyn y mae Simon Thomas yn ei ddweud y mae'n gobeithio a fyddai'n digwydd gyda gwasanaethau cymdeithasol, ond rhaid imi ddweud nad wyf bob amser wedi gweld y synnwyr cyffredin hwnnw'n dod drwodd, yn fy 12 mlynedd o brofiad yn y llysoedd. Bu achosion yn bendant na ddylent fyth fod wedi dod gerbron, er enghraifft, ynglŷn â digwyddiadau ar yr iard chwarae yn yr ysgol. Mae'n achosi problemau. Rwy'n credu y dylem ymddiried mewn rhieni i wneud y peth iawn.

The point that I would make to those of you who are arguing for a ban is that the way that the law is drafted is very flexible, because it effectively allows 12 good men and true, or 12 good women and true—a mixed representation of people on a jury—to decide potentially whether or not the actions were reasonable. That means that there is always the reflection of what is currently appropriate, and the current thinking present in a courtroom. That is a hugely important and valuable safeguard. I do accept that the line has moved. I know, Lindsay Whittle, that you have spoken very powerfully in the past about the impact that quite serious actual bodily harm on you has had. However, in today's society, I simply do not think that that would be acceptable. A smack that leaves a red mark and nothing more technically is battery.

Y pwynt yr hoffwn ei wneud i'r rhai ohonoch sy'n dadlau o blaid gwaharddiad yw bod y ffordd y mae'r gyfraith wedi cael ei drafftio yn hyblyg iawn, gan ei bod i bob pwrpas yn caniatáu i 12 o ddynion da a chywir, neu 12 o fenywod da a chywir—cynrychiolaeth gymysg o bobl ar reithgor—benderfynu a oedd y camau a gymerwyd yn rhesymol. Mae hynny'n golygu bod yr hyn sy'n briodol ar y pryd, a'r meddylfryd ar y pryd, bob amser yn cael ei adlewyrchu mewn llys. Mae hwnnw'n gam diogelu hynod bwysig a gwerthfawr. Rwy'n derbyn bod y llinell wedi symud. Rwy'n gwybod, Lindsay Whittle, eich bod wedi siarad yn rymus iawn yn y gorffennol am yr effaith y mae niwed corfforol gwirioneddol eithaf difrifol arnoch chi wedi'i chael. Fodd bynnag, nid wyf yn credu y byddai hynny'n dderbyniol yng nghymdeithas heddiw. Mae smac sy'n gadael marc coch a dim byd mwy, yn dechnegol, yn gurfa.

17:30 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Antoinette, there has been some evidence on this issue about leaving a mark on someone's skin as being the determination of whether something has gone too far or not. Would you accept the evidence that, for children who are from an ethnic minority, leaving a mark on that skin is different from children who are white-skinned? There are issues here about providing equal protection for all of our children regardless of race and background.

Antoinette, bu rhywfaint o dystiolaeth ynglŷn â'r mater hwn o adael marc ar groen rhywun fel dull o benderfynu a yw rhywbeth wedi mynd yn rhy bell neu beidio. A fyddech yn derbyn y dystiolaeth bod gadael marc ar y croen yn wahanol, yn achos plant o leiafrif ethnig, i blant sy'n wyn eu croen? Ceir materion yma sy'n ymwneud â darparu amddiffyniad cyfartal i bob un o'n plant waeth beth yw eu hil a'u cefndir.

17:31 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I do accept that there may be difficulties, but if it goes beyond that boundary there is likely to be the kind of swelling that is already made illegal. That is already there in the current law. What you will do with this amendment is take resources away from the very cases that need them. It is not often that I agree with the Welsh Government, but I have to say that I do welcome a common-sense approach. A great deal of research has been quoted here today by various contributors, but on the whole, the research shows that people's opinions on smacking may be related to their own experiences as a child. Those very points have been made in this Chamber. I view Kirsty Williams and Christine Chapman as reasonable parents who occasionally may make a mistake, like every parent does, and lose their temper. Would you be willing to stand up in the Chamber and make that admission if you risked having your children taken off you for breaking the law? That is the potential of this amendment. Parents do their best, but they are not perfect. By removing that element of reasonableness, you are taking away the flexibility of the authorities in dealing with cases that are one side or the other of the line.

Rwy'n derbyn y gall fod anawsterau, ond os bydd yn mynd y tu hwnt i'r ffin honno mae'n debygol y ceir y math o chwydd sydd eisoes wedi'i gwneud yn anghyfreithlon. Mae hynny eisoes yno yn y gyfraith bresennol. Yr hyn y byddwch yn ei wneud gyda'r gwelliant hwn yw tynnu adnoddau oddi ar yr union achosion sydd eu hangen. Ni fyddaf yn cytuno â Llywodraeth Cymru yn aml, ond rhaid imi ddweud fy mod yn croesawu ymdriniaeth sy'n dibynnu ar synnwyr cyffredin. Mae llawer iawn o waith ymchwil wedi cael ei ddyfynnu yma heddiw gan wahanol gyfranwyr, ond ar y cyfan, mae'r ymchwil yn dangos y gall barn pobl ar smacio fod yn gysylltiedig â'u profiadau eu hunain fel plant. Mae'r union bwyntiau hynny wedi cael eu gwneud yn y Siambr hon. Rwy'n ystyried Kirsty Williams a Christine Chapman fel rhieni rhesymol sydd weithiau efallai yn gwneud camgymeriad, fel y mae pob rhiant yn ei wneud, ac yn colli eu tymer. A fyddech yn barod i sefyll yn y Siambr a gwneud y cyfaddefiad hwnnw pe byddech yn wynebu'r risg o weld eich plant yn cael eu cymryd oddi arnoch am dorri'r gyfraith? Dyna botensial y gwelliant hwn. Mae rhieni yn gwneud eu gorau, ond nid ydynt yn berffaith. Drwy ddileu'r elfen honno o resymoldeb, rydych yn cymryd yr hyblygrwydd oddi wrth yr awdurdodau wrth ddelio ag achosion sydd ar un ochr neu'r llall i'r llinell.

As I say, we have heard about the research, and there have been views and experiences shared by paediatricians. Regardless of their own experiences with smacking or their willingness to smack their own child, fewer than 6% believed that smacking has a lifelong negative effect on a child. Only 9% considered that a Government ban on smacking would be correct, and 63% believed it to be a parent's right to choose to smack their child. In a survey of teenagers, published in the journal 'Parenting', it was found that the effects of verbal discipline and smacking are offset by the child's feelings of being loved, and it is unlikely to lead to anti-social behaviour provided that the child believes that the punishment is coming from a good place.

Fel y dywedais, rydym wedi clywed am yr ymchwil, ac mae pediatregwyr wedi rhannu eu safbwyntiau a'u profiadau. Waeth beth yw eu profiadau eu hunain o ran smacio neu eu parodrwydd i smacio eu plant eu hunain, mae llai na 6% yn credu bod smacio yn cael effaith negyddol gydol oes ar blentyn. Dim ond 9% sy'n ystyried y byddai gwaharddiad gan y Llywodraeth ar smacio yn gywir, ac mae 63% yn credu bod hawl gan y rhiant i ddewis smacio eu plant. Mewn arolwg o bobl ifanc yn eu harddegau, a gyhoeddwyd yn y cylchgrawn 'Parenting', gwelwyd bod effeithiau disgyblaeth lafar a smacio yn cael eu gwrthbwyso gan deimladau'r plentyn bod ei rieni'n ei garu, ac mae'n annhebygol o arwain at ymddygiad gwrth-gymdeithasol cyn belled a bod y plentyn yn credu bod y gosb yn dod o le da.

I know that Julie Morgan spoke about the experience in Sweden. It was banned in 1979, and the justification for it was to decrease the rates of child abuse. However, evidence in Sweden suggests that the ban has actually failed to achieve those objectives. Since the ban, there has been a sharp increase in child abuse and child-on-child violence.

Gwn fod Julie Morgan wedi siarad am y profiad yn Sweden. Cafodd ei wahardd ym 1979, a'r cyfiawnhad oedd y byddai'n gostwng cyfraddau cam-drin plant. Fodd bynnag, mae tystiolaeth yn Sweden yn awgrymu bod y gwaharddiad mewn gwirionedd wedi methu â chyflawni'r amcanion hynny. Ers y gwaharddiad, bu cynnydd mawr mewn lefelau cam-drin plant ac achosion o blant yn cyflawni trais ar blant eraill.

*Julie Morgan a gododd.*

*Julie Morgan rose.*

17:34

## Antoinette Sandbach Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am sorry. I will just continue. Government opinion polls from 2012 show that there is an obvious difference between discipline and abuse that the majority of parents appreciate. It is more harmful for children to grow up with no control or discipline in their lives, which has led—

Mae'n ddrwg gennyf. Rwy'n mynd i barhau. Mae arolygon barn y Llywodraeth o 2012 yn dangos bod yna wahaniaeth amlwg rhwng disgyblaeth a chamdriniaeth, a bod y rhan fwyaf o rieni yn gwerthfawrogi hynny. Mae'n fwy niweidiol i blant dyfu heb unrhyw reolaeth neu ddisgyblaeth yn eu bywydau, sydd wedi arwain—

17:34

## Christine Chapman Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

17:34

## Antoinette Sandbach Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

On what?

Ar beth?

17:34

## Christine Chapman Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

On that point. [Laughter.]

Ar y pwynt hwnnw. [Chwerthin.]

17:35

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

You have to either take an intervention or not; you cannot quiz the Member. Christine Chapman.

Mae'n rhaid i chi naill ai gymryd ymyriad ai peidio; ni allwch holi'r Aelodau. Christine Chapman.

17:35

## Christine Chapman Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

On the point about discipline, there is nothing in this debate about being soft on discipline—quite the opposite. The Welsh Government has done a lot of work over the last few years about positive parenting. This is certainly not about being soft on discipline—quite the opposite.

O ran y pwynt am ddisgyblaeth, nid oes dim yn y ddadl hon ynglŷn â disgyblaeth wan—i'r gwrthwyneb yn hollol. Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud llawer o waith dros y blynyddoedd diwethaf ym maes rhianta cadarnhaol. Yn sicr nid yw'n ymwneud â disgyblaeth wan—i'r gwrthwyneb yn hollol.

17:35 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

It does not allow for me to deal with the situation that I did with my daughter, and I think that was an appropriate way to behave. That was about dealing with an imminent danger, and to make that illegal, I think, would be wrong.

Nid yw'n caniatáu i mi i ddelio â'r sefyllfa a gododd gyda fy merch, a chredaf fod honno'n ffordd briodol o ymddwyn. Roedd yn ymwneud â delio â pherygl a oedd ar fin digwydd, a byddai gwneud hynny'n anghyfreithlon, rwy'n meddwl, yn anghywir.

Simon Thomas spoke about whether or not it is natural to do this. I appreciate that, as human beings, we are different from the vast majority of the mammal kingdom, but nevertheless, we are still mammals, and in the animal kingdom, it does happen. Creatures smack. There are studies to show that behaviour—

Siaradodd Simon Thomas ynghylch p'un a yw'n naturiol i wneud hyn. Rwy'n sylweddoli ein bod, fel bodau dynol, yn wahanol i'r rhan fwyaf o'r deyrnas y mamaliaid, ond serch hynny, mamaliaid ydym o hyd, ac mae'n digwydd ymhlith anifeiliaid. Mae creaduriaid yn smacio. Mae astudiaethau'n dangos bod ymddygiad—

17:36 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

On this intriguing point of natural history, I would ask you to bring your remarks to a conclusion, please.

Ar y pwynt diddorol hwn o astudiaethau natur, byddwn yn gofyn i chi ddod â'ch sylwadau i ben, os gwelwch yn dda.

17:36 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Effectively, when it comes to discipline, what we are talking about is reasonable discipline. Anything that is unreasonable is already illegal, and is reflected in our law. I would urge Members not to vote for the amendment.

I bob pwrpas, pan ddaw'n fater o ddisgyblaeth, yr hyn yr ydym yn sôn amdano yw disgyblaeth resymol. Mae unrhyw beth sy'n afresymol eisoes yn anghyfreithlon, ac yn cael ei adlewyrchu yn ein cyfraith. Byddwn yn annog yr Aelodau i beidio â phleidleisio o blaid y gwelliant.

17:36 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

It had not been my intention to speak in this debate, but I wanted to respond to some of the emotive and passionate arguments that have been put forward today. As a parent, I say that there is not a more difficult job that you could have in your life—and not just as a parent—than providing a loving and appropriate disciplinary framework for your children to grow up in. It calls to mind the fact that the word 'discipline' comes from 'disciple', meaning a follower of someone who leads by example. We wish for our children to have a positive example to follow, and it follows that it is a positive thing in our society that we have moved away from a time when serious physical chastisement was seen as acceptable. We are moving away from that. Parenting today has changed. However, parenting today is very difficult as well. It is something that is evolving, and something that is changing, and it is difficult to respond to society's pressures.

Nid oeddwn wedi bwriadu siarad yn y ddadl hon, ond roeddwn am ymateb i rai o'r dadleuon emosiynol ac angerddol sydd wedi cael eu cyflwyno heddiw. Fel rhiant, rwy'n dweud na allech gyflawni swydd anoddach yn eich bywyd—ac nid dim ond fel rhiant—na darparu fframwaith disgyblu cariadus a phriodol ar gyfer eich plant wrth iddynt dyfu. Mae'n galw i gof y ffaith bod y gair 'disgyblaeth' yn dod o 'disgybl', sy'n golygu un o ddilynwyr rhywun sy'n arwain trwy esiampl. Rydym yn dymuno i'n plant gael esiampl gadarnhaol i'w dilyn, ac mae'n dilyn ei fod yn beth cadarnhaol yn ein cymdeithas ein bod wedi symud i ffwrdd o gyfnod pan oedd cosb gorfforol ddifrifol yn cael ei hystyried yn dderbyniol. Rydym yn symud i ffwrdd o hynny. Mae rhianta heddiw wedi newid. Fodd bynnag, mae magu plant heddiw yn anodd iawn hefyd. Mae'n rhywbeth sy'n esblygu, ac yn rhywbeth sy'n newid, ac mae'n anodd ymateb i bwysau cymdeithas.

Some passionate arguments were made, particularly by Lindsay Whittle, and I give due credit to Kirsty Williams, Christine Chapman and Julie Morgan for all the work they have done behind this campaign. I also have to say that I found Darren Millar's argument today extremely convincing. Darren, I have consistently voted against a ban on smacking, but you have moved me closer to supporting that ban than 140 children's organisations and my own party leader—and believe me, she has ways; she can be persuasive.

Mae rhai dadleuon angerddol wedi cael eu gwneud, yn enwedig gan Lindsay Whittle, ac rwy'n rhoi clod dyledus i Kirsty Williams, Christine Chapman a Julie Morgan am yr holl waith y maent wedi'i wneud yn yr ymgyrch hon. Rhaid imi ddweud hefyd fy mod yn ystyried dadl Darren Millar heddiw yn hynod argyhoeddiadol. Darren, rwyf wedi pleidleisio yn gyson yn erbyn gwaharddiad ar smacio, ond rydych wedi fy symud yn agosach at gefnogi'r gwaharddiad na 140 o sefydliadau plant ac arweinydd fy mhlaid fy hun—a chredwch chi fi, mae ganddi ffyrdd; gall hi fod yn llawn perswâd.

17:38 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Without violence. [Laughter.]

Heb drais. [Chwerthin.]

17:38 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Without any threat of chastisement, I am hoping, now or in the future.

Heb unrhyw fygythiad o gosb, rwy'n gobeithio, yn awr neu yn y dyfodol.

In your introduction, Lindsay, you gave a number of reasons why you felt that people would find it difficult to vote in favour of this amendment today, but I would have been ashamed to think that those were my reasons for voting against it today. I wanted to tell you what those two caveats are, essentially. The first is the mechanism of removing the defence of reasonable punishment. I have concerns over that for a couple of reasons, one of which is that, even today in the Chamber, we have heard some Members say that it is effectively achieving a ban on smacking, and others saying that it is not, and that that is not the objective here. I do not think that we have clarity there. I also do not think that we have really figured through the idea of whether the removal of that defence effectively moves the decision on what is reasonable and what is not away from a jury, and away from that justice system, and puts it instead into the hands of the police and the CPS. That would concern me.

Yn eich cyflwyniad, Lindsay, rhoesoch nifer o resymau pam yr ydych yn teimlo y byddai pobl yn ei chael hi'n anodd pleidleisio o blaid y gwelliant hwn heddiw, ond byddai cywilydd gennyf feddwl mai dyna oedd fy rhesymau dros bleidleisio yn ei erbyn heddiw. Roeddwn i eisiau dweud wrthych beth yw'r ddau gafeat, yn y bôn. Y cyntaf yw mecanwaith cael gwared ar yr amddiffyniad o gosb resymol. Mae gennyf bryderon ynghylch hynny am nifer o resymau, ac un ohonynt yw ein bod, hyd yn oed heddiw yn y Siambr, wedi clywed rhai Aelodau yn dweud ei fod yn cyflawni gwaharddiad ar smacio i bob pwrpas, ac eraill yn dweud nad yw, ac nid dyna yw'r nod yma. Nid wyf yn credu bod hynny'n gwneud y sefyllfa'n eglur. Hefyd, nid wyf yn credu ein bod wir wedi ystyried y syniad p'un a yw cael gwared ar yr amddiffyniad yn symud y penderfyniad ynglŷn â'r hyn sy'n rhesymol neu beidio o ddwylo rheithgor, ac o ddwylo'r system gyfiawnder, ac yn ei roi yn lle hynny yn nwylo'r heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron. Byddai hynny'n peri pryder i mi.

Secondly, this is such a significant change, such an enormous thing to take on, a truly groundbreaking change in the law that we are seeking to introduce, that it requires proper consultation. To add it as an amendment through another vehicle, in this case a Bill on social services reform, I do not believe that gives us the opportunity to consider any unanticipated consequences, to properly think through the reasons why we would or would not wish to follow through this policy agenda, and, if we did so wish, to consider what would be the most appropriate mechanism to do it. I have to say that, today, I am afraid, I will not be supporting your amendment, but I have been very moved by the arguments put forward in terms of their general movement.

Yn ail, mae hwn yn newid mor sylweddol, yn beth mor enfawr i ymgymryd ag o, newid gwirioneddol arloesol yn y gyfraith yr ydym yn ceisio ei gyflwyno, fel bod angen ymgynghori'n briodol. Nid wyf yn credu bod ei ychwanegu fel gwelliant trwy gyfrwng arall, yn yr achos hwn y Bil ar ddiwygio gwasanaethau cymdeithasol, yn rhoi cyfle i ystyried unrhyw ganlyniadau annisgwyl, i feddwl yn briodol drwy'r rhesymau pam y byddem neu na fyddem yn dymuno dilyn yr agenda polisi hwn, ac, os ydym yn dymuno hynny, i ystyried beth fyddai'r dull mwyaf priodol o wneud hynny. Mae'n rhaid imi ddweud, mae arnaf ofn, na fyddaf yn cefnogi eich gwelliant heddiw, ond rwyf wedi fy nghyffwrdd yn fawr gan y dadleuon a gyflwynwyd o ran y syniad yn gyffredinol.

17:40 **Angela Burns** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I am delighted to be able to speak briefly—I hope that it will be brief—in this debate. I am grateful to Eluned for her contribution just now. She finally spoke of the other people, the rest of Wales, the people we should be out there consulting with. You have me; I totally agree with you that it is ludicrous beyond all rationale that we should have a bit of law hanging around that says that it is okay, in whatever terminology you use, to hit a child. I absolutely do think that children are sovereign bodies that have as many rights as you or I or anybody else in our country or throughout the rest of the world.

Rwy'n falch iawn o allu i siarad yn gryno—rwy'n gobeithio y bydd yn gryno—yn y ddadl hon. Rwy'n ddiolchgar i Eluned am ei chyfraniad yn awr. Siaradodd yn olaf am y bobl eraill, gweddill Cymru, y bobl y dylem fod yn ymgynghori â hwy. Dyma i chi fi; cytunaf yn llwyr â chi ei bod yn chwerthinllyd tu hwnt i bob rhesymeg y dylem gael darn o gyfraith yn hongian o gwmpas sy'n dweud ei bod yn iawn taro plentyn, waeth pa derminoleg yr ydych yn ei ddefnyddio. Rwyf yn bendant yn meddwl bod plant yn gyrff sofran sydd â chymaint o hawliau â chi neu fi neu unrhyw un arall yn ein gwlad neu ledled gweddill y byd.

However, I have enormous problems with this incredibly important amendment about a very important and sensitive area being crowbarred into this piece of legislation at this stage. I would like to see a proper consultation take place and I will use as my model the Human Transplantation (Wales) Act 2013. As many of you will know, I had enormous reservations going into that whole process. I did not know how I was going to vote until the very end and I felt so strongly about it that I went to the effort of putting forward a series of amendments myself, because I wanted to make the best law possible for Wales. I would like to see this moved forward in a constructive way where we consult with the people of Wales, adults and children, and understand what we are going to do and how we are going to implement it. For me, the devil is always in the detail.

Fodd bynnag, mae gennyf broblemau enfawr gyda'r syniad o wthio'r gwelliant hynod bwysig hwn am faes pwysig a sensitif iawn i mewn i'r darn hwn o ddeddfwriaeth ar hyn o bryd. Hoffwn i weld ymgynghori priodol yn digwydd a byddaf yn defnyddio Deddf Trawsblannu Dynol (Cymru) 2013 fel fy model. Fel y bydd llawer ohonoch yn gwybod, roedd gennyf amheuon enfawr wrth ddechrau ar y broses honno. Nid oeddwn yn gwybod sut yr oeddwn yn mynd i bleidleisio tan y diwedd un ac roeddwn yn teimlo mor gryf am y peth fel fy mod wedi mynd i'r ymdrech o gyflwyno cyfres o welliannau fy hun, oherwydd fy mod yn awyddus i wneud y gyfraith orau bosibl i Gymru. Hoffwn weld hwn yn symud ymlaen mewn ffordd adeiladol lle'r ydym yn ymgynghori â phobl Cymru, oedolion a phlant, ac yn deall yr hyn yr ydym yn mynd i'w wneud a sut yr ydym yn mynd i'w roi ar waith. I mi, mae'r diawl bob amser yn y manylion.

Strangely enough, while worrying about this, which I have been doing for the last few weeks, I heard a story in my constituency that I verified at the weekend, so I know that it is absolutely true. There was a parent—and I will be very careful here, because I do not want in any way to break a confidence—with a troubled, very young child, about 10 or 11 or 12, who was trying to rescue them from a situation where they were in danger from some large animals. In the process, the parent grabbed the child by the arm and took it out of the situation of danger and asked the child to go back into the house and stay there in their bedroom and they would be called down for tea et cetera. That child went out of the back door to their neighbour and embellished beyond all belief a story about what happened, then the child returned to the house. The parent and the child were in the house and, lo and behold, a social services representative and a policeman turned up on that person's doorstep. As it happened, it has a relatively happy ending, because that child is known to the social services and also told the truth.

Yn rhyfedd iawn, a minnau'n poeni am hyn, fel yr wyf wedi bod yn ei wneud dros yr ychydig wythnosau diwethaf, clywais stori yn fy etholaeth a lwyddais i'w gadarnhau ar y penwythnos, felly rwy'n gwybod ei bod yn hollol wir. Roedd rhiant—a byddaf yn ofalus iawn yma, oherwydd nad wyf mewn unrhyw ffordd am dorri cyfrinach—â phlentyn cythryblus, ifanc iawn, tua 10 neu 11 neu 12, a oedd yn ceisio ei achub rhag sefyllfa lle'r oeddent mewn perygl rhag anifeiliaid mawr. Yn y broses, gafaelodd y rhiant yn y plentyn gerfydd ei fraich ac aeth ag ef allan o'r sefyllfa beryglus a gofyn i'r plentyn fynd yn ôl i mewn i'r tŷ ac aros yno yn ei ystafell wely nes iddo gael ei alw i lawr i gael te ac yn y blaen. Aeth y plentyn hwnnw allan drwy'r drws cefn i dŷ eu cymydog blodeuo'r stori yn anhygoel, yna aeth y plentyn yn ôl i'r tŷ. Roedd y rhiant a'r plentyn yn y tŷ ac wele, cyrhaeddodd cynrychiolydd y gwasanaethau cymdeithasol a heddwas ar garreg drws y person hwnnw. Fel y digwyddodd, mae diwedd cymharol hapus i'r hanes, gan fod y gwasanaethau cymdeithasol yn gyfarwydd â'r plentyn, a hefyd dywedodd y plentyn y gwir.

A lot of the fear that comes from parents is about the fact that the state might be able to jackboot its way into their homes and hearts, to the children that they love, and take control to move in social services to do all sorts of things. Personally, I think that these are things that we need to discuss with the people of Wales to take them with us. I think that we will ban the smacking, or hitting, or battery, or whatever else we choose to call it, of children and that that day is just about here. But, I absolutely do not think that we should do it without the recognition, consultation and buy-in of the people that we are here to represent.

Mae llawer o'r ofn sydd gan rieni yn ymwneud â'r ffaith y gallai'r wladwriaeth fartsio ei ffordd i mewn i'w cartrefi a'u calonnau, at y plant y maent yn eu caru, a chymryd rheolaeth i symud y gwasanaethau cymdeithasol i mewn i wneud pob math o bethau. Yn bersonol, rwy'n credu bod y rhain yn bethau y mae angen i ni eu trafod gyda phobl Cymru i fynd â nhw gyda ni. Rwy'n meddwl y byddwn yn gwahardd smacio, neu daro, neu guro plant, neu beth bynnag arall yr ydym yn dewis ei alw, a bod y diwrnod hwnnw bron yma. Ond, yn bendant nid wyf yn credu y dylem wneud hynny heb gydnabyddiaeth, ymgynghoriad ac ymrwymiad y bobl yr ydym yma i'w cynrychioli.

I do not want to get into a particular argument about mandate versus representation versus delegation, but this is so fundamental. It is a real big ask; it impacts on every person—their family life—and we need to ensure that the mood music around it is completely correct.

Nid wyf eisiau dechrau dadl benodol am fandad o'i gymharu â chynrychiolaeth o'i gymharu â dirprwyo, ond mae hyn mor sylfaenol. Mae'n gofyn llawer iawn; mae'n effeithio ar bawb—eu bywyd teuluol— ac mae angen inni sicrhau bod yr amgylchedd yn gwbl gywir.

The co-ordinator of Children are Unbeatable! gave some evidence to one of our committees. His words were, 'Perpetrators have the right to challenge allegations, and a child may need to give evidence through a video link'.

Rhoddodd cydgysylltydd 'Sdim Curo Plant! rywfaint o dystiolaeth i un o'n pwyllgorau. Ei eiriau oedd, 'Mae gan dramgwyddwr yr hawl i herio honiadau, ac efallai y bydd angen i blentyn roi tystiolaeth drwy gyswllt fideo'.

That word, 'perpetrators', just makes me very nervous that we have not got the mood music right, because we need to win hearts and minds on this. I think that there are lots of unanswered questions that we can find answers to, but we need to, for example, deal with the child who gives evidence who then may be returning to the family home. How does that work? How are we going to ensure that the parent and child are protected? How do we ensure that, if a child, a bystander or an advocate reports an issue, and that child is part of a larger family, those children are not disadvantaged in any way and that that is all handled very sensitively? Christine?

Mae'r gair hwnnw, 'tramgwyddwr', yn fy ngwneud yn nerfus iawn nad ydym wedi cael yr awyrgylch yn gywir, oherwydd bod angen ennill calonnau a meddyliau yn hyn o beth. Rwy'n meddwl bod llawer o gwestiynau heb eu hateb, y gallwn ddod o hyd i atebion iddynt, ond mae angen i ni ymdrin, er enghraifft, â'r plentyn sy'n rhoi tystiolaeth a fydd wedyn efallai yn dychwelyd i gartref y teulu. Sut mae hynny'n gweithio? Sut rydym ni'n mynd i sicrhau bod y rhiant a'r plentyn yn cael eu hamddiffyn? Sut rydym ni'n sicrhau, os bydd plentyn, tyst neu eiriolwr yn hysbysu am broblem, a bod y plentyn yn rhan o deulu mwy, nad yw'r plant hynny o dan anfantais mewn unrhyw ffordd a bod popeth yn cael ei drin yn sensitif iawn? Christine?

17:46

## Christine Chapman Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Angela, for allowing me in. Would you agree that, as in other countries that have successfully brought in this ban, there was a very long lead-in time when all of these issues could be addressed, in terms of public education and capturing hearts and minds? That is the way that it tends to work, but, obviously, we need to start somewhere. So, would you agree that that would be a way forward?

Diolch i chi, Angela, am ganiatáu i mi ddod i mewn. A fyddech yn cytuno y treuliwyd amser hir iawn mewn gwledydd eraill sydd wedi cyflwyno'r gwaharddiad hwn yn llwyddiannus, pryd y rhoddwyd sylw i bob un o'r materion hyn, o ran addysg gyhoeddus ac ennill calonnau a meddyliau? Dyna'r ffordd y mae'n tueddu i weithio, ond, yn amlwg, mae angen i ni ddechrau yn rhywle. Felly, a fyddech yn cytuno y byddai hynny'n ffordd ymlaen?

17:46

## Angela Burns Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I do agree, and I have researched Sweden and New Zealand; that is why I used organ donation as an example of a good way of implementing something that makes a fundamental change to people's world views of themselves and what they have control over. What we did was that we went out for consultation, we then put it together in a Bill, and part of that Bill was very clear about the fact that it would take effect after a significant amount of public education, training and support. These are the things that I would like us to be able to talk about.

Ydw, rwy'n cytuno, ac rwyf wedi ymchwilio i Sweden a Seland Newydd; dyna pam y defnyddiais enghraifft rhoi organau fel ffordd dda o weithredu rhywbeth sy'n gwneud newid sylfaenol i farn gyffredinol pobl amdanynt eu hunain a'r hyn y mae ganddynt reolaeth drosto. Yr hyn a wnaethom oedd ymgynghori, yna rhoi'r cyfan at ei gilydd mewn Bil, ac roedd rhan o'r Bil hwnnw'n nodi'n glir iawn y byddai'n dod i rym ar ôl llawer iawn o addysg gyhoeddus, hyfforddiant a chefnogaeth. Dyma'r pethau y byddwn yn hoffi i ni i fod yn gallu siarad amdanynt.

I would like to be able to talk about how we are going to get our hard-pressed social services to be able to take this on board and manage it. I would like to be able to understand how we are going to be able to ensure that people are comfortable with being an advocate—whether it is the cook in the kitchen who happens to pick up something or the neighbour. I want to be able to make sure that parents do not feel that, once again, they are being told that they are completely useless at the parenting role, and make sure that those who need support get the support, those who need education get the education and that those who harm their children wilfully understand very clearly the route forward.

Hoffwn fod yn gallu siarad am sut yr ydym yn mynd i alluogi ein gwasanaethau cymdeithasol, sydd dan bwysau, i ystyried hyn a'i reoli. Hoffwn fod yn gallu deall sut yr ydym yn mynd i allu sicrhau bod pobl yn gyfforddus gyda bod yn eiriolwr—boed hwnnw'r cogydd yn y gegin sy'n digwydd clywed rhywbeth neu'r cymydog. Rwyf eisiau gallu gwneud yn siŵr nad yw rhieni'n teimlo, unwaith eto, eu bod yn cael gwybod eu bod yn gwbl ddiwerth o ran magu plant, a gwneud yn siŵr bod y rhai sydd angen cymorth yn cael y cymorth, bod y rhai sydd angen addysg yn cael yr addysg a bod y rhai sy'n niweidio eu plant yn fwriadol yn deall yn glir iawn beth fydd yn digwydd.

Again, I have read some of the evidence to other committees—not the Children, Young People and Education Committee; I do not know which one it was that they spoke to, or I was not on it at the time. There was a comment, 'Of course, we would not expect to go forward with trivial cases'. Well, hang on, if we have a law that bans smacking, there is no such thing as 'trivial'.

Unwaith eto, rwyf wedi darllen rhywfaint o'r dystiolaeth i bwyllgorau eraill—nid y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg; nid wyf yn gwybod â pha un yr oeddent yn siarad, neu nid oeddwn arno ar y pryd. Cafwyd sylw, 'Wrth gwrs, ni fyddem yn disgwyl bwrw ymlaen ag achosion dibwys'. Wel, arhoswch funud, os oes gennym gyfraith sy'n gwahardd smacio, nid oes y fath beth â 'dibwys'.

So, Deputy Minister, I will be very interested to hear what you are going to say. I hope that you will take this forward in a way that gives us that opportunity to have a nationwide debate and a proper consultation, to enable parents, children, organisations and social services to have a very clear line of sight as to how, if we are going to take this forward, it will be implemented to the benefit of the children and the overall health of the nation. Thank you.

Felly, Ddirprwy Weinidog, bydd gennyf ddiddordeb mawr mewn clywed yr hyn yr ydych yn mynd i'w ddweud. Rwy'n gobeithio y byddwch yn bwrw ymlaen â hyn mewn ffordd sy'n rhoi'r cyfle hwnnw i gael dadl genedlaethol ac i ymgynghori'n briodol, er mwyn galluogi rhieni, plant, sefydliadau a gwasanaethau cymdeithasol i gael golwg clir iawn o ran sut y rhoddir hyn ar waith, os ydym yn mynd i fwrw ymlaen â hyn, er budd y plant ac iechyd cyffredinol y genedl. Diolch yn fawr.

17:49

## Aled Roberts Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think that we have to ask why we have not had that national conversation to date, because, as Christine Chapman pointed out, there has probably been a will in the Chamber for many years for this type of legislation to be brought forward. Had that legislation been brought forward that conversation would have taken place, and the differences in ideology that I think have been apparent from the debate this afternoon could have been heard and the will exercised here.

Rwy'n meddwl bod yn rhaid i ni ofyn pam nad ydym wedi cael y sgwrs genedlaethol honno hyd yn hyn, oherwydd bod yr ewyllys wedi bod yn y Siambr ers nifer o flynyddoedd, yn ôl pob tebyg, fel y nododd Christine Chapman, i gyflwyno'r math hwn o ddeddfwriaeth. Pe byddai'r ddeddfwriaeth wedi cael ei chyflwyno byddai'r sgwrs wedi digwydd, a gellid bod wedi clywed y gwahaniaethau mewn ideoleg yr wyf yn meddwl sydd wedi dod i'r amlwg yn y ddadl y prynhawn yma, a byddai'r ewyllys wedi cael ei harfer yma.

However, the reality is that, some 12 months after it was accepted that the Chamber had the responsibility and the power to legislate in this area, the expectation was that that legislation would be brought forward. For whatever reason that did not happen; therefore, the only things that could happen, as far those supporters of the ban were concerned was for a backbench Member to bring forward an amendment to this legislation. I accept that it is probably not the best vehicle. It does not allow for that wholesale consultation to take place and for the exact wording and defences to be put forward to be debated before a good law is passed. However, that is where we are at.

Fodd bynnag, y gwir amdani yw, tua 12 mis ar ôl derbyn bod gan y Siambr y cyfrifoldeb a'r grym i ddeddfu yn y maes hwn, mai'r disgwyliad oedd y byddai deddfwriaeth yn cael ei dwyn ymlaen. Am ba bynnag reswm ni wnaeth hynny ddigwydd; felly, yr unig bethau a allai ddigwydd, o safbwynt cefnogwyr y gwaharddiad, oedd i Aelod o'r meinciau cefn gyflwyno gwelliant i'r ddeddfwriaeth hon. Rwy'n derbyn nad dyma'r cyfrwng gorau efallai. Nid yw'n caniatáu ar gyfer cynnal yr ymgynghoriad trylwyr hwnnw nad ar gyfer cyflwyno'r union eiriad a'r amddiffynfeydd er mwyn eu trafod cyn pasio cyfraith dda. Fodd bynnag, dyna ble'r ydym ni.

I have to say that my position in this is not borne out of my experience as a child, unlike some others who have spoken here. I can only remember being hit once by my father; I was never hit by my mother. However, I do remember friends of mine who were subjected to the birch and the belt. At that time in the 1960s, it was considered that that was perfectly okay, in the same way as I could be called to the headmaster's room and be hit with the cane. Society at that stage said that it was all right. Yes, we can say that there was—. There was actually a cop-out as far as the Children Act 2004 was concerned, because the UK legislature was originally going to introduce this legislation, and, because of concerns about the way that people would vote and the effect that this would have on certain politicians, it was decided that it would reintroduce the reasonable chastisement legislation.

Mae'n rhaid imi ddweud nad yw fy safbwynt ar hyn yn deillio o'm profiad fel plentyn, yn wahanol i eraill sydd wedi siarad yma. Ni allaf ond cofio cael fy nharo unwaith gan fy nhad; ni chefais erioed fy nharo gan fy mam. Fodd bynnag, rwy'n cofio ffrindiau i mi a gafodd y wialen fedw a'r gwregys. Ar yr adeg honno yn y 1960au, ystyriwyd bod hynny'n berffaith iawn, yn yr un modd ag y gellid fy ngalw i ystafell y prifathro ac y gellid fy nharo â'r gansen. Roedd cymdeithas yr adeg honno yn dweud ei fod yn iawn. Gallwn, fe allwn ddweud bod—. Roedd torri gair mewn gwirionedd o safbwynt Deddf Plant 2004, gan fod deddfwrfa'r DU yn wreiddiol yn mynd i gyflwyno'r ddeddfwriaeth hon, a phenderfynwyd, oherwydd pryderon am y ffordd y byddai pobl yn pleidleisio a'r effaith y byddai hyn yn ei gael ar rai gwleidyddion, ailgyflwyno'r ddeddfwriaeth cosbedigaeth resymol.

I have to say that what has been made perfectly clear to me here today is that there is very much a difference in ideology between me and certain other people in this Chamber. I am afraid that I do not recognise that parents do their best, and they are not perfect, et cetera. I do not understand that at all. I do not understand that we can have a debate that the overwhelming majority of parents know where to stop, because I can tell you that I can remember the one occasion with my son when I did not know when to stop. It is not black and white. It is not controlling a situation and saying, 'I know that the law says that I can only go thus far.' It does not work like that. You can be the best parent in the world, but you do lose control in certain instances. If you are a parent and you know that you cannot go that much further forward, then that is the clarity that is needed in the legislation.

Mae'n rhaid i mi ddweud mai'r hyn sydd wedi cael ei wneud yn berffaith glir i mi yma heddiw yw bod gwahaniaeth mawr mewn ideoleg rhyngof i a rhai pobl eraill yn y Siambr hon. Mae arnaf ofn nad wyf yn cydnabod bod rhieni'n gwneud eu gorau, ac nad ydynt yn berffaith, ac ati. Nid wyf yn deall hynny o gwbl. Nid wyf yn deall y gallwn gael dadl bod y mwyafrif llethol o rieni yn gwybod ble i roi'r gorau iddi, oherwydd y gallaf ddweud wrthych fy mod yn cofio un achlysur gyda fy mab pan nad oeddwn yn gwybod pryd i roi'r gorau iddi. Nid yw'n ddu a gwyn. Nid yw'n fater o reoli'r sefyllfa a dweud, 'Rwy'n gwybod bod y gyfraith yn dweud na allaf ond mynd mor bell â hyn.' Nid yw'n gweithio fel yna. Gallwch fod y rhiant gorau yn y byd, ond rydych yn colli rheolaeth mewn rhai achosion. Os ydych yn rhiant ac yn gwybod na allwch fynd ymhellach na rhyw bwynt, dyna'r eglurder sydd ei angen yn y ddeddfwriaeth.

The Government has decided that it cannot approach the legislation, and we know full well the way that the vote is likely to go this afternoon. I would, however, plead with the Government. It will probably come at it from the same point of view as the vast majority of us in this Chamber do, and it really does need to take the opportunity within the term of this Assembly to introduce legislation. Are we that much different from the countries that have introduced legislation? I do not think so; I do not want to live in a situation in Wales where we are not considered to be a progressive country. Darren, I have to say that, with regard to the situation that you referred to of people moving across the border from England or wherever not knowing that they are committing an offence, you can apply the same thing to Sweden or Germany. What is different? That is the whole purpose of having a legislative devolution settlement.

Mae'r Llywodraeth wedi penderfynu na all fynd at y ddeddfwriaeth, ac rydym yn gwybod yn iawn sut mae'r bleidlais yn debygol o fynd brynhawn heddiw. Byddwn, fodd bynnag, yn pledio'n gyda'r Llywodraeth. Mae'n debyg y bydd ei safbwynt yr un fath â safbwynt y mwyafrif llethol ohonom yn y Siambr hon, ac mae wir angen iddi gymryd y cyfle o fewn tymor y Cynulliad hwn i gyflwyno deddfwriaeth. A ydym ni mor wahanol i'r gwledydd sydd wedi cyflwyno deddfwriaeth? Nid wyf yn credu hynny, dydw i ddim eisiau byw mewn sefyllfa yng Nghymru lle nad ydym yn cael ein hystyried yn wlad flaengar. Darren, rhaid i mi ddweud, o ran y sefyllfa yr ydych yn cyfeirio ati lle mae pobl yn symud ar draws y ffin o Loegr neu lle bynnag heb wybod eu bod yn cyflawni trosedd, gallwch ddweud yr un peth am Sweden neu'r Almaen. Beth sy'n wahanol? Dyna yw holl bwrpas cael setliad datganoli deddfwriaethol.

I also have to say that the real thing that copped it for me —'cop' is a Wrexham word—[Laughter.] The real thing that clinched it for me was if you think that Wales should have its social sciences dictated by the type of people in the University of Nebraska who would probably think that it was okay to shoot somebody passing by, et cetera—[Laughter.] I will take an intervention.

Mae'n rhaid i mi hefyd ddweud mai'r peth go iawn a'i copiodd i mi—gair Wrecsam yw 'cop' [Chwerthin.] Y peth gwirioneddol a seliodd y ddadl i mi oedd a ydych chi'n meddwl y dylai Cymru gael pennu ei gwyddorau cymdeithasol gan y math o bobl ym Mhrifysgol Nebraska a fyddai fwy na thebyg yn meddwl ei bod yn iawn i saethu rhywun oedd yn pasio heibio, ac ati—Chwerthin. ] Byddaf yn cymryd ymyriad.

17:53

## Darren Millar Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The point that I was making when I referred to the study by that particular university was that there has been evidence that greater harm has been done through the use of other disciplinary tools than smacking. So, the point that I am making, which I do not think that anybody else has referred to or refuted, is that those other forms of punishment for a child—those other forms of discipline—can be equally, if not more, harmful than the occasional smack in order to assert a parent's boundaries on a child.

Y pwynt yr oeddwn yn ei wneud wrth gyfeirio at yr astudiaeth gan y brifysgol arbennig honno oedd y cafwyd tystiolaeth bod mwy o niwed wedi cael ei wneud drwy ddefnyddio dulliau disgyblu heblaw smacio. Felly, y pwynt yr wyf yn ei wneud, ac nid wyf yn credu bod neb arall wedi cyfeirio ato na'i wrthbrofi, yw y gall y mathau eraill hynny o gosb ar gyfer plentyn—y mathau eraill o ddisgyblaeth—fod yr un mor niweidiol, os nad yn fwy felly, na smac o bryd i'w gilydd er mwyn i'r rhiant osod ei ffiniau ar gyfer y plentyn.

17:54

## Aled Roberts Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am sure that academics are very much like lawyers, in that, depending upon who pays them, they will give you whatever evidence you want. [Interruption.] Well, academic studies could probably be bandied back and forth all afternoon.

Rwy'n siŵr bod academyddion yn debyg iawn i gyfreithwyr, yn y ffaith y byddant yn rhoi pa bynnag dystiolaeth y dymunwch i chi, gan ddibynnu ar bwy sy'n eu talu. [Torri ar draws.] Wel, gellid cyfnewid astudiaethau academaidd yn ôl pob tebyg drwy'r prynhawn.

*Antoinette Sandbach a gododd—*

*Antoinette Sandbach rose—*

## Aled Roberts Bywgraffiad Biography

I am not going to take another intervention. I think here that we recognise that this is probably not the best place to do it, but we need some indication from the Government this afternoon that it will bring forward legislation within the term of this Assembly if it honestly believes that some of its backbenchers, who are people of principle and who have campaigned on this issue for many years, are expected to vote in a certain way this afternoon.

Nid wyf yn mynd i gymryd ymyriad arall. Rwy'n meddwl yma ein bod yn cydnabod nad dyma'r lle gorau i ymdrin â hyn yn fwy na thebyg, ond mae angen rhywfaint o arwydd gan y Llywodraeth y prynhawn yma y bydd yn cyflwyno deddfwriaeth yn ystod tymor y Cynulliad hwn os yw'n credu'n onest bod disgwyl i rai o'i meincwyr cefn, sy'n bobl o egwyddor ac sydd wedi ymgyrchu ar y mater hwn ers blynyddoedd lawer, bleidleisio mewn ffordd benodol brynhawn heddiw.

17:55

## Gwenda Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am very aware of the strong feelings that this issue arouses among the Members present here today, stakeholders, and the public. There are, however, a number of reasons why I would urge Members to reject this amendment. First, before the Bill was introduced—we have heard comments on this this afternoon—the Government undertook an extensive and comprehensive consultation on our proposals for social services in Wales. That public consultation did not cover this matter. Furthermore, the Government has not undertaken any consultation with the public on this during the course of this Bill.

Rwy'n ymwybodol iawn o'r teimladau cryf y mae'r mater hwn yn eu hennyn ymhlith yr Aelodau sy'n bresennol yma heddiw, rhanddeiliaid, a'r cyhoedd. Fodd bynnag, ceir nifer o resymau pam y byddwn yn annog yr Aelodau i wrthod y gwelliant hwn. Yn gyntaf, cyn i'r Bil gael ei gyflwyno—rydym wedi clywed sylwadau ar hyn y prynhawn yma—cynhaliodd y Llywodraeth ymgynghoriad helaeth a chynhwysfawr ar ein cynigion ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru. Ni wnaeth yr ymgynghoriad cyhoeddus hwnnw ymdrin â'r mater hwn. Hefyd, nid yw'r Llywodraeth wedi ymgynghori â'r cyhoedd ynglŷn â hyn yn ystod cwrs y Bil hwn.

I am very firmly of the belief that the Social Services and Well-being (Wales) Bill is not the correct Bill for this matter. The Bill is applicable to a specific cohort of people in Wales: those with needs for care and support. It does not apply to the whole population. The removal of the defence of reasonable punishment is a matter of importance to a wider section of the population and is not, and should not be, limited to those with needs for care and support.

Rwy'n gadarn iawn o'r gred nad y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yw'r Bil cywir ar gyfer y mater hwn. Mae'r Bil yn berthnasol i garfan benodol o bobl yng Nghymru: y rhai sydd ag anghenion o ran gofal a chymorth. Nid yw'n berthnasol i'r boblogaeth gyfan. Mae cael gwared ar yr amddiffyniad o gosb resymol yn fater o bwys i adran ehangach o'r boblogaeth ac nid yw, ac ni ddylai fod, yn gyfyngedig i'r rhai sydd ag anghenion o ran gofal a chymorth.

We know that, in the past, the UK Government has expressed the view that legislating to remove the reasonable punishment defence would not be within the legislative competence of the Assembly. The Attorney-General has the power to refer Assembly Bills to the Supreme Court if he considers that they are not within competence, and he has already exercised this power in relation to the Local Government Byelaws (Wales) Act 2012 and the Agricultural Sector (Wales) Bill.

Rydym yn gwybod bod Llywodraeth y DU yn y gorffennol, wedi mynegi'r farn na fyddai o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad i ddeddfu i ddileu'r amddiffyniad o gosb resymol. Mae gan y Twrnai Cyffredinol y pŵer i gyfeirio Biliau'r Cynulliad at y Goruchaf Lys os yw o'r farn nad ydynt o fewn cymhwysedd, ac mae eisoes wedi arfer y pŵer hwn mewn cysylltiad â Deddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012 a'r Bil Sector Amaethyddol (Cymru).

Members will appreciate that this could result in a significant and harmful delay to Royal Assent, and, if so, none of the provisions of this Bill can be brought into force. The consequences of this would be a delay in making the subordinate legislation that underpins the Bill, and, potentially, in other steps, such as the roll-out of a national training programme and other aspects of implementation. The aim of this legislation is to improve the sustainability of social services in Wales. We cannot wait any longer to effect the long overdue and much needed step change to our social services.

Bydd yr Aelodau'n gwerthfawrogi y gallai hyn arwain at oedi sylweddol a niweidiol o ran Cydsyniad Brenhinol, ac, os felly, ni ellir dod ag unrhyw un o ddarpariaethau'r Bil hwn i rym. Canlyniadau hyn fyddai oedi cyn gwneud yr is-ddeddfwriaeth sy'n sail i'r Bil, ac, o bosibl, oedi mewn camau eraill, megis y broses o gyflwyno'r rhaglen hyfforddi genedlaethol ac agweddau eraill ar weithredu. Nod y ddeddfwriaeth hon yw gwneud gwasanaethau cymdeithasol yn fwy cynaliadwy yng Nghymru. Ni allwn aros yn hwy i gyflwyno'r newid sylweddol hir-ddisgwyliedig a mawr ei angen i'n gwasanaethau cymdeithasol.

While there will be other legislative opportunities in the future that will be more appropriate for effecting a ban on the physical punishment of children, the Government is clear that it could not support any amendment to the Social Services and Well-being (Wales) Bill to achieve this aim. A change of this nature, without appropriate public consultation, would not be the right thing to do. Whether, and when, a suitable legislative opportunity does arise will depend to a degree on the outcome of the current Welsh Labour consultation exercise on this issue, and indications of support for such a change in the law.

Er y bydd cyfleoedd deddfwriaethol eraill yn y dyfodol a fydd yn fwy priodol i weithredu gwaharddiad ar gosbi plant yn gorfforol, mae'r Llywodraeth yn glir na allai gefnogi unrhyw welliant i'r Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) i gyflawni'r nod hwn. Ni fyddai newid o'r math hwn, heb ymgynghori priodol â'r cyhoedd, y peth iawn i'w wneud. Mae p'un a fydd cyfle deddfwriaethol addas yn codi, a phryd, yn dibynnu i raddau ar ganlyniad ymarfer ymgynghori presennol Llafur Cymru ar y mater hwn, ac arwyddion o gefnogaeth i newid o'r fath yn y gyfraith.

Finally, there will be opportunities to examine this issue in forthcoming legislation in this Assembly. It would be good, I believe, to work on this on a cross-party basis in the future. For these reasons, I urge Members not to agree to this amendment.

Yn olaf, bydd cyfleoedd i archwilio'r mater hwn mewn deddfwriaeth arfaethedig yn y Cynulliad hwn. Byddai'n beth da, rwy'n credu, i weithio ar hyn ar sail draws-bleidiol yn y dyfodol. Am y rhesymau hyn, yr wyf yn annog yr Aelodau i beidio â derbyn y gwelliant hwn.

17:59

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on Lindsay Whittle to reply.

Galwaf ar Lindsay Whittle i ymateb.

17:59

## Lindsay Whittle Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First, I thank everyone who has contributed to this debate for their honesty. We have heard some pretty powerful contributions here today, both for and against, and I understand that, as I said earlier. I think that the honesty that we heard is excellent for debate itself in Wales. Let us be honest: how many people would be talking in the pubs, clubs, bingo halls and bus queues about the Social Services and Well-being (Wales) Bill if we had not discussed the issue that we have discussed today? With the greatest respect, I do not think that anyone would have talked about the Social Services and Well-being (Wales) Bill.

Yn gyntaf, hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu at y ddadl hon am eu gonestrwydd. Rydym wedi clywed rhai cyfraniadau eithaf pwerus yma heddiw, o blaid ac yn erbyn, ac rwy'n deall hynny, fel y dywedais yn gynharach. Rwy'n credu bod y gonestrwydd a glywsom yn ardderchog ar gyfer trafodaeth yng Nghymru. Gadewch inni fod yn onest: faint o bobl fyddai'n siarad yn y tafarnau, clybiau, neuaddau bingo a chiwiau bws am y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) pe na byddem wedi trafod y mater yr ydym wedi'i drafod heddiw? Gyda phob parch, nid wyf yn credu y byddai neb wedi sôn am y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).

We also know that attempts to integrate health and social care can be very complex. There are often significant barriers in the way to enable that to happen. I still bear the scars of the attempts by Powys County Council and Powys local health board to combine into a single organisation. It is interesting that the recent Williams commission has offered that up once again as a way forward. However, the barriers that existed previously are still there. One of the most difficult situations is around governance issues. Quite rightly, locally elected councils want to know why they should take the rap for very difficult decisions when non-elected and seemingly non-accountable members of the local health board do not have to put themselves forward. There are also significant legislative barriers—that is, NHS care is free at the point of delivery, where we know that social care is often means tested and that a financial contribution is expected from individuals to pay for it. These are significant challenges, which is one of the reasons why the Stage 1 committee made the recommendation, alluded to by Elin Jones, that issues around integration should ideally not be dealt with in this Bill. They are so complex, difficult and yet so important to get right that they should have been taken out of this piece of legislation and dealt with on a stand-alone basis. The Government rejected that recommendation and the committee said that if the Government felt unable to move forward in that way, there would have to be the strongest language possible included in this legislation to make that integration a reality. What we have before us, despite some amendments by the Government, is still a situation where local authorities will be able to not do the right thing and not go the distance if they, for whatever reasons, feel the need to do so. If we are to achieve the goal of more integration between health and social care, we really need to strengthen the wording in the legislation before us. For those reasons, the Welsh Liberal Democrats will support the amendments put forward by Elin Jones this afternoon.

Rydym hefyd yn gwybod y gall ymdrechion i integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol fod yn gymhleth iawn. Yn aml ceir rhwystrau sylweddol sy'n atal hynny rhag digwydd. Mae'r creithiau yn dal gennyf ar ôl yr ymdrechion gan Gyngor Sir Powys a bwrdd iechyd lleol Powys i gyfuno yn un sefydliad. Mae'n ddiddorol bod comisiwn Williams yn ddiweddar wedi cynnig hynny unwaith eto fel ffordd ymlaen. Fodd bynnag, mae'r rhwystrau a oedd yn arfer bodoli yn dal i fod yno. Un o'r sefyllfaoedd mwyaf anodd yw ynghylch materion llywodraethu. Yn gwbl briodol, mae cynghorau a etholwyd yn lleol yn awyddus i wybod pam y dylent gymryd y bai am benderfyniadau anodd iawn pan nad oes raid i aelodau o'r bwrdd iechyd lleol eu cynnig eu hunain, a hwythau heb gael eu hethol ac yn ôl pob golwg heb fod yn atebol. Ceir rhwystrau deddfwriaethol sylweddol hefyd —hynny yw, mae gofal y GIG am ddim yn y man darparu, a gwyddom fod prawf modd yn aml ar ofal cymdeithasol ac y disgwylir cyfraniad ariannol gan unigolion i dalu amdano. Mae'r rhain yn heriau sylweddol, a dyna un o'r rhesymau pam y gwnaeth y pwyllgor Cyfnod 1 yr argymhelliad, y cyfeiriwyd ato gan Elin Jones, na ddylid, yn ddelfrydol, ymdrin â materion ynghylch integreiddio yn y Bil hwn. Maent mor gymhleth ac mor anodd, ac eto mae mor bwysig eu cael yn iawn fel y dylid bod wedi eu cymryd allan o'r darn hwn o ddeddfwriaeth ac ymdrin â hwy ar eu pennau eu hunain. Gwrthododd y Llywodraeth yr argymhelliad hwnnw, a dywedodd y pwyllgor y byddai'n rhaid cynnwys yr iaith gryfaf bosibl yn y ddeddfwriaeth hon i wneud yr integreiddio yn realiti pe byddai'r Llywodraeth yn teimlo na allai symud ymlaen yn y ffordd honno. Yr hyn sydd gennym ger ein bron o hyd, er gwaethaf rhai gwelliannau gan y Llywodraeth, yw sefyllfa lle y bydd awdurdodau lleol yn gallu peidio â gwneud y peth iawn a pheidio â mynd yr holl ffordd os ydynt, am ba bynnag reswm, yn teimlo'r angen i wneud hynny. Os ydym i gyrraedd y nod o integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol ymhellach, mae gwir angen i ni gryfhau'r geiriad yn y ddeddfwriaeth ger ein bron. Am y rhesymau hynny, bydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn cefnogi'r gwelliannau a gyflwynwyd gan Elin Jones y prynhawn yma.

18:40

## Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rwyf i hefyd yn codi i gefnogi'r gwelliannau hyn, ac yn enwedig y gwelliannau sy'n pwysleisio'r angen i gyfuno ac integreiddio gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd. Rwy'n teimlo mai hwn yw un o'r methiannau mawr fy oed, oherwydd rwy'n cofio dadlau'r dadleuon dros gyd-gyllido gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd yn Nhŷ'r Cyffredin yn ôl yn y 1970au hwyr, yn nyddiau David Ennals, pan oedd cyd-gyllido yn dechrau digwydd yn Lloegr a phan oedd gwasanaethau cyhoeddus integredig yn cychwyn yn y fan honno. Eto, dyma ni yng Nghymru yn dal i fod bron yn yr un sefyllfa ag oeddem gynt. Siomedigaeth fawr imi yw edrych ar draws y gogledd ac gweld, ar ôl inni greu bwrdd iechyd cryf yno, ein bod wedi methu â chyfatebu hynny gyda gwasanaethau cymdeithasol integredig. Felly, rwy'n dal i'w weld, fel Aelod etholaeth yn y Cynulliad hwn, y math o anawsterau yr oeddwn yn eu gweld fel Aelod Seneddol yn yr un etholaeth bron 40 mlynedd yn ôl. Nid yw hyn yn ddigon da, oherwydd rwyf am weld y mater hwn wedi'i ddatrys cyn y byddaf i hefyd yn defnyddio'r gwasanaethau hyn, ac rwy'n gobeithio bod gennyf rai blynyddoedd i fynd.

I also rise to Support these amendments, and particularly the amendments that emphasise the need to combine and integrate social and health services. I feel that this is one of the great failures of my age, because I remember debating the arguments for the joint funding of social and health services in the House of Commons back in the late 1970s, in the days of David Ennals, when joint funding was beginning to happen in England and when integrated public services were in their infancy there. Here we are in Wales in almost the same position as we were in previously. A great disappointment for me, in looking across north Wales, is to see that, having created a strong health board for the region, we have failed to match that with integrated social services. Therefore, I still see, as a constituency Member in this Assembly, the kind of difficulties that I saw as a Member of Parliament for the same constituency almost 40 years ago. This is not good enough, because I want this matter to be resolved before I, too, will be using these services, but I hope that I have some years before that happens.

Mae'n rhaid inni ddelio â hyn, a delio ag o'n gyflym. Rwy'n deall efallai mai gwelliannau i bwyso yw'r rhain, ac nid gwelliannau y bwriedir iddynt gael eu cario, ond rwy'n gwybod bod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol presennol yn deall popeth yr wyf wedi ei ddweud hyd yn hyn ac yn cydymdeimlo â hynny. Felly, rwy'n awyddus inni allu symud yn gynt, ond nid wyf yn hyderus. Rwyf am fynegi fy siomiant yn yr hyn sydd yn yr adroddiad ar wasanaethau cyhoeddus yn ddiweddar. Rwy'n meddwl nad yw'r adroddiad gan Syr Paul Williams—ac rwy'n ei ystyried yn gyfaill ac yn ei barchu yn fawr iawn—wedi gallu dod i gytundeb, yn ôl sut yr wyf i'n darllen y peth, ar y berthynas briodol rhwng gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd. Tra bod fy arweinydd yn gwrando arnaf ar y mater hwn, rwy'n gwybod hefyd ein bod ni fel plaid wedi bod yn brygowthan am gydweithrediad rhwng gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd mewn sawl etholiad ac, am wn i, mae hynny'n dal i fod yn bolisi inni o hyd. Ond a ydym wedi ei weithredu, hyd yn oed yn y siroedd lle mae gennym rym? Naddo. Felly, rwy'n pwyso arnom ni i gyd i roi blaenoriaeth o'r newydd i'r mater hwn ac i ddangos ein bod o ddifrif, bellach, yn gweld mai dim ond un gwasanaeth sy'n effeithiol ar gyfer y grŵp oedran yr ydym yn delio ag o.

We must deal with this, and deal with it swiftly. I understand that the purpose of these amendments, perhaps, is to press a point and that there is no intention for them to be carried, but I know that the current Minister for Health and Social Services understands everything I have said thus far and will sympathise with it. Therefore, I am eager for us to be able to move more quickly, but I am not confident. I would like to express my disappointment in the contents of the recent report on public services. I do not believe that the report by Sir Paul Williams—whom I consider a friend and whom I respect greatly—came to an agreement, according to my reading of it, on the appropriate relationship between health and social services. While my leader is listening to me on this matter, I also know that we as a party have been going on and on about collaboration between health and social services in a number of elections, and, as far as I know, it is still our policy. However, have we taken action on this, even in those counties where we are in power? No, we have not. Therefore, I urge us all to renew the priority given to this matter and to demonstrate that we are seriously of the view that only one service is effective when it comes to the age group that we are dealing with.

Eto, mae pobl yn dal i ddweud wrthyf fod enghreifftiau yn codi o ddau asesiad ac o weithwyr cymdeithasol a gweithwyr iechyd nad ydynt yn gallu cydweithio mewn cyfarfodydd lle mae achosion yn cael eu trin. Nid yw hyn yn ddigon da. Felly, os yw'r Llywodraeth yn dweud—ac rwy'n parchu'r Gweinidog yma yn arbennig—taw nad dyma'r lle i wneud y gwelliannau hyn, yna pryd, Weinidog, y gall hyn ddigwydd?

Yet, people still tell me that they are aware of examples of two assessments and of social workers and health workers unable to collaborate and agree at meetings where cases are considered. This is not good enough. Therefore, if the Government says—and, of course, I respect this particular Minister—that this is not the place to make these amendments, then when, Minister, can this happen?

18:43 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I ymateb i'r pwynt diwethaf, mae'r Gweinidog iechyd a fi, ar y cyd, wedi dod â gwelliannau i'r asesiad, fel bod asesiad unol rhwng gwasanaethau cymdeithasol a'r gwasanaeth iechyd yn barod. Nid wyf yn siŵr o'r dyddiad y bydd hynny'n dechrau, os nad yw wedi dechrau'n barod. Rydym wedi cyflwyno datganiad ar y cyd hefyd ynglŷn â hynny. Rwy'n gobeithio bod hynny yn ateb y pwynt hwnnw.

To respond to the final point, the Minister for health and I have, together, tabled amendments in terms of the assessment, so that there can be joint assessments between social services and the health service. I am not sure of the date on which this will start, unless it has already commenced. We have brought forward a joint statement on that as well. I hope that that answers that point.

Yn ôl at grŵp 42, mae'r gwelliannau hyn a gafodd eu cyflwyno gan Elin Jones eisoes wedi eu hystyried, ac nid oeddent wedi eu cefnogi yn ystod Cyfnod 2. Nid yw fy safbwynt ar y mater wedi newid. Rydym eisoes wedi cryfhau'r rheoliadau yn y maes hwn—ac rwy'n ddiolchgar i Elin Jones am nodi hynny—fel canlyniad i'r drafodaeth a gafwyd yng Nghyfnod 2. Bydd hynny'n digwydd drwy sicrhau bod yn rhaid gwneud rheoliadau i bennu ffurf trefniadau partneriaeth, sut i'w rheoli, a'r gweithdrefnau sy'n gweithredu fel rhan ohonynt mewn perthynas ag atgyfeirio, rhannu gwybodaeth, adolygu achosion a darpariaethau ariannol. Felly, rwyf o'r farn bod y pwerau i wneud rheoliadau yn y Bil yn ddigonol i sicrhau bod cyrff yn gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth ac mewn modd integredig a bod y gwelliannau a gynigiwyd gan Elin Jones yn rhy argymhellol a chyfyngol. Yr hyn sydd o bryder i mi yw y gallent gyfyngu'r integreiddio yn hytrach na'i hwyluso.

To return to group 42, these amendments tabled by Elin Jones have already been considered, and they were not supported during Stage 2. My position on this matter has not changed. We have already strengthened regulations in this area—and I am grateful to Elin Jones for noting that—as a result of the discussion that was had at Stage 2. That will happen by ensuring that regulations must be made to determine the form of partnership arrangements, how they can be managed, and the procedures that operate as part of these in relation to referral, information sharing, case review and financial provisions. Therefore, I am of the opinion that the powers to make regulations in the Bill are adequate to ensure that bodies work effectively in partnership and in an integrated manner and that the amendments proposed by Elin Jones are overly prescriptive and restrictive. What causes me concern on this issue is that they could limit integration rather than promote it.

Mewn perthynas â gwelliant 311, dywedais ym mis Rhagfyr fod trefniadau partneriaeth, yn ymarferol, yn cael eu cefnogi mewn nifer o ffyrdd. Gallai hynny fod drwy gyllid uniongyrchol neu gyfraniadau o fath arall; er enghraifft, drwy roi nwyddau, gwasanaethau, llety neu adnoddau eraill i staff. Rwyf o'r farn ei bod yn bwysig i awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol barhau i gael y rhyddid i weithio yn y ffordd honno. Rwyf hefyd o'r farn y gallai'r gwelliant gyfyngu ar ddatblygu partneriaethau drwy greu cymhlethdod nad oes ei angen. Nid yw fy safbwynt ar y mater hwn wedi newid.

In relation to amendment 311, I said in December that, in practice, partnership arrangements are supported in a number of ways. This can be through direct funding or contributions in kind; for example, by providing goods, services, accommodation or other resources to staff. I am of the opinion that it is important that local authorities and local health boards continue to have the freedom to work in that way. I am also of the opinion that the amendment could limit the development of partnerships by creating unnecessary confusion. My stance on this issue has not changed.

Mae gwelliant 312 yn gofyn am drefniadau unffurf ar gyfer pob un o'r trefniadau partneriaeth. Y gwir am y sefyllfa yw y bydd y manylion am sut mae'r trefniadau partneriaeth yn cael eu hariannu yn amrywio yn ôl profiad ac arferion lleol. Byddai ceisio sicrhau bod yr holl reoliadau o dan adran 157 yn cael eu gwneud ym mhob achos yn cyfyngu ar ddisgresiwn awdurdodau lleol heb fod angen. Rwyf o'r farn bod angen llunio pob un o'r trefniadau partneriaeth fel eu bod yn gallu cyflawni'r canlyniadau gorau ar gyfer poblogaethau a chymunedau. Mae'r drafft cyfredol yn caniatáu'r hyblygrwydd hwnnw ac ar yr un pryd mae'n glir am yr hyn y gellir ei nodi'n wahanol os bydd angen gwneud hynny.

Amendment 312 requires there to be uniform arrangements for every partnership arrangement. In reality, the details of how partnership arrangements are resourced will vary according to local experience and practices. Seeking to ensure that all regulations under section 157 are made in every case unnecessarily restricts local authority discretion. I believe that each partnership arrangement has to be designed to achieve the best outcomes for populations and communities. The current drafting allows for this flexibility while being clear what can be specified where there is a need to do so.

Mae gwelliant 310 yn ceisio rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol i sefydlu a chadw cronfeydd cyfun. Nid wyf o'r farn bod angen y gwelliant hwn gan fod y Bil yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n gofyn am sefydlu cronfeydd cyfun. Gellir defnyddio'r rhain os bydd unrhyw bryder ynglŷn â'r ffaith nad yw awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol yn arfer eu pwerau'n briodol.

Amendment 310 seeks to place a duty on local authorities and LHBs to establish and maintain a pooled fund. I do not consider this change necessary, as the Bill provides the Welsh Ministers with powers to make regulations requiring the establishment of pooled funds. These can be used if there is any concern that local authorities and LHBs are not exercising their powers appropriately.

Rwyf hefyd o'r farn y gallai gwelliant 314 achosi niwed gan na fydd disgwyl bod angen creu bwrdd partneriaeth ar gyfer pob un o'r trefniadau partneriaeth. Am y rhesymau yr wyf wedi eu nodi heddiw, gofynnaf i Aelodau beidio â chefnogi'r gwelliannau hyn.

I am also of the view that amendment 314 is potentially harmful as not all partnership arrangements will necessitate the creation of a partnership board. For the reasons I have set out today, I ask that Members do not support these amendments.

18:48

## Elin Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Gofynnodd Dafydd Elis-Thomas 'pryd?', Weinidog—pryd welwn ni'r integreiddiad y mae cymaint ohonynt am ei weld rhwng y gwasanaethau iechyd a gofal ar gyfer oedolion? Y cwestiwn hwnnw oedd y tu ôl i'r rhwystredigaeth yr oedd cymaint o'r tystion i'r pwyllgor yn ystod Cyfnod 1 yn ei theimlo o ganlyniad i'r diffyg cynnydd ar integreiddio dros y degawd i 20 mlynedd diwethaf. Mae'r pwerau i integreiddio a'r gallu i wneud hynny yn bodoli, ond nid ydynt wedi cael eu defnyddio gan awdurdodau lleol na byrddau iechyd.

Dafydd Elis-Thomas posed the question, 'When?', Minister—when will we see the integration that so many of us wish to see between health and social services for adults? That is the question that lay behind the frustration that so many of the witness that came before the committee at Stage 1 felt as a result of the lack of progress on integration over the past 10 to 20 years. The powers and ability to integrate exist, but they have not been exercised by local authorities or by health boards.

Cynigiodd y pwyllgor yn ei adroddiad ffordd allan i'r Llywodraeth—gan dderbyn popeth y mae Kirsty ac eraill wedi'i ddweud ynglŷn â chymhlethdodau integreiddiad mor sylweddol â hyn—sef y dylid ystyried tynnu allan yr adrannau ar integreiddio a phartneriaethau o'r ddeddfwriaeth hon a chreu deddfwriaeth ar wahân i drafod y mater o ddifrif ac i'w gael yn iawn unwaith ac am byth yng Nghymru. Ond, yn absenoldeb eich cytundeb i hynny, Ddirprwy Weinidog, rydym wedi defnyddio ein gallu ni—rwy'n gwneud hynny eto y prynhawn yma—yn ystod Cyfnod 2 a 3 i sicrhau ein bod yn defnyddio cyfle'r ddeddfwriaeth hon i arwain y newid ar integreiddiad. Yn eich ymateb ar welliant 212, Ddirprwy Weinidog, sonioch am broblemau yn deillio o unffurfiaeth. Yn wahanol i chi, rwyf i'n eithaf hoff o unffurfiaeth. Rwy'n licio'r ffaith bod pobl yng Nghymru, lle bynnag y maent, yn gallu cael yr un hawl a'r un gwasanaeth, a hwnnw'n wasanaeth o safon. Sawl gwaith yn y pwyllgor rwyf wedi teimlo'n eiddigeddus wrth i Lynne Neagle neu aelodau o fwrdd iechyd Aneurin Bevan drafod y 'Gwent frailty project', gan ddymuno y byddai'r fath beth â 'Ceredigion frailty project' i gael. Ond nid oes gennym unffurfiaeth o'r fath. Dyna oedd dymuniad y gwelliant hwn heddiw. Os bydd y gwelliannau hyn yn cael eu trechu heddiw, rwy'n credu y byddwn wedi colli cyfle arall i sicrhau'r integreiddiad mae cymaint ohonom am ei weld er lles y bobl ag arnynt angen y gefnogaeth y byddai integreiddiad o'r fath yn arwain tuag ati.

The committee, in its report, proposed a way out for the Government—accepting everything that Kirsty and others have said about the complexities of such significant integration—which was that consideration should be given to the removal from this legislation of the sections on integration and partnerships and to the creation of separate legislation in order to discuss this matter in depth and to get it right once and for all in Wales. However, in the absence of your agreement to that, Deputy Minister, we have used our ability—as I am also doing now—during Stages 2 and 3 to ensure that we use the opportunity of this legislation to lead the change on integration. In your response to amendment 212, Deputy Minister, you mentioned the problems that emanate from uniformity. Unlike you, I quite like uniformity. I like the fact that the people of Wales, wherever they live, can get the same rights and the same high-quality service. Many times during committee sessions I have felt rather envious when Lynne Neagle or members of the Aneurin Bevan health board discuss the Gwent frailty project, wishing that there could be such a thing as a 'Ceredigion frailty project'. However, we do not have that uniformity. That is was this amendment is seeking today. If these amendments are defeated today, I believe that we will have lost another opportunity to secure the integration that so many of us wish to see for the benefit of the people who need the support that such integration would lead to.

18:51

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 310 be agreed to. Does any Member object? There is objection, therefore we will move to an electronic vote.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 310 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Ceir gwrthwynebiad, felly symudwn i bleidlais electronig.

Canlyniad y bleidlais ar welliant 310.

Result of the vote on amendment 310.

*Gwrthodwyd gwelliant 310: O blaid 15, Yn erbyn 39, Ymatal 0.*

*Amendment 310 not agreed: For 15, Against 39, Abstain 0.*

18:51

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on Elin Jones to move amendment 311.

Galwaf ar Elin Jones i gynnig gwelliant 311.

18:51

## Elin Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Cynigiaf welliant 311 yn fy enw i.

I move amendment 311 in my name.

18:51

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 311 be agreed to. Does any Member object? There is objection, therefore we will move to an electronic vote.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 311 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Ceir gwrthwynebiad, felly symudwn i bleidlais electronig.

Canlyniad y bleidlais ar welliant 311.

Result of the vote on amendment 311.

*Gwrthodwyd gwelliant 311: O blaid 15, Yn erbyn 39, Ymatal 0.*

*Amendment 311 not agreed: For 15, Against 39, Abstain 0.*

18:51

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on Elin Jones to move amendment 312.

Galwaf ar Elin Jones i gynnig gwelliant 312.

18:51

## Elin Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Cynigiaf welliant 312 yn fy enw i.

I move amendment 312 in my name.

18:51 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 312 be agreed to. Does any Member object? There is objection, therefore we will move to an electronic vote.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 312 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Ceir gwrthwynebiad, felly symudwn i bleidlais electronig.

Canlyniad y bleidlais ar welliant 312.

Result of the vote on amendment 312.

*Gwrthodwyd gwelliant 312: O blaid 15, Yn erbyn 39, Ymatal 0.*

*Amendment 312 not agreed: For 15, Against 39, Abstain 0.*

18:52 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on Elin Jones to move amendment 313.

Galwaf ar Elin Jones i gynnig gwelliant 313.

18:52 **Elin Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Cynigiaf welliant 313 yn fy enw i.

I move amendment 313 in my name.

18:52 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 313 be agreed to. Does any Member object? There is objection, therefore we will move to an electronic vote.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 313 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Ceir gwrthwynebiad, felly symudwn i bleidlais electronig.

Canlyniad y bleidlais ar welliant 313.

Result of the vote on amendment 313.

*Gwrthodwyd gwelliant 313: O blaid 15, Yn erbyn 39, Ymatal 0.*

*Amendment 313 not agreed: For 15, Against 39, Abstain 0.*

18:52 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on Elin Jones to move amendment 314.

Galwaf ar Elin Jones i gynnig gwelliant 314.

18:52 **Elin Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Cynigiaf welliant 314 yn fy enw i.

I move amendment 314 in my name.

18:52 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 314 be agreed to. Does any Member object? There is objection, therefore we will move to an electronic vote.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 314 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Ceir gwrthwynebiad, felly symudwn i bleidlais electronig.

Canlyniad y bleidlais ar welliant 314.

Result of the vote on amendment 314.

*Gwrthodwyd gwelliant 314: O blaid 15, Yn erbyn 39, Ymatal 0.*

*Amendment 314 not agreed: For 15, Against 39, Abstain 0.*

18:52 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Deputy Minister to move amendment 246.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 246.

18:52 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Cynigiaf welliant 246 yn fy enw i.

I move amendment 246 in my name.

18:52 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 246 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, therefore amendment 246 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 246 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiadau, felly caiff gwelliant 246 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 246 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 246 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

### Grŵp 43: Y Bwrdd Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Mabwysiadu (Gwelliannau 325, 326, 327, 328, 329 a 330)

### Group 43: National Board for Adoption Services (Amendments 325, 326, 327, 328, 329 and 330)

18:53

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The lead amendment in the group is amendment 325. I call on Angela Burns to move amendment 325 and to speak to it and the other amendments in the group.

Y prif welliant yn y grŵp yw gwelliant 325. Galwaf ar Angela Burns i gynnig gwelliant 325 ac i siarad am hwnnw ac am y gwelliannau eraill yn y grŵp.

18:53

## Angela Burns Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 325 in my name, supported by Simon Thomas. I will also be speaking to amendments 326 through to 330.

Cynigiaf welliant 325 yn fy enw i, gyda chefnogaeth Simon Thomas. Byddaf hefyd yn siarad am welliannau 326 hyd at 330.

This amendment seeks to set forth within the Bill a national board for adoption services. You are all already very well aware of much of what I will say, but I will say it, as it is important for the record. I am calling here for a national board to be set up that is under the direction and guidance of Welsh Ministers and that will do a number of things: it will pull together a national adoption register, it will be able to put out framework guidance as to how consistency could be achieved throughout Wales in the provision of adoption services, it will make recommendations to Ministers as to how those services could be improved, and it will report on the adequacy and effectiveness of adoption services.

Mae'r gwelliant hwn yn ceisio sefydlu bwrdd cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau mabwysiadu yn y Bil. Rydych i gyd eisoes yn ymwybodol iawn o lawer o'r hyn y byddaf yn ei ddweud, ond fe'i dywedaf, gan ei fod yn bwysig ei roi ar gof a chadw. Rwy'n galw yma am sefydlu bwrdd cenedlaethol sydd dan gyfarwyddyd ac arweiniad Gweinidogion Cymru ac a fydd yn gwneud nifer o bethau: bydd yn dwyn at ei gilydd gofrestr mabwysiadu genedlaethol, bydd yn gallu rhoi canllawiau fframwaith ynglŷn â sut y gellid darparu gwasanaethau mabwysiadu cyson ledled Cymru, bydd yn gwneud argymhellion i Weinidogion ynghylch sut y gellid gwella'r gwasanaethau hynny, a bydd yn hysbysu ynghylch pa mor ddigonol ac effeithiol yw'r gwasanaethau mabwysiadu.

These amendments reflect my view and the view of my party, but also the view of the Children and Young People Committee in our report into adoption in 2012. The committee has undertaken a huge amount of work. From time to time, you come across a piece of work that you put together and think, 'We have actually got it spot on'. When we started looking at the provision of adoption services in Wales, I think that it is fair to say that, without exception, members of the committee were genuinely staggered by the inconsistency and, in some areas, downright paucity of adoption services. Parents or prospective adopters had been treated with indifference and complete disregard; they would make a phone call and say, 'We're interested in becoming adopters' and, 12 months later—or 18 months in relation to one case we heard of—they still had not had any feedback to even begin the process. We know that we have children out there who are seeking forever families, looking for that permanent home. A significant number of those children come with a huge amount of baggage—emotional, physical or psychological—and it is imperative that we get those children into the safety net of a loving, forever family as soon as we possibly can. Why? It is because still today, in 2014, we have situations where children are taken into care and are placed with a foster family but are moved—they are moved consistently and regularly. You might come across a seven or an eight-year-old who might have been taken into care at the age of two who will have been in four or five foster homes.

Mae'r gwelliannau hyn yn adlewyrchu fy marn i a barn fy mhlaid, yn ogystal â barn y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc yn ein hadroddiad ar fabwysiadu yn 2012. Mae'r pwyllgor wedi gwneud llawer iawn o waith. O bryd i'w gilydd, byddwch yn dod ar draws darn o waith a roddwch at ei gilydd ac yn meddwl, 'Rydym wedi ei gael i'r dim'. Pan ddechreuwyd edrych ar ddarpariaeth gwasanaethau mabwysiadu yng Nghymru, rwy'n meddwl ei bod yn deg dweud bod aelodau'r pwyllgor, yn ddieithriad, wedi eu syfrdanu'n wirioneddol gan yr anghysondeb ac, mewn rhai ardaloedd, gan brinder llwyr gwasanaethau mabwysiadu. Mae rhieni neu ddarpar fabwysiadwyr wedi cael eu trin â difaterwch a diystyrwch llwyr; byddent yn gwneud galwad ffôn a dweud, 'Mae gennym ddiddordeb mewn mabwysiadu a, 12 mis yn ddiweddarach—neu 18 mis mewn un achos y clywsom amdano—roeddent yn dal heb gael unrhyw adborth i hyd yn oed ddechrau ar y broses. Rydym yn gwybod bod gennym blant allan yna sy'n chwilio am deuluoedd am byth, yn chwilio am gartref parhaol. Mae gan nifer sylweddol o'r plant hynny lawer iawn o feichiau emosiynol, corfforol neu seicolegol—ac mae'n hanfodol ein bod rhoi diogelwch teulu cariadus, parhaol i'r plant hynny cyn gynted ag y gallwn. Pam? Y rheswm yw bod gennym hyd heddiw, yn 2014, sefyllfaoedd lle y caiff plant eu cymryd i ofal a'u lleoli gyda theulu maeth ond wedyn eu symud—maent yn cael eu symud yn gyson ac yn rheolaidd. Fe allech ddod ar draws plentyn saith neu wyth mlwydd oed a allai fod wedi'i gymryd i ofal yn ddwy oed a fydd wedi bod mewn pedwar neu bum cartref maeth.

In a previous incarnation of the children's committee, I sat on an inquiry that made it very clear the difficulty of matching a child who needs foster care to the right foster carer, because they are not out there. Children who are destined to eventually walk down that adoption route find themselves, in a great many counties in Wales, being placed on the back burner to be dealt with later, and to be left languishing in the care system. We want to change that.

Mewn pwyllgor plant blaenorol, eisteddais ar ymholiad a ddangosodd yn eglur iawn pa mor anodd yw paru plentyn sydd ag angen gofal maeth i'r gofalwr maeth cywir, oherwydd nad ydynt ar gael. Mae plant sy'n cael eu tynghedu i droedio'r llwybr mabwysiadu yn y pen draw, mewn llawer iawn o siroedd yng Nghymru, yn cael eu rhoi o'r neilltu i ymdrin â nhw'n ddiweddarach, ac yn cael eu gadael yn dihoeni yn y system gofal. Rydym eisiau newid hynny.

The No. 1 recommendation of the children's committee was this:

Prif argymhelliad pwyllgor y plant oedd hwn:

'The direct service delivery role of the National Adoption Service should be significantly strengthened from that currently set out in the Social Services (Wales) Bill consultation document. The service should have a central delivery role and employ staff to work on a range of adoption. It should not be "owned by local authorities" as set out in current proposals. The lead role within the Service should be a senior independent role, reporting to a multi-agency board, and ultimately accountable to the relevant Welsh Government Minister.'

'Dylid cryfhau rôl cyflenwi gwasanaethau uniongyrchol y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol yn sylweddol o'r hyn sydd wedi'i nodi ar hyn o bryd yn nogfen ymgynghori Bil Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru). Dylai fod gan y gwasanaeth rôl gyflenwi ganolog a dylai gyflogi staff i weithio ar amrywiaeth o drefniadau mabwysiadu. Ni ddylai fod "yn eiddo i'r awdurdodau lleol" fel y nodir yn y cynigion presennol. Dylai'r rôl arweiniol o fewn y Gwasanaeth fod yn uwch rôl annibynnol, yn adrodd i fwrdd amlasiantaethol, ac yn atebol yn y pen draw i'r Gweinidog perthnasol yn Llywodraeth Cymru.'

Now, Deputy Minister, I do listen to what you say with respect and interest, and you were very clear when you responded to our report that you would not be in favour of having a completely independent agency. I accept the arguments that you put forward. So, what I have tried to do with these amendments is strengthen what is currently in the Bill. When I read the little section on adoption that is hidden right at the back of this enormous framework Bill, I was very sad to see what I felt was not only a dilution of the primary recommendation that we had made in our committee, but also a dilution of the expressions of intent that you had formulated before and that, somehow, the legalese had done its worst on what it is we are trying to do. What I read was that you 'may' direct two or more authorities to work together in a collaborative agenda to improve adoption services. Call me cynical, but over these last few years, I have come to have very little faith in some of what has been delivered as part of the collaboration agenda, and I have also come to have very little faith in some elements of some local authorities, that they can actually step up to the plate and deliver for some of the most vulnerable and disadvantaged children in our society. So, what I am trying to do with these amendments—I may not have got them bang on the button, and you may seek to improve them at another stage—is to give extra teeth to you as a Welsh Minister to say, 'This is how you are going to do it. All 22 of you will come together and you will treat these children as a priority, you will give them the attention that they deserve and you will ensure that you have best practice and that you circulate that best practice. You will not shirk and you will not put other things before these children.' In times of tight funding, in particular, some of these authorities are leaving these children on the back burner.

Yn awr, Ddirprwy Weinidog, rwyf yn gwrando ar yr hyn yr ydych yn ei ddweud gyda pharch a diddordeb, ac roeddech yn glir iawn wrth ymateb i'n hadroddiad na fyddech o blaid cael asiantaeth gwbl annibynnol. Rwy'n derbyn y dadleuon a gyflwynwyd gennych. Felly, yr hyn yr wyf wedi ceisio'i wneud gyda'r gwelliannau hyn yw cryfhau'r hyn sydd yn y Bil ar hyn o bryd. Pan ddarllenais yr adran fach ar fabwysiadu sydd wedi'i chuddio ar ddiwedd y Bil fframwaith enfawr hwn, roeddwn yn drist iawn i weld rhywbeth a oedd, yn fy marn i, yn gwanhau'r prif argymhelliad yr oeddem wedi ei wneud yn ein pwyllgor, ac yn gwanhau hefyd y bwriad yr oeddech wedi'i lunio'n flaenorol a, rhywsut, bod yr iaith gyfreithiol wedi gwneud ei waethaf â'r hyn yr ydym yn ceisio'i wneud. Yr hyn a ddarllenais oedd y 'gallech' roi cyfarwyddyd i ddau neu fwy o awdurdodau weithio gyda'i gilydd mewn agenda ar y cyd i wella gwasanaethau mabwysiadu. Galwch fi'n sinigaidd, ond dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, rwyf wedi dod i sefyllfa lle nad oes gennyf fawr o ffydd yn rhywfaint o'r hyn sydd wedi cael ei gyflwyno fel rhan o'r agenda gydweithredu, ac rwyf hefyd wedi dod i sefyllfa lle nad oes gennyf fawr o ffydd mewn rhai elfennau o rai awdurdodau lleol , y gallant mewn gwirionedd gymryd cyfrifoldeb a chyflawni ar gyfer rhai o'r plant mwyaf agored i niwed a difreintiedig yn ein cymdeithas. Felly, yr hyn yr wyf yn ceisio ei wneud â'r gwelliannau hyn—efallai nad wyf wedi eu cael yn union, ac efallai y byddwch yn dymuno eu gwella'n ddiweddarach—yw rhoi grym ychwanegol i chi fel un o Weinidogion Cymru i ddweud, 'Dyma sut yr ydych yn mynd i weithio. Bydd pob un o'r 22 ohonoch yn dod at eich gilydd a byddwch yn rhoi blaenoriaeth i'r plant hyn, byddwch yn rhoi iddynt y sylw y maent yn ei haeddu a byddwch yn sicrhau bod gennych yr arfer gorau a'ch bod yn lledaenu'r arfer gorau hwnnw. Ni fyddwch yn osgoi eich cyfrifoldeb ac ni fyddwch yn rhoi pethau eraill cyn y plant hyn.' Pan fo cyllid yn brin, yn arbennig, mae rhai o'r awdurdodau hyn yn rhoi'r plant hyn o'r neilltu.

All of my subsequent amendments, Deputy Minister, basically try to reinforce that situation: that this agency should provide you with an annual report and that you have an obvious right to appoint the person to that board. I am not even asking you to bring the regulations back here, because I am putting this very firmly in your capable hands, to say 'We looked; we saw; we found absolute want in so many authorities—in their capacity, their capability and, sadly, their culture, in their will to do right by these children'. So, these amendments are trying to give you, Deputy Minister, the teeth to take it forward and make this happen, because I fear that if we do not do that, this will just drift on again, and in a few years' time, another person will be standing here and will be raising these very same issues again. No-one else can speak up for these children and get them out of the care system and into the home that they need. Those authorities that are good are truly excellent. However, sadly, they are absolutely in the minority.

Mae pob un o'm diwygiadau dilynol, Ddirprwy Weinidog, yn y bôn yn ceisio atgyfnerthu'r sefyllfa honno: y dylai'r asiantaeth hon roi adroddiad blynyddol i chi a bod gennych hawl amlwg i benodi'r person i'r bwrdd. Nid wyf hyd yn oed yn gofyn i chi ddod â'r rheoliadau yn ôl gerbron, gan fy mod yn rhoi hyn yn gadarn iawn yn eich dwylo galluog, i ddweud 'Fe edrychon ni; fe welsom ni; canfuwyd bod cynifer o awdurdodau yn bendant yn ddiffydiol—yn eu gallu, eu capasiti ac, yn anffodus, yn eu diwylliant, yn eu hewyllys i roi chwarae teg i''r plant hyn'. Felly, mae'r gwelliannau hyn yn ceisio rhoi i chi, Ddirprwy Weinidog, y grym i symud ymlaen a gwneud i hyn ddigwydd, oherwydd os nad ydym yn gwneud hynny, rwy'n ofni y bydd hyn yn llithro unwaith eto, ac ymhen ychydig flynyddoedd, bydd rhywun arall yn sefyll yma ac yn codi'r un materion eto. Ni all neb arall siarad ar ran plant hyn a'u cael nhw allan o'r system ofal ac i mewn i'r cartref y mae arnynt ei angen. Mae'r awdurdodau hynny sydd yn dda yn wirioneddol ragorol. Fodd bynnag, yn anffodus, maent yn sicr yn y lleiafrif.

19:01 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Mae'n dda gennyf gefnogi'r gwelliannau hyn, yn bersonol ac ar ran grŵp Plaid Cymru hefyd. Fel y dywedodd Angela Burns yn glir iawn, roedd ymchwiliad trylwyr iawn gan y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc yn edrych ar y mater hwn. Daethom i gasgliadau penodol iawn ynglŷn â gwasanaeth mabwysiadu cenedlaethol, ac roedd nifer o argymhellion yn sgîl y casgliadau hynny. O edrych ar y Bil ar ei ffurf bresennol, nid wyf yn gweld ei fod yn darparu'n ddigonol ar gyfer argymhellion y pwyllgor.

I am pleased to support these amendments, personally and on behalf of the Plaid Cymru group. As Angela Burns stated very clearly, there was a very thorough inquiry by the Children and Young People Committee on this issue. We came to very specific conclusions on a national adoption service, and made a number of recommendations in light of those conclusions. In looking at the Bill as currently drafted, I do not see that it provides adequately for the committee recommendations.

Rwy'n derbyn, wrth gwrs, bod y Bil hwn wedi mynd drwy bwyllgor penodol, ond nid wyf yn meddwl bod cyfle wedi bod i lwyr ystyried yr hyn sydd wedi digwydd mewn pwyllgor arall sydd wedi cynnal ymchwiliad trylwyr iawn i'r mater hwn. Rwy'n meddwl y byddai darllen yr hyn a gasglwyd gan y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc wedi cyfoethogi'r ffordd roedd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn edrych ar y mater hwn.

I accept, of course, that this Bill went through a particular committee, but I do not think that there has been an opportunity to fully take into account what occurred in another committee that held a very thorough inquiry into this issue. I think that reading the evidence gathered by the Children and Young People Committee would have enhanced the way in which the Health and Social Care Committee dealt with this issue.

Un peth a oedd yn fy nharo i yn fwy na dim pan oeddwn yn mynd drwy'r ymchwiliad hwn—roeddem yn clywed lot o storïau anhapus iawn gan rieni ac asiantaethau am hyn—oedd anghysondeb; dyna oedd y peth mawr. Roedd amrywiaeth mawr o le i le yng Nghymru o ran faint yr oeddech yn gorfod aros i gael eich asesu ar gyfer mabwysiadu, faint y byddech yn aros ar gyfer cael cefnogaeth gydag unrhyw broblemau a oedd yn codi yn sgîl mabwysiadu a sut oedd y gefnogaeth honno yn parhau am gyfnod ar ôl i chi fabwysiadu. Mae angen ystyriaeth genedlaethol ar yr anghysondeb hwnnw, yn fy marn i—mae'n adlewyrchu ar y ddadl a gawsom yn gynharach, hefyd.

What struck me more than anything when we carried out this inquiry—we heard many very unhappy tales from parents and agencies—was the inconsistency; that was the big thing. It varied hugely from one part of Wales to another in terms of how long you had to wait for assessment for adoption, how long you had to wait for support with any problems that could arise as a result of adoption and how that support would continue post-adoption. That inconsistency, in my opinion, needs to be considered at a national level—it reflects on our earlier debate, too.

Yn y pwyllgor, cawsom dystiolaeth gan Gymdeithas Plant Dewi Sant, a osododd fodel ar gyfer gweithio fel hyn, gan dderbyn nad oedd y Llywodraeth am sefydlu asiantaeth genedlaethol ar gyfer mabwysiadu—hynny yw, nid oedd y Llywodraeth am godi'r cyfrifoldeb oddi ar awdurdodau lleol, er bod nifer ohonom yn teimlo ei bod yn briodol gwneud hynny. Beth bynnag am hynny, roedd model wedi cael ei awgrymu a'i ddarparu gan Gymdeithas Plant Dewi Sant ar gyfer gwasanaeth mabwysiadu cenedlaethol. Roedd y model hwnnw, er enghraifft, yn sôn am un pwynt cyfeirio i'r holl blant sydd â chynllun mabwysiadu, a sefydlu gwasanaeth cenedlaethol â chofrestr o'r holl blant sydd â chynllun mabwysiadu, ynghyd â chofrestr debyg o fabwysiadwyr wedi'u cymeradwyo. Hynny yw, mae modd, wedyn, o beidio â chael y sefyllfa anffodus bresennol lle mae ffin rhwng awdurdodau lleol yn golygu bod rhywun yn aros ddwy filltir ar un ochr i'r ffin tra bod angen am fabwysiadwyr ddwy filltir ar ochr arall y ffin.

In committee, we heard evidence from St David's Children Society, which set out a model for this kind of working, accepting that the Government does not wish to establish a national agency for adoption—that is, that the Government did not want to take responsibility away from local authorities, although many of us felt that it would be appropriate to do that. However, a model had been suggested and provided by the St David's Children Society for a national adoption service. That model, for example, said that there should be one reference point for all children who have an adoption plan, and that there should be a national service with a register of all children with an adoption plan, as well as a similar register of approved adopters. Therefore, you could avoid the current unfortunate situation of a boundary between local authorities that means that someone is waiting two miles one side of the boundary while there is a need for adopters two miles in the other direction.

Byddai gan y gwasanaeth gyfrifoldeb am recriwtio, hyfforddi a chymeradwyo darpar fabwysiadwyr newydd, fel bod cefnogaeth gyson genedlaethol ynghyd â chyfrifoldeb cychwynnol am ganfod ac argymell cysylltiadau arfaethedig rhwng plant a darpar fabwysiadwyr a chyfrifoldeb am sicrhau bod plant yn cael eu paratoi ar gyfer mabwysiadu. Byddai hefyd yn sicrhau bod llyfrau profiadau bywyd yn cael eu cadw; roedd hynny'n cael ei adlewyrchu yn y dystiolaeth gan rieni, hefyd—roeddent yn derbyn plant heb lyfrau bywyd. Yn aml iawn, roedd y problemau'n dod chwe mis, naw mis neu flwyddyn ar ôl mabwysiadu plentyn, ac nid oedd tystiolaeth o'r problemau a oedd ynghlwm â'r plentyn hwnnw oherwydd y fagwraeth yr oedd wedi'i chael.

The service would be responsible for recruiting, training and approving new prospective adopters, so that there is consistent support available nationally, as well as initial responsibility for securing and recommending potential links between children and prospective adopters, and ensuring that children are prepared for adoption. It would also ensure that life experience books were kept; that was also reflected in evidence from parents—they were taking children without life books. Often, problems would emerge six months, nine months or a year after adoption and there was no evidence of the problems that were affecting that child because of their upbringing.

Roedd casgliad y pwyllgor yn glir iawn. Dywedasom hyn yn glir iawn yn yr adroddiad hynod gynhwysfawr hwn—ym mharagraff 357, i bobl gael gwybod. Mae'r pwyllgor yn unfrydol—pob plaid—ei farn na chaiff y nod hwn ei wireddu oni cheir canoli mwy sylweddol o'r swyddogaethau ar lefel genedlaethol. Y nod, wrth gwrs, oedd yr hyn a ddywedodd y Dirprwy Weinidog, sef trawsnewid gwasanaethau mabwysiadu yng Nghymru. Roeddem yn cymryd y Dirprwy Weinidog ar ei gair ac roeddem yn gwybod ei bod yn ddiffuant yn hynny o beth, ond roedd y pwyllgor o'r farn na fyddai'n cyflawni'r nod heb ganoli mwy sylweddol. Nid wyf yn meddwl bod y Bil yn cyrraedd y lefel honno o ganoli, ac mae'r gwelliannau hyn yn mynd â ni gam ymhellach ar y daith honno. Dyna pam ein bod yn derbyn bod gwerth a rhinwedd i'r gwelliannau hyn ac yn eu cefnogi heddiw.

The committee conclusion was very clear. We stated this very clearly in our very comprehensive report—in paragraph 357, just so that you know. The committee is unanimous—all parties—that this aim will not be achieved unless there is enhanced centralisation of functions at a national level. The aim, of course, was what the Deputy Minister said, namely to transform adoption services in Wales. We took the Deputy Minister at her word, and knew that she was sincere in that regard, but the committee was of the opinion that the aim would not be achieved unless we had more significant centralisation. I do not think that the Bill achieves that level of centralisation, and the amendments take us a step further on that journey. That is why we believe that there is value and merit to these amendments, and why we support them today.

Mae casgliad pellach gan y pwyllgor hefyd; byddaf yn gorffen gyda'r pwynt hwn. Roeddem yn dweud, eto'n unfrydol, oni wnaed newidiadau sylweddol i gynigion presennol Llywodraeth Cymru am wasanaeth mabwysiadu cenedlaethol—mae'r cynigion roeddem yn eu trafod flwyddyn yn ôl yn cael eu hadlewyrchu yn y Bil yn awr—caiff cyfle o bwys ei golli i wneud gwelliannau y mae mawr eu hangen ym mywydau teuluoedd sy'n mabwysiadu rhai o'r plant mwyaf bregus yng Nghymru. Rydym yn colli cyfle os nad ydym yn symud ymhellach ar hyd y llwybr hwn i ganoli a rheoli gwasanaethau ar lefel genedlaethol. Dyna pam rwy'n cefnogi'r gwelliannau hyn.

The committee also came to a further conclusion; I will conclude with this point. We said, again unanimously, that unless significant changes are made to current proposals by the Welsh Government for a national adoption service—the proposals that we were discussing a year ago are reflected in this Bill—an important opportunity will be missed to make changes that are much needed in the lives of families that adopt some of the most vulnerable children in Wales. We are missing an opportunity unless we go further along this route to centralising and managing services at a national level. That is why I support these amendments.

19:06 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First of all, I thank the members of the Children and Young People Committee for the very extensive work that they did on adoption services in Wales. Like Simon Thomas said, there are sometimes difficulties with our arrangements for sending a Bill to one committee when it has an overarching agenda. That causes problems, despite the best efforts of Members who sit on both committees to try to give a reflection of the work of the Children and Young People Committee in the deliberations on the legislation.

Yn gyntaf oll, hoffwn ddiolch i aelodau'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc am y gwaith helaeth iawn y maent wedi'i wneud ar wasanaethau mabwysiadu yng Nghymru. Fel y dywedodd Simon Thomas, ceir anawsterau weithiau gyda'n trefniadau ar gyfer anfon Bil i un pwyllgor pan mae ganddo agenda drosfwaol. Mae hynny'n peri problemau, er gwaethaf ymdrechion gorau Aelodau sy'n eistedd ar y ddau bwyllgor i geisio adlewyrchu gwaith y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc yn y trafodaethau ar y ddeddfwriaeth.

Welsh Liberal Democrats share the concerns that have already been expressed by Angela Burns and Simon Thomas that we will not see the step change that we need in adoption services if the Government continues to pursue its current course of action. It seems to me that the national adoption service, in some ways, will be little more than a name plaque on a door somewhere, rather than an organisation that can really deliver change in these services for some of the most vulnerable children in our society. I do not want to rehearse the arguments and points made by previous speakers about why it is so important to get adoption services right and about the variation in current adoption services in Wales. I just want to add comments on a specific aspect.

Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn rhannu'r pryderon, sydd eisoes wedi cael eu mynegi gan Angela Burns a Simon Thomas, na fyddwn yn gweld y newid sylfaenol sydd ei angen arnom mewn gwasanaethau mabwysiadu os bydd y Llywodraeth yn parhau i ddilyn ei chwrs presennol. Mae'n ymddangos i mi na fydd y gwasanaeth mabwysiadu cenedlaethol, mewn rhai ffyrdd, yn fawr mwy na phlac enw ar ddrws yn rhywle, yn hytrach na sefydliad a all gyflawni newid gwirioneddol yn y gwasanaethau hyn ar gyfer rhai o'r plant mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas. Nid wyf am ailadrodd y dadleuon a'r pwyntiau a wnaed gan siaradwyr blaenorol ynglŷn â pham y mae mor bwysig cael gwasanaethau mabwysiadu yn iawn ac ynglŷn â'r amrywiad mewn gwasanaethau mabwysiadu ar hyn o bryd yng Nghymru. Nid wyf ond eisiau ychwanegu sylwadau ar un agwedd benodol.

Some of the most distressing casework that I have dealt with in my capacity as Assembly Member for Brecon and Radnorshire is on post-adoptive support for families that have struggled following adoption and, in the worst-case scenario, where adoptions have broken down and families have simply not been able to maintain those relationships. I do not think that we can underestimate how devastating it must be for everybody concerned in that situation not to have the support that they need to make their adoption a success. As I said, the worst-case scenario is where an adoption breaks down. The Children and Young People Committee was very clear about the importance of post-adoptive services and that the national body should have a role in delivering those services, making sure that they are consistent and of high quality. I know that the Deputy Minister realises the importance of those services, but I am very uncertain as to whether what is currently contained in the legislation will deliver on the desire to have those strong and consistent post-adoptive services.

Mae rhywfaint o'r gwaith achos mwyaf trallodus yr wyf wedi delio ag ef yn rhinwedd fy swydd fel Aelod y Cynulliad dros Frycheiniog a Sir Faesyfed wedi ymwneud â chefnogaeth ar ôl mabwysiadu ar gyfer teuluoedd sydd wedi cael trafferth yn dilyn mabwysiadu ac, yn yr achos gwaethaf, lle mae'r trefniant mabwysiadu wedi chwalu a theuluoedd heb allu cynnal y berthynas. Credaf fod yn rhaid inni sylweddoli pa mor ddinistriol ydyw, mae'n rhaid, i bawb dan sylw yn y sefyllfa honno os nad ydynt yn cael y cymorth sydd ei angen i wneud eu trefniant mabwysiadu yn llwyddiant. Fel y dywedais, yr achos gwaethaf yw pan mae trefniant mabwysiadu yn chwalu. Roedd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc yn glir iawn ynglŷn â phwysigrwydd gwasanaethau ar ôl mabwysiadu, ac y dylai fod gan y corff cenedlaethol rôl yn y gwaith o ddarparu'r gwasanaethau hynny, gan sicrhau eu bod yn gyson ac o ansawdd uchel. Gwn fod y Dirprwy Weinidog yn sylweddoli pwysigrwydd y gwasanaethau hynny, ond rwy'n ansicr iawn a fydd yr hyn sydd wedi'i gynnwys ar hyn o bryd yn y ddeddfwriaeth yn gwireddu'r awydd i gael y gwasanaethau ôl-fabwysiadu cryf a chyson hynny.

The amendments put forward by Angela Burns put the power in the hands of Welsh Ministers to give us an alternative should the Welsh Government's current policy fail to deliver the step change. It would be very useful to have that on the face of the Bill as an alternative should the Welsh Government, at a later stage, feel it necessary to amend its policy approach in the light of experience. We hope that the local government family can deliver on the Welsh Government's aspirations, but if it cannot do so, we need an opportunity to step in and provide those services.

Mae'r diwygiadau a gyflwynwyd gan Angela Burns yn rhoi'r grym yn nwylo Gweinidogion Cymru i roi dewis arall i ni pe na byddai polisi presennol Llywodraeth Cymru yn cyflawni'r newid sylfaenol gofynnol. Byddai'n ddefnyddiol iawn cael hynny ar wyneb y Bil fel dewis arall pe byddai Llywodraeth Cymru, yn ddiweddarach, yn teimlo bod angen diwygio ei pholisi yng ngoleuni profiad. Rydym yn gobeithio y gall y teulu llywodraeth leol gyflawni dyheadau Llywodraeth Cymru, ond os na allant wneud hynny, mae angen cyfle i gamu i mewn a darparu'r gwasanaethau hynny.

19:09 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank Members for their kind references to the work of the Children and Young People Committee. As a member of that committee at the time that it undertook this investigation, you will probably not be surprised to hear that I am very disappointed at the inclusion of section 160 in this Bill. It is just one section among many, including three Schedules, as Angela Burns commented on, and I think that I agree here completely with Simon Thomas that this is a missed opportunity.

Diolch i'r Aelodau am eu cyfeiriadau caredig at waith y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc. Fel aelod o'r pwyllgor hwnnw ar yr adeg y cynhaliodd yr ymchwiliad hwn, mae'n debyg na fyddwch yn synnu clywed fy mod yn siomedig iawn ynghylch cynnwys adran 160 yn y Bil hwn. Dim ond un adran ydyw ymhlith llawer, gan gynnwys tair Atodlen, fel y soniodd Angela Burns, ac rwy'n meddwl fy mod yn cytuno'n llwyr yma â Simon Thomas bod hwn yn gyfle a gollwyd.

In the debate on the report in January of last year, Deputy Minister, you commended the work of the committee, noting that we supported your view that radical reform is needed, and that the establishment of a national adoption service, as identified in 'Sustainable Social Services for Wales: A Framework for Action' will provide a mechanism for change. Those were your words, Deputy Minister. You went on to say that,

Yn y ddadl ar yr adroddiad ym mis Ionawr y llynedd, Ddirprwy Weinidog, roeddech yn canmol gwaith y pwyllgor, gan nodi ein bod yn cefnogi eich barn bod angen diwygio radical, ac y byddid yn darparu mecanwaith ar gyfer newid trwy sefydlu gwasanaeth mabwysiadu cenedlaethol, fel y nodwyd yn 'Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu'. Dyna oedd eich geiriau, Ddirprwy Weinidog. Aethoch ymlaen i ddweud bod,

'there is a need for a major shift in the way that adoption services are organised and delivered'.

'angen newid mawr yn y ffordd y caiff gwasanaethau mabwysiadu eu trefnu a'u darparu. '

Even though you disagreed with the committee's views about what a national adoption service might look like, you agreed with us on this, and said:

Er eich bod yn anghytuno â barn y pwyllgor ynglŷn â sut beth y gallai gwasanaeth mabwysiadu cenedlaethol fod, roeddech yn cytuno â ni ar hyn, gan ddweud:

'I expect the national adoption service to be headed by a senior person who has the autonomy to make decisions.'

'Rwy'n disgwyl i'r gwasanaeth mabwysiadu cenedlaethol gael ei arwain gan berson ar lefel uwch sydd â'r ymreolaeth i wneud penderfyniadau.'

So, you agreed that there should be a national adoption service, something that you had already headlined in a statement in January 2012, and you agreed that it needed to be headed by someone in a position of clear leadership to make independent decisions—a feature, incidentally, introduced into the committee's discussions by a backbench Member of your own party, and supported by us all unanimously.

Felly, roeddech yn cytuno y dylid cael gwasanaeth mabwysiadu cenedlaethol, rhywbeth yr oeddech eisoes wedi rhoi sylw amlwg iddo mewn datganiad ym mis Ionawr 2012, ac fe wnaethoch gytuno bod angen iddo gael ei arwain gan rywun mewn sefyllfa o arweinyddiaeth glir i wneud penderfyniadau annibynnol—nodwedd , gyda llaw, a gyflwynwyd i drafodaethau'r pwyllgor gan Aelod o feinciau cefn eich plaid eich hun, ac a gefnogir gan bob un ohonom yn unfrydol.

Section 160 provides neither radical reform nor independent leadership, despite the fact that you called independent leadership

Nid yw adran 160 yn darparu diwygiadau radical nac arweinyddiaeth annibynnol, er gwaethaf y ffaith eich bod wedi galw am arweinyddiaeth annibynnol

'a critical part of the new service'.

'yn rhan hanfodol o'r gwasanaeth newydd.'

Section 160 merely creates a power for Welsh Ministers—by virtue of a completely different statute, incidentally—to direct local authorities to take certain steps, steps which amount to little more than co-operation. The one subsection that refers obliquely to responsibility and operation of those arrangements makes it plain that the structure and choice of person for any leadership role remains entirely a matter for Welsh Ministers when—and only when—they may wish to direct their minds to this subject at any point in the future.

Nid yw adran 160 ond yn creu pŵer i Weinidogion Cymru—yn rhinwedd statud hollol wahanol, gyda llaw—roi cyfarwyddiadau i awdurdodau lleol gymryd camau penodol, camau nad ydynt yn golygu fawr mwy na chydweithrediad. Mae'r un is-adran sy'n cyfeirio'n anuniongyrchol at gyfrifoldeb a gweithrediad y trefniadau hynny yn ei gwneud yn glir mai mater i Weinidogion Cymru yn unig o hyd yw'r strwythur a dewis unigolyn ar gyfer unrhyw swyddogaeth arweinyddiaeth pan fyddant yn dymuno cyfeirio eu meddyliau at y pwnc hwn ar unrhyw adeg yn y dyfodol—a dim ond bryd hynny.

This is a million miles away from radical reform. It is yet another example of barest framework legislation, which has been criticised consistently by the Constitutional and Legislative Affairs Committee. It is no more a convincing demonstration of clear policy intention than an agreement to agree in a contract is a demonstration of certainty.

Mae hwn filltiroedd maith o fod yn ddiwygiad radical. Mae'n enghraifft arall eto o ddeddfwriaeth fframwaith cyfyng, sydd wedi cael ei feirniadu yn gyson gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol. Nid yw'n arwydd argyhoeddiadol o fwriad polisi clir, ddim mwy nag y mae cytundeb i gytuno mewn contract yn arwydd o sicrwydd.

Deputy Minister, it is you that has called this a once-in-a-generation piece of legislation. If so, why is section 160 even included? It is a solitary pale wisp of vagueness hiding among 183 sections. If you have so little to offer adopters in this Bill, why include it in the Bill at all? It says much that it has been left to the official opposition to revive and draft the amendments that will deliver the consistency that is missing at the moment and the fairness that the non-council agencies are looking for from this Bill, but also the flagship policy itself.

Ddirprwy Weinidog, chi sydd wedi dweud bod y darn hwn o ddeddfwriaeth yn un a fydd yn codi unwaith mewn cenhedlaeth. Os felly, pam y mae adran 160 wedi ei chynnwys hyd yn oed? Nid yw'n ddim mwy na chwiffiad gwan o amwysedd yn cuddio ymysg 183 adran arall. Os oes gennych chi cyn lleied i'w gynnig i fabwysiadwyr yn y Bil hwn, pam ei gynnwys yn y Bil o gwbl? Mae'n dweud llawer mai'r wrthblaid swyddogol sydd wedi gorfod adfywio a drafftio'r gwelliannau a fydd yn darparu'r cysondeb sydd ar goll ar hyn o bryd, a'r tegwch y mae'r asiantaethau nad ydynt yn gynghorau yn dymuno'i weld yn y Bil hwn, ond hefyd y polisi blaenllaw ei hun.

I hope that Members will support these amendments, which are drafted to bring certainty to a weak area of the Bill and the delivery of a service that we and adopters were promised as far ago as 2012. Angela Burns' amendments go a very considerable way towards the creation of a genuine national adoption service, with independent leadership and accountability to this Assembly. I urge all Members, including former members of the Children and Young People Committee, to support these amendments today.

Rwy'n gobeithio y bydd yr Aelodau'n cefnogi'r gwelliannau hyn, sydd wedi cael eu drafftio i ddod â sicrwydd i fan gwan yn y Bil a chyflwyno gwasanaeth a addawyd i ni ac i fabwysiadwyr cyn belled yn ôl â 2012. Mae diwygiadau Angela Burns yn cymryd camau sylweddol iawn tuag at greu gwasanaeth mabwysiadu cenedlaethol gwirioneddol, ag arweinyddiaeth annibynnol ac atebolrwydd i'r Cynulliad hwn. Rwy'n annog yr holl Aelodau, gan gynnwys cyn-aelodau o'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, i gefnogi'r gwelliannau hyn heddiw.

19:13

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Deputy Minister.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog.

19:13

## Gwenda Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am grateful to Angela Burns for tabling these amendments, and for the contributions that we have heard this afternoon. I am also grateful to Angela for providing an opportunity to discuss the fundamental reforms that we are driving forward regarding the way in which adoption services are delivered in Wales.

Rwy'n ddiolchgar i Angela Burns am gyflwyno'r gwelliannau hyn, ac am y cyfraniadau yr ydym wedi'u clywed y prynhawn yma. Rwyf hefyd yn ddiolchgar i Angela am ddarparu cyfle i drafod y diwygiadau sylfaenol yr ydym yn eu hyrwyddo o ran y ffordd y caiff gwasanaethau mabwysiadu eu darparu yng Nghymru.

Members will be aware that through my 'Sustainable Social Services for Wales: A Framework for Action' transformation programme, I have tasked the local authorities with establishing a national adoption service. The intent is that the national service will deliver efficiencies and better outcomes for children and families in Wales. Indeed, we are beginning to see this already. I published details of the functional model for the new service alongside my written statement to the Assembly last April. I have updated Members through my evidence during Stages 1 and 2 of the scrutiny of the Bill. Within the past week, I have received an update from the Welsh Local Government Association and the Association of Directors of Social Services Cymru. This reaffirms the strong political and professional commitment to delivering the new model this year. The national service will be owned and run by local authorities, with whom statutory responsibility for adoption services rests. But, it is being designed, and key aspects of it will be delivered, in partnership with the third sector.

Bydd yr Aelodau'n ymwybodol fy mod, trwy fy rhaglen drawsnewid 'Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu', wedi gofyn i awdurdodau lleol sefydlu gwasanaeth mabwysiadu cenedlaethol. Y bwriad yw y bydd y gwasanaeth cenedlaethol yn sicrhau effeithlonrwydd a gwell canlyniadau i blant a theuluoedd yng Nghymru. Yn wir, rydym yn dechrau gweld hyn yn barod. Cyhoeddais fanylion y model gweithredol ar gyfer y gwasanaeth newydd ochr yn ochr â'm datganiad ysgrifenedig i'r Cynulliad fis Ebrill diwethaf. Rwyf wedi rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau drwy fy nhystiolaeth yn ystod Cyfnodau 1 a 2 o graffu ar y Bil. O fewn yr wythnos ddiwethaf, rwyf wedi cael y wybodaeth ddiweddaraf gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru. Mae hon yn cadarnhau'r ymrwymiad gwleidyddol a phroffesiynol cryf i roi'r model newydd ar waith eleni. Bydd awdurdodau lleol yn berchen ar y gwasanaeth cenedlaethol ac yn ei redeg, gan mai nhw sydd â'r cyfrifoldeb statudol ar gyfer gwasanaethau mabwysiadu. Ond, mae'n cael ei gynllunio, a bydd agweddau allweddol ohono'n cael eu cyflwyno, mewn partneriaeth â'r trydydd sector.

19:15 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am very grateful to the Deputy Minister for taking the intervention and for updating the Assembly as she has gone through this process. But, if you are confident in the model that the WLGA is now putting before you at quite a late stage, why are you including section 160 by virtue of a power to look at adoption rather than an obligation or a duty on the Government to introduce it?

Rwy'n ddiolchgar iawn i'r Dirprwy Weinidog am dderbyn yr ymyriad ac am roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cynulliad wrth iddi fynd drwy'r broses hon. Ond, os ydych yn hyderus yn y model y mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn ei roi ger eich bron nawr ar gam eithaf hwyr, pam yr ydych yn cynnwys adran 160 yn rhinwedd pŵer i edrych ar fabwysiadu yn hytrach na rhwymedigaeth neu ddyletswydd ar y Llywodraeth i gyflwyno hyn?

19:15 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think that all will be clear by the time that I have finished speaking, Presiding Officer.

Rwy'n meddwl y bydd popeth yn glir imi orffen siarad, Lywydd.

As Members will be aware, I commissioned research into an appropriate performance framework to ensure that the reforms lead to better outcomes, including reduced delays for children and prospective adopters. My statement last spring identified my expectations in terms of accountability to Welsh Ministers and confirmed that the new model would have within it appropriate and effective governance arrangements. These would include a national director of operations who would be accountable professionally to a national board for adoption services, established by local government.

Fel y gŵyr yr Aelodau, comisiynais ymchwil i fframwaith perfformiad priodol er mwyn sicrhau bod y diwygiadau yn arwain at well canlyniadau, gan gynnwys llai o oedi ar gyfer plant a darpar fabwysiadwyr. Roedd fy natganiad y gwanwyn diwethaf yn nodi fy nisgwyliadau o ran atebolrwydd i Weinidogion Cymru ac yn cadarnhau y byddai'r model newydd yn cynnwys trefniadau llywodraethu priodol ac effeithiol. Byddai'r rhain yn cynnwys cyfarwyddwr gweithrediadau cenedlaethol a fyddai'n atebol yn broffesiynol i fwrdd cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau mabwysiadu, wedi'i sefydlu gan lywodraeth leol.

I have listened carefully to the points made by Angela Burns and all of you this afternoon in support of Angela's amendment 325 and consequential amendments 326 to 330. These amendments propose the creation of a new statutory national board. The new board would encompass many of the features of the new national adoption service, but, critically, it would remove responsibility for these features from local government and set them apart from the national service.

Rwyf wedi gwrando'n ofalus ar y pwyntiau a wnaed gan Angela Burns a phob un ohonoch y prynhawn yma o blaid gwelliant 325 gan Angela a gwelliannau canlyniadol 326 i 330. Mae'r gwelliannau hyn yn cynnig creu bwrdd cenedlaethol statudol newydd. Byddai'r bwrdd newydd yn cwmpasu llawer o nodweddion y gwasanaeth mabwysiadu cenedlaethol newydd, ond, o bwys mawr, byddai'n cymryd y cyfrifoldeb am y nodweddion hyn oddi ar lywodraeth leol ac yn eu gosod ar wahân i'r gwasanaeth cenedlaethol.

While I can see the potential perceived gains in separating delivery and accountability, I am concerned at the potential for roles to become blurred and ownership to be diluted. I strongly believe that local government can deliver, in partnership—very importantly—with the third sector, fundamental change of the kind we are all seeking. A national board, which includes democratic, professional and independent membership, established by local government to oversee the change, with appropriate reporting lines to Welsh Ministers, is the right way to proceed.

Er fy mod yn gallu gweld y buddion posibl canfyddedig wrth wahanu atebolrwydd oddi wrth y broses gyflwyno, rwy'n poeni am y potensial i swyddogaethau fod yn aneglur ac i berchnogaeth gael ei gwanhau. Credaf yn gryf y gall llywodraeth leol, mewn partneriaeth gyda'r trydydd sector—yn bwysig iawn—gyflawni newid sylfaenol o'r math yr ydym i gyd yn ei geisio. Bwrdd cenedlaethol, sy'n cynnwys aelodaeth ddemocrataidd, broffesiynol ac annibynnol, wedi'i sefydlu gan lywodraeth leol i oruchwylio'r newid, â llinellau adrodd priodol i Weinidogion Cymru, yw'r ffordd gywir i symud ymlaen.

I have previously made clear that if we do not see the improvements we expect, the Welsh Ministers would use the significant powers at section 160 of the Bill to direct local authorities to make this happen. I appreciate however that there remains unease in this Chamber about these arrangements. I have listened to the concerns that the arrangements may not be sufficiently robust. I will therefore give a categorical assurance today that the Welsh Ministers will use the powers at section 160 of the Bill to direct local authorities as regards the new arrangements for delivering adoption services. These powers of direction are extensive and include arrangements for the pooling of resources, including staff, establishment of an adoption panel and operation and management arrangements, which will include governance, amongst other things.

Rwyf wedi ei gwneud yn glir yn flaenorol y byddai Gweinidogion Cymru, os nad ydym yn gweld y gwelliannau yr ydym yn eu disgwyl, yn defnyddio'r pwerau sylweddol yn adran 160 y Bil i roi cyfarwyddiadau i awdurdodau lleol wneud i hyn ddigwydd. Rwy'n gwerthfawrogi, fodd bynnag, fod anesmwythder yn parhau i fod yn y Siambr hon ynglŷn â'r trefniadau hyn. Rwyf wedi gwrando ar y pryderon na fydd y trefniadau o bosibl yn ddigon cadarn. Felly, byddaf yn rhoi sicrwydd pendant heddiw y bydd Gweinidogion Cymru yn defnyddio'r pwerau yn adran 160 y Bil i roi cyfarwyddiadau i awdurdodau lleol o ran y trefniadau newydd ar gyfer darparu gwasanaethau mabwysiadu. Mae'r pwerau cyfarwyddo yn helaeth ac yn cynnwys trefniadau ar gyfer cyfuno adnoddau, gan gynnwys staff, sefydlu panel mabwysiadu a threfniadau gweithredu a rheoli, a fydd yn cynnwys llywodraethu, ymhlith pethau eraill.

Furthermore, the work to draft and consult upon the directions will be prioritised, so that the arrangements are in place and on a statutory footing in advance of the planned implementation of the Act in April 2016. For these reasons, and in light of my clear commitment to use the statutory powers, I would ask Members not to support amendments 325 to 330.

Hefyd, rhoddir blaenoriaeth i'r gwaith o ddrafftio ac ymgynghori ar y cyfarwyddiadau, fel bod y trefniadau wedi'u sefydlu ac ar sail statudol cyn y dyddiad arfaethedig ar gyfer gweithredu'r Ddeddf ym mis Ebrill 2016. Am y rhesymau hyn, ac yng ngoleuni fy ymrwymiad clir i ddefnyddio'r pwerau statudol, byddwn yn gofyn i Aelodau beidio â chefnogi gwelliannau 325 i 330.

19:19

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I call on Angela Burns. May I remind Members to turn their mobile phones off, because it is affecting the equipment? Angela Burns to reply to the debate.

Galwaf ar Angela Burns. A gaf i atgoffa'r Aelodau i ddiffodd eu ffonau symudol, gan ei fod yn effeithio ar y cyfarpar? Angela Burns i ymateb i'r ddadl.

19:19

## Angela Burns Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you very much, Presiding Officer. I would like to thank everyone who has spoken on this incredibly important section. Before I reply to you, Deputy Minister, I am very grateful for the comments that you have made. I just want to remind people that there are 15 separate adoption agencies in Wales, there are three regional adoption services and there are two voluntary adoption agencies. To bring all those bodies together in a cohesive unit to provide adequate adoption services, let alone world-beating adoption services for children, will take an enormous amount of political will—political will, Deputy Minister, I have absolutely no doubt that you possess. My fear is that you will become frustrated by the difficulties of bringing together these disparate groups. I have concerns because I too have looked at your functional model for the national adoption service. We are talking about having five regional adoption collaboratives. I have seen how long it has taken to get the four regional education collaboratives up and running and really doing what they should be doing, and that is why I am so hesitant to say, 'Yippee, it is all going to be fine'. We undertook such a comprehensive inquiry that we are under absolutely no illusions as to the enormous difficulties that are facing you.

Diolch yn fawr iawn, Lywydd. Hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi siarad ar yr adran hynod bwysig hon. Cyn i mi ymateb i chi, Ddirprwy Weinidog, rwy'n ddiolchgar iawn am y sylwadau yr ydych wedi'u gwneud. Rwyf eisiau atgoffa pobl bod 15 asiantaeth fabwysiadu ar wahân yng Nghymru, yn ogystal â thri gwasanaeth mabwysiadu rhanbarthol a dwy asiantaeth fabwysiadu wirfoddol. Bydd angen llawer iawn o ewyllys wleidyddol—ewyllys wleidyddol, Ddirprwy Weinidog, nad oes gennyf amheuaeth eich bod yn meddu arni—i ddod â'r holl gyrff hynny at ei gilydd mewn uned gydlynol i ddarparu gwasanaethau mabwysiadu digonol, heb sôn am wasanaethau mabwysiadu diguro i blant. Fy ofn yw y byddwch yn dod yn rhwystredig gan yr anawsterau o ddwyn y grwpiau gwahanol ynghyd. Mae gennyf bryderon am fy mod innau hefyd wedi edrych ar eich model ymarferol ar gyfer y gwasanaeth mabwysiadu cenedlaethol. Rydym yn sôn am gael pum sefydliad cydweithredol rhanbarthol ar gyfer mabwysiadu. Rwyf wedi gweld pa mor hir y mae wedi'i gymryd i gael y pedwar sefydliad cydweithredol rhanbarthol ar gyfer addysg ar waith ac yn gwneud yr hyn y dylent ei wneud, a dyna pam yr wyf mor betrusgar i ddweud, 'Hwrê, mae popeth yn mynd i fod yn iawn'. Cynhaliwyd ymchwiliad mor gynhwysfawr gennym fel nad ydym dan unrhyw gamargraff o gwbl ynghylch yr anawsterau enfawr sy'n eich wynebu.

Of course I welcome your commitment—I welcome your personal commitment and your commitment on behalf of the Welsh Government to ensure that this will be moved forward at pace and in a positive way. I certainly was not trying to take away from local authorities their responsibility to carry out their functions. What I was seeking to do by putting in those amendments was that, when you read them in the context of the main framework, plus our amendments, it would read that they were still in charge of the delivery element of it, but that their strategic direction and their framework, and issues such as capacity and training, would be directed by some kind of national person, because what we found was that it was such a mixed bag across Wales.

Rwy'n croesawu eich ymrwymiad wrth gwrs—rwy'n croesawu eich ymrwymiad personol a'ch ymrwymiad ar ran Llywodraeth Cymru i sicrhau y bydd hyn yn cael ei symud ymlaen ar gyflymder ac mewn ffordd gadarnhaol. Yn sicr, nid oeddwn yn ceisio cymryd eu cyfrifoldeb i gyflawni eu swyddogaethau oddi wrth awdurdodau lleol. Yr hyn yr oeddwn yn ceisio ei wneud trwy gyflwyno'r gwelliannau hynny oedd y byddai'n golygu, wrth eu darllen yng nghyd-destun y prif fframwaith, yn ogystal â'n gwelliannau, eu bod yn dal i fod yn gyfrifol am yr elfen gyflawni, ond bod eu cyfeiriad strategol a'u fframwaith, a materion megis capasiti a hyfforddiant, yn cael eu llywio gan ryw fath o berson cenedlaethol, oherwydd mai'r hyn a welsom oedd y ceir cymaint o gymysgedd ar draws Cymru.

I am led to believe that this will be moving forward to Report Stage. I would like to perhaps take the opportunity to reflect on what you have said and maybe suggest one or two other things that you may wish to consider to try to ensure—. Kirsty Williams used the words 'step change'; this is a step change and is our opportunity. Simon Thomas referred to it as our lost opportunity. It is our one and only opportunity. If you do not get this right and it all swings around in the mire like a lot of things do in this kind of space, in a couple of years' time, we will come back and revisit it and it will be another few more years when we are not doing what we say we want to do.

Rwy'n cael ar ddeall y bydd hyn yn symud ymlaen i Gyfnod Adrodd. Hoffwn efallai gymryd y cyfle i fyfyrio ar yr hyn yr ydych wedi'i ddweud ac efallai awgrymu un neu ddau o bethau eraill y gallech fod am eu hystyried er mwyn ceisio sicrhau—defnyddiodd Kirsty Williams y geiriau 'newid sylfaenol', mae hwn yn newid sylfaenol a dyma ein cyfle. Cyfeiriodd Simon Thomas ato fel cyfle a gollwyd. Dyma ein hunig gyfle. Os nad ydych yn cael hyn yn iawn a bod y cyfan yn troi yn ei unfan yn y gors fel y mae llawer o bethau yn ei wneud yn y math hwn o ofod, mewn ychydig o flynyddoedd, byddwn yn dod yn ôl ac yn edrych ar hyn drachefn a bydd ychydig o flynyddoedd eto pan nad ydym yn gwneud yr hyn a ddywedwn ein bod am ei wneud.

I am going to ask for a vote on this because I want to be able to register our strength of opinion, but I do not want you to take that as me taking away any of my recognition and respect for the comments and commitments that you have just made. However, the proof is in the pudding and I do not have an enormous amount of faith in other organs of the wider governmental sphere and local government to be able to deliver this. This is a very particular need for a very particular group of people and the past has shown that it has always been shoved on to the backburner and that they are still languishing in systems where they need not be.

Rwy'n mynd i ofyn am bleidlais ar hyn gan fy mod eisiau gallu cofrestru cryfder ein barn, ond nid wyf am i chi ystyried bod hynny'n golygu bod fy nghydnabyddiaeth o'r sylwadau a'r ymrwymiadau yr ydych newydd eu gwneud a'm parch tuag atynt yn ddim llai. Fodd bynnag, wrth ei flas mae profi pwdin, ac nid oes gennyf lawer iawn o ffydd yn organau eraill y maes llywodraethu ehangach a llywodraeth leol i allu cyflawni hyn. Mae hwn yn angen arbennig iawn ar gyfer grŵp penodol iawn o bobl ac mae profiad y gorffennol wedi dangos ei fod bob amser yn cael ei wthio o'r neilltu a'u bod yn dal i ddihoeni mewn systemau lle nad oes angen iddynt fod.

19:24

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

If amendment 325 is not agreed, amendments 326, 327, 328, 329, 330 and 324 will fall. The question is that amendment 325 be agreed to. Are there any objections? There is objection. We will move straight to a vote.

Os nad yw gwelliant 325 yn cael ei dderbyn, bydd gwelliannau 326, 327, 328, 329, 330 a 324 yn methu. Y cwestiwn yw bod gwelliant 325 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw wrthwynebiadau? Ceir gwrthwynebiad. Byddwn yn symud yn syth i bleidlais.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 325]

[Result of the vote on amendment 325]

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 27, Yn erbyn 27, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 27, Against 27, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog Rhif 6.20, defnyddiodd y Llywydd ei phleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order No. 6.20, the Presiding Officer exercised her casting vote by voting against the amendment.*

*Methodd gwelliannau 326, 327, 328 a 329.*

*Amendments 326, 327, 328 and 329 fell.*

19:24

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

I remind Members to try to vote when I call the vote and not delay. That would be helpful.

Atgoffaf yr Aelodau i geisio pleidleisio pan fyddaf yn galw pleidlais ag i beidio ag oedi. Byddai hynny'n help.

I call on the Deputy Minister to move amendment 247. Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 247.

19:24 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 247 in my name.

Cynigiaf welliant 247 yn fy enw i.

19:24 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 247 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, so amendment 247 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 247 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiadau, felly caiff gwelliant 247 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 247 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 247 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

19:25 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I call on the Deputy Minister to move amendment 248.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 248.

19:25 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 248 in my name.

Cynigiaf welliant 248 yn fy enw i.

19:25 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 248 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, so amendment 248 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 248 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiadau, felly caiff gwelliant 248 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 248 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 248 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

19:25 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I call on the Deputy Minister to move amendment 249.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 249.

19:25 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 249 in my name.

Cynigiaf welliant 249 yn fy enw i.

19:25 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 249 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, so amendment 249 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 249 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiadau, felly caiff gwelliant 249 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 249 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 249 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

## Grŵp 44: Sylwadau sy’n Ymwneud â Phlant Penodol (Gwelliannau 250, 251, 253, 255, 257 a 258)

## Group 44: Representations relating to Certain Children (Amendments 250, 251, 253, 255, 257 and 258)

19:25 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The lead amendment in the group is amendment 250. I call on the Deputy Minister to move amendment 250 and to speak to it and the other amendments in the group.

Y prif welliant yn y grŵp yw gwelliant 250. Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 250 ac i siarad am hwnnw ac am y gwelliannau eraill yn y grŵp.

19:25 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 250 in my name.

Cynigiaf welliant 250 yn fy enw i.

These groups deal with a series of amendments to sections 164, 165 and 167 of the Bill, which provide for representations to be made in relation to certain children.

Mae'r grwpiau hyn yn ymdrin â chyfres o welliannau i adrannau 164, 165 a 167 o'r Bil, sy'n darparu ar gyfer cyflwyno sylwadau mewn cysylltiad â phlant penodol.

Amendment 250 is a technical amendment that has the effect of removing any doubt as to whether the child referred to is the same child as that about whom the representations are made. This additional clarity is important in recognition that Part 6 of the Bill deals not only with children currently looked after—the 'child'—but also a number of other different sorts of 'care leaver' who are over the age of 18.

Mae gwelliant 250 yn welliant technegol sy'n cael yr effaith o ddileu unrhyw amheuaeth ai'r plentyn y cyfeirir ato yw'r plentyn y cyflwynwyd sylwadau amdano. Mae'r eglurder ychwanegol hwn yn bwysig er mwyn cydnabod bod Rhan 6 o'r Bil yn ymdrin â nifer o wahanol fathau o 'rai sy'n gadael gofal ' sydd dros 18 oed yn ogystal â phlant sy'n derbyn gofal ar hyn o bryd—y 'plentyn'.

Amendments 251, 253 and 255 are necessary to reflect the fact that representations are capable of being made in relation to a person other than a child. Changing the reference from 'child' to 'person' is a further recognition of the duties under the Bill that require local authorities to deal with representations from former looked-after children. Amendments 257 and 258 are also important technical amendments that ensure clarity and consistency of drafting in line with my policy intent.

Mae gwelliannau 251, 253 a 255 yn angenrheidiol i adlewyrchu'r ffaith y gellir cyflwyno sylwadau mewn cysylltiad â pherson nad yw'n blentyn. Mae newid y cyfeiriad o 'plentyn' i 'person' yn gydnabyddiaeth ychwanegol o'r dyletswyddau o dan y Bil sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ymdrin â sylwadau gan blant a oedd yn arfer derbyn gofal. Mae gwelliannau 257 a 258 hefyd yn welliannau technegol pwysig sy'n sicrhau drafftio eglur a chyson yn unol â'm bwriad polisi.

I ask Members to support these amendments.

Gofynnaf i'r Aelodau gefnogi'r gwelliannau hyn.

19:26 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have no speakers. The question is that amendment 250 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, so amendment 250 is agreed.

Nid oes gennyf unrhyw siaradwyr. Y cwestiwn yw bod gwelliant 250 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiadau, felly caiff gwelliant 250 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 250 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 250 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

19:27 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Deputy Minister to move amendment 251.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 251.

19:27 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 251 in my name.

Cynigiaf welliant 251 yn fy enw i.

19:27 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 251 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, so amendment 251 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 251 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiadau, felly caiff gwelliant 251 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 251 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 251 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

19:27 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Deputy Minister to move amendment 252.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 252.

19:27 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 252 in my name.

Cynigiaf welliant 252 yn fy enw i.

19:27 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 252 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, so amendment 252 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 252 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiadau, felly caiff gwelliant 252 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 252 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 252 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

19:27 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Deputy Minister to move amendment 253.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 253.

19:27 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 253 in my name.

Cynigiaf welliant 253 yn fy enw i.

19:27 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 253 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, so amendment 253 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 253 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiadau, felly caiff gwelliant 253 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 253 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 253 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

19:27 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Deputy Minister to move amendment 254.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 254.

19:27 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 254 in my name.

Cynigiaf welliant 254 yn fy enw i.

19:27 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 254 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, so amendment 254 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 254 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiadau, felly caiff gwelliant 254 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 254 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 254 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

19:27 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Deputy Minister to move amendment 255.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 255.

19:27 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 255 in my name.

Cynigiaf welliant 255 yn fy enw i.

19:27 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 255 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, so amendment 255 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 255 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiadau, felly caiff gwelliant 255 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 255 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 255 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

19:27 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Deputy Minister to move amendment 256.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 256.

19:27 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

I move amendment 256 in my name.

Cynigiaf welliant 256 yn fy enw i.

Senedd.tv Fideo Video

19:27 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

The question is that amendment 256 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, so amendment 256 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 256 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiadau, felly caiff gwelliant 256 ei dderbyn.

Senedd.tv Fideo Video

*Derbyniwyd gwelliant 256 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 256 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

19:28 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

I call on the Deputy Minister to move amendment 257.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 257.

Senedd.tv Fideo Video

19:28 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

I move amendment 257 in my name.

Cynigiaf welliant 257 yn fy enw i.

Senedd.tv Fideo Video

19:28 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

The question is that amendment 257 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, so amendment 257 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 257 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiadau, felly caiff gwelliant 257 ei dderbyn.

Senedd.tv Fideo Video

*Derbyniwyd gwelliant 257 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 257 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

19:28 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

I call on the Deputy Minister to move amendment 258.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 258.

Senedd.tv Fideo Video

19:28 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

I move amendment 258 in my name.

Cynigiaf welliant 258 yn fy enw i.

Senedd.tv Fideo Video

19:28 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

The question is that amendment 258 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, so amendment 258 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 258 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiadau, felly caiff gwelliant 258 ei dderbyn.

Senedd.tv Fideo Video

*Derbyniwyd gwelliant 258 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 258 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

19:28 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

I call on the Deputy Minister to move amendment 259.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 259.

Senedd.tv Fideo Video

19:28 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

I move amendment 259 in my name.

Cynigiaf welliant 259 yn fy enw i.

Senedd.tv Fideo Video

19:28 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

The question is that amendment 259 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, so amendment 259 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 259 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiadau, felly caiff gwelliant 259 ei dderbyn.

Senedd.tv Fideo Video

*Derbyniwyd gwelliant 259 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 259 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

19:28 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

I call on the Deputy Minister to move amendment 289.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 289.

19:28 **Gwenda Thomas** [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

I move amendment 289 in my name.

Cynigiaf welliant 289 yn fy enw i.

19:28 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad] [Biography]
However, there is one area of concern that the Minister, with the regulation-making powers that are granted in this amendment, could address. The first, of course, is that issue of exclusivity—that is where there are no minimum hours guaranteed, but you were not permitted to work for another company. There is also the transparency, of course, so that it is clear to all exactly what is expected. There is also the uncertainty of earnings, and the balance of power in the employment relationship. Where someone is working regularly for a company over a prolonged period they should expect employment rights. I feel that it is important that the Deputy Minister should be able to amend that definition of zero hours contracts in order that she is not hampered or fettered in the future by the definition that is currently laid down.

Fodd bynnag, mae un maes sy'n peri pryder y gallai'r Gweinidog, gyda'r pwerau i wneud rheoliadau a ganiateir yn y gwelliant hwn, fynd i'r afael â hwy. Y cyntaf, wrth gwrs, yw'r mater hwnnw o ddetholusrwydd—dyna pryd nad oes isafswm oriau gwarantedig, ond nad ydych yn cael gweithio i gwmni arall. Ceir hefyd y tryloywder, wrth gwrs, fel ei bod yn glir i bawb yn union yr hyn a ddisgwylir. Ceir hefyd yr ansicrwydd o enillion, a'r cydbwysedd pŵer yn y berthynas gyflogaeth. Pan fo rhywun yn gweithio'n rheolaidd i gwmni dros gyfnod hir dylent ddisgwyl cael hawliau cyflogaeth. Rwy'n teimlo ei bod yn bwysig y dylai'r Dirprwy Weinidog allu newid y diffiniad hwnnw o gontractau dim oriau, fel nad yw hi'n cael ei rhwystro neu ei llyffetheirio yn y dyfodol gan y diffiniad sy'n cael ei gyflwyno ar hyn o bryd.

Therefore, just remember then that the flexibility that some employers and their advocates demands comes at a cost that we should not be prepared to pay, and that is workers' rights, workers' health, and common decency.

Felly, cofiwch fod yr hyblygrwydd y mae rhai cyflogwyr a'u heiriolwyr yn ei fynnu yn dod ar gost na ddylem fod yn barod i'w thalu, a hynny yw hawliau, gweithwyr, iechyd gweithwyr, a chwrteisi cyffredin.

19:52

## Kirsty Williams Bywgraffiad Biography

I thank Jocelyn Davies for bringing forward the amendments today.

Diolch i Jocelyn Davies am gyflwyno'r gwelliannau heddiw.

Jocelyn's contribution focused very heavily on the effects of zero hours contracts on those who are asked to deliver a service. However, I would also contend that zero hours contracts have a very negative effect on those people who are in receipt of the service as well. The instability that Jocelyn outlined in her contribution often means that the care sector, and the domiciliary care sector, is not an attractive place to work. Many of those who work in the sector often leave when the chance of more permanent and more secure employment arises. We know that what many of those who are in receipt of social care value the most is continuity of service. After all, if you have someone coming into your house to bathe you and to toilet you, having a different person every day is not going to add to your dignity and your comfortableness in dealing with that situation. Therefore, these practices make it very difficult to maintain continuity of care for those who are in receipt of the service.

Roedd cyfraniad Jocelyn yn canolbwyntio'n helaeth iawn ar effeithiau contractau dim oriau ar y rhai y gofynnir iddynt ddarparu gwasanaeth. Fodd bynnag, byddwn hefyd yn dadlau bod contractau dim oriau yn cael effaith negyddol iawn ar y bobl hynny sy'n derbyn y gwasanaeth yn ogystal. Mae'r ansefydlogrwydd yr oedd Jocelyn yn ei amlinellu yn ei chyfraniad yn aml yn golygu nad yw'r sector gofal, a'r sector gofal cartref, yn lle deniadol i weithio ynddo. Mae llawer o'r rhai sy'n gweithio yn y sector yn aml yn gadael pan fydd y siawns o gyflogaeth fwy parhaol a mwy diogel yn codi. Rydym yn gwybod mai'r hyn y mae llawer o'r rhai sydd yn derbyn gwerthoedd gofal cymdeithasol yn ei werthfawrogi fwyaf yw dilyniant mewn gwasanaeth. Wedi'r cyfan, os oes gennych rywun yn dod i mewn i'ch tŷ i'ch ymolchi chi a'ch helpu i ddefnyddio'r tŷ bach, nid yw cael gwahanol berson bob dydd yn mynd i ychwanegu at eich urddas a'ch cyfforddusrwydd wrth ymdrin â'r sefyllfa honno. Felly, mae'r arferion hyn yn ei gwneud yn anodd iawn i gynnal dilyniant mewn gofal ar gyfer y rhai sy'n derbyn y gwasanaeth.

Back in the summer of 2013, Powys County Council announced that it was ending the direct provision of domiciliary care services within the county, and that it planned to commission all of its domiciliary care from the private sector. Given that we had already experienced problems with market failure in the domiciliary care sector in parts of Brecon and Radnorshire—and, let us face it, it is not an easy place to make money, where you have clients who are spread over a large geographical area—this decision caused a great deal of concern. When challenged, the then director of adult social care stated that the reason they could not carry on providing the service was because Powys County Council could no longer recruit an adequate number of domiciliary care workers. I found that very curious and hard to believe, given that I knew that Powys County Council—fair play to it—paid more than the average private sector domiciliary care agency. 'Aha', he said, 'the problem is zero hours contracts'. They had created their own recruitment difficulties within the county because of this practice. We simply could not recruit enough people into this job, to care for the people who needed to be cared for in Brecon and Radnorshire.

Yn ôl yn haf 2013, cyhoeddodd Cyngor Sir Powys ei fod yn rhoi terfyn ar y ddarpariaeth uniongyrchol o wasanaethau gofal cartref yn y sir, a'i fod yn bwriadu comisiynu ei holl ofal cartref oddi wrth y sector preifat. O ystyried ein bod eisoes wedi cael problemau â methiant y farchnad yn y sector gofal cartref mewn rhannau o Sir Frycheiniog a Maesyfed—a, gadewch i ni wynebu'r peth, nid yw'n lle hawdd i wneud arian, lle mae gennych gleientiaid sydd ar wasgar dros ardal ddaearyddol fawr—achosodd y penderfyniad hwn gryn dipyn o bryder. Pan gafodd ei herio, dywedodd y cyfarwyddwr gofal cymdeithasol i oedolion ar y pryd mai'r rheswm na allent barhau i ddarparu'r gwasanaeth oedd oherwydd na allai Cyngor Sir Powys bellach recriwtio nifer digonol o weithwyr gofal cartref. Rwy'n gweld hynny'n rhyfedd iawn ac yn anodd ei gredu, o ystyried fy mod yn gwybod nad yw Cyngor Sir Powys—-chwarae teg iddo—yn talu mwy na'r asiantaeth gofal cartref sector preifat gyffredin. 'Aha', meddai, 'y broblem yw contractau dim oriau'. Roeddent wedi creu eu hanawsterau recriwtio eu hunain o fewn y sir oherwydd yr arfer hwn. Ni allem, yn syml, recriwtio digon o bobl i mewn i'r swydd, i ofalu am y bobl yr oedd angen gofalu amdanynt yn Sir Frycheiniog a Maesyfed.

I would have been less amazed if then he had gone on to tell me that, in the tendering process, they would stipulate that the private sector had to ensure that there were no zero hours contracts. Unlike from Monmouthshire County Council, I received no such assurance. Therefore, Powys County Council was hoping to recruit domiciliary care workers in the private sector, using worse terms and conditions in terms of pay and the same zero hours contract method that it admitted meant that it could not deliver the service. It seemed absolutely crazy to me.

Byddwn i wedi synnu llai pe byddai wedyn wedi mynd yn ei flaen i ddweud wrthyf y byddent, yn y broses dendro, yn nodi bod yn rhaid i'r sector preifat sicrhau nad oedd unrhyw gontractau dim oriau. Yn wahanol i Gyngor Sir Fynwy, ni chefais unrhyw sicrhad o'r fath. Felly, mae Cyngor Sir Powys yn gobeithio recriwtio gweithwyr gofal cartref yn y sector preifat, gan ddefnyddio telerau ac amodau gwaeth o ran cyflog a'r un un contract dim oriau yr oedd yn cyfaddef oedd yn golygu na allai ddarparu'r gwasanaeth. Yr oedd yn ymddangos yn hollol wallgof i mi.

To stick up for the private sector domiciliary care agencies at this particular point, they have been delivering domiciliary care in Powys for years without a renewal of their original tenders and contracts. They could be told by Powys County Council tomorrow that their services are no longer required. Are we seriously saying that this is the way that we should be planning, commissioning and paying for these essential services? I have recently written to the Minister on this point to express on behalf of the private sector the concerns that it has about trying to reach a settlement with Powys County Council about the future of private domiciliary care services. I understand that, at this stage, the Deputy Minister feels that she is unable to meet them. However, I think that this amendment today sends a very clear message about the unacceptability of such employment practices. It is not good for workers, as Jocelyn Davies has pointed out, and it is not good for those who are in receipt of the service.

Er mwyn cadw cefn asiantaethau gofal cartref y sector preifat ar y pwynt penodol hwn, maent wedi bod yn darparu gofal cartref ym Mhowys am flynyddoedd heb adnewyddu eu tendrau a'u contractau gwreiddiol. Gallai Cyngor Sir Powys ddweud wrthynt yfory nad oes angen eu gwasanaethau mwyach. A ydym ni'n dweud o ddifrif mai dyma'r ffordd y dylem fod yn cynllunio, yn comisiynu ac yn talu am y gwasanaethau hanfodol hyn? Rwyf wedi ysgrifennu'n ddiweddar at y Gweinidog ar y pwynt hwn i fynegi ar ran y sector preifat y pryderon sydd ganddo am geisio dod i gytundeb gyda Chyngor Sir Powys am ddyfodol gwasanaethau gofal cartref preifat. Rwy'n deall, ar hyn o bryd, bod y Dirprwy Weinidog yn teimlo na all hi gwrdd â nhw. Fodd bynnag, rwy'n meddwl bod y gwelliant hwn heddiw yn anfon neges glir iawn am ba mor annerbyniol yw arferion cyflogaeth o'r fath. Nid yw'n dda i weithwyr, fel y mae Jocelyn Davies wedi ei nodi, ac nid yw'n dda i'r rhai sy'n derbyn y gwasanaeth ychwaith.

19:56

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

I call on the Deputy Minister to respond.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i ymateb.

19:56 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

Thank you, Deputy Presiding Officer. I am grateful to Jocelyn Davies for tabling this amendment for consideration. As has been discussed, amendment 322 would insert a new section into the Bill, prohibiting local authorities from employing any person on a zero hours contract when directly providing a service or where the provision of a service has been contracted out. Amendment 323 applies the superaffirmative procedure to the regulations provided for in amendment 322. I do not consider this to be an appropriate amendment to make to the Bill at this late stage of the process. The issue of zero hours contracts was not considered in any of the consultation or scrutiny that has taken place in the development of this Bill. Without any consultation or exploration of the impact of the proposed inclusion, I feel unable to support these amendments.

Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd. Rwy'n ddiolchgar i Jocelyn Davies am gyflwyno'r gwelliant hwn i'w ystyried. Fel y trafodwyd, byddai gwelliant 322 yn mewnosod adran newydd yn y Bil, yn gwahardd awdurdodau lleol rhag cyflogi unrhyw berson mewn contract dim oriau wrth ddarparu gwasanaeth yn uniongyrchol neu pan fo'r ddarpariaeth o wasanaeth wedi ei chontractio allan. Mae gwelliant 323 yn berthnasol i'r weithdrefn uwchgadarnhaol i'r rheoliadau y darperir ar eu cyfer yng ngwelliant 322. Nid wyf yn ystyried hwn yn welliant priodol i'w wneud i'r Bil ar y cam hwyr hwn yn y broses. Ni chafodd y mater contractau dim oriau ei ystyried mewn unrhyw un o'r prosesau ymgynghori neu graffu sydd wedi digwydd wrth ddatblygu'r Bil hwn. Heb unrhyw ymgynghori neu archwilio effaith y cynnwys arfaethedig, rwy'n teimlo na allaf gefnogi'r gwelliannau hyn.

Furthermore, even if there had been prior consultation and an assessment of potential impact, I am of the opinion that this amendment is not drafted at the level of detail that should be included on the face of the Bill. This level of detail would be better suited for consideration in the context of guidance and/or codes of practice. I therefore would ask Assembly Members not to support amendments 322 and 323.

Yn ogystal â hynny, hyd yn oed pe byddai ymgynghori ymlaen llaw ac asesiad o effaith bosibl wedi digwydd, rwyf o'r farn nad yw'r gwelliant hwn wedi ei ddrafftio ar y lefel o fanylder y dylid ei gynnwys ar wyneb y Bil. Byddai'r lefel hwn o fanylder yn fwy addas i'w ystyried yng nghyd-destun canllawiau a/neu godau ymarfer. Felly, byddwn yn gofyn i Aelodau'r Cynulliad beidio â chefnogi gwelliannau 322 a 323.

19:57 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

I call on Jocelyn Davies to reply.

Galwaf ar Jocelyn Davies i ymateb.

19:57 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography

Thank you, Deputy Presiding Officer. I did say that I would take every opportunity to press this issue, and I have. I can tell you now that I will be returning to it again if there are further opportunities. Therefore, I think that you need to be coming up with better excuses for turning it down. I do not think that it was of any surprise to anyone that I raised it today. Since the last time that I raised it, I do not think that the arguments have changed at all.

Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd. Dywedais y byddwn yn achub ar bob cyfle i wthio'r mater hwn, ac rwyf wedi gwneud hynny. Gallaf ddweud wrthych yn awr y byddaf yn dychwelyd ato eto os bydd cyfleoedd pellach. Felly, credaf fod angen i chi fod yn meddwl am well esgusodion dros ei wrthod. Nid wyf yn credu ei fod o unrhyw syndod i neb fy mod wedi ei godi heddiw. Nid wyf yn credu bod y dadleuon wedi newid o gwbl ers y tro diwethaf imi ei godi,.

In relation to the agricultural wages regulations, of course, for workers generally in that sector, zero hour contracts are not used because they generally use seasonal and casual workers. However, we are talking today of a sector where this is the norm—perhaps 60% or 70% of those delivering care are under this regime in Wales. Therefore, many thousands of people are affected, and this change would improve their position.

O ran y rheoliadau cyflogau amaethyddol, wrth gwrs, ar gyfer gweithwyr yn gyffredinol yn y sector hwnnw, nid yw contractau dim oriau yn cael eu defnyddio oherwydd eu bod yn gyffredinol yn defnyddio gweithwyr tymhorol ac achlysurol. Fodd bynnag, rydym yn sôn heddiw am sector lle mai dyma'r norm—efallai fod 60% neu 70% o'r rhai hynny sy'n darparu gofal dan y drefn hon yng Nghymru. Felly, mae miloedd lawer o bobl yn cael eu heffeithio, a byddai'r newid hwn yn gwella eu sefyllfa.

I thank Kirsty for her consistent and strong support on this, and for describing the reality on the ground in Powys. Of course, the Deputy Minister says that introducing this at a late stage is not really on. As I say, this is a stock excuse for refusing things, but I can give the Deputy Minister notice now: e can return to this at the report stage. Therefore, you are well warned in advance that this is not the last time that your Labour Members will be voting against improving workers' rights in Wales.

Diolch i Kirsty am ei chefnogaeth gyson a chryf ar hyn, ac am ddisgrifio'r gwirionedd ar lawr gwlad ym Mhowys. Wrth gwrs, mae'r Dirprwy Weinidog yn dweud nad yw cyflwyno hyn ar gam hwyr yn dderbyniol. Fel y dywedais, hwn yw'r esgus arferol dros wrthod pethau, ond gallaf roi rhybudd i'r Dirprwy Weinidog yn awr: gallwn ddod yn ôl at hyn yn ystod y cyfnod adrodd. Felly, rydych wedi eich rhybuddio ymhell ymlaen llaw nad dyma'r tro olaf y bydd eich Aelodau Llafur yn pleidleisio yn erbyn gwella hawliau gweithwyr yng Nghymru.

19:59 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

If amendment 322 is not agreed to, amendment 323 will fall. The question is that amendment 322 be agreed to. Does any Member object? There is objection, therefore we will have an electronic vote.

Os nad yw gwelliant 322 yn cael ei dderbyn, bydd gwelliant 323 yn methu. Y cwestiwn yw bod gwelliant 322 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwrthwynebiad, felly fe gawn bleidlais electronig.

Canlyniad y bleidlais ar welliant 322.

Result of the vote on amendment 322.

*Gwrthodwyd gwelliant 322: O blaid 15, Yn erbyn 39, Ymatal 0.*

*Amendment 322 not agreed: For 15, Against 39, Abstain 0.*

*Methodd gwelliant 323.*

*Amendment 323 fell.*

**Grŵp 49: Adennill Costau rhwng Awdurdodau Lleol (Gwelliannau 264 a 265)**

**Group 49: Recovery of Costs between Local Authorities (Amendments 264 and 265)**

20:00 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

The lead amendment in the group is amendment 264. I call on the Deputy Minister to move amendment 264 and to speak to it and the other amendment in the group.

Y prif welliant yn y grŵp yw gwelliant 264. Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 264 ac i siarad am hwnnw a'r gwelliant arall yn y grŵp.

20:00 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

I move amendment 264 in my name.

Cynigiaf welliant 264 yn fy enw i.

These technical amendments ensure that the provisions of section 176 about recovery of costs between local authorities refer to the full range of healthcare bodies that may provide accommodation to a child. I ask Members to support these amendments.

Mae'r gwelliannau technegol hyn yn sicrhau bod darpariaethau adran 176 am adennill costau rhwng awdurdodau lleol yn cyfeirio at yr ystod lawn o gyrff gofal iechyd a gaiff ddarparu llety i blentyn. Gofynnaf i Aelodau gefnogi'r gwelliannau hyn.

20:00 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Kirsty Williams, do you wish to speak?

Kirsty Williams, a ydych chi'n dymuno siarad?

20:00 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

No, thank you.

Na, diolch i chi.

20:00 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

I do not have any other speakers. The question is that amendment 264 be agreed to. Does any Member object? There are no objections. Amendment 264 is therefore agreed.

Nid oes gennyf unrhyw siaradwyr eraill. Y cwestiwn yw bod gwelliant 264 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiadau. Caiff gwelliant 267 ei dderbyn felly.

*Derbyniwyd gwelliant 264 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 264 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

20:00 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

I call on the Deputy Minister to move amendment 265.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 265.

20:01 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

I move amendment 265 in my name.

Cynigiaf welliant 265 yn fy enw i.

20:01 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

The question is that amendment 265 be agreed to. Does any Member object? There are no objections. Amendment 265 is therefore agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 265 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiadau. Caiff gwelliant 267 ei dderbyn felly.

*Derbyniwyd gwelliant 265 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 265 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

20:01 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

I call on the Deputy Minister to move amendment 266.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 266.

20:01 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

I move amendment 266 in my name.

Cynigiaf welliant 266 yn fy enw i.

20:01 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

The question is that amendment 266 be agreed to. Does any Member object? There are no objections. Amendment 266 is therefore agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 266 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiadau. Caiff gwelliant 267 ei dderbyn felly.

*Derbyniwyd gwelliant 266 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 266 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

20:01 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

I call on the Deputy Minister to move amendment 267.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 267.

20:01 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

I move amendment 267 in my name.

Cynigiaf welliant 267 yn fy enw i.

20:01 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

The question is that amendment 267 be agreed to. Does any Member object? There are no objections. Amendment 267 is therefore agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 267 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiadau. Caiff gwelliant 267 ei dderbyn felly.

*Derbyniwyd gwelliant 267 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 267 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

20:01 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

I call on the Deputy Minister to move amendment 268.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 268.

20:01 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

I move amendment 268 in my name.

Cynigiaf welliant 268 yn fy enw i.

20:01 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

The question is that amendment 268 be agreed to. Does any Member object? There are no objections. Amendment 268 is therefore agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 268 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiadau. Caiff gwelliant 268 ei dderbyn felly.

*Derbyniwyd gwelliant 268 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 268 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

20:01 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

I call on the Deputy Minister to move amendment 269.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 269.

20:01 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

I move amendment 269 in my name.

Cynigiaf welliant 269 yn fy enw i.

20:01 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

The question is that amendment 269 be agreed to. Does any Member object? There are no objections. Amendment 269 is therefore agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 269 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiadau. Caiff gwelliant 269 ei dderbyn felly.

*Derbyniwyd gwelliant 269 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 269 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

20:02 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

I call on the Deputy Minister to move amendment 54.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 54.

20:02 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

I move amendment 54 in my name.

Cynigiaf welliant 54 yn fy enw i.

20:02 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

The question is that amendment 54 be agreed to. Does any Member object? There are no objections. Amendment 54 is therefore agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 54 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiadau. Caiff gwelliant 54 ei dderbyn felly.

*Derbyniwyd gwelliant 54 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 54 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

## Grŵp 50: Anghydfodau ynghylch Preswylfa Arferol a Hygludedd Gofal a Chymorth (Gwelliant 270)

## Group 50: Disputes about Ordinary Residence and Portability of Care and Support (Amendment 270)

20:02 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

The lead and only amendment in the group is amendment 270. I call on the Deputy Minister to move amendment 270 and to speak to it.

Y prif welliant a'r unig un yn y grŵp yw gwelliant 270. Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 270 ac i siarad amdano.

20:02 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

I move amendment 270 in my name.

Cynigiaf welliant 270 yn fy enw i.

Amendment 270 seeks to replace current section 178 of the Bill with new text regarding disputes about ordinary residence and portability for care and support. While it may appear to make wholesale changes, the key provisions of the original section remain, but the changes bring further clarity and set the provision out in a more succinct manner. This will provide clarification that disputes such as these should only take place between local authorities, and should not involve the person whose needs are for care and support. The regulation-making power contained within this section also allows further provision to be made in relation to the procedures for the referral of disputes to the Welsh Ministers and for the determination of those disputes. Most importantly, however, it maintains the ability to make provision for ensuring that a person continues to receive care and support while a dispute is unresolved. I ask Members to support this amendment.

Mae gwelliant 270 yn ceisio disodli adran 178 gyfredol y Bil â thestun newydd ynghylch anghydfodau am breswylfa arferol a hygludedd gofal a chymorth. Er y gall ymddangos ei fod yn gwneud newidiadau ar raddfa eang, mae darpariaethau allweddol yr adran wreiddiol yn parhau, ond mae'r newidiadau'n dod â mwy o eglurder ac yn mynegi'r ddarpariaeth mewn modd mwy cryno. Bydd hyn yn darparu eglurhad na ddylai anghydfodau o'r fath ond digwydd rhwng awdurdodau lleol, ac na ddylent gynnwys y sawl y mae angen gofal a chymorth arno. Mae'r pŵer i wneud rheoliadau a geir yn yr adran hon hefyd yn caniatáu i ddarpariaeth bellach gael ei gwneud mewn perthynas â'r gweithdrefnau ar gyfer atgyfeirio anghydfodau at Weinidogion Cymru a phenderfynu ar yr anghydfodau hynny. Yn bwysicaf oll, fodd bynnag, mae'n cadw'r gallu i wneud darpariaeth i sicrhau bod person yn parhau i dderbyn gofal a chymorth tra bo anghydfod heb ei ddatrys. Gofynnaf i'r Aelodau gefnogi'r gwelliant hwn.

20:03 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

May I thank the Minister for bringing forward this amendment today? I think that it is a very important amendment and I am grateful to the Welsh Government for acknowledging the problems that there can be, for taking steps to ensure that a person's care and support is not compromised while local authorities argue among themselves as to where the responsibility lies, and for the ability to come to Welsh Ministers for a determination. I am sure that these cases are few and far between, but I have experience of the case of a Brecon and Radnor resident who was injured while living abroad, only to find himself languishing in a hospital in England while Powys steadfastly refused to take responsibility for his ongoing care and support needs. You know, Deputy Presiding Officer, that you are in difficulty when the hospital administrators themselves ring you up as an Assembly Member and appeal to you to help to get a patient out of their hospital and back into a local authority. The authority fought tooth and nail to avoid providing services to that person, even going so far as to say that it was the local authority in which Heathrow Airport is located that was responsible for his health and social care because that is where he happened to land in the UK when he was brought home, even though all his relatives were in Brecon and Radnorshire, and his desire was to return there to live. So, it is absolutely crucial that these amendments are put in place, and I am very grateful and support wholeheartedly the sentiments behind them and the Deputy Minister's action in this area.

A gaf fi ddiolch i'r Gweinidog am gyflwyno'r gwelliant hwn heddiw? Credaf ei fod yn welliant pwysig iawn ac rwyf yn ddiolchgar i Lywodraeth Cymru am gydnabod y problemau a all fod, am gymryd camau i sicrhau nad yw gofal a chymorth person yn cael ei beryglu tra bo awdurdodau lleol yn dadlau ymysg ei gilydd ynghylch ymhle y mae'r cyfrifoldeb, ac am y gallu i ddod at Weinidogion Cymru i gael penderfyniad. Rwyf yn siŵr bod yr achosion hyn yn brin iawn, ond mae gennyf brofiad o achos preswylydd ym Mrycheiniog a Maesyfed a gafodd ei anafu tra oedd yn byw dramor, a'i gael ei hun yn nychu mewn ysbyty yn Lloegr tra bo Powys yn gwrthod yn lân â chymryd cyfrifoldeb am ei anghenion gofal a chymorth parhaus. Rydych yn gwybod, Ddirprwy Lywydd, eich bod mewn trafferth pan fydd gweinyddwyr yr ysbyty eu hunain yn eich ffonio chi fel Aelod Cynulliad ac yn gofyn ichi helpu i gael claf allan o'u hysbyty ac yn ôl at yr awdurdod lleol. Ymladdodd yr awdurdod yn galed i osgoi darparu gwasanaethau i'r person hwnnw, ac aeth hyd yn oed yn mynd mor bell â dweud mai'r awdurdod lleol lle mae Maes Awyr Heathrow oedd yn gyfrifol am ei iechyd a gofal cymdeithasol oherwydd mai dyna lle y digwyddodd lanio yn y DU pan ddaethpwyd ag ef adref, er bod ei holl berthnasau ym Mrycheiniog a Maesyfed, ac mai ei ddymuniad oedd dychwelyd yno i fyw. Felly, mae'n hollbwysig bod y gwelliannau hyn yn cael eu rhoi ar waith, ac rwyf yn ddiolchgar iawn ac yn llwyr gefnogi'r teimladau y tu ôl iddynt a chamau gweithredu'r Dirprwy Weinidog yn y maes hwn.

20:05 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Do you wish to add anything, Deputy Minister?

A ydych am ychwanegu rhywbeth, Ddirprwy Weinidog?

20:05 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

I thank Kirsty Williams for those comments.

Diolch i Kirsty Williams am y sylwadau hynny.

20:05 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

The question is that amendment 270 be agreed to. Does any Member object? There are no objections. Amendment 270 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 270 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad. Mae gwelliant 270 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 270 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 270 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

**Grŵp 51: Chwythu'r Chwiban (Gwelliant 84)**

**Group 51: Whistleblowing (Amendment 84)**

20:05 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

The lead and only amendment in the group is amendment 84. I call on William Graham to move amendment 84 and to speak to it.

Y prif welliant a'r unig un yn y grŵp yw gwelliant 84. Galwaf ar William Graham i gynnig gwelliant 84 ac i siarad amdano.

20:05 **William Graham** Bywgraffiad Biography

I move amendment 84 in my name.

Cynigiaf welliant 84 yn fy enw i.

This amendment will ensure that workers performing functions under this Bill will be protected under the whistleblowing procedures in the Employment Rights Act 1996. Setting up a formal whistleblowing procedure within any organisation or entity strengthens corporate governance and ethics in the organisation, as well as being a useful risk-management tool. Having a whistleblowing procedure in an organisation encourages individuals to disclose concerns using appropriate channels before these concerns become a serious problem, potentially damaging an organisation's reputation through negative publicity, regulatory investigation, fines and/or compensation. It is important that workers are aware that they are able to raise concerns about a danger or illegality that affects others or members of the public who will be protected under this legislation.

Bydd y gwelliant hwn yn sicrhau y bydd gweithwyr sy'n cyflawni swyddogaethau o dan y Bil hwn yn cael eu hamddiffyn o dan y gweithdrefnau chwythu'r chwiban yn Neddf Hawliau Cyflogaeth 1996. Mae sefydlu gweithdrefn chwythu'r chwiban ffurfiol o fewn unrhyw sefydliad neu endid yn cryfhau llywodraethu corfforaethol a moeseg yn y sefydliad, yn ogystal â bod yn offeryn rheoli risg defnyddiol. Mae cael gweithdrefn chwythu'r chwiban mewn sefydliad yn annog unigolion i ddatgelu pryderon gan ddefnyddio'r dulliau priodol cyn i'r pryderon hynny ddod yn broblem ddifrifol, ac o bosibl niweidio enw da'r sefydliad drwy gyhoeddusrwydd negyddol, ymchwilio rheoleiddiol, dirwyon a/neu iawndal. Mae'n bwysig bod gweithwyr yn gwybod y gallant godi pryderon am berygl neu anghyfreithlondeb sy'n effeithio ar bobl eraill neu aelodau o'r cyhoedd a fydd yn cael eu diogelu dan y ddeddfwriaeth hon.

Whistleblowers, as we all know, are essential in exposing poor care and, certainly in South Wales East, that has been demonstrated recently by Operation Jasmine. The police operation into alleged neglect in six care homes in South Wales East has identified 100 potential victims. Such instances of neglect could have been brought to public attention had there been assurance for those employed in the sector that they had adequate protection. Employees need to be secure in the knowledge that they can entrust information to their managers, and not undercover film-makers, without fear of reprisals. Enshrining the rights of whistleblowers on the face of this Bill will encourage greater openness and transparency, and could help drive up standards in care homes and other caring environments.

Mae chwythwyr chwiban, fel y gwyddom oll, yn hanfodol o ran amlygu gofal gwael ac, yn sicr yn Nwyrain De Cymru, gwelwyd hynny'n ddiweddar drwy Operation Jasmine. Mae ymchwiliad yr heddlu i esgeulustod honedig mewn chwe chartref gofal yn Nwyrain De Cymru wedi nodi 100 o ddioddefwyr posibl. Gallai achosion o esgeulustod o'r fath fod wedi cael eu dwyn i sylw'r cyhoedd pe buasai sicrwydd i'r rhai a gyflogir yn y sector fod amddiffyniad digonol ar gael iddynt. Mae angen i weithwyr wybod y gallant roi gwybodaeth i'w rheolwyr, ac nid i wneuthurwyr ffilmiau cudd, heb ofni dial. Bydd ymgorffori hawliau'r rhai sy'n chwythu'r chwiban ar wyneb y Bil hwn yn fodd o fod yn fwy agored a thryloyw, a gallai helpu i godi safonau mewn cartrefi gofal ac amgylcheddau gofalu eraill.

Setting up a formal whistleblowing procedure in any organisation strengthens governance and it is important that this amendment could give workers the confidence to raise concerns and a clear channel for whistleblowers is critical in exposing poor standards of care.

Mae sefydlu gweithdrefn chwythu'r chwiban ffurfiol mewn unrhyw sefydliad yn cryfhau llywodraethu ac mae'n bwysig y gallai'r gwelliant hwn roi hyder i weithwyr i godi pryderon ac mae sianel glir i'r rhai sy'n chwythu'r chwiban yn allweddol er mwyn amlygu safonau gofal gwael.

20:07

## Lindsay Whittle [Bywgraffiad] [Biography]

I just want to speak briefly in support of amendment 84 on whistleblowing. Any protection, I think, for workers who report instances of abuse or neglect of people needing care and support deserves our support. We must also ensure that, if they do report fellow workers, they themselves do not become victimised as some sort of act of revenge by those above them, because we know that happens all too often. It is exactly the same problem with the so-called gagging of employees, often within the NHS. That also is nothing short of vindictive bullying, unless it refers to highly confidential information relating to payments, and I believe that gagging clauses should be outlawed as well. We support William Graham in his amendment.

Rwyf am siarad yn fyr o blaid gwelliant 84 ar chwythu'r chwiban. Mae unrhyw amddiffyniad, yn fy marn i, i weithwyr sy'n adrodd am achosion o gam-drin neu esgeuluso pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt yn haeddu ein cefnogaeth. Rhaid inni hefyd sicrhau, os ydynt yn adrodd am gydweithwyr, nad ydynt hwy eu hunain yn cael eu herlid fel rhyw fath o ddial gan y rhai uwch eu pennau, oherwydd gwyddom fod hynny'n digwydd yn rhy aml. Ceir yr un broblem yn union o ran cau cegau gweithwyr, fel y'i gelwir, yn aml o fewn y GIG. Nid yw hynny ychwaith yn ddim llai na bwlio dialgar, oni bai ei fod yn cyfeirio at wybodaeth gyfrinachol iawn sy'n ymwneud â thaliadau, ac rwyf o'r farn y dylai cymalau cau ceg gael eu gwahardd yn ogystal. Rydym yn cefnogi William Graham yn ei welliant.

20:08 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

I have had quite a lot of experience of vindicated whistleblowers in Wales. In each case, they had suffered threats and false allegations, and, in each case, when the Welsh Government had been asked for help, it had looked the other way and protected vested interests. I will give one example, and one example only, although there are many, and that is the whistleblower at Plas Madoc Communities First. After she whistleblew to the Welsh Government, miraculously a protection of vulnerable adults meeting was convened with social services, police, the NHS, and the Communities First partnership, and a false complaint was made against her to a professional body through the health body in Wrexham at that time. Subsequently, I attended a meeting with the whistleblower and North Wales Police, at which they formally apologised, in person and in writing. Subsequently, Wrexham council employed an independent investigator, who, I understand, exonerated the whistleblower and instigated, or recommended instigation of, internal investigations or internal action against officers concerned there. The third parties, the people from the Communities First partnership, have been subject to criminal convictions. The only organisation that apparently has still not been held to account has been the health service. That is a true story. That was one person's life wrecked for trying to do the right thing.

Mae gennyf gryn dipyn o brofiad o chwythwyr chwiban y cyfiawnhawyd eu honiadau yng Nghymru. Ym mhob achos, roeddent wedi dioddef bygythiadau a honiadau ffug, ac, ym mhob achos, pan ofynnwyd i Lywodraeth Cymru am gymorth, edrychodd y ffordd arall a gwarchod buddiannau wedi'u breinio. Rhoddaf un enghraifft, ac un enghraifft yn unig, er bod sawl un, sef y chwythwr chwiban yn Cymunedau yn Gyntaf Plas Madoc. Ar ôl iddi chwythu'r chwiban i Lywodraeth Cymru, yn wyrthiol cafodd cyfarfod amddiffyn oedolion agored i niwed ei gynnull gyda'r gwasanaethau cymdeithasol, yr heddlu, y GIG, a'r bartneriaeth Cymunedau yn Gyntaf, a gwnaed cwyn ffug yn ei herbyn i gorff proffesiynol drwy'r corff iechyd yn Wrecsam ar y pryd. Wedi hynny, bûm mewn cyfarfod gyda'r chwythwr chwiban a Heddlu Gogledd Cymru, lle gwnaethant ymddiheuro'n ffurfiol, wyneb yn wyneb ac yn ysgrifenedig. Wedi hynny, cyflogodd cyngor Wrecsam ymchwilydd annibynnol, ac rwyf ar ddeall i'r ymchwilydd annibynnol hwnnw ryddhau'r chwythwr chwiban o fai a rhoi ar waith, neu argymell y dylid rhoi ar waith, ymchwiliadau mewnol neu gamau mewnol yn erbyn y swyddogion dan sylw yno. Mae'r trydydd partïon, y bobl o'r bartneriaeth Cymunedau yn Gyntaf, wedi bod yn destun euogfarnau troseddol. Yr unig sefydliad sy'n dal heb gael ei ddwyn i gyfrif yn ôl pob golwg yw'r gwasanaeth iechyd. Mae'n stori wir. Dyna fywyd un person wedi ei ddinistrio am geisio gwneud y peth iawn.

After the Minister for Finance's written statement on whistleblowing was published last April, a whistleblowers' support group in north Wales e-mailed me to tell me that it was a statement without any action behind it or reassurance that people would be protected if they spoke out, regardless of the Public Interest Disclosure Act 1998, because every public sector whistleblower that the group knew had not returned to work, had been blocked from seeking employment and had been discredited.

Ar ôl i ddatganiad ysgrifenedig y Gweinidog Cyllid ar chwythu'r chwiban gael ei gyhoeddi fis Ebrill diwethaf, cefais neges e-bost gan grŵp cymorth chwythwyr chwiban yng ngogledd Cymru yn dweud wrthyf ei fod yn ddatganiad heb unrhyw gamau gweithredu y tu ôl iddo na sicrwydd y byddai pobl yn cael eu hamddiffyn pe byddent yn dweud eu dweud, er gwaethaf Deddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998, gan fod pob chwythwr chwiban yn y sector cyhoeddus yr oedd y grŵp yn gwybod amdano heb ddychwelyd i'r gwaith, wedi cael ei rwystro rhag chwilio am waith ac wedi cael ei ddifrïo.

I will conclude by referring to a friend who is a trade union officer—yes, I have friends who are trade union officers; I was even one myself, once—who represents members in Wales. He says that it is true that many organisations have very good employment practices, but far too many in receipt of public money treat their staff appallingly badly. He cited some cases that he described as dreadful, and concluded that what these have in common is that they are against organisations in receipt of public money. I think that employment standards, not just dusty policies brought out at tender time, should be looked at by the Welsh Government and the National Assembly for Wales.

Rwyf am gloi drwy gyfeirio at ffrind sy'n swyddog undeb llafur—oes mae gennyf ffrindiau sy'n swyddogion undebau llafur; roeddwn innau'n un fy hunan, unwaith—sy'n cynrychioli aelodau yng Nghymru. Mae'n dweud ei bod yn wir fod gan lawer o sefydliadau arferion cyflogaeth da iawn, ond bod gormod o lawer ohonynt sy'n derbyn arian cyhoeddus yn trin eu staff yn ofnadwy o wael. Cyfeiriodd at rai achosion a ddisgrifiodd fel rhai dychrynllyd, a daeth i'r casgliad mai'r hyn sydd gan y rhain yn gyffredin yw eu bod yn erbyn sefydliadau sy'n derbyn arian cyhoeddus. Credaf y dylai safonau cyflogaeth, nid dim ond polisïau llychlyd sy'n dod allan yn ystod amser tendro, gael eu hystyried gan Lywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru.

I strongly support William Graham's amendment. We must protect all staff, all employees and all workers who try to do the right, honourable and decent thing by reporting to the proper reporting officer in accordance with the legislation. At the very least, I call on the Deputy Minister to put whistleblowing in regulations on inspection.

Rwyf yn cefnogi'n gryf welliant William Graham. Mae'n rhaid inni warchod yr holl staff, pob cyflogai a phob gweithiwr sy'n ceisio gwneud y peth iawn, anrhydeddus a gweddus trwy roi gwybod i'r swyddog adrodd priodol yn unol â'r ddeddfwriaeth. Galwaf ar y Dirprwy Weinidog o leiaf i roi chwythu'r chwiban mewn rheoliadau ar arolygu.

20:11 **Angela Burns** Bywgraffiad Biography

I also rise to support this amendment today. I think that the term 'whistleblowing' is very unsuitable for what these people are doing, because it seems to trivialise in a number of cases what is happening.

Rwyf finnau hefyd yn codi i gefnogi'r gwelliant hwn heddiw. Credaf fod y term 'chwythu'r chwiban' yn anaddas iawn ar gyfer yr hyn y mae pobl hyn yn ei wneud, oherwydd mae fel petai'n bychanu'r hyn sy'n digwydd mewn nifer o achosion.

We are talking today, for example, about the Social Services and Well-being (Wales) Bill. This is a Bill that is designed to protect those people in our society who are already vulnerable. They are vulnerable for any number of reasons—they are very young, they are, perhaps, very old, they are people who are in foster care, they could be people who have any range of disability and they are people who need all the help and support that we can give them. What can be worse than to find yourself in that position and then to find yourself being abused by somebody, or being subjected to something that, even in passing, is inappropriate or cruel, and not being able to do something about it?

Rydym yn siarad heddiw, er enghraifft, am Fil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Mae hwn yn Fil y bwriedir iddo amddiffyn y bobl hynny yn ein cymdeithas sydd eisoes yn agored i niwed. Maent yn agored i niwed am nifer o resymau—maent yn ifanc iawn, efallai eu bod yn hen iawn, maent yn bobl sydd mewn gofal maeth, gallent fod yn bobl sydd ag unrhyw ystod o anableddau ac maent yn bobl y mae arnynt angen yr holl gymorth a chefnogaeth y gallwn eu rhoi iddynt. Beth all fod yn waeth na'ch chael eich hun yn y sefyllfa honno, ac yna'ch cael eich hun yn cael eich cam-drin gan rywun, neu'n dioddef rhywbeth, sydd hyd yn oed wrth fynd heibio, yn amhriodol neu'n greulon, heb allu gwneud dim yn ei gylch?

However, there is another person there, and that other person says, 'What I just saw was not right; what I just heard was not right' or 'I can no longer support this endless progression of tyranny against another soul, so I am going to stand up and do something about it'. Very often, a whistleblower is an individual who has tried to rectify it through the normal chain of command and has got nowhere. They may have been ignored or pacified, someone might have tried to buy them off with some slight change, or—and this is worse—terrified, horrified, bullied and, in the end, driven from their jobs.

Fodd bynnag, mae rhywun arall yno, ac mae'r person arall hwnnw'n dweud, 'Nid oedd yr hyn yr wyf newydd ei weld neu ei glywed yn iawn' neu 'Ni allaf gefnogi'r gyfres ddiddiwedd hon o ormes yn erbyn enaid arall mwyach, felly rwyf am sefyll i fyny a gwneud rhywbeth am y peth'. Yn aml iawn, mae'r chwythwr chwiban yn unigolyn sydd wedi ceisio unioni'r sefyllfa drwy'r gadwyn awdurdod arferol a heb gyrraedd unman. Efallai ei fod wedi cael ei anwybyddu neu ei dawelu, gallai rhywun fod wedi ceisio ei dawelu â rhai newidiadau bach, neu—ac mae hyn yn waeth—godi ofn, dychryn, bwlio ac, yn y diwedd, ei yrru o'i swydd.

The Deputy Minister will know very clearly about a particular case that I spoke about at some length in my short debate here in 2012. There were whistleblowers who were a foster couple, and they looked after a quadriplegic boy. That little boy had 24-hour medical care from a supposedly crack team, who thought that it was a bit of a laugh and a joke to do things like—oh, let us think—holding a urine-soaked pad up against his face or, because he was on a ventilator, being cruel when they moved it around and told him to stop screaming. They were so poorly trained or so indifferent that they could not put his catheter back in properly; they dropped him out of his slings a couple of times, so he got greenstick fractures and was in and out of hospital. This, by the way, was a little boy who was born perfectly happy and healthy and was run over by a car when he was three.

Bydd y Dirprwy Weinidog yn gwybod yn iawn am achos penodol y siaradais amdano'n helaeth yn fy nadl fer yma yn 2012. Roedd chwythwyr chwiban a oedd yn gwpl maeth, ac roeddent yn edrych ar ôl bachgen cwadriplegig. Roedd y bachgen bach yn cael gofal meddygol 24-awr gan dîm tan gamp i fod, a oedd yn meddwl ei bod yn dipyn o hwyl ac yn jôc gwneud pethau fel—o, gadewch inni feddwl—dal pad yn llawn wrin yn erbyn ei wyneb neu, oherwydd ei fod ar beiriant anadlu, bod yn greulon wrth iddynt ei symud o gwmpas a dweud wrtho am roi'r gorau i sgrechian. Roeddent wedi eu hyfforddi mor wael neu roeddent mor ddifater fel na allent roi ei gathetr yn ôl yn iawn; fe'i gollyngwyd allan o'i slingiau gwpl o weithiau, felly cafodd ysigiadau ac roedd i mewn ac allan o'r ysbyty. Roedd hwn, gyda llaw, yn fachgen bach a anwyd yn berffaith hapus ac yn iach, ond aeth car drosto pan oedd yn dair oed.

So, these foster carers said, 'This is not right', and they stood up and went everywhere. Finally, they came to me, and I went to the Deputy Minister, who was very good. However, she could only act within the premises, authorities and constraints of the state that she has. Those foster carers have looked after children with disabilities almost all of their lives, and we do not get many of that kind of foster carers—we need to preserve and protect them. I involved everyone—the police, the two local authorities, the social services and the two health boards.

Felly, dywedodd y gofalwyr maeth hyn, 'Nid yw hyn yn iawn', a safasant i fyny a mynd i bobman. Yn y pen draw, daethant ataf fi, ac fe es i at y Dirprwy Weinidog, a oedd yn dda iawn. Fodd bynnag, ni allai ond gweithredu o fewn cynseiliau, awdurdodau a chyfyngiadau'r wladwriaeth sydd ganddi. Mae'r gofalwyr maeth hynny wedi gofalu am blant ag anableddau drwy gydol eu hoes bron, ac nid oes gennym lawer o'r math hwnnw o ofalwyr maeth—mae angen inni eu cadw a'u diogelu. Cynhwysais bawb—yr heddlu, y ddau awdurdod lleol, y gwasanaethau cymdeithasol a'r ddau fwrdd iechyd.

I involved Health Inspectorate Wales, Care and Social Services Inspectorate Wales and the Children's Commissioner for Wales. They were all dreadful. Finally, the Public Services Ombudsman for Wales came and looked at the whole thing. His office published a report. I have seen the full report—out in the public domain is a redacted report, because of confidentiality reasons—and the ombudsman's office upheld every single comment made by those whistleblowers. It upheld every single identified failing in those services. Would you not think that those whistleblowers would be lifted onto our shoulders, given fab jobs and told that they were wonderful? Not a bit of it. They are broke, they have no jobs, they have been banned from working with children and they cannot get any of the foster organisations to take them on. One is now a cook for a local church, and the other one walks his dog. That is a really awful way to repay people who are trying to improve the lot of people who do not have a great lot to start with.

Cynhwysais Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a Chomisiynydd Plant Cymru. Roeddent i gyd yn ofnadwy. Yn y pen draw, daeth Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ac edrych ar yr holl beth. Cyhoeddodd ei swyddfa adroddiad. Rwyf wedi gweld yr adroddiad llawn—yn llygad y cyhoedd mae adroddiad wedi'i olygu, am resymau cyfrinachedd—a chadarnhaodd swyddfa'r ombwdsmon bob un sylw a wnaed gan y chwythwyr chwiban hynny. Cadarnhaodd bob un methiant a nodwyd yn y gwasanaethau hynny. Oni fyddech yn meddwl y byddai'r chwythwyr chwiban hynny'n cael eu codi ar ein hysgwyddau, yn cael swyddi gwych a chael clywed eu bod yn wych? Dim o gwbl. Maent heb yr un ddimau goch, nid oes ganddynt swyddi, maent wedi cael eu gwahardd rhag gweithio gyda phlant ac ni allant gael yr un o'r sefydliadau maeth i'w defnyddio. Mae un bellach yn gogydd i eglwys leol, ac mae'r llall yn mynd â'i gi am dro. Mae hynny'n ffordd wirioneddol warthus o dalu'n ôl i'r bobl sy'n ceisio gwella sefyllfa pobl nad oes ganddynt lawer iawn i ddechrau.

Deputy Minister, I urge you to take this opportunity to put some methodology into this Bill to protect people like them. When Jane Hutt was the relevant Minister—it may still come under your portfolio, Minister; I am not entirely clear—and brought forward the whistleblowing policy, I looked at trying to bring forward an individual Member's Bill. However, because of the complexity, the intricacies and the way it ties in with UK legislation, lawyer after lawyer told me that it was practically impossible. However, it would be possible in this Bill to have a dedicated piece of work that would protect whistleblowers in this area. After all, health, social services and well-being—that meshing together of those organisations—where the people we are talking about today find themselves, has to be one of the areas where wrong can so easily happen, because there are so many people who simply cannot speak for themselves, or who are so disadvantaged that they are frightened to speak for themselves. Deputy Minister, this is your chance to at least protect that little area. If we cannot solve all of the problems in all parts of Wales, we could try to protect the people who might try to make this small part of Wales a little bit better going forward. I urge everyone to support these amendments.

Ddirprwy Weinidog, rwyf yn eich annog i fanteisio ar y cyfle hwn i roi rhywfaint o fethodoleg yn y Bil hwn i amddiffyn pobl fel y rhain. Pan oedd Jane Hutt yn Weinidog dros hyn—efallai ei fod yn dal yn rhan o'ch portffolio, Weinidog; nid wyf yn hollol glir—a phan gyflwynodd y polisi chwythu'r chwiban, edrychais ar geisio cyflwyno Bil Aelod unigol. Fodd bynnag, oherwydd y cymhlethdod, y dryswch a'r modd y mae'n cyd-fynd â deddfwriaeth y DU, dywedodd cyfreithiwr ar ôl cyfreithiwr wrthyf ei fod bron yn amhosibl. Fodd bynnag, byddai modd cael darn penodol o waith yn y Bil hwn a fyddai'n diogelu chwythwyr chwiban yn y maes hwn. Wedi'r cyfan, mae'n rhaid bod iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a llesiant—y cyfuniad hwnnw o'r sefydliadau hynny—lle mae rhai o'r bobl yr ydym yn sôn amdanynt heddiw yn eu cael eu hunain, yn un o'r meysydd lle y gall camwri ddigwydd mor hawdd, gan fod cynifer o bobl na allant siarad drostynt eu hunain, neu sydd dan gymaint o anfantais fel bod ofn arnynt siarad drostynt eu hunain. Ddirprwy Weinidog, dyma eich cyfle i warchod y maes bach yna o leiaf. Os na allwn ddatrys yr holl broblemau ym mhob rhan o Gymru, gallem geisio amddiffyn y bobl a allai geisio gwneud y rhan fechan hon o Gymru ychydig yn well yn y dyfodol. Anogaf bawb i gefnogi'r gwelliannau hyn.

20:17 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

I was not going to speak in this debate, but after the public meeting that we had in Bridgend regarding ABMU health board, I felt inclined to speak, because I have been dealing with a few whistleblowing cases and I have been sitting in meetings with people who have had mental health problems as a result of having to take court action against ABMU. I know that the Bill is looking at the care setting in particular, but I think that we have to learn from the system that is already in place.

Nid oeddwn yn bwriadu siarad yn y ddadl hon, ond ar ôl y cyfarfod cyhoeddus a gawsom ym Mhen-y-bont ar Ogwr ynglŷn â bwrdd iechyd PABM, roeddwn yn teimlo awydd i siarad, oherwydd rwyf wedi bod yn ymdrin â rhai achosion chwythu'r chwiban ac wedi bod yn eistedd mewn cyfarfodydd gyda phobl a gafodd broblemau iechyd meddwl oherwydd iddynt orfod cymryd camau cyfreithiol yn erbyn PABM. Gwn fod y Bil yn edrych ar y lleoliad gofal yn benodol, ond credaf fod yn rhaid inni ddysgu oddi wrth y system sydd eisoes ar waith.

Many of the people I have talked to have said that they have exhausted the dignity at work policies that the Welsh Government has put in place. They have tried to use those policies to protect themselves, but have failed on every level. They have also in their communications with the trade unions. They did not even know about the Wales Audit Office whistleblowing helpline. We should all be concerned if staff try to bring deep-seated concerns to their managers but do not even know how to protect themselves within the Welsh health system.

Dywedodd llawer o'r bobl yr wyf wedi siarad â hwy eu bod wedi dihysbyddu'r polisïau urddas yn y gwaith y mae Llywodraeth Cymru wedi'u rhoi ar waith. Maent wedi ceisio defnyddio'r polisïau hynny i'w hamddiffyn eu hunain, ond wedi methu ar bob lefel. Maent hefyd wedi methu wrth gyfathrebu â'r undebau llafur. Nid oeddent hyd yn oed yn gwybod am linell gymorth chwythu'r chwiban Swyddfa Archwilio Cymru. Dylem i gyd fod yn bryderus os yw staff yn ceisio mynd at eu rheolwyr â phryderon dwfn, ond nad ydynt hyd yn oed yn gwybod sut i'w diogelu eu hunain o fewn system iechyd Cymru.

We also have to take a step back and realise that many of these people—as Jocelyn Davies said—are on low wages. When it gets to the point where they have to take court proceedings against public authorities, they simply do not have the money to be able to stand up against them. I am coping with people who have thousands of pounds of debt because they have had to work alone, without an advocate or lawyer, to take action. They really did not want to have to take that action—they just wanted to be in work, working hard. They really did not want to see malpractice or things going wrong in their everyday working life, but see it they did, and they want to make sure that this never happens again. However, it is happening now and we have to make sure that those workers who make these complaints to whatever structure in the Welsh public sector feel that they are protected. I urge people to support this amendment today.

Rhaid inni hefyd gymryd cam yn ôl a sylweddoli bod llawer o'r bobl hyn—fel y dywedodd Jocelyn Davies—ar gyflogau isel. Pan fydd yn cyrraedd pwynt lle y mae'n rhaid iddynt ddwyn achos llys yn erbyn awdurdodau cyhoeddus, nid oes ganddynt arian i allu sefyll i fyny yn eu herbyn. Rwyf yn ymdopi â phobl sydd â miloedd o bunnoedd o ddyled oherwydd eu bod wedi gorfod gweithio ar eu pen eu hunain, heb eiriolwr na chyfreithiwr, i weithredu. Nid oedd arnynt eisiau cymryd y camau hynny mewn gwirionedd—roedd arnynt eisiau bod mewn gwaith, yn gweithio'n galed. Nid oeddent am weld camarfer neu bethau'n mynd o chwith yn eu bywydau gwaith bob dydd, ond dyna welsant, ac maent yn awyddus i wneud yn siŵr nad yw hyn byth yn digwydd eto. Fodd bynnag, mae'n digwydd yn awr ac mae'n rhaid inni wneud yn siŵr bod y gweithwyr hynny sy'n gwneud y cwynion hyn i ba bynnag strwythur yn y sector cyhoeddus yng Nghymru yn teimlo eu bod yn cael eu hamddiffyn. Anogaf bobl i gefnogi'r gwelliant hwn heddiw.

20:19

## Gwenda Thomas Bywgraffiad Biography

I listened carefully to the points made by William Graham in introducing this amendment and to other Members. Let me place on the record my commitment to ensuring that appropriate arrangements are in place to ensure that those who work in the care and support sector can raise their concerns without fear of detriment to themselves. However, I made my views on this amendment clear at Stage 2 proceedings on 11 December. The Social Services and Well-being (Wales) Bill is not the appropriate vehicle to legislate on this matter. I have already committed to considering this issue in the context of the forthcoming legislation about regulation and inspection.

Gwrandewais yn astud ar y pwyntiau a wnaed gan William Graham wrth gyflwyno'r gwelliant hwn, ac ar Aelodau eraill. Gadewch imi ddweud ar gofnod fy mod yn ymrwymo i sicrhau bod trefniadau priodol ar waith i sicrhau y gall y rhai sy'n gweithio yn y sector gofal a chymorth godi eu pryderon heb ofni niwed iddynt hwy eu hunain. Fodd bynnag, gwneuthum fy sylwadau ar y gwelliant hwn yn glir yn nhrafodion Cyfnod 2 ar 11 Rhagfyr. Nid Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yw'r cyfrwng priodol i ddeddfu ar y mater hwn. Rwyf eisoes wedi ymrwymo i ystyried y mater hwn yng nghyd-destun y ddeddfwriaeth sydd ar ddod am reoleiddio ac arolygu.

I am, however, prepared to go further today, and to make a firm commitment that I will include whistleblowing within the new legislative framework for regulation and inspection; if at all possible, on the face of the Bill, but if not, then through regulations or statutory guidance. I would remind Members that, in light of my commitment, William Graham withdrew this amendment at Stage 2. I wonder if William Graham will take the same action now in light of the firm commitment I have given him this afternoon—or, this evening; another day gone. [Laughter.]

Fodd bynnag, rwyf yn barod i fynd ymhellach heddiw, ac i wneud ymrwymiad cadarn y byddaf yn cynnwys chwythu'r chwiban o fewn y fframwaith deddfwriaethol newydd ar gyfer rheoleiddio ac arolygu; os bydd hynny'n bosibl, gwnaf hynny ar wyneb y Bil, ond os nad yw, gwnaf hynny drwy reoliadau neu ganllawiau statudol. Hoffwn atgoffa'r Aelodau fod William Graham, yn sgil fy ymrwymiad, wedi tynnu'r gwelliant hwn yn ôl yng Nghyfnod 2. Tybed a fydd William Graham yn cymryd yr un camau yn awr yng ngoleuni'r ymrwymiad cadarn yr wyf wedi ei roi y prynhawn yma—neu, heno; diwrnod arall wedi mynd? [Chwerthin.]

20:21

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

We might get to find out; I call on William Graham to reply.

Efallai y cawn wybod; galwaf ar William Graham i ymateb.

20:21 **William Graham** Bywgraffiad Biography

The strength of feeling was very obvious in the contributions made by Members this evening, particularly those by Angela Burns and Bethan Jenkins, who have dealt with actual cases and know exactly how this works, and Mark, as a long-time campaigner in this particular field. I cannot fail but be moved by the undertaking from the Deputy Minister and I ask the leave of the Assembly to withdraw this amendment.

Roedd cryfder eu teimladau'n amlwg iawn yn y cyfraniadau a wnaed gan Aelodau heno, yn enwedig y rhai gan Angela Burns a Bethan Jenkins, sydd wedi ymdrin ag achosion go iawn ac sy'n gwybod yn union sut y mae hyn yn gweithio, a Mark, fel ymgyrchydd ers tro byd yn y maes arbennig hwn. Ni allaf ond bod wedi fy nghyffwrdd gan ymrwymiad y Dirprwy Weinidog a gofynnaf am ganiatâd y Cynulliad i dynnu'r gwelliant hwn yn ôl.

20:21 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Does any Member object to amendment 84 being withdrawn? There are no objections, therefore amendment 84 is withdrawn.

A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu i welliant 84 gael ei dynnu'n ôl? Nid oes gwrthwynebiadau, felly mae gwelliant 84 wedi ei dynnu'n ôl.

*Tynnwyd gwelliant 84 yn ôl gyda chaniatâd y Cynulliad.*

*Amendment 84 withdrawn by leave of the Assembly.*

*Methodd gwelliannau 4, 321 a 332.*

*Amendments 4, 321 and 332 fell.*

20:22 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

I call on the Deputy Minister to move amendment 81.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 81.

20:22 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

I move amendment 81 in my name.

Cynigiaf welliant 81 yn fy enw i.

20:22 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

The question is that amendment 81 be agreed to. Does any Member object? There are no objections. Amendment 81 is therefore agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 81 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad. Mae gwelliant 81 felly wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 81 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 81 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

*Methodd gwelliant 330.*

*Amendment 330 fell.*

## Grŵp 52: Gofynion Ychwanegol mewn perthynas â Rheoliadau o dan Adran 26 a Gorchmynion o dan Adran 130 (Gwelliant 271)

## Group 52: Additional Requirements in relation to Regulations under Section 26 and orders under Section 130 (Amendment 271)

20:22 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

The lead and only amendment in the group is amendment 271. I call on the Deputy Minister to move amendment 271 and to speak to it.

Y prif welliant a'r unig un yn y grŵp yw gwelliant 271. Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 271 ac i siarad amdano.

20:22 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

I move amendment 271 in my name.

Cynigiaf welliant 271 yn fy enw i.

The discussion of group 14 on 4 February included amendment 18. That amendment fulfilled my commitment to provide for a superaffirmative procedure in respect of regulations to be made under section 26. I am pleased that Members felt able to support amendment 18. Amendment 271 is brought forward as a consequence of that amendment, and as a consequence of the introduction at Stage 2 of section 131. Section 131 provides for a superaffirmative procedure for any Order made to combine safeguarding children boards and safeguarding adults boards under section 130 of the Bill. This amendment inserts into section 179, which deals with Orders and regulations, a signpost to the new section to be inserted by amendment 18 and to section 131. It clarifies that while these regulations and Orders are subject to the affirmative procedure, there are further additional requirements that must be satisfied for them to be made. I ask Members to support this amendment.

Roedd y drafodaeth ar grŵp 14 ar 4 Chwefror yn cynnwys gwelliant 18. Roedd y gwelliant hwnnw'n cyflawni fy ymrwymiad i ddarparu ar gyfer gweithdrefn uwchgadarnhaol mewn perthynas â rheoliadau sydd i'w gwneud o dan adran 26. Rwyf yn falch bod yr Aelodau'n teimlo y gallent gefnogi gwelliant 18. Caiff gwelliant 271 ei gyflwyno o ganlyniad i'r gwelliant hwnnw, ac o ganlyniad i gyflwyno adran 131 yng Nghyfnod 2. Mae adran 131 yn darparu ar gyfer gweithdrefn uwchgadarnhaol ar gyfer unrhyw Orchymyn a wneir i gyfuno byrddau diogelu plant a byrddau diogelu oedolion o dan adran 130 y Bil. Mae'r gwelliant hwn yn mewnosod yn adran 179, sy'n ymdrin â Gorchmynion a rheoliadau, gyfeiriad at yr adran newydd sydd i'w mewnosod gan welliant 18 ac i adran 131. Mae'n egluro, er bod y rheoliadau a'r Gorchmynion hyn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol, fod gofynion ychwanegol pellach y mae'n rhaid eu bodloni er mwyn iddynt gael eu gwneud. Gofynnaf i'r Aelodau gefnogi'r gwelliant hwn.

20:24

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

I have no speakers. The question is that amendment 271 be agreed to. Does any Member object? There are no objections. Amendment 271 is therefore agreed

Nid oes gennyf ddim siaradwyr. Y cwestiwn yw bod gwelliant 271 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad. Mae gwelliant 271 felly wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 271 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 271 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

*Methodd gwelliant 5.*

*Amendment 5 fell.*

### Grŵp 53: Dehongli Cyffredinol a Mynegai o Ymadroddion a Ddiffiniwyd (Gwelliannau 85, 57, 272 a 273)

### Group 53: General Interpretation and Index of Defined Expressions (Amendments 85, 57, 272 and 273)

20:24

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

The lead amendment in the group is amendment 85. I call on William Graham to move amendment 85 and to speak to it and the other amendments in the group.

Y prif welliant yn y grŵp yw gwelliant 85. Galwaf ar William Graham i gynnig gwelliant 85 ac i siarad amdano a'r gwelliannau eraill yn y grŵp.

20:24

## William Graham Bywgraffiad Biography

I move amendment 85 in my name.

Cynigiaf welliant 85 yn fy enw i.

This amendment seeks to insert an extra definition of abuse, whereby institutional abuse would be considered alongside other types of abuse, including the institutional on-site type to ensure that protection is afforded to individuals within a variety of settings, such as hospitals and care homes. The social services Bill advisory group confirmed that it is important to ensure that the factor of institutional abuse is not neglected. This view is also supported by the WLGA, which highlights the need for people to be protected in a range of settings.

Mae'r gwelliant hwn yn ceisio mewnosod diffiniad ychwanegol o gam-drin, lle byddai cam-drin sefydliadol yn cael ei ystyried ochr yn ochr â mathau eraill o gam-drin, gan gynnwys y math sefydliadol ar y safle i sicrhau bod amddiffyniad yn cael ei roi i unigolion o fewn amrywiaeth o leoliadau, fel ysbytai a chartrefi gofal. Cadarnhaodd y grŵp cynghori ar y Bil gwasanaethau cymdeithasol ei bod yn bwysig sicrhau nad yw ffactor cam-drin sefydliadol yn cael ei esgeuluso. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru hefyd yn cefnogi'r farn hon, ac mae'n tynnu sylw at yr angen i bobl gael eu diogelu mewn amrywiaeth o leoliadau.

A primary example is the recent case in the Mid Staffordshire NHS Foundation Trust where patients were put at risk due to the poor quality of care. During Stage 2 proceedings, the Deputy Minister commented that the types of abuse already included in the definition—physical, sexual, psychological, emotional or financial—cover those aspects that either on their own, or in conjunction with each other, and in certain settings, would constitute institutional abuse. I feel that it is important that institutional abuse is listed on the face of the Bill to avoid any possible confusion and provide assurance that service users would be protected in every care setting.

Mae'r achos diweddar yn Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Canol Swydd Stafford yn enghraifft dda, lle'r oedd cleifion yn wynebu risg oherwydd ansawdd gwael y gofal. Yn ystod trafodion Cyfnod 2, dywedodd y Dirprwy Weinidog bod y mathau o gam-drin sydd eisoes wedi'u cynnwys yn y diffiniad—corfforol, rhywiol, seicolegol, emosiynol neu ariannol—yn cynnwys yr agweddau hynny sydd naill ai ar eu pen eu hunain, neu gyda'i gilydd, ac mewn rhai lleoliadau, yn cyfrif fel cam-drin sefydliadol. Credaf ei bod yn bwysig bod cam-drin sefydliadol yn cael ei restru ar wyneb y Bil er mwyn osgoi unrhyw ddryswch posibl ac i ddarparu sicrwydd y byddai defnyddwyr gwasanaethau'n cael eu diogelu ym mhob lleoliad gofal.

20:25 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

As William Graham has set out, his amendment 85 seeks to insert the word 'institutional' into the definition of 'abuse' in section 180. I set out my reasons for not accepting this amendment during the debate on this subject at Stage 2. The definition that is included in the Bill has been developed through a process of consultation, beginning in the original White Paper. As such, it is constructed from terms that are well known and understood both in law and by practitioners. Having said that, I understand and sympathise with the argument that William Graham has put forward in relation to this amendment. While I remain of the belief that the definition of 'abuse' as it stands is sufficiently wide, given the strength of William's case for its amendment today, I can confirm that the Government is in support and asks that Members support William Graham's amendment 85.

Fel y mae William Graham wedi'i nodi, mae ei welliant 85 yn ceisio mewnosod y gair 'sefydliadol' yn y diffiniad o 'gam-drin' yn adran 180. Esboniais fy rhesymau dros beidio â derbyn y gwelliant hwn yn ystod y ddadl ar y pwnc hwn yng Nghyfnod 2. Mae'r diffiniad sydd wedi'i gynnwys yn y Bil wedi ei ddatblygu drwy broses o ymgynghori, gan ddechrau yn y Papur Gwyn gwreiddiol. Felly, mae wedi ei lunio o dermau sy'n hysbys ac yn ddealledig yn y gyfraith a chan ymarferwyr. Wedi dweud hynny, rwyf yn deall y ddadl y mae William Graham wedi'i chyflwyno mewn perthynas â'r gwelliant hwn, ac yn cydymdeimlo â hi. Er fy mod yn dal i fod o'r farn bod y diffiniad o 'gam-drin' fel y mae yn ddigon eang, o ystyried cryfder achos William dros ei welliant heddiw, gallaf gadarnhau bod y Llywodraeth yn ei gefnogi ac yn gofyn i'r Aelodau gefnogi gwelliant 85 William Graham.

Turning now to my amendments. On 4 February, we discussed and agreed amendment 8 as part of group 4. Amendment 57 replaces the reference to section 4(7) in section 180 with the new reference inserted through the agreed amendment 8. It ensures that the drafting is consistent and correct. Amendment 272 inserts into section 180 a definition of 'NHS Foundation Trust', which appears in various sections of the Bill.

A throi yn awr at fy ngwelliannau i. Ar 4 Chwefror, trafodwyd a derbyniwyd gwelliant 8 fel rhan o grŵp 4. Mae gwelliant 57 yn disodli'r cyfeiriad at adran 4(7) yn adran 180 â'r cyfeiriad newydd a osodir drwy'r gwelliant 8 a dderbyniwyd. Mae'n sicrhau bod y drafftio'n gyson ac yn gywir. Mae gwelliant 272 yn mewnosod i adran 180 ddiffiniad o 'Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG', sy'n ymddangos mewn gwahanol adrannau o'r Bil.

Finally, my amendment 273 provides an important definition of 'prison' for the purposes of various sections of the Bill. This is necessary to support the new provisions in respect of adults and children in prison, youth detention accommodation or bail accommodation, et cetera, introduced through agreed amendments in groups 3, 38 and 41. For the reasons that I have outlined, I ask that Members support William Graham's amendment 85 and agree my amendments.

Yn olaf, mae fy ngwelliant 273 yn darparu diffiniad pwysig o 'garchar' at ddibenion gwahanol adrannau o'r Bil. Mae hyn yn angenrheidiol er mwyn cefnogi'r darpariaethau newydd mewn perthynas ag oedolion a phlant yn y carchar, llety cadw ieuenctid neu lety mechnïaeth, et cetera, a gyflwynwyd drwy welliannau y cytunwyd arnynt yng ngrwpiau 3, 38 a 41. Am y rhesymau yr wyf wedi'u hamlinellu, gofynnaf i'r Aelodau gefnogi gwelliant 85 William Graham a derbyn fy ngwelliannau innau.

20:27 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

I call on William Graham to reply.

Galwaf ar William Graham i ymateb.

20:27 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Thank you very much, Deputy Presiding Officer. I have indicated to the Deputy Minister that we would support amendments 57, 272 and 273. I am very grateful for the understanding that she has given to the strength of case on this particular amendment and urge Members to vote in accordance.

Diolch yn fawr iawn, Ddirprwy Lywydd. Rwyf wedi dweud wrth y Dirprwy Weinidog y byddwn yn cefnogi gwelliannau 57, 272 a 273. Rwyf yn ddiolchgar iawn am y ddealltwriaeth y mae wedi'i rhoi i gryfder yr achos ar y gwelliant penodol hwn ac yn annog yr Aelodau i bleidleisio'n unol â hynny.

20:28 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

The question is that amendment 85 be agreed to. Does any Member object? There are no objections. Amendment 85 is therefore agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 85 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad. Mae gwelliant 85 felly wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 85 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 85 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

20:28 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

I call on the Deputy Minister to move amendment 55.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 55.

20:28 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

I move amendment 55 in my name.

Cynigiaf welliant 55 yn fy enw i.

20:28 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

The question is that amendment 55 be agreed to. Does any Member object? There are no objections. Amendment 55 is therefore agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 55 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad. Mae gwelliant 55 felly wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 55 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 55 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

20:28 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

I call on the Deputy Minister to move amendment 56.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 56.

20:28 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

I move amendment 56 in my name.

Cynigiaf welliant 56 yn fy enw i.

20:28 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

The question is that amendment 56 be agreed to. Does any Member object? There are no objections. Amendment 56 is therefore agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 56 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad. Mae gwelliant 56 felly wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 56 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 56 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

20:28 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

I call on the Deputy Minister to move amendment 57.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 57.

20:28 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

I move amendment 57 in my name.

Cynigiaf welliant 57 yn fy enw i.

20:28 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

The question is that amendment 57 be agreed to. Does any Member object? There are no objections. Amendment 57 is therefore agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 57 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad. Mae gwelliant 57 felly wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 57 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 57 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

20:28 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

I call on the Deputy Minister to move amendment 272.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 272.

20:28 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

I move amendment 272 in my name.

Cynigiaf welliant 272 yn fy enw i.

20:28 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

The question is that amendment 272 be agreed to. Does any Member object? There are no objections. Amendment 272 is therefore agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 272 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad. Mae gwelliant 272 felly wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 272 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 272 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

## Grŵp 54: Diffiniad o Esgeulustod a Chanllawiau ynghylch Esgeulustod at Ddibenion y Ddeddf (Gwelliannau 94 a 95)

## Group 54: Definition of and Guidance about Neglect for the Purpose of the Act (Amendments 94 and 95)

20:28 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

The lead amendment in the group is amendment 94. I call on William Graham to move amendment 94 and to speak to it and the other amendment in the group.

Y prif welliant yn y grŵp yw gwelliant 94. Galwaf ar William Graham i gynnig gwelliant 94 ac i siarad amdano a'r gwelliant arall yn y grŵp.

20:29 **William Graham** Bywgraffiad Biography

I move amendment 94 in my name.

Cynigiaf welliant 94 yn fy enw i.

This amendment will define the meaning of 'neglect' for the purposes of the Bill. Our definition is based on the meaning of neglect within the United Kingdom Government document 'Working Together to Safeguard Children'. This provides guidance as to how organisations and individuals should work together to safeguard and promote the welfare of children. This definition has been adapted to cover both adults and children. The social services Bill advisory group states that a definition of 'neglect' will provide clarity and accountability and ensure that it receives the same priority as abuse. Age Cymru commented in its consultation response that the definition of 'neglect' would be beneficial, which is a view supported by the WLGA. It states that the definition of 'neglect' should be included for the purposes of clarity.

Bydd y gwelliant hwn yn diffinio ystyr 'esgeulustod' at ddibenion y Bil. Mae ein diffiniad yn seiliedig ar ystyr esgeulustod o fewn dogfen Llywodraeth y Deyrnas Unedig 'Working Together to Safeguard Children '. Mae'r ddogfen hon yn rhoi arweiniad ar sut y dylai sefydliadau ac unigolion gydweithio i ddiogelu a hyrwyddo lles plant. Mae'r diffiniad hwn wedi ei addasu i gynnwys oedolion a phlant. Mae grŵp cynghori'r Bil gwasanaethau cymdeithasol yn nodi y bydd diffiniad o 'esgeulustod' yn darparu eglurder ac atebolrwydd ac yn sicrhau ei fod yn cael yr un flaenoriaeth â cham-drin. Dywedodd Age Cymru yn ei ymateb i'r ymgynghoriad y byddai'r diffiniad o 'esgeulustod' yn fuddiol, sy'n farn a gefnogir gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Mae'n datgan y dylai'r diffiniad o 'esgeulustod' gael ei gynnwys at ddibenion eglurder.

We tabled a definition of 'neglect' at Stage 2. At that time, the Deputy Minister was not supportive and commented that neglect has an ordinary definition that is well understood by safeguarding practitioners. The social services advisory group stated:

Cyflwynasom ddiffiniad o 'esgeulustod' yng Nghyfnod 2. Ar y pryd, nid oedd y Dirprwy Weinidog yn gefnogol a dywedodd fod i esgeulustod ddiffiniad cyffredin sy'n ddealledig gan ymarferwyr diogelu. Dywedodd y grŵp cynghori ar y gwasanaethau cymdeithasol:

'We maintain that providing a definition will help to ensure it receives equal attention and priority as a form of maltreatment.'

Rydym o'r farn y bydd darparu diffiniad yn helpu i sicrhau ei fod yn cael sylw cyfartal a blaenoriaeth fel math o gamdriniaeth.

It further stated:

Dywedodd ymhellach:

'Whilst it may be argued that neglect is well understood, the fact remains that it is not currently being dealt with at an early enough stage. As an act of omission, neglect is not easily identified nor sufficiently addressed by practitioners currently.'

Er y gellid dadlau bod esgeulustod yn ddealledig, erys y ffaith nad yw'n cael ei drin yn ddigon cynnar ar hyn o bryd. Fel gweithred o anwaith, nid yw esgeulustod yn hawdd i'w adnabod ac nid yw'n cael sylw digonol gan ymarferwyr ar hyn o bryd.

A definition on the face of the Bill will help to demonstrate the commitment of the Welsh Government to tackling neglect as well as providing clarity for safeguarding practitioners.

Bydd diffiniad ar wyneb y Bil yn helpu i ddangos ymrwymiad Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael ag esgeulustod ac yn darparu eglurder i ymarferwyr diogelu.

20:30

## Gwenda Thomas Bywgraffiad Biography

I will deal first with amendment 95. Members will be aware that, at Stage 2, Government amendments were agreed to include within the Bill a power in section 121 to enable the Welsh Ministers to issue guidance about adults at risk and children at risk. This also allows for Ministers to make statutory guidance about neglect. Such guidance must be taken into account by local authorities, authorised officers under section 117, or any relevant partner under sections 118 and 120. As a result, I do not feel that amendment 95 is necessary. Turning to amendment 94, this was also a matter that we discussed at some length during Stage 2, as members of the Health and Social Care Committee will recall. At that time, I said that the inclusion of words such as 'significant' and 'persistent' created a very real risk of creating too narrow a definition. This in turn could have resulted in the reduction of the local authority's ability to intervene. As William Graham has set out, these terms have now been removed from the amendment that we have before us today, which is supported by the advisory group to the Health and Social Care Committee. Due to these changes, I am keen to accept amendment 94 and would ask that all Members support it. I would also like to thank William Graham for his perseverance in this matter.

Ymdriniaf yn gyntaf â gwelliant 95. Bydd yr Aelodau'n ymwybodol, yng Nghyfnod 2, y derbyniwyd gwelliannau'r Llywodraeth i gynnwys yn y Bil bŵer yn adran 121 i alluogi Gweinidogion Cymru i roi canllawiau ynghylch oedolion sy'n wynebu risg a phlant sy'n wynebu risg. Mae hyn hefyd yn caniatáu i Weinidogion wneud canllawiau statudol am esgeulustod. Rhaid i awdurdodau lleol, swyddogion a awdurdodir o dan adran 117, neu unrhyw bartner perthnasol o dan adrannau 118 a 120 ystyried canllawiau o'r fath. O ganlyniad, nid wyf o'r farn bod gwelliant 95 yn angenrheidiol. A throi at welliant 94, roedd hwn hefyd yn fater a drafodwyd yn helaeth yn ystod Cyfnod 2, fel y bydd aelodau'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cofio. Ar y pryd, dywedais fod cynnwys geiriau fel 'sylweddol' a 'parhaus' yn creu risg gwirioneddol o greu diffiniad rhy gul. Gallai hyn yn ei dro fod wedi arwain at leihau gallu'r awdurdod lleol i ymyrryd. Fel y mae William Graham wedi nodi, mae'r termau hyn bellach wedi eu tynnu o'r gwelliant sydd gennym ger ein bron heddiw, a gefnogir gan grŵp cynghori'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Oherwydd y newidiadau hyn, rwyf yn awyddus i dderbyn gwelliant 94 a gofynnaf i bob Aelod ei gefnogi. Hoffwn hefyd ddiolch i William Graham am ei ddyfalbarhad yn y mater hwn.

20:32

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

I call on William Graham to reply.

Galwaf ar William Graham i ymateb.

20:32

## William Graham Bywgraffiad Biography

Thank you, Deputy Presiding Officer. I am most grateful to the Deputy Minister for her comments this evening. As a consequence, I would urge all Members to vote for amendment 94 and I will not be moving amendment 95.

Diolch ichi, Ddirprwy Lywydd. Rwyf yn hynod ddiolchgar i'r Dirprwy Weinidog am ei sylwadau heno. O ganlyniad, anogaf yr holl Aelodau i bleidleisio dros welliant 94 ac ni fyddaf yn cynnig gwelliant 95.

20:32

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

The question is that amendment 94 be agreed to. Does any Member object? There are no objections. Amendment 94 is therefore agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 94 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad. Mae gwelliant 94 felly wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 94 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 94 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

20:32

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

I call on the Deputy Minister to move amendment 273.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 273.

20:32

## Gwenda Thomas Bywgraffiad Biography

I move amendment 273 in my name.

Cynigiaf welliant 273 yn fy enw i.

20:32

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

The question is that amendment 273 be agreed to. Does any Member object? There are no objections. Amendment 273 is therefore agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 273 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad. Mae gwelliant 273 felly wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 273 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 273 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

20:32

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad] [Biography]

I call on the Deputy Minister to move amendment 274.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 274.

20:32

## Gwenda Thomas [Bywgraffiad] [Biography]

I move amendment 274 in my name.

Cynigiaf welliant 274 yn fy enw i.

20:32

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad] [Biography]

The question is that amendment 274—I beg your pardon. Sorry.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 274—pardwn. Mae'n ddrwg gennyf.

I call on the Deputy Minister to move amendment 58.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 58.

20:33

## Gwenda Thomas [Bywgraffiad] [Biography]

I move amendment 58 in my name.

Cynigiaf welliant 58 yn fy enw i.

20:33

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad] [Biography]

The question is that amendment 58 be agreed to. Does any Member object? There are no objections. Amendment 58 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 58 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad. Mae gwelliant 58 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 58 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 58 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

20:33

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad] [Biography]

Now, Deputy Minister, I call on you to move amendment 274.

Yn awr, Ddirprwy Weinidog, galwaf arnoch i gynnig gwelliant 274.

20:33

## Gwenda Thomas [Bywgraffiad] [Biography]

I move amendment 274 in my name.

Cynigiaf welliant 274 yn fy enw i.

20:33

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad] [Biography]

The question is that amendment 274 be agreed to. Does any Member object? There are no objections. Amendment 274 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 274 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad. Mae gwelliant 274 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 274 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 274 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

20:33

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad] [Biography]

I call on the Deputy Minister to move amendment 275.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 275.

20:33

## Gwenda Thomas [Bywgraffiad] [Biography]

I move amendment 275 in my name.

Cynigiaf welliant 275 yn fy enw i.

20:33

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad] [Biography]

The question is that amendment 275 be agreed to. Does any Member object? There are no objections. Amendment 275 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 275 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad. Mae gwelliant 275 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 275 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 275 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

20:33

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

I call on the Deputy Minister to move amendment 276.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 276.

20:33

## Gwenda Thomas Bywgraffiad Biography

I move amendment 276 in my name.

Cynigiaf welliant 276 yn fy enw i.

20:33

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

The question is that amendment 276 be agreed to. Does any Member object? There are no objections. Amendment 276 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 276 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad. Mae gwelliant 276 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 276 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 276 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

20:33

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

I call on the Deputy Minister to move amendment 277.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 277.

20:33

## Gwenda Thomas Bywgraffiad Biography

I move amendment 277 in my name.

Cynigiaf welliant 277 yn fy enw i.

20:33

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

The question is that amendment 277 be agreed to. Does any Member object? There are no objections. Amendment 277 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 277 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad. Mae gwelliant 277 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 277 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 277 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

20:34

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

I call on the Deputy Minister to move amendment 278.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 278.

20:34

## Gwenda Thomas Bywgraffiad Biography

I move amendment 278 in my name.

Cynigiaf welliant 278 yn fy enw i.

20:34

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

The question is that amendment 278 be agreed to. Does any Member object? There are no objections. Amendment 278 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 278 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad. Mae gwelliant 278 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 278 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 278 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

20:34

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

I call on William Graham to move amendment 95.

Galwaf ar William Graham i gynnig gwelliant 95.

20:34

## William Graham Bywgraffiad Biography

I do not wish to move amendment 95.

Nid wyf yn dymuno cynnig gwelliant 95.

*Ni chynigiwyd gwelliant 95.*

*Amendment 95 not moved.*

20:34 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

I call on the Deputy Minister to move amendment 279.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 279.

20:34 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

I move amendment 279 in my name.

Cynigiaf welliant 279 yn fy enw i.

20:34 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

The question is that amendment 279 be agreed to. Does any Member object? There are no objections. Amendment 279 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 279 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad. Mae gwelliant 279 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 279 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 279 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

20:34 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

I call on the Deputy Minister to move amendment 280.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 280.

20:34 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

I move amendment 280 in my name.

Cynigiaf welliant 280 yn fy enw i.

20:34 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

The question is that amendment 280 be agreed to. Does any Member object? There are no objections. Amendment 280 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 280 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad. Mae gwelliant 280 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 280 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 280 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

## Grŵp 55: Gofynion Cychwyn (Gwelliannau 86, 93 a 59)

## Group 55: Commencement Requirements (Amendments 86, 93 and 59)

20:34 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

The lead amendment in the group is amendment 86. I call on William Graham to move amendment 86 and to speak to it and the other amendments in the group.

Y prif welliant yn y grŵp yw gwelliant 86. Galwaf ar William Graham i gynnig gwelliant 86 ac i siarad amdano a'r gwelliannau eraill yn y grŵp.

20:34 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Deputy Presiding Officer, I have asked Antoinette Sandbach and Paul Davies to move these amendments on my behalf.

Ddirprwy Lywydd, rwyf wedi gofyn i Antoinette Sandbach a Paul Davies gynnig y gwelliannau hyn ar fy rhan.

20:35 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on Antoinette Sandbach to move and speak to amendment 86, the lead amendment and to speak to the other amendments in the group. I will call Paul Davies also.

Galwaf ar Antoinette Sandbach i gynnig gwelliant 86 ac i siarad amdano, y prif welliant ac i siarad am y gwelliannau eraill yn y grŵp. Galwaf Paul Davies hefyd.

20:35 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 86 in the name of William Graham.

Cynigiaf welliant 86 yn enw William Graham.

This amendment would require Welsh Ministers to

Byddai'r gwelliant hwn yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru

'lay a report before the National Assembly for Wales which contains an assessment of how the needs and considerations of rural communities and areas have been taken into account in the preparation of this Act.'

'osod adroddiad gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n cynnwys asesiad o'r modd y mae anghenion ac ystyriaethau cymunedau ac ardaloedd gwledig wedi cael eu hystyried wrth baratoi'r Ddeddf hon.'

This amendment would mean that the remaining provisions of the Act could not commence until a report on the impact of provisions and regulations on rural communities had been laid before the Assembly. I do appreciate that the amendment was previously tabled at Stage 2 and, at that stage, Deputy Minister, I understand that you said that

Byddai'r gwelliant hwn yn golygu na allai gweddill darpariaethau'r Ddeddf gychwyn hyd nes y byddai adroddiad ar effaith y darpariaethau a'r rheoliadau ar gymunedau gwledig wedi ei osod gerbron y Cynulliad. Sylweddolaf fod y gwelliant eisoes wedi'i gyflwyno yng Nghyfnod 2 ac, ar yr adeg honno, Ddirprwy Weinidog, yr wyf yn deall eich bod wedi dweud bod

'the needs and considerations of rural communities…and how those needs are to be met…is primarily a matter for the local authorities and other partners in the delivery of services under this legislation.'

anghenion ac ystyriaethau cymunedau gwledig ... a sut mae'r anghenion hynny i'w diwallu ... yn fater yn anad dim i'r awdurdodau lleol a phartneriaid eraill wrth gyflwyno gwasanaethau o dan y ddeddfwriaeth hon.

Deputy Minister, the amendment has been re-tabled. We had a debate only last week in the Assembly about the importance of the equality of access to services in rural communities, which was universally supported in this Chamber. It is quite clear that local authorities are failing to meet those needs, and that can be seen through independent European measures that indicate that communities in rural areas are deprived under the Welsh index of multiple deprivation in relation to access to services. Deputy Minister, I do know that you are anxious to ensure evidence-based policy making, and this assessment would permit you to undertake that evidence-based policy making, allow you to see whether there are potential gaps in service provision and look at how they could be rectified. It is for that reason that this amendment has been put forward, because there clearly are issues. We also know that there are a number of reports from the Wales Rural Observatory that have not yet found their way to the public domain, which may contain very important evidence in relation to the needs of rural communities. I would invite you, therefore, to accept this amendment so that any potential issues relating to rural communities can be addressed and dealt with before the legislation comes into force.

Ddirprwy Weinidog, mae'r gwelliant wedi ei ailgyflwyno. Cawsom ddadl yr wythnos diwethaf yn y Cynulliad am bwysigrwydd cydraddoldeb o ran mynediad at wasanaethau mewn cymunedau gwledig, ac fe'i cefnogwyd gan bawb yn y Siambr hon. Mae'n gwbl glir bod awdurdodau lleol yn methu â diwallu'r anghenion hynny, a gellir gweld hynny drwy fesurau Ewropeaidd annibynnol sy'n dangos bod cymunedau mewn ardaloedd gwledig yn cael eu hamddifadu o dan fynegai amddifadedd lluosog Cymru mewn perthynas â mynediad at wasanaethau. Ddirprwy Weinidog, gwn eich bod yn awyddus i sicrhau bod polisïau'n cael eu llunio'n seiliedig ar dystiolaeth, a byddai'r asesiad hwn yn caniatáu i chi lunio'r polisïau hynny ar sail tystiolaeth, yn caniatáu i chi weld a oes bylchau posibl yn narpariaeth y gwasanaethau ac ystyried sut y gellid eu hunioni. Am y rheswm hwnnw y mae'r gwelliant hwn wedi'i gyflwyno, oherwydd mae'n amlwg fod materion i'w hystyried. Gwyddom hefyd fod nifer o adroddiadau gan Arsyllfa Wledig Cymru nad ydynt eto wedi dod i lygad y cyhoedd, a allai gynnwys tystiolaeth bwysig iawn mewn perthynas ag anghenion cymunedau gwledig. Byddwn yn eich gwahodd chi, felly, i dderbyn y gwelliant hwn er mwyn gallu ymdrin ag unrhyw faterion a allai godi mewn perthynas â chymunedau gwledig a rhoi sylw iddynt cyn i'r ddeddfwriaeth ddod i rym.

20:38

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on Elin Jones. I see that you do not wish to speak. I call on Kirsty Williams. I see that you do not wish to speak either. I call on Paul Davies to speak.

Galwaf ar Elin Jones. Gwelaf nad ydych yn dymuno siarad. Galwaf ar Kirsty Williams. Gwelaf nad ydych yn dymuno siarad ychwaith. Galwaf ar Paul Davies i siarad.

20:38

## Paul Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. I rise to speak to and support amendment 93, tabled in the name of my colleague William Graham. This particular amendment seeks to put on hold the full implementation of the Bill until Welsh Ministers have laid a report before the Assembly outlining the costs involved in the implementation of the Bill. I think that it is essential that any legislation passed through this Assembly has been fully scrutinised and that a serious cost analysis has, in fact, taken place. The Health and Social Care Committee Stage 1 report states:

Diolch ichi, Ddirprwy Lywydd. Codaf i siarad am welliant 93, a gyflwynwyd yn enw fy nghyd-Aelod William Graham, ac i'w gefnogi. Mae'r gwelliant penodol hwn yn ceisio gohirio gweithrediad llawn y Bil hyd nes y bydd Gweinidogion Cymru wedi gosod adroddiad gerbron y Cynulliad yn amlinellu'r costau sy'n gysylltiedig â rhoi'r Bil ar waith. Credaf ei bod yn hanfodol bod unrhyw ddeddfwriaeth a basiwyd drwy'r Cynulliad hwn wedi cael ei harchwilio'n llawn a bod dadansoddiad cost difrifol wedi digwydd. Mae adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn datgan:

'We are not satisfied with the information that has been made available on the total cost of the Bill and have not received any evidence to convince us that the Bill will be 'cost neutral' in the long term.'

'Nid ydym yn fodlon â'r wybodaeth sydd wedi cael ei darparu ynglŷn â chost lawn y Bil ac nid ydym wedi cael unrhyw dystiolaeth i'n hargyhoeddi y bydd y Bil yn niwtral o ran cost yn y tymor hir.'

Evidence provided to the Health and Social Care Committee last year from the Welsh Local Government Association said:

Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru mewn tystiolaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y llynedd:

'We have stated consistently that the Bill, by the nature of its scope, and the extent of new duties…which will be conferred on Local Government will involve new burdens and will not be cost neutral.'

Rydym wedi datgan yn gyson y bydd y Bil, oherwydd natur ei gwmpas, a graddfa'r dyletswyddau newydd ... a fydd yn cael eu gosod ar Lywodraeth Leol yn cynnwys beichiau newydd ac na fydd yn niwtral o ran cost.

In addition, the Welsh NHS Confederation raised concerns regarding the lack of consideration given to the resource and cost needs of the health service to implement the Bill, especially given the current economic climate. The explanatory memorandum for the Bill states that

Yn ogystal, cododd Cydffederasiwn GIG Cymru bryderon ynghylch y diffyg ystyriaeth a roddir i anghenion adnoddau a chost y gwasanaeth iechyd i weithredu'r Bil, yn enwedig o ystyried yr hinsawdd economaidd bresennol. Mae memorandwm esboniadol y Bil yn datgan

'the implementation of the Bill is estimated to impose a transitional training cost of between £1.2 to £2.4 million upon local authorities.'

'amcangyfrifir y bydd gweithredu'r Bil yn golygu cost hyfforddiant trosiannol rhwng £1.2 a £2.4 miliwn i awdurdodau lleol.'

However, this is only a vague estimate. Quite clearly, local authorities need to be reassured of the costs of implementation, and need to be provided with an accurate estimate of the cost of training social services staff. It is vital that a full assessment of the costs associated with the implementation of this Bill is brought before the Assembly before the remaining provisions of the Act actually come into force.

Fodd bynnag, amcangyfrif bras yn unig yw hwn. Wrth gwrs, mae angen i awdurdodau lleol gael sicrwydd ynghylch costau gweithredu, ac mae angen iddynt gael amcangyfrif cywir o gost hyfforddi staff y gwasanaethau cymdeithasol. Mae'n hollbwysig bod asesiad llawn o'r costau sy'n gysylltiedig â gweithredu'r Bil hwn yn cael ei ddwyn gerbron y Cynulliad cyn i weddill darpariaethau'r Ddeddf ddod i rym.

Therefore, in light of this, we on this side of the Chamber believe that it would be inappropriate to bring the Bill into force until the financial implications of the Bill have been fully established, and that is why we have tabled amendment 93. I therefore urge Members to support this particular amendment.

Felly, yng ngoleuni hyn, rydym ni ar yr ochr hon i'r Siambr yn credu y byddai'n amhriodol dod â'r Bil i rym hyd nes y bydd goblygiadau ariannol y Bil wedi eu pennu'n llawn, a dyna pam yr ydym wedi cyflwyno gwelliant 93. Felly, rwyf yn annog yr Aelodau i gefnogi'r gwelliant penodol hwn.

20:40

## Gwenda Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I listened very openly to the concerns raised by members of the Health and Social Care Committee around eligibility at Stage 2. It was in listening to Kristy Williams, in particular, who gave a very passionate argument, that I agreed to bring forward an amendment at Stage 3 to apply a superaffirmative procedure for the regulations that relate to eligibility under section 26. Members agreed that amendment following the debate on groups 13 and 14 last week.

Gwrandewais yn agored iawn ar y pryderon a godwyd gan aelodau'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ynghylch cymhwystra yng Nghyfnod 2. Wrth wrando ar Kirsty Williams, yn arbennig, a gyflwynodd ddadl angerddol iawn, y cytunais i gyflwyno gwelliant yng Nghyfnod 3 i roi gweithdrefn uwchgadarnhaol ar waith ar gyfer y rheoliadau sy'n ymwneud â chymhwystra o dan adran 26. Derbyniodd yr Aelodau y gwelliant hwnnw ar ôl y ddadl ar grwpiau 13 a 14 yr wythnos diwethaf.

Government amendment 59 ensures that the regulations to be made using the powers in section 26 must have come into force before the duties in section 26(1) and section 26(2) can be commenced. This means that the detail of which needs meet the eligibility criteria must be agreed by this Assembly before the related duties can come into effect. This was the intended effect of Kirsty Williams's amendment 59 tabled at Stage 2, and I am happy to be able to put this before Assembly Members today.

Mae gwelliant 59 y Llywodraeth yn sicrhau bod yn rhaid i'r rheoliadau sydd i'w gwneud gan ddefnyddio'r pwerau yn adran 26 fod wedi dod i rym cyn y gall y dyletswyddau yn adran 26(1) ac adran 26(2) gychwyn. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i fanylion pa anghenion sy'n bodloni'r meini prawf cymhwystra gael eu derbyn gan y Cynulliad hwn cyn y gall y dyletswyddau cysylltiedig ddod i rym. Dyna oedd effaith arfaethedig gwelliant 59 Kirsty Williams a gyflwynwyd yng Nghyfnod 2, ac rwyf yn falch o allu rhoi hyn gerbron Aelodau'r Cynulliad heddiw.

This amendment, coupled with the superaffirmative procedure, strengthens my commitment that the status quo for eligibility will be maintained until such time that a full consultation has taken place and the agreement of this Assembly has been given for any new criteria. I would also hope that it will go some way to allaying concerns outlined last week regarding the powers of any Ministers who follow me or this Government. These procedural changes, when taken together, are critical to ensuring the future security of the eligibility criteria.

Mae'r gwelliant hwn, ynghyd â'r weithdrefn uwchgadarnhaol, yn cryfhau fy ymrwymiad y bydd y status quo ar gyfer cymhwystra'n cael ei gynnal hyd nes bod ymgynghoriad llawn wedi digwydd a chytundeb y Cynulliad hwn wedi ei roi i unrhyw feini prawf newydd. Byddwn hefyd yn gobeithio y bydd yn mynd rhywfaint o'r ffordd tuag at leddfu pryderon a amlinellwyd yr wythnos diwethaf ynghylch pwerau unrhyw Weinidog sy'n fy nilyn i neu'r Llywodraeth hon. Mae'r newidiadau gweithdrefnol hyn, o'u cymryd gyda'i gilydd, yn hollbwysig er mwyn sicrhau diogelwch y meini prawf cymhwystra at y dyfodol.

As regards amendments 86 and 93, however, I feel that I have made my views known on these amendments very clear at Stage 2. Amendment 86 seeks to require a report on the impact of the Bill on rural communities to be laid before the Act can be commenced. This is unnecessary. The development of regulations will be subject to full public consultation, during which there will be ample opportunity to consider the impact on rural communities, and that impact will be one of these considerations. I will also remind Members that the needs and the considerations of rural communities are primarily a matter for local authorities and other partners.

O ran gwelliannau 86 a 93, fodd bynnag, credaf fy mod wedi gwneud fy marn ar y gwelliannau hyn yn glir iawn yng Nghyfnod 2. Mae gwelliant 86 yn ceisio'i gwneud yn ofynnol gosod adroddiad ar effaith y Bil ar gymunedau gwledig cyn y gellir cychwyn y Ddeddf. Mae hyn yn ddiangen. Bydd datblygu rheoliadau'n destun ymgynghoriad cyhoeddus llawn, pan fydd digon o gyfle i ystyried yr effaith ar gymunedau gwledig, a bydd yr effaith honno'n un o'r ystyriaethau hynny. Atgoffaf yr Aelodau hefyd fod anghenion ac ystyriaethau cymunedau gwledig yn fater yn anad dim i awdurdodau lleol a phartneriaid eraill.

I communicated my uncertainty at the intention of amendment 93 during Stage 3 proceedings. I am still unclear as to whether this amendment is about the costs of implementing this legislation or the costs of delivering social services in line with the three elements of the legislative framework that the Act will establish. Since consideration at Stage 2, I have published a statement on implementation. This statement outlines my programme for implementation, which will work with relevant partners to deliver this legislation. I welcome the Assembly's agreement of the financial resolution of the Bill on 8 October last year.

Mynegais fy ansicrwydd o ran bwriad gwelliant 93 yn ystod trafodion Cyfnod 3. Nid wyf yn glir o hyd a yw'r gwelliant hwn yn ymwneud â chostau gweithredu'r ddeddfwriaeth hon neu gost darparu gwasanaethau cymdeithasol yn unol â thair elfen y fframwaith deddfwriaethol y bydd y Ddeddf yn ei sefydlu. Ers ystyriaethau Cyfnod 2, rwyf wedi cyhoeddi datganiad ar weithredu. Mae'r datganiad hwn yn amlinellu fy rhaglen ar gyfer gweithredu, a fydd yn gweithio gyda phartneriaid perthnasol i gyflwyno'r ddeddfwriaeth hon. Rwyf yn croesawu cytundeb y Cynulliad ar benderfyniad ariannol y Bil ar 8 Hydref y llynedd.

Members will be aware that I published a revised explanatory memorandum for the Bill on 28 January. Within this, further consideration has been given to the regulatory impact assessment. The previous information has been supplemented to take account of information that has been made available since the Bill was introduced. This includes making reference to the Institute of Public Care's research and other evidence in respect of the cost and benefits of the Bill.

Bydd yr Aelodau'n gwybod imi gyhoeddi memorandwm esboniadol diwygiedig ar gyfer y Bil ar 28 Ionawr. O fewn hyn, mae ystyriaeth bellach wedi ei rhoi i'r asesiad effaith rheoleiddiol. Mae'r wybodaeth flaenorol wedi'i hategu i ystyried y wybodaeth a ddaeth i law ers i'r Bil gael ei gyflwyno. Mae hyn yn cynnwys cyfeirio at ymchwil y Sefydliad Gofal Cyhoeddus a thystiolaeth arall o ran cost a manteision y Bil.

Members will also have seen my written statement setting out the approach that we are taking to the implementation of the Bill. This describes not only the £1.5 million that I have distributed this year and the further £1.5 million that I will be making available next year to local authorities to build capacity locally and begin to prepare for implementation, but also the significant existing investment made in social care both by local government and the Welsh Government. Members will know that I have already invested heavily in the areas of safeguarding and adoption. There is also new investment in the form of the intermediate care fund, which will have a substantial impact in relation to the implementation of the Bill.

Bydd yr Aelodau hefyd wedi gweld fy natganiad ysgrifenedig yn nodi ein hymagwedd tuag at roi'r Bil ar waith. Mae'n disgrifio nid yn unig yr £1.5 miliwn yr wyf wedi'i ddosbarthu eleni a'r £1.5 miliwn arall y byddaf yn trefnu iddo fod ar gael y flwyddyn nesaf i awdurdodau lleol i feithrin gallu yn lleol a dechrau paratoi ar gyfer gweithredu, ond hefyd y buddsoddiad sylweddol sydd eisoes yn cael ei wneud mewn gofal cymdeithasol gan lywodraeth leol a Llywodraeth Cymru. Bydd yr Aelodau'n gwybod fy mod eisoes wedi buddsoddi'n drwm ym meysydd diogelu a mabwysiadu. Mae buddsoddiad newydd hefyd ar ffurf y gronfa gofal canolraddol, a fydd yn cael effaith sylweddol o ran gweithredu'r Bil.

As we develop the detailed secondary legislation that will underpin the Bill, we will look at costs in specific areas and we will assess the costs and benefits in each area. We will do so openly, with our partners, as I have already committed to do. It will take us time to get from the current state to the future state, and it will also take effort, commitment and resources. Those resources will be needed to bridge the gap between the old and the new to enable proper planning and capacity building to take place.

Wrth inni ddatblygu'r is-ddeddfwriaeth fanwl a fydd yn ategu'r Bil, byddwn yn edrych ar gostau mewn meysydd penodol a byddwn yn asesu costau a buddion ym mhob maes. Byddwn yn gwneud hynny'n agored, gyda'n partneriaid, fel yr wyf eisoes wedi ymrwymo i'w wneud. Bydd yn cymryd amser inni i fynd o'r sefyllfa bresennol i'r sefyllfa yn y dyfodol, a bydd yn rhaid hefyd wrth ymdrech, ymrwymiad ac adnoddau. Bydd angen yr adnoddau hynny i bontio'r bwlch rhwng yr hen a'r newydd fel bod modd cynllunio'n briodol a meithrin gallu.

My position on amendments 86 and 93 has not changed since Stage 2. I would ask Assembly Members not to support these amendments but to support Government amendment 59.

Nid yw fy safbwynt ar welliannau 86 a 93 wedi newid ers Cyfnod 2. Gofynnaf i Aelodau'r Cynulliad beidio â chefnogi'r gwelliannau hyn, ond i gefnogi gwelliant 59 y Llywodraeth.

20:46

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on Antoinette Sandbach to reply.

Galwaf ar Antoinette Sandbach i ymateb.

20:46

## Antoinette Sandbach Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Deputy Minister, I am grateful for your recognition that proper planning and capacity building will be required, and it is for those reasons that we have asked, in effect, for those two impact assessments to take place. That proper planning and capacity building can happen only if you can identify where the shortcomings may be in delivery. For clarification, you said that you were not sure whether it was the cost of implementation or delivery: it is the cost of delivery that we are seeking. In your response, you have recognised that there is a long way to go to bridge the gap between where we are at the moment and where we would like to be. Really, only by undertaking these two assessments can local councils, which are expected to deliver, in the main, these services on the ground, do that planning and preparation in order to do that capacity building. Therefore, these two amendments are designed to assist you in that process so that gaps in potential delivery can be identified. So, I would urge the other Assembly Members to vote for these two amendments.

Ddirprwy Weinidog, rwyf yn ddiolchgar am eich cydnabyddiaeth y bydd angen cynllunio priodol a meithrin gallu, ac am y rhesymau hynny yr ydym wedi gofyn, mewn gwirionedd, i'r ddau asesiad effaith ddigwydd. Ni all y cynllunio priodol a'r meithrin gallu hwnnw ond digwydd os gallwch nodi ymhle y gallai'r diffygion fod o bosibl o ran cyflwyno. Er mwyn eglurder, dywedasoch nad ydych yn siŵr a oeddem yn sôn am gost gweithredu ynteu gyflwyno: cost y cyflwyno yr ydym yn ei cheisio. Yn eich ymateb, rydych wedi cydnabod bod ffordd bell i fynd i bontio'r bwlch rhwng lle'r ydym ar hyn o bryd a lle yr hoffem fod. Mewn gwirionedd, dim ond trwy gynnal y ddau asesiad hyn y gall cynghorau lleol, y disgwylir iddynt gyflwyno'r y gwasanaethau hyn, yn bennaf, ar lawr gwlad, wneud y gwaith cynllunio a pharatoi er mwyn meithrin y gallu hwnnw. Felly, mae'r ddau welliant wedi'u cynllunio i'ch cynorthwyo â'r broses honno er mwyn gallu nodi bylchau mewn darpariaeth bosibl. Felly, anogaf Aelodau eraill y Cynulliad i bleidleisio o blaid y ddau welliant.

20:48

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 86 be agreed to. Does any Member object? There is objection. We will have an electronic vote.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 86 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwrthwynebiad. Fe gawn bleidlais electronig.

Canlyniad y bleidlais ar welliant 86.

Result of the vote on amendment 86.

*Gwrthodwyd gwelliant 86: O blaid 27, Yn erbyn 27, Ymatal 0.*

*Amendment 86 not agreed: For 27, Against 27, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.*

20:48

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on William Graham to move amendment 93.

Galwaf ar William Graham i gynnig gwelliant 93.

20:48

## William Graham Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 93 in my name.

Cynigiaf welliant 93 yn fy enw i.

20:48 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 93 be agreed to. Does any Member object? There is objection. We will have an electronic vote.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 93 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwrthwynebiad. Fe gawn bleidlais electronig.

Canlyniad y bleidlais ar welliant 93.

Result of the vote on amendment 93.

*Gwrthodwyd gwelliant 93: O blaid 27, Yn erbyn 27, Ymatal 0.*

*Amendment 93 not agreed: For 27, Against 27, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.*

20:49 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I call on the Deputy Minister to move amendment 59.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 59.

20:49 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 59 in my name.

Cynigiaf welliant 59 yn fy enw i.

20:49 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 59 be agreed to. Does any Member object? There are no objections. Amendment 59 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 59 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad. Mae gwelliant 59 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 59 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 59 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

*Methodd gwelliant 96.*

*Amendment 96 fell.*

**Grŵp 56: Trosolwg ar y Ddeddf (Gwelliannau 96, 99, 100, 317, 97, 324, 73, 74, 6 and 107)**

**Group 56: Overview of the Act (Amendments 96, 99, 100, 317, 97, 324, 73, 74, 6 and 107)**

20:49 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The lead amendment in the group is amendment 99. I call on the Deputy Minister to move amendment 99 and to speak to it and the other amendments in the group.

Y prif welliant yn y grŵp yw gwelliant 99. Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 99 ac i siarad amdano a'r gwelliannau eraill yn y grŵp.

20:49 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 99 in my name.

Cynigiaf welliant 99 yn fy enw i.

I will start my last contribution to these Stage 3 proceedings by taking Members back to the opening group of this stage, because amendment 99 is consequential to amendment 9, which was considered and agreed as part of group 1.

Dechreuaf fy nghyfraniad olaf i drafodion Cyfnod 3 trwy dywys yr Aelodau yn ôl i grŵp agoriadol y cyfnod hwn, gan fod gwelliant 99 yn ganlyniadol i welliant 9, a ystyriwyd ac a dderbyniwyd fel rhan o grŵp 1.

The purpose of amendment 100 is to add individuals, in respect of whom functions are exercisable under Part 6, to the list of persons upon whom duties are imposed in Part 2. This updates the overview section of the Bill in line with amendments that have been made to section 4. This amendment is, therefore, consequential to amendment 109, which was considered as part of group 1.

Pwrpas gwelliant 100 yw ychwanegu unigolion, y mae swyddogaethau yn arferadwy mewn cysylltiad â hwy o dan Ran 6, at y rhestr o bersonau y gosodir dyletswyddau arnynt yn Rhan 2. Mae hyn yn diweddaru adran drosolwg y Bil yn unol â gwelliannau a wnaed i adran 4. Mae'r gwelliant hwn, felly, yn ganlyniadol i welliant 109, a ystyriwyd fel rhan o grŵp 1.

My amendments 73 and 74 are consequential to amendments 78, 79 and 80, which were considered and agreed as part of group 46—the group on advocacy. Amendment 6 is consequential to amendments 50 and 53, which were considered and agreed as part of group 3 on the application of the Bill to business.

Mae fy ngwelliannau 73 a 74 yn ganlyniadol i welliannau 78, 79 a 80, a ystyriwyd ac a dderbyniwyd fel rhan o grŵp 46—y grŵp ar eiriolaeth. Mae gwelliant 6 yn ganlyniadol i welliannau 50 a 53, a ystyriwyd ac a dderbyniwyd fel rhan o grŵp 3 ar gymhwyso'r Bil i fusnes.

The purpose of Government amendment 107 is to change the description of the index of defined expressions in Part 2 of the Act. It makes clear that expressions listed in the index of defined expressions can apply to the whole of the Act.

Diben gwelliant 107 y Llywodraeth yw newid y disgrifiad o'r mynegai o ymadroddion sydd wedi'u diffinio yn Rhan 2 o'r Ddeddf. Mae'n ei gwneud yn glir y gall ymadroddion a restrir yn y mynegai o ymadroddion sydd wedi'u diffinio fod yn berthnasol i'r holl Ddeddf.

I ask Members to support these Government amendments. With your forbearance, Dirprwy Lywydd, as this is the last group of amendments at this stage, I would just like to place on record my sincere thanks to you, the Presiding Officer, Members and support staff for the constructive and engaging way in which these proceedings have been conducted. I will shortly be seeking the Assembly's agreement to undertake a Report Stage on this Bill. However, for now, I wish to thank you for your continued efforts in this Bill's journey. Diolch yn fawr.

Gofynnaf i'r Aelodau gefnogi'r gwelliannau hyn gan y Llywodraeth. Gyda'ch caniatâd, Ddirprwy Lywydd, gan mai dyma'r grŵp olaf o welliannau yn y cyfnod hwn, carwn gofnodi fy niolch diffuant i chi, y Llywydd, yr Aelodau a'r staff cymorth am y modd adeiladol ac ymgysylltiol y mae'r trafodion hyn wedi cael eu cynnal. Byddaf yn ceisio cytundeb y Cynulliad i gynnal Cyfnod Adroddiad ar y Bil hwn cyn bo hir. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, hoffwn ddiolch ichi am eich ymdrechion parhaus yn ystod taith y Bil hwn. Diolch yn fawr.

20:51

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I call on Angela Burns. No. I have no other speakers, then.

Galwaf ar Angela Burns. Nac oes. Nid oes gennyf ddim siaradwyr eraill, felly.

The question is that amendment 99 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, therefore amendment 99 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 99 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiadau, felly mae gwelliant 99 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 99 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 99 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

20:52

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I call on the Deputy Minister to move amendment 100.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 100.

20:52

## Gwenda Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I move amendment 100 in my name.

Cynigiaf welliant 100 yn fy enw i.

20:52

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

The question is that amendment 100 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, therefore amendment 100 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 100 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiadau, felly mae gwelliant 100 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 100 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 100 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

20:52

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I call on the Deputy Minister to move amendment 101.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 101.

20:52

## Gwenda Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I move amendment 101 in my name.

Cynigiaf welliant 101 yn fy enw i.

20:52 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 101 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, therefore amendment 101 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 101 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiadau, felly mae gwelliant 101 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 101 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 101 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

20:52 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Deputy Minister to move amendment 102.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 102.

20:52 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 102 in my name.

Cynigiaf welliant 102 yn fy enw i.

20:52 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 102 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, therefore amendment 102 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 102 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiadau, felly mae gwelliant 102 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 102 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 102 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

*Methodd gwelliant 317.*

*Amendment 317 fell.*

20:52 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Deputy Minister to move amendment 103.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 103.

20:52 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 103 in my name.

Cynigiaf welliant 103 yn fy enw i.

20:52 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 103 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, therefore amendment 103 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 103 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiadau, felly mae gwelliant 103 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 103 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 103 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

20:52 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Deputy Minister to move amendment 104.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 104.

20:52 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 104 in my name.

Cynigiaf welliant 104 yn fy enw i.

20:52 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 104 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, therefore amendment 104 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 104 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiadau, felly mae gwelliant 104 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 104 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 104 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

20:52 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I call on the Deputy Minister to move amendment 105.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 105.

20:52 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 105 in my name.

Cynigiaf welliant 105 yn fy enw i.

20:52 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 105 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, therefore amendment 105 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 105 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiadau, felly mae gwelliant 105 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 105 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 105 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

*Methodd gwelliant 97.*

*Amendment 97 fell.*

20:53 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I call on the Deputy Minister to move amendment 106.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 106.

20:53 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 106 in my name.

Cynigiaf welliant 106 yn fy enw i.

20:53 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 106 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, therefore amendment 106 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 106 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiadau, felly mae gwelliant 106 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 106 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 106 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

*Methodd gwelliant 324.*

*Amendment 324 fell.*

20:53 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I call on the Deputy Minister to move amendment 73.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 73.

20:53 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 73 in my name.

Cynigiaf welliant 73 yn fy enw i.

20:53 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 73 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, therefore amendment 73 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 73 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiadau, felly mae gwelliant 73 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 73 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 73 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

20:53 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I call on the Deputy Minister to move amendment 74.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 74.

20:53 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 74 in my name.

Cynigiaf welliant 74 yn fy enw i.

20:53 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 74 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, therefore amendment 74 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 74 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiadau, felly mae gwelliant 74 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 74 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 74 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

20:53 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I call on the Deputy Minister to move amendment 6.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 6.

20:53 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 6 in my name.

Cynigiaf welliant 6 yn fy enw i.

20:53 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 6 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, therefore amendment 6 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 6 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiadau, felly mae gwelliant 6 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 6 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 6 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

20:53 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I call on the Deputy Minister to move amendment 107.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 107.

20:53 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 107 in my name.

Cynigiaf welliant 107 yn fy enw i.

20:53 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 107 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, therefore amendment 107 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 107 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiadau, felly mae gwelliant 107 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 107 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 107 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

20:53 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

We have reached the end of our Stage 3 consideration of the Social Services and Well-being (Wales) Bill. I declare that all sections of and Schedules to the Bill are deemed to be agreed.

Yr ydym wedi dod i ddiwedd ein hystyriaethau Cyfnod 3 o Fil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Rwyf yn datgan y bernir bod pob adran ac Atodlen i'r Bil wedi eu derbyn.

I would like to point out at this stage, and note for the record, that the result for amendment 237 was inadvertently called as that of amendment 238. The result for amendment 237 stands. However, amendment 238 was not moved, therefore no decision on amendment 238 has been made at Stage 3.

Hoffwn ddweud yn awr, a nodi ar gyfer y cofnod, fod y canlyniad gwelliant 237 wedi ei alw'n anfwriadol fel canlyniad gwelliant 238. Mae'r canlyniad ar gyfer gwelliant 237 yn sefyll. Fodd bynnag, ni chafodd gwelliant 238 ei gynnig, felly nid oes unrhyw benderfyniad ar welliant 238 wedi ei wneud yng Nghyfnod 3.

That concludes Stage 3 proceedings.

Dyna ddiwedd trafodion Cyfnod 3.

Cynnig

Motion

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.45, yn ystyried gwelliannau i'r Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) mewn Cyfnod Adrodd.

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 26.45, considers amendments to the Social Services and Well-being (Wales) Bill at Report Stage.

20:54

## Gwenda Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*Y Diprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol / The Deputy Minister for Social Services*

I move the motion.

Cynigiaf y cynnig.

20:55

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

The proposal is to agree the motion. Does any Member object? There are no objections. The motion is therefore agreed according to Standing Order 12.36.

Y cynnig yw y dylid cytuno ar y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad. Felly, mae'r cynnig wedi ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

20:55

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

That concludes today's proceedings.

Dyna ddiwedd trafodion heddiw.

*Daeth y cyfarfod i ben am 20:55.*

*The meeting ended at 20:55.*